GISDA CYFYNGEDIG / ARFON YOUNG SINGLE HOMELESS GROUP

England & Wales · Charity number 1068325

Details

Other names	G.I.S.D.A., GISDA
Status	Registered
Legal form	Charitable company
Company number	02484575
Registered	1998-02-27
Register	View on the Charity Commission register

Contact

Address	21-23 Y Maes Y Maes Caernarfon Gwynedd LL55 2NA
Phone	01286671153
Email	gisda@gisda.co.uk
Website	www.gisda.co.uk

Activities

Objects: RELIEF OF PERSONS IN WALES WHO ARE IN NEED DUE TO DISABILITY, AGE, INFIRMITY, POVERTY OR SOCIAL AND ECONOMIC CIRCUMSTANCES AND IN PARTICULAR, BUT NOT ONLY, TO SUPPORT YOUNG PEOPLE AND HOMELESS PEOPLE

Activities: Helping homeless and vulnerable young people in Gwynedd to develop independent living skills through the provision of accommodation and support services; creative, therapeutic, leisure and educational activities; advice and information; training, volunteering and employment opportunities

Downloaded from opencharities.uk/ew/1068325

Classification

- **How:** Provides Services, Provides Advocacy/advice/information, Other Charitable Activities
- **What:** General Charitable Purposes, Education/training, The Prevention Or Relief Of Poverty, Accommodation/housing
- **Who:** Children/young People

Geography

- **Area of benefit:** WALES
- Conwy
- Denbighshire
- Gwynedd
- Isle Of Anglesey

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-03-31	£3,043,176	£2,149,280	£3,043,575	46
2024-03-31	£1,898,148	£1,764,414	£2,149,679	42
2023-03-31	£1,978,287	£1,687,078	£2,015,945	45
2022-03-31	£1,647,337	£1,440,077	£1,724,736	48
2021-03-31	£1,589,286	£1,309,862	£1,517,476	46

Trustees

Name	Role	Appointed
Dr CATRIN JONES		2023-07-12
Elen Foulkes		2022-03-28
Gwenllian Glyn Parry		2021-05-24
Hywel Williams		2024-09-13
Llinos Angharad Owen		2021-03-22
Mici Plwm		2023-07-12
Olwen Williams		2024-07-24
Sioned Young		2024-07-11

Downloaded from opencharities.uk/ew/1068325

GISDA CYFYNGEDIG / ARFON YOUNG SINGLE HOMELESS GROUP

England & Wales - Charity number 1068325

Accounts

GISDA
CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

GISDA CYFYNGEDIG

(CWMNI WEDI EI GYFYNGU DRWY WARANT)

DATGANIAD ARIANNOL AC ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

BLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

RHIF ELUSEN: 1068325

RHIF CWMNI: 2484575

CYFEIRIADAU

Rhif Elusen: 1068325

Rhif Cwmni: 2484575

Swyddfa Gofrestredig: 21-23 Y Maes, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2NA

Archwilwyr: W J Matthews A'i Fab, 11-15 Bont Bridd, Caernarfon

Bancwyr: Lloyds Bank PLC, 268 Stryd Fawr, Bangor

Cyfreithwyr: Richard Hall, Bryn Gwynhoedl, Llangwnadl, Pwllheli

Ysgrifennydd Cwmni: Elizabeth George

Prif Weithredwr: Siân Elen Tomos

Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr
Cyfarwyddwyr y cwmni elusennol yw ei ymddiriedolwyr at ddibenion y gyfraith elusennau a thrwy gydol yr adroddiad hwn cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel yr ymddiriedolwyr.

Mae'r ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ac ers diwedd y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

Cadeirydd: Mrs Llinos Angharad Owen

Is-gadeirydd: Dr Peter Harlech Jones

Trysorydd: Mr Dewi Jones

Ymddiriedolwyr :

- Dr Gwenllian Parry
- Ms Elen Foulkes
- Ms Gilly Harradence
- Cyng Elwyn Jones
- Dr Catrin Jones
- Mici Plwm
- Sioned Young (apwyntiwyd 11.07.2024)
- Olwen Williams (apwyntiwyd 24.07.2024)
- Hywel Williams (apwyntiwyd 13.09.2024)

GAIR GAN Y CADEIRYDD

Ar ran Bwrdd Rheoli GISDA mae'n bleser gennym gyflwyno'r adroddiad blynyddol sydd yn amlinellu gwybodaeth am yr elusen yn ystod y flwyddyn. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn brysur a llwyddiannus iawn i'r elusen. Yn wir, mae pedwar deg o flynyddoedd wedi gwibio heibio a sawl person ifanc wedi derbyn cefnogaeth GISDA. Mae'n wir iawn i ddweud bod y ddarpariaeth a'r gefnogaeth a oedd yn cael ei chynnig pedwar deg mlynedd yn ôl wedi bod yn sylfaen gadarn i'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth sy'n parhau i ffynnu heddiw. Dros y pedwar deg mlynedd diwethaf mae cannoedd o bobl ifanc Gwynedd wedi elwa yn syfrdanol o waith yr elusen. Braf iawn yw gweld pobl ifanc yn symud ymlaen i fywydau llwyddiannus.

Mae holl staff GISDA'n gweithio'n galed a di-flino i sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn cefnogaeth, cynhaliaeth a'r cyfle gorau ar eu taith mewn bywyd. Rhoddwyd cyfle amhrisiadwy i'r bobl ifanc drwy waith yr holl brosiectau a'r teithiau tramor.

Mae gwrando ar brofiadau'r bobl ifanc yn ein cyfarfodydd wedi bod yn agoriad llygaid i ni gyd fel aelodau bwrdd. Rhoddodd hyn gyfle i'r bobl ifanc rannu eu profiadau gyda sawl cyfarfod emosiynol iawn. Tydi bob dim ar bapur ddim bob amser yn rhoi'r darlun llawn ond pan mae person ifanc yn adrodd hanes eu bywyd a sut mae'r elusen wedi eu cynorthwyo, tydi'r papur a'r hyn sydd arno yn golygu dim. Mae bywydau'r bobl ifanc yma wedi bod yn *rolocoster* o brofiadau anodd, emosiynol ac ingol iawn. Tydan ni ddim yn gwybod nes yr ydym yn clywed yr hanesion. Mae'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan GISDA yn amhrisiadwy. Pe byddai darpariaeth GISDA yn dod i ben byddai Gwynedd yn Sir llawer iawn tlotach. Carwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl staff a hynny ar bob lefel. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud yn amhrisiadwy. Braf iawn yw gweld staff egnïol, brwdfrydig ac ymroddedig yn gweithio er mwyn cyrraedd un gôl sef help pobl ifanc Gwynedd.

Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc Gwynedd.

Llinos Angharad Owen – Cadeirydd Bwrdd Rheoli GISDA

GAIR GAN Y BRIF WEITHREDWRAIG

Mae hi wedi bod y fraint mwyaf eto eleni i gael cyd arwain GISDA gyda staff, pobl ifanc a'r Bwrdd Rheoli. Heb os, dyma'r flwyddyn brysuraf i ni ei weld ond sydd hefyd wedi bod yn un andros o gyffrous. Llwyddom i gyrraedd a chefnogi dros 700 o bobl ifanc bregus a digartref yr ardal. Cydweithiom a phartneru gyda nifer o gyrff cyhoeddus, mudiadau gwirfoddol, cymdeithasu tai yn ogystal â busnesau lleol. Datblygwyd prosiectau newydd cyffrous i ehangu ein cynnig. Buom yn datblygu 3 safle newydd fydd yn ofodau i bobl ifanc yng Ngwynedd. Y prif brosiect oedd prynu a datblygu Caxton House ym Mhwllheli. Bydd y gofod yn barod erbyn diwedd Haf 2025 ac wedi ei drawsnewid o fod yn siop i fod yn hwb i bobl ifanc gyda lle i fyw a gofod braf i staff weithio. Ein dyhead yw sicrhau bod mynediad i amrediad eang o wasanaethau a chefnogaeth yn hawdd

ac yn hygyrch i bobl ifanc gyrraedd. Llwyddom i bartneru gyda chyllidwyr newydd sydd wastad i'w groesawu ac yn cael ei werthfawrogi gennym. Gwahoddwyd nifer o weinidogion, gwleidyddion a chomisiynwyr draw i'n gweld ac rydym wastad yn gwerthfawrogi ymweliadau fel hyn sydd yn rhoi sylw i'n gwaith yn ogystal â'r heriau. Yr her mwyaf oedd paratoi cyllideb ar gyfer 2025-2026 – doedd dim dianc rhag y cynnydd yng nghostau cyflogi staff ac mae hynny wedi bod yn ergyd mawr i ni fel elusen ac yn fater rydym yn ei gymryd o ddifri wrth i ni reoli ein risgiau wrth symud ymlaen. Sylweddolwyd bod y gystadleuaeth am grantiau yn sylweddol a bod llai o arian ar gael hefyd. Rydym wedi bod yn edrych ar gyfleon newydd i godi arian ein hunain i gefnogi ein gwaith i sicrhau cynaladwyedd yr elusen tra bod y galw yno. Rydym wedi bod yn ymdrechu i gryfhau partneriaethau yn lleol er mwyn gwneud y mwyaf o'r adnoddau ac i rannu arbenigeddau a phrofiad. Dechreuodd ein digwyddiadau i nodi bod GISDA yn 40 yn 2025 tuag at diwedd y flwyddyn ariannol. Crëwyd logo newydd 'GISDA 40' i gofnodi'r flwyddyn ac mae'r achlysur wedi helpu i ddod a phawb yn y cwmni at ei gilydd ac yn gyfle i ni edrych yn ôl a meddwl am rhai o uchafbwyntiau'r blynyddoedd a fu.

Er yr heriau, rydym wedi llwyddo i gyflawni cymaint ar y cyd. Rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi bod yn rhan o sicrhau hynny sef ein pobl ifanc arbennig, ein staff ymroddedig, Bwrdd Rheoli hynod gefnogol ac yr arianwyr sydd yn parhau i'n cefnogi ac yn coelio yn ein dull o sicrhau canlyniad da i'r bobl ifanc mwyaf bregus ein cymdeithas. Diolch i bawb.

Edrychwn ymlaen yn fawr iawn i roi ein gorau dros bobl ifanc yn 2025 a 2026 gan barhau i gydweithio gyda nifer o bartneriaid. Diolch

Sian Elen Tomos – Prif Weithredwraig GISDA

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR YN CYNNWYS ADRODDIAD STRATEGOL CYFLWYNIAD

Mae'r ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at bwrpas Deddf Cwmnïau yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 sydd hefyd wedi eu paratoi er mwyn cwrdd gyda'r angen am adroddiad cyfarwyddwyr a chyfrifon at bwrpas Deddf Cwmnïau. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Elusennau 2011, Deddf Cwmnïau 2006, Erthyglau a Memorandwm y Cwmni elusennol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau". Datganiad o ymarferion cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau, Datganiad o Weithredoedd Ariannol yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102). Mae asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cofnodi ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion

STRATEGAETH 2023-2027

Mae GISDA Cyfyngedig yn falch o gyflwyno ein Strategaeth 2023-2027:

⇒ Ein Themau Strategol

Ein gweledigaeth yw pobl ifanc Gwynedd yn byw bywydau hapus a diogel yn rhydd o anfantais ac annhegwch
Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy 5 thema strategol

	**llais pobl ifanc yn cael ei glywed a gwrando mewn materion sy'n effeithio nhw**
	**cynyddu ein darpariaeth llety i gwrdd â'r angen cynyddol i bobl ifanc**
	**llesiant gwell i bob person ifanc mae GISDA'n cefnogi**
	**cynllun cefnogaeth wedi ei deilwra i bob person ifanc mae GISDA'n cefnogi**
	**bob person ifanc mae GISDA'n cefnogi'n uchelgeisiol yn eu dyheadau ar gyfer y dyfodol**

⇒ Ein Blaenoriaethau Strategol

AMGYLCHEDD 	Glynu at yr egwyddor o economi gylchol a chefnogi'r economi leol gan ailgylchu popeth a allwn. **diweddariad 2024-2025** • wedi arwyddo i Twf Addewid Gwyrdd i adlewyrchu ein ymrwymiad i chwarae ein rhan i leihau gwastraff a'n ôl troed carbon • cynllun amgylcheddol gweithredol blynyddol yn cynnwys targedau teithio, swyddfeydd a llety
IAITH GYMRAEG	Diweddarwyd Cynllun Iaith Gymraeg GISDA gan Comisiynydd Y Gymraeg yn 2024

	Byddwn yn parhau i fonitro a gweithredu'r cynllun i sicrhau darpariaeth gwasanaethau Cymraeg i bobl ifanc bregus a chefnogi staff i fod yn hyderus i ddarparu'r gwasanaeth **diweddariad 2024-2025** • Datblygu hybiau pobl ifanc yng Nghaernarfon a Phwllheli er mwyn sicrhau bod pobl ifanc bregus yn cael mynediad i gefnogaeth a gwasanaethau yn yr iaith o'u dewis • Ymweliad gan Gomisiynydd y Gymraeg ac wedi cael ein dewis i gymryd rhan mewn ffilm fer mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ei wneud i hyrwyddo pwysigrwydd Cymraeg yn y gweithle
CYDRADDOLDEB, CYNHWYSIANT AC AMRYWIAETH 	Parhau i ddatblygu amrediad cynhwysfawr o bolisïau a chefnogaeth arloesol sy'n gwerthfawrogi a dathlu cryfderau a chyfraniad pawb gwaeth beth fo'u hunaniaeth na'u cefndir. **diweddariad 2024-2025** • Ehangu ein prosiect LHDTC+ hyd at Mehefin 2026 gyda chefnogaeth gan Gronfa Gymunedol y Loteri • GISDA wedi trefnu digwyddiad Balchder Caernarfon ym Mehefin 2024 gyda ffocws ar bobl ifanc • Diweddaru ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac ychwanegu polisi gwrth hiliaeth iddo
LLESIANT STAFF 	Mae staff yn flaenoriaeth i GISDA ac felly mae sicrhau cynllun llesiant blynyddol staff i'n cefnogi a'n galluogi i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf yn hanfodol Byddwn yn parhau i ddatblygu amgylchedd gwaith i sicrhau fod GISDA yn elusen o ddewis i weithio iddo. **diweddariad 2024-2025** • Aelod o gynllun corfforaethol Byw yn Iach. • Rhaglen o weithgareddau llesiant wedi trefnu i staff yn ystod y flwyddyn
CYNALIADWYEDD 	Bod yn fentrus wrth ddatblygu cyfleoedd newydd gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Cael y cydbwysedd cywir wrth gymryd risg - weithiau mae'n rhaid mentro i ddatblygu prosiectau llwyddiannus newydd. **diweddariad 2024-2025** • 4 fflat newydd ar gyfer pobl ifanc wedi cwblhau yng Nghaernarfon • 2 fflat newydd ar gyfer pobl ifanc ym Mhwllheli • strategaeth codi arian mewn lle fel rhan o flwyddyn GISDA 40

AMCANION ELUSENNOL

Yr ydym yn adolygu ein nodau, amcanion a gweithgareddau bob blwyddyn gan edrych ar beth yr ydym wedi ei gyflawni ac allbynnau ein gwaith dros y 12 mis blaenorol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau a gweithgareddau yn parhau i gyflawni ein amcanion elusennol.

Nod GISDA Cyfyngedig yw darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc a byddwn yn cyrraedd ein nod drwy gyflawni ein amcanion a darparu

⇒ llety a gwasanaethau cefnogol
⇒ gweithgareddau creadigol ac artistig
⇒ gweithgareddau therapiwtig, hamdden ac addysgiadol
⇒ cyngor a gwybodaeth
⇒ hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth i roi cymorth i bobl ifanc datblygu hyder, gwytnwch, sgiliau byw'n annibynnol, sgiliau cyflogaeth a chyfranogi yn llawn mewn cymdeithas yn rhydd o unrhyw anfantais

YSTADEGAU 2024-2025

LLYNEDD.....

764 o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth uniongyrchol (23% o gynnydd ers 2023-2024)
£46,868 mewn grantiau yn uniongyrchol i bobl ifanc (47% o gynnydd ers 2023-2024)
60 o bobl ifanc digartref neu risg o ddigartrefedd wedi byw yn llety GISDA
91 nosweithiau clwb LHDTC+ wedi gynnal
335 gymwysterau Agored Cymru neu hyfforddiant perthnasol i'r gwaith wedi'u cwblhau gan dîm Academi Cyfleon
15 person ifanc wedi cael cyfle i deithio i Efrog Newydd, Gwlad Pwyl a Lerpwl
100% o bobl ifanc yn nodi bod y gefnogaeth yn dda neu yn dda iawn

"Yr hyn a safodd allan fwyaf oedd caredigrwydd ac amynedd y staff. Doedden nhw ddim ond yn gweld "person ifanc digartref" — roedden nhw'n gweld potensial, hyd yn oed pan nad oeddwn i'n gallu ei weld ynof fy hun. Diolch i'w cefnogaeth nhw, cefais sefydlogrwydd, hyder a chyfeiriad." - person ifanc oedd wedi derbyn cefnogaeth.

"Gisda came into my life during a dark period of isolation and struggle. Through their help, in particular with my transgender transition journey, my life has improved in every conceivable way. I am happier, more complete, and now being in university thanks to the help of all my support workers at Gisda, at a point where I am proud of my life. I would not have thought almost six years ago that any of this had been possible, but thanks to the love and support of Gisda I am now proud of my life."

BUDD CYHOEDDUS

Wrth adolygu ein amcanion, gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ein gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y dyfodol yn unol a gofynion cyfreithiol Deddf Elusennau 2011 mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac yn hyderus ein bod yn darparu budd cyhoeddus sylweddol fel y dangosir yn yr adroddiad hwn.

GWERTHOEDD GISDA

Mae gwerthoedd GISDA yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithredu ac i bob dim rydym yn ei wneud

Mae GISDA Cyfyngedig yn credu mewn pobl ifanc, waeth beth fo'u hamgylchiadau, eu rhyw, eu hil, eu hanabledd na'u hymddygiad. Credwn mewn pobl ifanc sydd wedi eu cam-drin, pobl ifanc bregus a phobl ifanc heb gefnogaeth teulu. Byddwn yn eu cefnogi, yn sefyll yn gadarn drostynt ac yn ceisio sicrhau bob cyfle fel y gallent gyrraedd eu potensial mewn bywyd. Rydym yn gwneud hyn am ein bod yn credu mewn pobl ifanc. Ein nod yw gwella ansawdd bywyd a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc yn ein cymdeithas.

Rydym yn credu.....



⇒ **Gonestrwydd**
mewn darparu gwasanaeth gonest a diffuant i bobol ifanc bob amser.

⇒ **Parch, Urddas ac Empathi**
mewn parchu teimladau, credoau a hawliau pob unigolyn

⇒ **Gwrando a Chlywed**
mewn cymryd pob cyfle i wrando ar lais pobl ifanc fel ein bod yn gwybod beth sydd angen ei newid oherwydd ein bod wedi clywed beth mae nhw wedi'i ddweud wrthym.

⇒ **Tegwch**
bod pawb yn haeddu'r un cyfle ac yn cael y gefnogaeth maent eu hangen i oresgyn rhwystrau.

⇒ **Ymbweru a Galluogi**
mewn annog pobl ifanc i gredu ynddynt eu hunain a bod yn uchelgeisiol yn eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

NODAU LLESIANT

Mae GISDA Cyfyngedig yn ymrwymo i ymgorffori a mabwysiadu 7 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gyflawni ein nod ac amcanion.

Mae Nodau Llesiant GISDA Cyfyngedig yn amlinellu ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sut mae GISDA Cyfyngedig am ymateb i'r ddeddf wrth gyflawni ein nod ac amcanion a sut fydd ein heffaith yn cael ei weld ar y genhedlaeth nesaf.

	GISDA lewyrchus Creu cyfleoedd cyffrous i baratoi pobl ifanc a chyfrannu at leihau amddifadedd ymysg pobl ifanc. Fe wnawn hynny drwy hyrwyddo cyflogadwyedd a gyrfa i bob person ifanc. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Academi Cyfleon a TAITH
	**GISDA gydnerth** Arfogi ac ymbweru'r genhedlaeth nesaf gyda'r sgiliau a'r gwydnwch i wynebu heriau bywyd. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Cymorth Tai, Gwirfoddoli, Fedraf I
	**GISDA iachach** Gwneud defnydd o safonau Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau cwmni sydd yn hybu iechyd a lles staff a phobl ifanc a mabwysiadu'r egwyddor '5 ffordd at les' **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Cymorth Tai a Fedraf I
	**GISDA sy'n fwy cyfartal** Gweithredu polisïau cyfleoedd cyfartal ym mhob rhan o'n gwaith gan ymdrechu i ddileu unrhyw rwystrau ar ffordd pobl ifanc. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Cymorth Tai a LHDTC+
	**GISDA o gymunedau cydlynus** Integreiddio pobl ifanc i'r gymuned a sicrhau lle i'r gymuned o fewn GISDA **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Gwirfoddoli, Academi Cyfleon, Creadigol a Bwrdd Pobl Ifanc
	**GISDA gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** Cynorthwyo ac ymbweru staff a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder i gyfrannu'n y Gymraeg. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Mae holl wasanaethau a phrosiectau GISDA yn cael eu darparu yn y Gymraeg
	**GISDA sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** Ymrwymo i chwarae ein rhan i leihau ein ôl troed carbon a gweithredu ein polisïau amgylcheddol. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosect Caffi Creu a Chynllun Gweithredol Amgylcheddol Blynyddol

CYFLAWNIADAU A GWEITHGAREDDAU 2024-2025
⇒ HYBIAU POBL IFANC

Mae GISDA wedi sefydlu tri hwb ar draws Gwynedd i gefnogi pobl ifanc, gan bwysleisio pwysigrwydd rhyngweithio wyneb yn wyneb a darparu mannau diogel iddynt dderbyn cymorth. Mae ein hybiau, sydd wedi'u lleoli yng Nghaernarfon, Blaenau Ffestiniog, a Phwllheli, yn cynnig mynediad i ystod eang o wasanaethau cymorth, gwybodaeth, gweithgareddau a grantiau.

Ar gael mae cefnogaeth a chyngor ar lety, budd daliadau, cyllidebu, gwaith ag addysg, iechyd meddwl, y gymuned a mwy. Mae'r gefnogaeth yma yn gymorth sydyn ar unwaith ag yn angenrheidiol i bobl ifanc mewn sefyllfa argyfwng.

Rydym wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd i ddatblygu rhwydwaith cryf o bartneriaid, ac rydym yn teimlo'n falch iawn i gael cydweithio gyda'r sefydliadau isod. Trwy'r partneriaethau hyn, gallwn gynnig cymorth ymarferol i bobl ifanc i'w helpu i oresgyn rhwystrau a chyflawni eu potensial:

Cyfanswm gwerth ariannol i bobl ifanc yn 2024-2025 - £69305

- **Ymddiriedolaeth Glasspool** - Rydym yn un o ddau bartner cymeradwy yng Nghymru sy'n gallu cyfeirio am grantiau brys i brynu eitemau hanfodol fel offer cartref neu ddillad hyd at £500.
- **Gronfa Cymorth Dewisol (DAF)** – Fel partner rhwydwaith cymeradwy, gallwn wneud ceisiadau ar ran pobl ifanc am gymorth brys gan Lywodraeth Cymru (e.e. bwyd, dillad, tanwydd neu ddodrefn).
- **Talebau Tesco** – Cymorth brys i brynu bwyd a nwyddau hanfodol gwerth £30.
- **Banc Bwyd** – Rydym yn cydweithio gyda banciau bwyd lleol i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael **parseli bwyd brys** pan fo angen
- **Good Things Foundation** - SIM cardiau am ddim i fynd i'r afael ag allgau digidol.
- **Fuel Bank Foundation** - Tocynnau tanwydd i bobl ifanc sydd mewn argyfwng.
- **Plant mewn Angen - Gwydnwch Bwyd** - Cefnogaeth i rieni ifanc gan gynnwys pecynnau bwyd iach ac offer coginio bach i hybu bwyta'n iach.
- **Cronfa Ffyniant Cyffredin** - Cymorth ymarferol i gefnogi pobl ifanc i fynd i waith: trafnidiaeth, gofal plant, dillad neu offer gwaith.
- **Centrepoint**- Grant "More Than a Home" i helpu pobl ifanc digartref i greu llety cynnes a phersonol wrth iddynt symud tuag at annibyniaeth.
- **CitizenCard** – Rydym yn cydweithio â CitizenCard sy'n ein galluogi i ddarparu cardiau adnabod ffotograffig am ddim i bobl ifanc bregus.

TAI A CHEFNOGAETH
⇒ CYMORTH TAI

Mae ein prosiect Cymorth Tai yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc sydd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Dyma'r mwyaf o ein prosiectau yma yn GISDA ac mae'n darparu cefnogaeth i 62 o bobl ifanc ar draws Gwynedd ar unrhyw un adeg.

Mae'r unedau hyn yn lletya ac yn darparu cartref i dri deg un o bobl ifanc. Mae 26 o'r rhain yn sengl, a phump yn deuluoedd sy'n cael eu cefnogi mewn tai teulu. Rydym hefyd yn cefnogi tri deg un o bobl ifanc eraill yn ein cymunedau gydag atgyfeiriadau yn dod o bob ardal yng Ngwynedd.

282 o bobl ifanc digartref neu mewn risg o ddigartrefedd wedi cael eu cefnogi

- **55%** o bobl ifanc yn ddigartref oherwydd toriad perthynas
- **45%** o bobl ifanc mewn B&B neu yn "sofa surfing" ar bwynt cyfeirio

Anghenion pobl ifanc

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn heriol iawn gydag anghenion pobl ifanc am ein gwasanaeth Cymorth Tai yn parhau i gynyddu. Mae nifer o bobl ifanc gydag anghenion iechyd meddwl yn parhau i fod yn uchel ar 65% sydd bryderus iawn ac yn heriol i staff.

- **100%** o bobl ifanc gydag anghenion llety
- **65%** o bobl ifanc gydag anghenion iechyd meddwl
- **23%** o bobl ifanc yn ein llety cefnogol yn rhan o gymuned LHDTC+
- **21%** o bobl ifanc yn rhieni

Effaith

- **100%** yn nodi bod y gefnogaeth yn dda neu yn dda iawn
- **100%** yn nodi eu bod yn gallu cyfathrebu yn hawdd am unrhyw fater
- **100%** yn nodi bod GISDA wedi eu helpu i reoli llety
- **100%** yn nodi byddai'n argymell y gwasanaeth i berson ifanc arall mewn angen.

"Fyswn i ddim yn medru gofyn am neb gwell na fy ngweithiwr allweddol. mae hi wedi fy helpu drwy gymaint. Mae hi yn amazing o berson ac yn neud ymdrech i helpu bob un person ifanc !''

"Dwi ddim yn gwybod lle fysa fy merch heb Gisda! Dwi ddim yn meddwl fysa hi yma rwan oni bai am y grwpiau a'r staff. Diolch mawr''

"Gisda came into my life during a dark period of isolation and struggle. Through their help, in particular with my transgender transition journey, my life has improved in every conceivable way. I am happier, more complete, and now being in university thanks to the help of all my support workers at Gisda, at a point where I am proud of my life. I would not have thought almost six years ago that any of this had been possible, but thanks to the love and support of Gisda I am now proud of my life.
Not only have I been supported in the above ways, I have also been treated with patience, kindness, and encouragement throughout my time living in Hafan, the halfway Tre Gof, and finally in the flat they helped me to get. This support gave me the essential time I needed to become who I am today. For this and so much more I thank Gisda with all my heart. In particular, living in Hafan allowed me to meet many of the people who are still my friends to this day, without whom I would have struggled all the more in life. I owe a great debt of kindness to Gisda for supporting me and for teaching me vital skills that I would have been lost without, including budgeting, cooking, and socialising. It is with great joy in my heart that I am now studying in university, which, among other things, would not have been possible without the help of Gisda."

⇒ ÔL OFAL

Mae'r Tîm Ôl Ofal Gisda yn cefnogi pobl ifanc sydd â'r profiad o ofal rhwng 16–25 oed ledled Gwynedd a thu hwnt. Mae ein tîm bach, a ariennir gan Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014, yn darparu cynghorwyr personol (Personal Advider) sy'n chwarae rôl hanfodol wrth helpu pobl ifanc i drosglwyddo o'r system ofal i annibyniaeth fel oedolion. Dan arweiniad uwch gynghorydd personol sydd 'â phrofiad byw o ofal, mae ein dull yn seiliedig ar empathi, profiad personol, ac arferion gorau.

Mae person ifanc sy'n gadael gofal yn unigolyn sydd wedi bod dan ofal yr awdurdod lleol ac sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth ar ôl gadael y system ofal.

Mae pobl sy'n gadael gofal yn wynebu nifer o rwystrau, gan gynnwys:

- Ansefydlogrwydd tai
- Anawsterau ariannol a bylchau mewn budd-daliadau
- Anawsterau mewn mynediad at addysg neu gyflogaeth
- Iechyd meddwl a thrawma emosiynol
- Diffyg rhwydweithiau cefnogol neu gysylltiadau teuluol
- Stigma systemig a throsglwyddiad sydyn i annibyniaeth

Mae'r prosiect yn cefnogi 121 o bobl ifanc ar unhryw adeg. Mae hyn yn cynnwys:

- 12x yn geiswyr lloches (UASK – Unaccompanied Asylum-Seeking Child)
  - Dim ond 8x o'r bobl ifanc hyn sydd â statws hawl i aros
- 93x Dyraniadau Cynradd (18–25 oed)
- 28x Dyraniadau Eilaidd (16–18 oed) – wedi'u dyrannu i Weithiwr Cymdeithasol yn unol â gofynion deddfwriaethol
- 3x Person ifanc yn y carchar
- 3x Person ifanc mewn lleoliad maeth 'Pan Fydda i'n Barod'
- 2x Person ifanc mewn addysg uwch
- 7x Person ifanc digartref

Mae'r bobl ifanc wedi'u lleoli ledled y DU. Gall hyn fod oherwydd addysg, cyflogaeth neu fel rhan o'u statws fel UASK. Mae'n ddyletswydd statudol i'r gweithwyr gynnal cyswllt a/neu ymweliadau rheolaidd gyda'r unigolion ifanc y maent yn eu cefnogi.

"Gwnaeth cyfarfod fy PA gynhesu fy nghalon – mae'n wahanol pan fo rhywun wir yn deall."

"Gallaf siarad â chi, dwi'n gwybod na fyddwch chi'n fy meirniadu."

⇒ PROSIECT LHDTC+

Sefydlwyd clwb LHDTC+ GISDA yn 2017, ar ôl dod i'r amlwg dros y blynyddoedd bod canran sylweddol o'r bobl ifanc a gyfeiriwyd at wasanaethau digartrefedd yn uniaethu fel LHDTC+, heb fod unrhyw gymorth penodol ar gael ar eu cyfer. Ers hynny, mae'r prosiect wedi datblygu'n sylweddol, gyda chlybiau bellach yn cael eu cynnal yng Nghaernarfon, Pwllheli, Bangor a Blaenau Ffestiniog. Mae hefyd yn cynnig cymorth i ysgolion a chymunedau sydd am sefydlu clybiau LHDTC+ lleol eu hunain.

Yn ogystal â'r clybiau, mae'r prosiect yn darparu cefnogaeth ar faterion LHDTC+ i bobl ifanc ac i brosiectau eraill o fewn GISDA. Maent wedi bod yn gweithio'n ddiwyd i godi ymwybyddiaeth ledled Gwynedd, ac wedi darparu hyfforddiant i sawl sefydliad a gwasanaeth er mwyn helpu unigolion a staff gefnogi pobl ifanc LHDTC+ yn well.

Am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r prosiect wedi cael ei ariannu gan y Gronfa Gymunedol 'Pawb a'i Le' y Loteri Genedlaethol.

Clybiau ieuenctid LHTDC+

- Caernarfon – Bob nos Fawrth 6-8yh (Canolfan Ieuenctid)
- Bangor – Bob nos Fercher 5-7yh (Hwb Dinas Bangor)
- Blaenau – Bob nos Fercher 5-7yh (Swyddfa Blaenau)
- Pwllheli – Bob nos Iau 5-7yh (Swyddfa Pwllheli)

Cefnogaeth 1-1:

Mae GISDA yn cynnig cefnogaeth 1-1 bersonol i bobl ifanc LHDTC+ sy'n wynebu amrywiaeth o heriau yn eu bywydau. Mae'r gefnogaeth yma'n cynnwys gwrando heb farnu, helpu gyda hunaniaeth rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol, cynorthwyo gyda materion iechyd meddwl, ac eiriolaeth mewn ysgolion, colegau neu gyda gwasanaethau eraill. Rydym hefyd yn helpu pobl ifanc i deimlo'n fwy hyderus ac yn ddiogel yn eu hunain.

Mae'r gefnogaeth yma'n bwysig oherwydd mae llawer o bobl ifanc LHDTC+ yn profi unigedd, camwahaniaethu, neu ddiffyg dealltwriaeth gan eraill. Trwy roi lle diogel, derbyniol a chadarnhaol, rydym yn eu helpu i adeiladu hunan-barch, datblygu sgiliau bywyd a chysylltu gyda phobl eraill sydd wedi cael profiadau tebyg.

- ✓ 65 o aelodau rheolaidd i'r clybiau
- ✓ 24 o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth arbenigol 1:1
- ✓ 120+ o nosweithiau clwb
- ✓ 126 o fyfyrwyr Coleg Llandrillo Menai wedi derbyn sesiwn ymwybyddiaeth LHDTC+
- ✓ 52 o staff Coleg Llandrillo Menai wedi derbyn sesiwn ymwybyddiaeth LHTDC+
- ✓ 60 o staff GISDA wedi derbyn hyfforddiant LHTDC+

Pride 2024:

Llynedd, trefnodd GISDA Pride yng nghanol tref Caernarfon – digwyddiad hanesyddol a thrawsbynciol i'r gymuned. Am y tro cyntaf, roedd pobl ifanc LHDTC+ lleol yn gweld eu hunaniaethau'n cael eu dathlu'n agored yn eu tref eu hunain. I lawer, roedd hwn yn brofiad emosiynol a grymus – gan herio stigma, creu gweledd, ac anfon neges glir fod Caernarfon, a GISDA, yn lle i bawb.

Roedd y digwyddiad nid yn unig yn dathlu amrywiaeth, ond yn cynnig llwyfan i leisiau pobl ifanc gael eu clywed. Roedd presenoldeb cryf gan y gymuned leol, busnesau, a sefydliadau partner yn arwydd o newid – ac o obaith. Mae digwyddiadau fel Pride Caernarfon yn hanfodol i greu cymunedau cynhwysol, i frwydro yn erbyn gwahaniaethu, ac i roi gobaith i genhedlaeth newydd.

⇒ ICAN || FEDRA'I

Mae prosiect ICAN GISDA yn darparu cymorth iechyd emosiynol a meddyliol i bobl sydd angen lle diogel i siarad a chael eu clywed ac i lenwi bylchau o fewn gwasanaethau iechyd meddwl Gwynedd. Trwy gymorth un-i-un, galwadau lles, sesiynau grŵp therapiwtig a chyfeirio at gwnsela lle bo'n briodol, mae'r prosiect yn cynnig cefnogaeth bersonol, amserol ac ymatebol. Mae'r dull person-ganolog yn galluogi pobl ifanc i fynegi eu hunain, deall eu hemosiynau, a datblygu dulliau ymdopi cadarnhaol. Trwy ICAN, mae GISDA yn cryfhau llesiant pobl ifanc ac yn helpu iddynt adeiladu seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol.

224 unigolyn wedi derbyn cefnogaeth

163 o gyfeiriadau wedi derbyn

- **31%** gan wasanaethau iechyd meddwl
- **24%** o brosiectau eraill GISDA
- **13%** yn hunan gyfeiriadau
- **12%** o wasanaethau iechyd
- **20%** arall: gwasanaeth prawf, gwasanaethau cymdeithasol, teulu a ffrindiau, adran ddigartref, asiantaeth tai, sefydliadau addysg, mudiadau 3ydd sector

Ar bwynt cyfeirio:

- **100%** gydag anghenion iechyd meddwl
- **71%** gyda diagnosis iechyd meddwl
- **51%** mewn risg o hunan niweidio a/neu hunan laddiad
- **82%** wedi gweld meddyg teulu am eu hiechyd meddwl
- **30%** wedi mynd i'r ysbyty gyda'i iechyd meddwl

Effaith cefnogaeth

- **81%** yn nodi bod eu hiechyd meddwl a lles wedi gwella o ganlyniad y gefnogaeth
- **81%** wedi nodi eu bod yn fwy ymwybodol o'r gefnogaeth ar gael
- **73%** wedi nodi eu bod yn teimlo yn llai ynysig o ganlyniad y gefnogaeth

"We have been doing the anxiety and social anxiety self-help workbooks, and these have taught me more about anxiety and why I'm feeling this way. I have now started going to group sessions, as I have built on my confidence and met other young people who have similar experiences."
"Mae dod i'r hwb yn tynnu'r pwysau sydd yn fy mywyd. Dwi'n cael amser i ymlacio a meddwl am bethau psoitif a sgiliau i ddelio efo bywyd."

⇒ GISDA ACTIF

Mae GisdActif yn brosiect newydd sy'n cefnogi lles pobl ifanc drwy amrywiaeth o gyfleoedd actif gan gynnwys chwaraeon, teithiau, bwyta'n iach ac ati. Mae'n hyrwyddo iechyd meddwl a chorfforol drwy weithgareddau, gweithdai a chymorth uniongyrchol gan feithrin hyder, sgiliau cymdeithasol a ffordd o fyw iachach. Wedi'i ariannu gan Ogledd Cymru Actif, mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â chanolfannau Byw'n Iach ar draws Gwynedd i ddarparu mannau diogel a chefnogol sy'n diwallu anghenion pobl ifanc.

Gweithgareddau a Diwrnodau Allan Cofiadwy

- 53 o weithgareddau/sesiynau ers mis Medi

- **Dros 200 o fynychwyr** wedi cymryd rhan
- Dros **£2,000** wedi'i godi trwy'r **HER40KM**

Enghreifftiau o weithgareddau:

- Teithiau cerdded + gweithdai ffotograffiaeth
- Badminton
- Beicio Coed y Brenin
- Padlfyrddio, padel, ffwtgolf, dringo
- Diwrnodau Glan Llyn (x2)
- Sglefrio ia Deeside
- Sesiynau llesiant, gwytnwch bwyd, sesiynau galw heibio ar draws Gwynedd
- Sesiynau ffitrwydd gyda Byw'n Iach

CYFLEON ADDYSG, GWAITH A HYFFORDDIANT
⇒ ACADEMI CYFLEON

Mae'r Academi Cyfleon, a ariannwyd gan Moondance a Chronfa Ffyniant Cyffredin, wedi'i sefydlu i gefnogi pobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i chwilio am waith, gwirfoddoli, cael mynediad at addysg, datblygu sgiliau byw'n annibynnol (e.e. coginio, cyllidebu) neu gwblhau hyfforddiant.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae pobl ifanc wedi gallu manteisio ar y gefnogaeth ganlynol:

- Unrhyw beth sydd yn ymwneud a chwilio am/paratoi/ceisio am **waith** – Creu CV, chwilio am swyddi, paratoi am gyfweliadau.
- **Sgiliau Byw'n Annibynnol** - hylendid personol, coginio, glanhau, siopa am fwyd, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, defnyddio amser.
- Cwblhau **achrediadau** a/neu **hyfforddiant** – Agored Cymru (wyneb yn wyneb) a *Virtual College* (ar lein)
- Chwilio am a chymryd rhan mewn cyfleon **wirfoddoli** neu brofiadau gwaith/sesiynau blasu – Llawer yn ymwneud ag elfennau therapiwtig (gwirfoddoli efo anifeiliaid, gwirfoddoli mewn grwp)
- Chwilio am/ceisio am gyrsiau **addysg bellach** neu hyfforddiant arall (Coleg neu arall)
- Sesiynau a gweithdai **rhifedd** – dysgu theori gyrru, dysgu am bwyso a mesur cynhwysion pan yn coginio, defnyddio amser, darllen tabl amser bws a thrên.
- Sesiynau Creadigol ac Addysgol.

<u>Llwyddiant prosiect Academi Cyfleon – Cronfa Ffyniant Gyffredin</u>

⇒ **344** o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth un i un

⇒ **100%** wedi derbyn cymorth i symud yn nes at gyflogaeth

⇒ **395** o achrediadau / chymwysterau wedi cwblhau trwy Agored Cymru - Mae GISDA yn ganolfan achrededig sydd yn cael ei rheoleiddio ac yn talu ffi flynyddol i fod yn aelod.

⇒ **651** sesiwn hyfforddi a chefnogi wedi'u cynnal, gan gynnwys:

- 35% sesiynau cyflogadwyedd
- 34% sesiynau byw'n annibynnol

- 15% sesiynau sgiliau rhifedd
- 8% sesiynau llesiant (creadigol, iechyd meddwl a chorfforol)
- 8% sesiwn galw mewn cymunedol (canolfannau gwaith, hybiau cymunedol a cholegau)

⇒ **72** sesiwn theori gyrru wedi'u cynnal ers Ionawr 2025 - gan gynnwys prynu trwydded gyrru a chost prawf theori.

⇒ **100%** o bobl ifanc yn nodi gwasanaeth cyflogadwyedd "da iawn" neu "da"

⇒ **86%** o bobl ifanc wedi symud ymlaen i waith, gwirfoddoli neu hyfforddiant.

⇒ **82%** o bobl ifanc yn nodi cynnydd yn eu hyder a sgiliau i waith yn dilyn cefnogaeth

⇒ Roedd ein hadroddiad gwerthuso annibynnol gan Rhodri Bowen, Pobl a Gwaith sef cwmni annibynnol o Geredigion, yn nodi llwyddiant profedig a phrosiect cost effeithiol a fydd yn rhoi arbedion hirdymor i wasanaethau cyhoeddus drwy ymyraethau cynnar ac yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ym maes cyflogaeth, llesiant ac addysg.

⇒ GWIRFODDOLI

Mae gwirfoddoli wedi dod yn rhan hanfodol a bwysig iawn o GISDA yn y blynyddoedd diwethaf. Dros y prosiect hwn rydym wedi annog pobl ifanc i wirfoddoli ymysg ein prosiectau yn cynorthwyo gyda gwaith LLAIS, creu ymgyrchoedd, gweithgareddau amgylcheddol, cynnal sesiynau, cynorthwyo staff gyda gweithdai, mentora cyfoed a mwy. Rydym hefyd wedi canolbwyntio a'r geisio annog pobl ifanc i wirfoddoli yn y gymuned. Credwn fod hyn yn hynod o bwysig er mwyn integreiddio'r bobl ifanc i'r gymuned leol a chreu cysylltiadau newydd.
Rhan bwysig o'r prosiect hefyd ydy gwirfoddolwyr allanol yn rhoi eu hamser i GISDA er budd pobl ifanc. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cael gwirfoddolwyr yn: cynnal sesiynau cwnsela, sesiynau therapi celf, garddio, gwnïo, gweu, darparu cefnogaeth emosiynol a mwy.

- **69** o bobl wedi gwirfoddoli
- **2980** o oriau gwirfoddoli
- **£34,091** mewn gwerth cymdeithasol
- **25** o fudiadau wedi cydweithio gyda ni i greu cyfleoedd gwirfoddoli o safon uchel

⇒ TAITH

Rydym wedi bod yn hynod o ffodus o dderbyn cefnogaeth gan Taith i gynnig cyfleoedd teithio i bobl ifanc bregus. Mae Taith yn brosiect sydd dwy flynedd; yn yr amser hwn rydym yn gallu cynnig cyfle i'n pobl ifanc deithio i'r Ffindir, Gwlad Pwyl, Efrog Newydd a Chernyw.
Mae Taith yn rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol a sefydlwyd i greu cyfleoedd sy'n newid bywydau pobl yng Nghymru i astudio, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio ym mhedwar ban y byd. Mae'r rhaglen wedi ymrwymo i wella mynediad i bobl anabl, anghenion dysgu ychwanegol, grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a phobl o gefndiroedd difreintiedig.

- Teithiau i **Efrog Newydd, Gwlad Pwyl, Cernyw, Lerpwl, Llundain, Yr Eidal**
- **10** person ifanc wedi teithio dramor
- **5** person ifanc wedi teithio yn y Deyrnas Unedig
- **17** aelod staff wedi gael cyfleon teithio
- **5** cydweithwyr o Wlad Pwyl wedi ymweld â Chymru

CYFRANOGI A CHREADIGOL

⇒ GISDA CREADIGOL

Mae Prosiect Creadigol GISDA yn cynnig gofod croesawgar i bobl ifanc archwilio creadigrwydd fel ffordd o fynegi eu hunain ac o gefnogi eu llesiant. Gall gweithgareddau creadigol – megis paentio, cerddoriaeth, ysgrifennu a ffotograffiaeth – helpu i leihau straen, meithrin hyder, ac agor ffyrdd newydd o brosesu emosiynau.

Rydym yn cynnig arweiniad, anogaeth, a gofod diogel lle gall pobl ifanc archwilio a mwynhau creadigrwydd heb bwysau na beirniadaeth. Dim bwriad y prosiect yma ydi i **fod yn berffaith nac yn arbenigwr**, ond yn hytrach, i roi cynnig ar rywbeth newydd, mwynhau'r broses greadigol, a darganfod sut gall creadigrwydd eich helpu i deimlo'n well yn eich hun.

Cydweithio

Olion – Frân Wen a GISDA (prosiect wedi'i ariannu gan Plant Mewn Angen*)*

Yn seiliedig ar bartneriaeth hirdymor drwy brosiect NABOD, bu saith o bobl ifanc GISDA yn cyd-greu ac yn perfformio yn y cynhyrchiad theatr broffesiynol bwerus Olion gyda Frân Wen. Nhw luniodd y sgript, y cymeriadau a'r themâu – gan seilio'r stori ar eu profiadau personol.

Cafodd y prosiect ei gyfoethogi gan daith greadigol i Efrog Newydd, gweithdai mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid ar draws Gwynedd, a pherfformiad arbennig yn NYTH.

Mae *Olion* yn enghraifft o effaith gadarnhaol y celfyddydau ar hunanhyder, lleisio barn, a chysylltiadau personol – gyda phobl ifanc wrth galon pob cam.

Aber i Aber – Cerdd Cymunedol Cymru

Prosiect cerddoriaeth 10 wythnos lle bu pobl ifanc yn cyfansoddi, perfformio a recordio cân wreiddiol mewn stiwdio broffesiynol. Dan arweiniad cerddor lleol, fe ffurfion nhw fand, a chreu cân yn seiliedig ar fywyd yng Nghaernarfon. Profiad ysbrydoledig o dîm, creadigrwydd a hyder.

Celf Mewn Natur – Oriel Ysbyty Gwynedd

Prosiect celf therapiwtig gyda phobl ifanc a oedd yn profi heriau iechyd meddwl. Gan ddefnyddio natur fel ysbrydoliaeth, bu'r sesiynau'n cynnig gofod diogel i hunanfynegiant. Daeth y prosiect i ben gydag arddangosfa bwerus o'r gwaith yn Ysbyty Gwynedd – yn dathlu creadigrwydd, gwydnwch ac ymwybyddiaeth iechyd meddwl.

⇒ LLAIS POBL IFANC

Mae LLAIS yn un o nodau strategol GISDA ac rydym yn sicrhau bod llais pobl ifanc yn ganolog i'r gwaith, bod y llais yna'n cael ei glywed a'u bod yn gyd-gynhyrchu syniadau newydd. Mae gennym Fwrdd Pobl Ifanc yn cwrdd ym mhob ardal o Wynedd. Ymysg rhai o'r gweithgreddau mae'r canlynol :

- Cyfrannu i ymgyrch trafnidiaeth sydd wedi arwain at docynnau bws £1 i bobl ifanc dan 21.
- Cyfrannu darn o waith celf i ymgyrch 'Women for Women' i ferched Palestina.
- Cymryd rhan mewn grŵp ffocws am gyfryngau Cymraeg i bobl ifanc.
- Cymryd rhan ym mhrosiect 'Gwytnwch Bwyd' Plant Mewn Angen.
- Cydweithio ar ddigwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Merched.
- Cymryd rhan yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol GISDA.
- Enwebu Lewis fel aelod o Senedd Ieuenctid Cymru.
- Cymryd rhan yn Lab 3, ymgynghoriad am hybiau pobl ifanc GISDA.

- Cymryd rhan mewn ymgynghoriadau eang, er enghraifft, Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaethau Ieuenctid Gwynedd.
- Codi hyder bobl ifanc i siarad am wleidyddiaeth a lleisio eu barn.'

GWOBRAU AC ACHREDIADAU

⇒ **GWOBRAU CHWARAEON GWYNEDD 2024**
GISDA yn falch o fod wedi ennill gwobr 'Cyflogwr Actif Y Flwyddyn'

⇒ **GWOBRAU IECHYD MEDDWL A LLESIANT CYMRU 2024**
Rhestr Fer am Sefydliad Elusennol Ysbrydoledig

POBL IFANC GISDA

⇒ **GWOBRAU ARFER DA TPAS 2024**
Anya – Tenant Ifanc y Flwyddyn

⇒ **GWOBRAU GWIRFODDOLI GWYNEDD 2024**
Jem - Gwirfoddolwr y Flwyddyn

⇒ **GWOBRAU ELUSENNAU CYMRU 2024**
Reece – rhestr fer Gwirfoddolwr Ifanc Y Flwyddyn

⇒ **GWOBRAU CENTREPOINT 2024**
Anya – Gwobr Partner Centrepoint UK

ADOLYGIAD ARIANNOL

Archwiliwr Cofrestredig sy'n archwilio cyfrifon yr Elusen. Mae'r cyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â gofynion a osodwyd gan Ddeddfwriaethau Elusennau a Chwmnïau, ac yn rhoi adroddiad cryno a chlir o sefyllfa ariannol a gweithgareddau'r Elusen. Cyhoeddir adroddiad blynyddol sydd yn cael ei ddosbarthu yn ôl y gofyn ar ôl iddo gael ei dderbyn yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Mae GISDA yn comisiynu'r gwasanaeth hwn bob 3 blynedd ac yn mynd allan am dendr i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae tendr mewn lle ar gyfer 2025-2028 wedi ei ddewis gan y Bwrdd yn dilyn proses teg ac agored.

⇒ INCWM A GWARIANT

Gwelwyd bod costau cyflogi a chynnal y cwmni wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y flwyddyn, serch hynny llwyddwyd i orffen y flwyddyn ariannol gyda swm penodol o syrffed anghyfyngedig. Ar y cyfan roedd yr incwm yn weddol gyson gyda'r flwyddyn ariannol flaenorol. Bu'r Tîm Rheoli yn edrych ar ffyrdd o leihau gorbenion a lleihau risg o or-ddibynnu ar ffrydiau grantiau penodol. Mae'r bwrdd yn ymwybodol o'r cynnydd yng nghostau gweithredu megis costau ynni a chyflogaeth yn arbennig y cynnydd o ran cyfraniadau yswiriant cenedlaethol cyflogwr ychwanegol a gyflwynwyd ac wedi cymeradwyo cyllideb briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.

⇒ CRONFA WRTH GEFN

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi adolygu anghenion yr elusen o ran yr hyn y dylid ei gadw wrth gefn o ystyried y prif heriau y mae'n ei wynebu. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu polisi sy'n dweud y

dylid cadw digon i allu rhedeg y cwmni am dri mis os daw y cwmni i ben. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r gronfa wrth gefn ddwywaith y flwyddyn mewn cyfarfodydd Bwrdd Rheoli. Mae'r Trysorydd a'r Rheolwr Cyllid yn ystyried incwm a gwariant am y flwyddyn flaenorol ac yna'n cyflwyno eu hargymhellion ynglŷn â'r hyn y dylai fod wrth gefn. Fe fydd unrhyw benderfyniadau ar gyllidebau yn ystyried anghenion y gronfa wrth gefn. Mae cynnal y gronfa yma yn ofynnol er mwyn galluogi sicrwydd sydd yn hybu cyrff allanol i fuddsoddi gan, felly, greu cynaliadwyedd i GISDA. Nid oes modd dibynnu ar y gronfa hon mewn unrhyw ffordd gan mai cronfa ar gyfer un sefyllfa yn unig yw hi – sef caniatáu'r cwmni i barhau am gyfnod byr er mwyn dod a'r cwmni a'i holl weithgareddau i ben. Byddai'r gronfa wrth gefn, hefyd, yn caniatáu'r cwmni i barhau i gyrraedd ei rwymedigaethau ariannol am dri mis. Y lefel presennol o arian rhydd wrth gefn i GISDA Cyfyngedig ar ddiwedd Mawrth 2025 yw £1,256,495.

RISGIAU A HERIAU

Mae gan GISDA gofrestr risg cynhwysfawr sy'n cyfeirio at nifer o gategorïau risg yn cynnwys llywodraethiant, cyllid, cydymffurfiaeth cyfreithiol, iechyd a diogelwch, adnoddau dynol a gwasanaethau. Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn gosod archwaeth risg ar gyfer pob un o'r categorïau ac yna'n sgorio'r risgiau o fewn y categorïau yn ôl eu tebygolrwydd ac effaith cyn benderfynu ar ba gamau y dylid eu cymryd i drin a monitro'r risgiau hynny. Mae'r gofrestr yn cael ei graffu'n rheolaidd gan y Tim Rheoli, yr Is-banel Staffio, Llywodraethiant a Busnes a'r Bwrdd Rheoli.

CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

⇒ 'LLE DA' – Caernarfon

Buom yn llwyddiannus ar y cyd gyda Cyngor Gwynedd i ddenu arian grant sylweddol gan Llywodraeth Cymru ac arian Cyngor Gwynedd i adnewyddu ein prif swyddfa ar y Maes yng Nghaernarfon yn ogystal a'r adeilad drws nesaf sef NatWest yn 2020. Bydd 'Lle Da' yn datblygu 4 prif elfen er budd pobl ifanc lleol

- 4 Fflat i bobl ifanc fyw ynddynt
- Caffi hyfforddi a datblygu sgiliau pobl ifanc
- Gofod aml asiantaethol i ddarparu popeth o dan un to i bobl ifanc
- Swyddfeydd newydd i staff

Cwblhawyd Gwedd 1 yn ystod dechrau 2021 sef sicrhau bod y to, y cefn a'r ffenestri yn iawn. Fe lanhawyd blaen yr adeilad a pheintio un ochor fel bod y ddau adeilad yn edrych yn lan a thaclus o'r tu allan. Cwblhawyd gwedd 2 ym mis Gorffennaf 2023 a Gwedd 3 ym mis Tachwedd 2023. Mae'r gwedd olaf, sef y llawr gwaelod i gynnwys Caffi GISDA a Hwb Pobl Ifanc, wedi cychwyn ac rydym yn gobeithio y byddwn yn medru agor drysau'r Hwb a Chaffi yn Hydref 2025. Rydym yn y broses o chwilio am brisiau i ail lanhau blaen yr adeilad gan bod amser wedi mynd heibio ers iddo gael ei wneud.

⇒ PARTNERIAETHAU

Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaid yn fawr iawn, mae'r gwerth maent yn cyfrannu atom fel cwmni yn amhrisiadwy. Ni allwn ddarparu dim heb weithio ar y cyd ac mae mewnbwn pawb yn bwysig. Mae GISDA yn cydnabod ein cryfder ac yn tynnu ar eraill sydd gyda cryfderau gwahanol fel y gallwn ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

Dyma gydnabod yn ffurfiol ein Rhanddeiliaid a Phartneriaid. Rydym yn ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad yn fawr iawn boed hynny drwy gyd weithio, ariannu, rhannu arbenigedd neu cefnogi ein gwaith. Diolch.

- Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU
- Amgueddfa Cymru
- Antur Waunfawr
- Banciau Bwyd
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Cerdd Cymunedol Cymru
- Coleg Llandrillo Menai
- Comisiynydd yr Heddlu Gogledd Cymru
- Cronfa Loteri Cymunedol
- Cyngor ar Bopeth
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Tref, Dinas a Phlwyf ar draws Gwynedd
- Cymdeithas Tai ADRA
- Cymdeithas Tai Grŵp Cynefin
- Comic Relief
- Dref Werdd
- Felin Fach
- Frân Wen
- Galeri Caernarfon
- Garfield Weston
- Gwasanaethau Prawf a Chyfiawnder Ieuenctid
- Heddlu Gogledd Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Mantell Gwynedd
- Moondance
- M-Sparc
- PACT Gogledd Cymru
- Plant Mewn Angen BBC
- Pontio Bangor
- Prifysgol Bangor
- Porthi Dre
- RCS
- Sefydliad Cymunedol Cymru
- Senedd Ieuenctid Cymru
- Shelter Cymru
- Storiel
- Sylfaen Cymunedol, Caernarfon
- Urdd Gobaith Cymru
- WCVA

MANYLION GWEINYDDOL
Strwythur, Llywodraethiant a Rheolaeth

⇒ **Dogfen Llywodraethiant**

Mae GISDA yn gwmni cyfyngedig trwy warant a lywodraethir gan ei Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu dyddiedig 18.06.2018. Mae GISDA hefyd yn elusen sydd wedi'i chofrestru gyda'r comisiwn elusennau

⇒ **Aelodau Bwrdd**

Mae'r aelodau bwrdd yn gyfarwyddwyr y cwmni ac yn ymddiriedolwyr elusen ac yn cael eu hethol yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Yr aelodau bwrdd hefyd yw aelodau'r cwmni. Mae'n ròl gwirfoddol a heb unrhyw fudd ariannol o'r elusen

⇒ **Cyfrifoldebau**

Yr aelodau bwrdd sydd yn rheoli busnes yr elusen ac maent yn gyfrifol am:

- Gydymffurfiad â Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.
- Gydymffurfiad â deddfwriaeth a safonau a osodwyd gan ein deiliad diddordeb.
- Sicrhau fod y Cwmni yn gweithredu gwerth gorau ym mhob agwedd o'i waith.
- Atebolrwydd i ddeiliad diddordeb drwy fonitro safon y gwasanaethau a ddarperir a sicrhau bod pob agwedd o'r gwaith yn cael ei reoli yn effeithiol.

⇒ **Recriwtio Ymddiriedolwyr**

Mae GISDA yn gweithredu trefn recriwtio agored a theg er mwyn ceisio denu amrediad eang o gefndiroedd, sgiliau a phrofiadau i'r elusen. Mae apwyntiadau yn cael eu gwneud am gyfnod o dair blynedd gyda'r posibilrwydd o ail etholiad am gyfnod o dair blynedd pellach. Wrth recriwtio mae GISDA yn ystyried unrhyw sgiliau arbennig sydd angen yn dilyn awdit sgiliau blynyddol

⇒ **Anwythiad Ymddiriedolwyr**

Mae pob ymddiriedolwr newydd yn dilyn rhaglen anwytho sy'n cynnwys

- pecyn anwytho a llawlyfr ymddiriedolwyr
- ymweliad gyda'r Prif Weithredwr i holl swyddfeydd, prosiectau a hosteli GISDA
- hyfforddiant diogelu ac unrhyw hyfforddiant arall sydd ei angen.

⇒ **Trefniadau Bwrdd Rheoli**

Mae'r Bwrdd yn gallu cynnwys i fyny at 12 o ymddiriedolwyr ac yn cyfarfod yn ddeu fisol neu'n amlach os oes angen. Maent hefyd yn cynnal diwrnod strategol yn flynyddol

⇒ **Is-baneli**

Mae'r ymddiriedolwyr wedi sefydlu 3 is-banel i gynorthwyo efo rheoli gwaith y Bwrdd sef

- is-banel cyllid ac asedau
- is-banel gwasanaethau a phrosiectau
- is-banel staffio, llywodraethiant a busnes

Mae'r is-baneli yn cyfarfod yn ddeu fisol i graffu materion o fewn eu cylch gorchwyl ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd llawn efo argymhellion.

Polisïau

Mae gan GISDA cyfres o bolisïau i gyd-fynd efo'r amrediad o wasanaethau, prosiectau a busnes mae'r elusen yn ei weithredu ac rydym yn ychwanegu at y polisïau hyn yn ôl yr angen. Mae'r polisïau yn cael eu hadolygu a diweddaru yn rheolaidd.

Adnoddau Dynol

Mae GISDA yn cydnabod mai ei staff yw prif adnodd yr elusen ac yn parhau i ddatblygu, cryfhau a gweithredu polisïau, gweithdrefnau a threfniadau adnoddau dynol i greu diwylliant gwaith lle mae staff yn teimlo'n iach a diogel a bod eu gwaith ac yn cael ei werthfawrogi.
Yn fwy nag erioed rydym wedi bod yn rhoi llawer o bwyslais ar lesiant a diogelwch staff a sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y gefnogaeth maent eu hangen i sicrhau eu bod yn medru cyflawni eu gwaith er lles y bobl ifanc rydym yn eu cefnogi.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd Rheoli mewn perthynas â'r Datganiadau Ariannol

Mae gofynion Deddf Cwmnïau yn gorfodi'r Bwrdd Rheoli i baratoi adroddiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sydd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae'r Bwrdd Rheoli yn dilyn gwerth gorau ac yn (1) dewis polisïau cyfrifeg addas a'u gweithredu yn gyson a (2) gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a doeth a (3) pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw os nad yw'n anaddas i ystyried bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.
Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg addas sy'n datgan gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw amser sefyllfa ariannol cwmni elusennol ac sydd yn sicrhau bod yr adroddiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r Bwrdd Rheoli hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly'n cymryd camau priodol i rwystro ac adnabod twyll ac anghysondebau eraill.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Mae Aelodau'r Bwrdd Rheoli am y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad wedi eu nodi ar dudalen 1. Maent yn gyfarwyddwyr o dan Ddeddfwriaeth Cwmnïau ac yn ymddiriedolwyr o dan Ddeddfwriaeth Elusennol. Mewn cytundeb â Deddf Cwmnïau, fel cyfarwyddwyr y cwmni, rydym yn datgan:

- Cyn belled a gallwn wybod, nid oes unrhyw wybodaeth ar gyfer yr archwiliad perthnasol nad ydym yn ymwybodol ohono
- Fel cyfarwyddwyr y cwmni, rydym wedi cymryd holl gamau angenrheidiol i sicrhau ein bod ni ac archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol o'r holl wybodaeth archwiliad perthnasol.

Archwilwyr

Ail-apwyntiwyd W.J.Matthews & Son fel archwilwyr y cwmni elusennol yn ystod y flwyddyn ac maent wedi nodi eu parodrwydd i barhau i wneud hynny.
Drwy orchymyn y Bwrdd ar 07.07.2025 ac wedi arwyddo ar ei ran gan :

	Mrs Llinos Owen (Cadeirydd)

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau GISDA Cyfyngedig

Barn

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol GISDA Cyfyngedig am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2025 sydd yn cynnwys y datganiad o weithredoedd ariannol, y fantolen, y datganiad ynghylch llif arian a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102, 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2025, ac am yr adnoddau cyllid a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail ein barn

Rydym wedi cynnal ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r anghenion ethegol sydd yn gymwys i'n archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Ethegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ethegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu fod y tystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a chymwys i baratoi sail i'n barn.

Canlyniadau ynglŷn a busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes byw o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau yn briodol.
Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud a digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r endid i barhau fel busnes byw am gyfnod o leiaf 12 mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol.
Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas a busnes byw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth gynwysedig yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwiliwr arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r helaeth fod wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw ganlyniadau o sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu sydd fel arall yn ymddangos yn sylweddol anghywir. Os daw yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiant sylweddol ymddangosiadol neu anghysondebau, mae'n ofynnol arnom i

benderfynu os oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall. Os down i gasgliad , ar sail y gwaith a gwblhawyd fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth ychwanegol yma, mae'n ofynnol arnom i ymadrodd y ffaith.

Nid oes gennym ddim i ymadrodd mewn cyswllt â hyn.

Barn ar faterion eraill a benodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd yng nghwrs yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson a'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi ei pharatoi yn unol â gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad

Yn sgil yr wybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camfynegiant sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglŷn â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmnïau 2006 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:

- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw, neu os yw adroddiadau cymwys i'n harchwiliad heb eu derbyn gan ganghennau na ymwelwyd gennym, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol mewn cytundeb â'r cofnodion ariannol a'r adroddiadau, neu
- fod rhai datgeliadau am dal ymddiriedolwyr a benodir dan gyfraith wedi eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr oll o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at bwrpas deddf cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg wir a theg ac am y rheolau mewnol mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro'n angenrheidiol i alluogi paratoad o ddatganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamosodiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi y datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel yn gymwys, materion perthnasol i allu'r busnes i barhau a defnyddio y sail busnes byw o gyfrifo os nad yw'r ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu i gau y cwmni neu roi gorau i weithredu, neu heb fod gyda dewis rhesymol ond i wneud hynny.

Cyfrifoldeb yr archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein amcanion yw i dderbyn sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchaf o sicrwydd, ond nid yn gwarantu y buasai archwiliad wedi ei chynnal yn unol ag ISAs (DU) yn darganfod camddatganiad sylweddol, os yw yn bod pob adeg. Gall camosodiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, a byddent yn cael eu cysidro yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y buasai'n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio dewisiadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau yma.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod gan y tim ymgysylltu ar y cyd y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys;
- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol i'r cwmni trwy drafodaethau â ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector;
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn a allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, amgylcheddol a deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gan reolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Roedd deddfau a rheoliadau a nodwyd yn cael eu cyfleu o fewn y tim archwilio yn rheolaidd ac roedd y tim yn parhau i fod yn effro i achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y cwmni i gamddatganiad perthnasol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:
- Wneud ymholiadau gan reolwyr ynghylch ble roeddent o'r farn bod tueddiad i dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn rheoli a diystyru rheolaethau, rydym yn:
- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;
- Asesu a oedd dyfarniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;
- Ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin.

Mewn ymateb i'r risg o afreolaidd-dra a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Cytuno ar ddatgeliadau datganiadau ariannol i ddogfennau ategol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn ein gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddem yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad oherwydd gallent gynnwys cuddio neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Fel rhan o archwiliad a ymgymerir yn unol ag ISAs (DU), rydym yn ymarfer barn proffesiynol a chynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad, rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamosodiad sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio yn ymatebol i'r risg hynny, a chael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio darganfod camosodiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch nag o risg yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cyd-dwyllo, ffugio, gadael gwybodaeth allan yn fwriadol, camfynegiadau, neu anwybyddu reolau mewnol.
- Cael dealltwriaeth o reolaeth ariannol perthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at bwrpas o fynegi barn ar effeithiolrwydd y rheolau mewnol.
- Asesu priodolrwydd y polisïau cyfrifyddol a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb o amcangyfrifau cyfrifyddol a datgeliaethau cysylltiedig a wneir gan yr ymddiriedolwyr.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd o'r sail cyfrifo busnes byw gan yr ymddiriedolwyr ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gawsom, os os oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amgylchiadau a all godi amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel uned byw. Os y down i gasgliad fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae'n ofynnol arnom i dynnu sylw, yn ein adroddiad archwiliwr i'r datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os nad yw'r datgeliadau yn ddigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y tystiolaeth archwilio a dderbyniwyd hyd at dyddiad adroddiad yr archwiliwr. Er hynny, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi'r cwmni i beidio parhau fel busnes byw.
- Asesu y cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac os yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli y trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn ffurf sydd yn cyflawni cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu gyda'r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynglŷn, ymysg materion eraill, paratoi cwmpas ac amseru yr archwiliad a darganfyddiadau sylweddol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw wendidau sylfaenol mewn rheolaeth ariannol a ddarganfuwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

Defnyddio ein adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi ei wneud i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Adran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Rydym wedi ymgymryd a'r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni elusennol ar y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad yr archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at eithaf â ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw y cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

David Chidley (Prif archwiliwr statudol)
Dros ac ar ran
W J Matthews a'i Fab,
Archwiliwr Statudol
a Chyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
CAERNARFON
LI55 1AB

Dyddiad: 07/07/2025

GISDA Cyfyngedig

Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant) *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025*

	Nodiadau	Cronfeydd Anghgyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	2025	2024
		£	£	£	£
Incwm					
Incwm gwirfoddol					
Grantiau a Rhoddion	***3***	5,525	802,493	808,018	5,701
Incwm o weithgareddau elusennol					
Grantiau, cytundebau rhenti ac ati	***4***	389,273	1,825,243	2,214,516	1,880,183
Llog banc		13,927	-	13,927	11,484
Incwm arall		6,715	-	6,715	780
Cyfanswm incwm		415,440	2,627,736	3,043,176	1,898,148
Gwariant					
Gweithgareddau elusennol	***6***	107,600	2,041,680	2,149,280	1,764,414
Incwm/ (gwariant) net		307,840	586,056	893,896	133,734
Symudiad net mewn cronfeydd		307,840	586,056	893,896	133,734
Cronfeydd ar 1 Ebrill 2024		1,129,294	1,020,385	2,149,679	2,015,945
Cronfeydd ar 31 Mawrth 2025		1,437,134	1,606,441	3,043,575	2,149,679

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio i gyd o weithgareddau sydd yn parhau. Mae'r holl enillion a cholledion a gydnabyddir yn y flwyddyn wedi eu cynnwys uchod. Mae'r syrffed am y flwyddyn at bwrpas y Ddeddf Cwmnïau yn cynnwys yr adnoddau cyllid net am y flwyddyn yn £893,896 (2024 – £133,734).

GISDA Cyfyngedig
Mantolen *ar 31 Mawrth 2025*
(Rhif cofrestru'r cwmni 2484575)

	Nodiadau		2025 £	2024 £
ASEDAU SEFYDLOG				
Asedau cyffyrddadwy a ddefnyddir gan yr Elusen	***10***		1,706,033	1,151,389
Buddsoddiadau	**11**		-	150,000
ASEDAU CYFREDOL				
Dyledwyr	***12***	644,584		140,216
Buddsoddiadau	**13**	150,000		150,000
Arian yn y banc		649,916		644,146
		1,444,500		1,084,362
CREDYDWYR: *Symiau yn daladwy o fewn blwyddyn*	***14***	(106,958)		(86,072)
ASEDAU CYFREDOL NET			1,337,542	998,290
CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			**3,043,575**	**2,149,679**
ASEDAU NET			3,043,575	2,149,679
CRONFEYDD INCWM				
Cronfeydd cyfyngedig	***17***		1,606,441	1,020,385
Cronfeydd anghyfyngedig	***16***		1,437,134	1,129,294
			3,043,575	2,149,679

Ar ran y Bwrdd ..... (Cyfarwyddwr)
Mrs Llinos Owen

Dyddiad

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 41 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

GISDA Cyfyngedig

Datganiad ynghylch llif arian *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2025*

	Nodyn	2025 £	2024 £
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	***19***	419,668	99,654
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		13,927	11,484
Prynu asedau sefydlog	***10***	(577,825)	(144,437)
Prynu buddsoddiadau		150,000	(300,000)
Arian a ddefnyddiwyd i fuddsoddi		(413,898)	(432,953)
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Ad-daliadau morgais		-	-
Arian o weithgareddau ariannu		-	-
Cynnydd/(lleihad) mewn arian a chyfatebolion arian		**5,770**	**(333,299)**
Arian a chyfatebolion arian ar 1 Ebrill 2024		644,146	977,445
Arian a chyfatebolion arian ar 31 Mawrth 2025		649,916	644,146

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025*

1. Polisiau cyfrifyddol

Mae'r prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, penderfyniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd â amcangyfrifir wrth baratoi y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

a) Sail Paratoi Cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu yn unol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau" Datganiad o Ymarferion Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) – (SORP Elusennau (FRS102)), yr Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Cwmniau 2006.

Mae GISDA Cyfyngedig yn bodloni gofynion diffiniad uned budd cyhoeddus dan FRS102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau yn wreiddiol ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion os na nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifo perthnasol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro nad oes ansicrwydd sylweddol am allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw.

b) Polisïau cydnabod incwm

Dangosir adnoddau cyllid yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd unrhyw ganllawiau perfformiad ynghlwm a'r eitemau incwm wedi eu cyflawni neu yn gyflawn o fewn rheolaeth yr elusen a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl. Cyfrifir am grantiau ple nad yw'r hawl yn ddibynnol ar berfformiad gan yr elusen, pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant. Gohirir incwm os nad canllawiau hawl wedi eu cyrraedd neu os yw'r incwm wedi ei neilltuo ar gyfnod yn y dyfodol.

Cydnabyddir incwm grantiau sydd ddim yn dibynnol ar gyflawni gweithgareddau penodol pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant. Gohirir incwm os nad yw'r elusen wedi cyflawni gweithgareddau penodol i roi hawl i'r incwm neu lle mae'r incwm wedi ei glustnodi at gyfnod diweddarach.

Cydnabyddir incwm grantiau sydd yn ddibynnol ar berfformiad neu gyflawni gweithgareddau penodol fel mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau drwy berfformiad o'i oblygiadau.

c) Cyfrifo cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall. Mae cronfeydd penodedig yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu rhoi i'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at bwrpas arbennig. Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol a chyfyngiadau penodol dan amodau y rhoddwr neu sydd wedi eu codi gan yr elusen at bwrpas arbennig.

ch) Gwariant

Cydnabyddir gwariant pan mae oblygiad cyfreithiol neu weithredol i wneud taliad i drydydd person, y mae'n debygol fydd taliad yn angenrheidiol a gellir mesur yr blygiad yn ddibynadwy.

Cyfrifir yr holl wariant yn y datganiad o weithredoedd ariannol ar sail croniant.

Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau a godir wrth gyflenwi gweithgareddau a gwasanaethau i'r buddiolwyr. Mae'n cynnwys y costau a benodir yn uniongyrchol i'r gweithgareddau a'r costau anuniongyrchol sydd yn angenrheidiol i'w cefnogi.

Cyfrifir TAW na ellir ei hawlio fel cost yn erbyn y gweithgaredd a achosodd y gwariant.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025*

d) Costau cynorthwyol

Costau cynorthwyol yw gweithgareddau sydd yn cefnogi gwaith yr elusen ond sydd ddim yn ymwneud a gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cynorthwyol yn cynnwys yr adran weinyddol, cyllid, personél a llywodraethol sydd yn cefnogi y gwahanol brosiectau elusennol. Mae'r costau hyn wedi eu dosbarthu rhwng y gwahanol adrannau fel y dangosir yn nodyn 7.

dd) Les gweithredol

Mae'r elusen yn dosbarthu rhenti eiddo fel les gweithredol; mae tetl i'r eiddo yn aros gyda'r prydleswr ac mae bywyd economaidd yr eiddo yn llawer hirach na term y les.

e) Asedau sefydlog

Mae asedau sefydlog gyda chost mwy na £1,000 yn cael eu cyfalafu a'u cynnwys ar gost gan gynnwys unrhyw gostau atodol o gaffaeilio. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau llai gwerth gweddilliol dros gyfnod amcangyfrifol o'u hoes fel a ganlyn:

Offer swyddfa	20-33%
Dodrefn tai	20%
Gwelliannau	25%
Moduron	20%

f) Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau asedau sefydlog yn cael eu cofnodi i ddechrau ar gost, ac yn dilyn hynny yn cael eu datgan ar gost llai unrhyw golledion amhariad cronedig.
Mae balans mewn cyfrif cadw sydd ag aeddfedrwydd o flwyddyn neu fwy ar ddyddiad yr cadw yn cael ei ystyried yn fuddsoddiad ased sefydlog.
Mae balans mewn cyfrif cadw sydd ag aeddfedrwydd o fwy na thri mis ond llai na blwyddyn yn fuddsoddiad ased cyfredol.

ff) Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl nodi unrhyw disgownt masnachol a gynnigwŷd. Dangosir blaendaliadau ar werth y swm a dalwyd ymlaen llaw llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

g) Arian mewn banc ac mewn llaw

Mae arian mewn banc ac mewn llaw yn cynnwys arian buddsoddiadau tymor byr sydd yn aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael neu o agor y cyfrif adnau.

ng) Credydwyr a darpariaethau

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fydd gan yr elusen oblygiad cyfredol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol gyda'r canlyniad tebygol o drosglwyddiad o eiddo i drydydd person a gellir mesur y swm angenrheidiol i setlo'r oblygiad yn ddibynadwy. Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

h) Offerynnau ariannol

Dim ond offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cofnodir offerynnau ariannol sylfaenol i dechrau ar bris y contract os nad yw'r trefniant yn sefydlu gweithrediad ariannu, pan fyddent yn cael eu cofnodi ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi eu gostyngi ar raddfa llog y farchnad am offeryn ariannol tebyg.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025*

i) Costau pensiwn

Mae'r gost o baratoi pensiwn a manteision cyffelyb yn cael eu prisio i'r Datganiad o Weithredoedd ariannol fel mae'r rhwymedigaeth yn codi. Mae'r elusen yn talu cyfraniadau pensiwn ar sail cyfraniadau wedi eu diffinio.

2. Statws gyfreithiol y cwmni

Mae'r cwmni yn gyfyngedig drwy warrant. Wrth ddirwyn i ben neu ddiddymu y cwmni ac wedi bodloni ei holl ddyledion a'i rwymedigaethau, os erys unrhyw eiddo o gwbl yn weddill, ni thelir ef i aelodau y cwmni na'i ddosbarthu yn eu mysg, ond yn hytrach ei roi i sefydliad elusennol arall gydag amcanion cyffelyb i amcanion y cwmni. Gan na dderbynnir unrhyw eiddo o'r cwmni gan yr aelodau, nid oes Cysondeb o Gronfeydd Ariannol yn angenrheidiol.

3. Incwm gwirfoddol	**Anghyfyngedig**	**Cyfyngedig**	**Cyfanswm 2025**	**Cyfanswm 2024**
	£	**£**	**£**	**£**
Rhoddion	5,525	-	5,525	5,701
Noddwyr Balchder	-	7,100	7,100	
Rhodd tuag at adeiladau	-	113,393	113,393	-
Grant Cronfa Perchnogaeth Gymunedol	-	300,000	300,000	-
Grant Rhaglen Cyfleuserau Cymunedol	-	292,000	292,000	-
Grant TAPI at adeilad	-	90,000	90,000	-
	5,525	802,493	808,018	5,701

GISDA Cyfyngedig

4. Gweithgareddau elusennol

	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£	£
Rhent	359,485	-	359,485	317,423
Grant Cymorth Tai	-	720,869	720,869	682,736
Grant Atal Digartrefedd	-	31,216	31,216	28,957
Cytundeb Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd	-	116,989	116,989	90,978
Plant Mewn Angen	-	15,383	15,383	50,316
Grantiau Cyngor Gwynedd	-	34,755	34,755	44,200
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol	-	151,167	151,167	152,981
Rhent Tai Gisda	29,788	-	29,788	25,886
Grantiau Dros Unigolion Ifanc	-	-	-	2,250
Prosiect ICAN	-	110,481	110,481	109,726
Grantiau Academi Cyfleon	-	96,749	96,749	40,735
Grant TAPI	-	324,144	324,144	197,756
Grant Moondance	-	-	-	72,602
Canfas	-	-	-	21,250
SVWYO	-	20,000	20,000	20,000
Grant Arfor	-	58,704	58,704	16,296
Erasmus	-	-	-	4,091
LIDL	-	-	-	500
SAF	-	-	-	500
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	-	-	1,000
Comic Relief	-	20,000	20,000	-
Cronfa Byw'n Iach	-	9,900	9,900	-
Actif Gwynedd	-	18,876	18,876	-
CentrePoint	-	7,200	7,200	-
Glasspool	-	37,500	37,500	-
Grant Ffiws	-	26,761	26,761	-
Turn2us	-	4,226	4,226	-
Croeso Cynnes	-	3,350	3,350	-
Caffi Creu	-	7,473	7,473	-
Prifysgol Bangor	-	5,000	5,000	-
Grant Llefydd Lleol	-	2,000	2,000	-
Prosiect Dychmygu'r Dyfodol	-	1,500	1,500	-
Grant BFI Ffilm Academi	-	1,000	1,000	-
	389,273	1,825,243	2,214,516	1,880,183

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025*

5. Incwm Gohiriedig

	Incwm Gohiriedig 2025 £	Derbyniadau 2025 £	Incwm Gohiriedig 2024 £	Incwm a Gydnabyddir 2024 £
Grant Taith	32,910	32,910	-	-

6. Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd

	Cynlluniau Llety a Chefnogaeth £	Cynlluniau Cefnogi a Datblygu £	Eraill £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Costau staff	531,979	730,647	-	1,262,626	1,004,137
Costau adeiladau	247,044	7,973	62,750	317,767	319,148
Adnewyddu a thrwsio	7,819	5,773	14,091	27,683	12,062
Teithio a chynhaliaeth	20,529	30,630	1,515	52,674	49,104
Hyfforddiant	1,994	14,388	48	16,430	3,116
Gweithgareddau	2,254	58,130	15	60,399	23,856
Gwariant tros bobl ifanc	1,631	38,257	-	39,888	8,761
Costau proffesiynol	3,170	14,966	1,200	19,336	18,337
Costau swyddfa a ffon	15,014	2,240	4,010	21,264	22,509
Hysbysebu a marchnata	490	17,573	-	18,063	2,353
Dibrisiant	-	23,181	-	23,181	25,914
Eraill	-	11,437	-	11,437	3,785
Costau llywodraethol	20,667	23,729	2,078	46,474	42,751
Costau cynorthwyol	103,196	118,487	10,374	232,057	228,581
Cyfanswm	955,787	1,097,413	96,080	2,149,280	1,764,414

Roedd gwariant ar weithgareddau elusennol yn £2,149,280 (2024- £1,764,414). O'r gwariant yma roedd £107,600 (2024- £253,141) yn anghyfyngedig a £2,041,680 (2024 - £1,511,273) yn gyfyngedig.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025*

7. Dadansoddiad o gostau llywodraethol a chynorthwyol

I ddechrau, mae'r cwmni elusennol yn nodi ei gostau cynorthwyol. Yna nodir y costau sydd yn berthnasol i'r pwrpas llywodraethol. Wedi adnabod y costau llywodraethol, rhannir y costau cynorthwyol cyffredinol a'r costau llywodraethol rhwng y tri gweithgaredd elusennol a ymgymerwyd yn ystod y flwyddyn. Nodir dosbarthiad y costau rhwng y gweithgareddau elusennol ar sail defnydd.

	Cynorthwyol Cyffredinol	Llywodraethol	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£	£
Costau staff canolog	141,850	38,642	180,492	161,191
Costau swyddfa a ffon	30,781	-	30,781	25,682
Yswiriant	37,017	-	37,017	43,455
Teithio a chynhaliaeth	4,484	-	4,484	5,445
Hyfforddiant	4,477	-	4,477	11,813
Gweithgareddau	-	-	-	33
Hysbysebu a marchnata	3,836	-	3,836	4,996
Costau proffesiynol	5,336	-	5,336	9,114
Archwilio a chyfrifo	4,276	6,600	10,876	7,561
Cyfarfod blynyddol	-	1,232	1,232	836
Eraill	-	-	-	1,206
	232,057	46,474	278,531	271,332

Adnoddau Cyllid Net

Nodir yr adnoddau cyllid net ar ôl codi:

	2025	2024
	£	£
Rhent	172,844	160,698
Dibrisiant	23,181	25,914
Ffioedd archwilio	6,600	4,200
Archwiliwr – ffioedd eraill	4,276	3,361

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025*

8. Costau Staff a chydnabyddiaeth yr ymddiriedolwyr

	2025	2024
	£	£
Cyflogau	1,281,343	1,045,222
Yswiriant cenedlaethol	99,968	79,618
Pensiwn	61,807	40,488
	1,443,118	1,165,328

Roedd cydnabyddiaeth un aelod o staff o fewn yr ystod £60,000 i £69,999 (2024 – Un aelod o staff). Nodir costau pensiwn i'r gweithgareddau ar yr un canran a'r cyflogaeth perthynol.

Ni dderbyniwyd ffioedd na thal rheoli yn ystod y flwyddyn *(2024– Dim).* Ni wnaed taliadau i gyfarwyddwyr am gostau a achoswyd *(2024 – Dim).*

Nid oedd gan unrhyw Ymddiriedolwr neu berson arall yn gysylltiedig a'r elusen unrhyw ddiddordeb personol mewn unrhyw gontract neu drafodion gyda'r elusen yn ystod y flwyddyn (*2024 – Dim*).

Mae personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r tîm rheoli. Roedd cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol yr elusen yn £184,058 *(2024 - £175,447)*.

Roedd cyfartaledd nifer cyflogedig yr elusen yn ystod y flwyddyn, ar sail blwyddyn llawn, fel a ganlyn:

	2025	*2024*
	Nifer	Nifer
Prif Weithredwr	1	1
Cynllun Llety a Chefnogaeth	16	17
Cynlluniau Cefnogi a Datblygu Eraill	25	20
Gweinyddol	4	4
	46	42

Telir cyfraniadau pensiwn i gynllun gyda'r cyfraniadau wedi eu diffinio. Nid oedd unrhyw flaendaliadau pensiwn ar ddiwedd y flwyddyn *(2024- Dim).*

9. Treth

Fel elusen mae GISDA Cyfyngedig yn eithriedig o dreth ar incwm ac enillion o fewn adran 505 o'r Gyfraith Dreth 1988 ac adran 256 o'r Gyfraith Treth Enillion Cyfalaf 1992 hyd at eu bod yn cael eu defnyddio at weithgareddau elusennol. Nid oed unrhyw rwymedigaeth treth wedi codi.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025*

10.Asedau sefydlog dirweddol

	Adeiladau a Gwelliannau £	*Offer swyddfa* £	*Dodrefn Tai* £	*Moduron* £	*Cyfanswm* £
Cost/Gwerth					
Ar 1 Ebrill 2024	1,202,858	233,295	105,276	29,300	1,570,729
Ychwanegiadau	577,825	-	-	-	577,825
Ar 31 Mawrth 2025	1,780,683	233,295	105,276	29,300	2,148,554
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2024	106,922	188,222	105,276	18,920	419,340
Cost am y flwyddyn	-	19,021	-	4,160	23,181
Ar 31 Mawrth 2025	106,922	207,243	105,276	23,080	442,521
Gwerth yn y llyfrau					
Ar 31 Mawrth 2025	1,673,761	26,052	-	6,220	1,706,033
Ar 31 Mawrth 2024	1,095,936	45,073	-	10,380	1,151,389

Mae'r holl asedau sefydlog yn cael eu defnyddio i hyrwyddo amcanion yr elusen.

Mae'r elusen ar y cyd gyda Cyngor Gwynedd wedi derbyn grant sylweddol gan Llywodraeth Cymru i adnewyddu prif swyddfa a creu fflatiau ar gyfer pobl ifanc. Nid oedd y gwaith wedi ei gwblhau ar diwedd y flwyddyn.

11. Buddsoddiadau asedau sefydlog

	Cyfrif Cadw £	*Cyfanswm*
Cost		
Ar 1 Ebrill 2024	150,000	150,000
Ychwanegiadau	-	-
Gwarediadau	(150,000)	(150,000)
Ar 31 Mawrth 2025	-	-

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025

12. Dyledwyr	2025 £	2024 £
Dyledwyr masnachol	302,864	37,930
Blaendaliadau	11,587	7,019
Dyledwyr eraill	330,133	95,267
	644,584	140,216

Yn gynwysedig yn y dyledwyr eraill mae £2,384 yn ddyledus ar ôl blwyddyn.

13. Buddsoddiadau asedau cyfredol	2025 £	2024 £
Blaendal tymor byr	150,000	150,000
	150,000	150,000

14. Credydwyr: *symiau yn daladwy o fewn blwyddyn*	2025 £	2024 £
Credydwyr masnachol	14,231	38,220
Treth a nawdd cymdeithasol	23,614	20,285
Incwm gohiriedig	32,910	-
Costau wedi cronni	36,203	27,567
	106,958	86,072

15. Ymrwymiadau

Les Gweithredol

Mae gan yr elusen ymrwymiadau dan les weithredol fel a ganlyn:

	Tir ac Adeiladau		Eraill	
	2025 £	2024 £	2025 £	2024 £
Taliadau les:				
O fewn un flwyddyn	192,460	199,035	-	-
Rhwng un a phum mlwyddyn	-	-	-	-
Dros bum mlynedd	-	-	-	-
	192,460	199,035	-	-

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025*

16. Cronfeydd anghyfyngedig

	Balans 1 Ebrill 2024	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2025
	£	£	£	£	£
Cronfa Gyffredinol	637,962	(69,448)	415,440	(107,600)	876,354
Cronfeydd Dynodedig					
Cronfa Eiddo	200,000	-	-	-	200,000
Cronfa Wrth Gefn	291,332	69,448	-	-	360,780
	1,129,294	-	415,440	(107,600)	1,437,134

	Balans 1 Ebrill 2023	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2024
	£	£	£	£	£
Cronfa Gyffredinol	594,920	(65,091)	361,274	(253,141)	637,962
Cronfeydd Dynodedig					
Cronfa Eiddo	200,000	-	-	-	200,000
Cronfa Wrth Gefn	-	291,332	-	-	291,332
	794,920	226,241	361,274	(253,141)	1,129,294

Mae'r bwrdd rheoli wedi dynodi £200,000 o gronfeydd wrth gefn tuag at brynu eiddo addas.

Mae swm yn cynrychioli tri mis o gyflog wedi ei gadw wrth gefn i gyfarfod unrhyw heriau annisgwyl. Mae hyn yn unol a chanllawiau ymarfer da y Comisiwn Elusennau.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025*

17.Cronfeydd cyfyngedig

	Balans 1 Ebrill 2024	Symudiad mewn cronfeydd			Balans 31 Mawrth 2025
		Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	
	£	£	£	£	£
Cynlluniau llety a chefnogaeth	-	-	720,869	(720,869)	-
Cynlluniau cefnogi a datblygu	290,385	-	1,111,474	(1,320,812)	81,047
Grantiau a Rhoddion Adeiladau	730,000	-	795,393	-	1,525,393
	1,020,385	-	2,627,736	2,155,074	1,606,441

	Balans 1 Ebrill 2023	Symudiad mewn cronfeydd			Balans 31 Mawrth 2024
		Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	
	£	£	£	£	£
Cynlluniau llety a chefnogaeth	-	-	682,736	(682,736)	-
Cynlluniau cefnogi a datblygu	491,025	(226,241)	854,138	(828,537)	290,385
Grantiau a Rhoddion Adeiladau	730,000	-	-	-	730,000
	1,221,025	(226,241)	1,536,874	(1,511,273)	1,020,385

Yn ystod y flwyddyn ariannol, derbyniodd yr elusen gyllid grant cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru i gefnogi caffael Tŷ Caxton, Y Maes, Pwllheli. Yn unol â thelerau'r cytundeb grant, mae dirwym gyfreithiol wedi'i gofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau dros yr eiddo.

18. Dadansoddiad asedau net rhwng cronfeydd

	Asedau Sefydlog Dirweddol	Asedau Cyfredol Net	Credydwyr Ar ôl un Blwyddyn	Cyfanswm
	£	£	£	£
Ffynonellau cyfyngedig	1,525,394	81,047	-	1,606,441
Ffynonellau anghyfyngedig	180,639	1,256,495	-	1,437,134
	1,706,033	1,337,542	-	3,043,575

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025*

19. Cymodi'r elw gweithredol â'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol

	2025 £	2024 £
Symudiad net	893,896	133,734
Llog a dderbyniwyd	(13,927)	(11,484)
Dibrisiant	23,181	25,914
(Cynnydd)/Lleihad mewn dyledwyr	(504,368)	(6,826)
Cynnydd/(Lleihad) mewn credydwyr	20,886	(41,684)
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	**419,668**	**99,654**

GISDA Cyfyngedig

20. Dadansoddiad o gronfeydd y flwyddyn flaenorol

Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant) *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024*

	Nodiadau	Cronfeydd Anghgyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	2024	2023
		£	£	£	£
Incwm					
Incwm gwirfoddol					
Grantiau a Rhoddion	*3*	5,701	-	5,701	32,199
Incwm o weithgareddau elusennol					
Grantiau, cytundebau rhenti ac ati	*4*	343,309	1,536,874	1,880,183	1,940,979
Llog banc		11,484	-	11,484	1,437
Incwm arall		780	-	780	3,672
Cyfanswm incwm		361,274	1,536,874	1,898,148	1,978,287
Gwariant					
Gweithgareddau elusennol	*6*	253,141	1,511,273	1,764,414	1,687,078
Incwm/ (gwariant) net		108,133	25,601	133,734	291,209
Trosglwyddiad rhwng cronfeydd		226,241	(226,241)	-	-
Symudiad net mewn cronfeydd		334,374	(200,640)	133,734	291,209
Cronfeydd ar 1 Ebrill 2023		794,920	1,221,025	2,015,945	1,724,736
Cronfeydd ar 31 Mawrth 2024		1,129,294	1,020,385	2,149,679	2,015,945

GISDA CYFYNGEDIG / ARFON YOUNG SINGLE HOMELESS GROUP

England & Wales - Charity number 1068325

Accounts

GISDA
CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

GISDA CYFYNGEDIG

(CWMNI WEDI EI GYFYNGU DRWY WARANT)

DATGANIAD ARIANNOL AC ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

BLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

RHIF ELUSEN: 1068325

RHIF CWMNI: 2484575

CYFEIRIADAU

Rhif Elusen: 1068325

Rhif Cwmni: 2484575

Swyddfa Gofrestredig: 22/23 Y Maes, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2NA

Archwilwyr: W J Matthews A'i Fab, 11-15 Bont Bridd, Caernarfon

Bancwyr: Lloyds Bank PLC, 268 Stryd Fawr, Bangor

Cyfreithwyr: Richard Hall, Bryn Gwynhoedl, Llangwnadl, Pwllheli

Ysgrifennydd Cwmni: Elizabeth George

Prif Weithredwr: Siân Elen Tomos

Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr
Cyfarwyddwyr y cwmni elusennol yw ei ymddiriedolwyr at ddibenion y gyfraith elusennau a thrwy gydol yr adroddiad hwn cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel yr ymddiriedolwyr.

Mae'r ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ac ers diwedd y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

Cadeirydd: Mrs Llinos Angharad Owen

Is-gadeirydd: Dr Peter Harlech Jones

Trysorydd: Mr Dewi Jones

Ymddiriedolwyr :

- Dr Gwenllian Parry
- Ms Elen Foulkes
- Ms Gilly Harradence
- Cyng Elwyn Jones
- Mr W Tudor Jones (ymddeol 12.07.2023)
- Dr Dylan Wyn Evans (ymddeol 12.07.2023)
- Mr Rhys Parry (ymddeol 12.07.2023)
- Dr Catrin Jones (apwyntiwyd 12.07.2023)
- Mici Plwm (apwyntiwyd 12.07.2023)

GAIR GAN Y CADEIRYDD

Ar ran Bwrdd Rheoli GISDA, mae'n bleser gennym gyflwyno'r adroddiad blynyddol sydd yn amlinellu gwybodaeth am yr elusen yn ystod y flwyddyn. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn brysur a llwyddiannus iawn i'r elusen.

Mae holl staff GISDA'n gweithio'n galed a di-flino i sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn cefnogaeth, cynhaliaeth a'r cyfle gorau ar eu taith mewn bywyd. Rhoddwyd cyfle amhrisiadwy i'r bobl ifanc drwy waith yr holl brosiectau a'r teithiau tramor.

Mae gwrando ar brofiadau'r bobl ifanc yn ein cyfarfodydd wedi bod yn agoriad llygaid i ni gyd fel aelodau bwrdd. Rhoddodd hyn gyfle i'r bobl ifanc rannu eu profiadau gyda sawl cyfarfod emosiynol iawn. Tydi bob dim ar bapur ddim bob amser yn rhoi'r darlun llawn ond pan mae person ifanc yn adrodd hanes eu bywyd a sut mae'r elusen wedi eu cynorthwyo, tydi'r papur a'r hyn sydd arno yn golygu dim. Mae bywydau'r bobl ifanc yma wedi bod yn 'rolocoster' o brofiadau anodd, emosiynol ac ingol iawn. Tydan ni ddim yn gwybod nes yr ydym yn clywed yr hanesion.

Mae'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan GISDA yn amhrisiadwy. Pe byddai darpariaeth GISDA yn dod i ben byddai Gwynedd yn Sir llawer iawn tlotach. Carwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl staff a hynny ar bob lefel. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud yn amhrisiadwy. Braf iawn yw gweld staff egniol, brwdfrydig ac ymroddedig yn gweithio er mwyn cyrraedd un gôl sef help pobl ifanc Gwynedd.

Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc Gwynedd.

Llinos Angharad Owen – Cadeirydd Bwrdd Rheoli GISDA

GAIR GAN Y BRIF WEITHREDWRAIG

Dyma ni wedi cyrraedd diwedd blwyddyn arall yn GISDA ac unwaith eto bu hi'n andros o brysur a chyffrous dros ben. Bu hi hefyd yn flwyddyn lle buom yn adlewyrchu a meddwl yn ystyrlon am y galw amdanom a sylweddoli mai cynyddu mae hynny yn hytrach na lleihau. Rydym wedi bod yn cyd gynhyrchu gyda phobl ifanc i geisio siapio'r cwmni wrth symud ymlaen gan wrando ar eu hadborth bob amser. Ymhlith rhai o'n llwyddiannau mwyaf yn ystod y flwyddyn bu i ni gryfhau prosiect Academi Cyfleon, prynu tŷ ar gyfer pobl ifanc sydd wedi profi gofal, symud i'n prif swyddfa newydd yng Nghaernarfon ac ennill dau wobr cenedlaethol am ein gwaith sef Gwbrau Gwaith Ieuenctid Cymru 2023 'Arloesedd yn y Gymraeg' a Gwobrau Iechyd Meddwl a Llesiant Cymru 2023 'Gwasanaeth Cefnogaeth Iechyd Meddwl Orau'.

Braint o'r mwyaf ydy ein bod yn gallu parhau i gefnogi ein pobl ifanc mwyaf bregus a chwarae ein rhan i'w galluogi i sicrhau dyfodol gwell. Ein blaenoriaeth yw ceisio darparu cartref a chefnogaeth i bobl ifanc digartref a bregus a'u galluogi i deimlo'n hyderus a hapusach i symud ymlaen i fyw yn ddinasyddion annibynnol. Rydym yn gwneud hyn drwy weithio'n agos a mewn partneriaeth gyda'r Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr , Mantell Gwynedd a Chymdeithasau Tai Lleol. Rydym hefyd yn cydweithio gydag amryw o fentrau cymdeithasol ac

elusennau lleol i gyd yn rhannu'r un gwerthoedd a gweledigaeth tebyg. Fel welwch o'n hystadegau mae'r galw am ein gwasanaeth yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ac felly gobeithiwn ganolbwyntio ar sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu huchafu er budd pobl ifanc.

Hoffem gydnabod a diolch i'n harianwyr am eu ffydd a'u cefnogaeth ynom yn ystod y flwyddyn. Rydym yn falch ein bod yn bodloni eu hanghenion fel comisiynwyr ac yn gobeithio y gallwn barhau i gydweithio dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r diolch mwyaf ni i'r staff. Rydym yn eithriadol o ffodus a diolchgar o'n staff hynod ymroddgar a gweithgar sydd wastad yn mynd y filltir ychwanegol er budd y bobl ifanc. Ni fyddai GISDA yn bodoli heb ein staff felly diolch o waelod calon iddynt am eu gwaith caled. Mae'r bobl ifanc hefyd wedi bod yn bleser mawr eu cefnogi a hoffwn ddiolch yn fawr iddynt am eu cyfraniad sylweddol i GISDA.

Yn olaf hoffwn ddiolch i'r Tîm Rheoli a Bwrdd Rheoli GISDA am eu hamser, cefnogaeth a'u brwdfrydedd drwy'r flwyddyn. Mae gweithio mewn tîm yn hanfodol i lwyddiant unrhyw gwmni ac rwyf yn eithriadol o falch o ffodus o bob un sydd yn chwarae eu rôl hanfodol i rediad llyfn GISDA. Edrychaf ymlaen yn fawr i gydweithio gyda chi yn ystod y flwyddyn.

Sian Elen Tomos – Prif Weithredwraig GISDA

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR YN CYNNWYS ADRODDIAD STRATEGOL CYFLWYNIAD

Mae'r ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at bwrpas Deddf Cwmnïau yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 sydd hefyd wedi eu paratoi er mwyn cwrdd gyda'r angen am adroddiad cyfarwyddwyr a chyfrifon at bwrpas Deddf Cwmnïau.

Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Elusennau 2011, Deddf Cwmnïau 2006, Erthyglau a Memorandwm y Cwmni elusennol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau". Datganiad o ymarferion cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau, Datganiad o Weithredoedd Ariannol yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102). Mae asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cofnodi ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion

STRATEGAETH 2023-2027

Mae GISDA Cyf yn falch o gyflwyno ein Strategaeth 2023-2027:

⇒ Ein Gweledigaeth

Pobl ifanc Gwynedd yn byw bywydau hapus a diogel yn rhydd o anfantais ac annhegwch
Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy 5 thema strategol

	**llais pobl ifanc yn cael ei glywed a gwrando mewn materion sy'n effeithio nhw**
	**cynyddu ein darpariaeth llety i gwrdd â'r angen cynyddol i bobl ifanc**
	**llesiant gwell i bob person ifanc mae GISDA'n cefnogi**
	**cynllun cefnogaeth wedi ei deilwra i bob person ifanc mae GISDA'n cefnogi**
	**bob person ifanc mae GISDA'n cefnogi'n uchelgeisiol yn eu dyheadau ar gyfer y dyfodol**

⇒ Ein Blaenoriaethau fel Cwmni

AMGYLCHEDD 	Glynu at yr egwyddor o economi gylchol a chefnogi'r economi leol gan ailgylchu popeth a allwn. **diweddariad 2023-2024** • adolygu trefniadau ailgylchu yn y gweithle • cynllun amgylcheddol gweithredol blynyddol yn cynnwys targedau teithio, swyddfeydd a llety
IAITH GYMRAEG 	Diweddarwyd Cynllun Iaith Gymraeg GISDA gan Comisiynydd Y Gymraeg yn 2024

	Byddwn yn parhau i fonitro a gweithredu'r cynllun i sicrhau darpariaeth gwasanaethau Cymraeg i bobl ifanc bregus a chefnogi staff i fod yn hyderus i ddarparu'r gwasanaeth **diweddariad 2023-2024** • Wedi ennill gwobr 'Arloesedd yn y Gymraeg' yng Ngwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid 2023 • Wedi apwyntio Cydlynydd Iaith Gymraeg • Holiadur defnydd iaith mewnol yn dangos bod 100% yn cytuno'r gryf bod digon o gyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith • Cynllun Datblygu'r Gymraeg wedi'i adolygu gyda chefnogaeth tîm hybu Comisiynydd y Gymraeg
CYDRADDOLDEB, CYNHWYSIANT AC AMRYWIAETH	Parhau i ddatblygu amrediad cynhwysfawr o bolisïau a chefnogaeth arloesol sy'n gwerthfawrogi a dathlu cryfderau a chyfraniad pawb gwaeth beth fo'u hunaniaeth na'u cefndir. **diweddariad 2023-2024** • Ehangu ein prosiect LHDTC+ am dair mlynedd arall gyda chefnogaeth gan Gronfa Cymunedol y Loteri • Penodi Cydlynydd Amrywiaeth a Rhywedd
LLESIANT STAFF	Mae staff yn flaenoriaeth i GISDA ac felly mae sicrhau cynllun llesiant blynyddol staff i'n cefnogi a'n galluogi i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf yn hanfodol Byddwn yn parhau i ddatblygu amgylchedd gwaith i sicrhau fod GISDA yn elusen o ddewis i weithio iddo. **diweddariad 2023-2024** • Aelod o gynllun corfforaethol Byw yn Iach. • Wedi cyrraedd y rownd derfynol yng ngwobrau Iechyd Meddwl a Lles Cymru yn 2023 • Sesiynau llesiant staff wyneb i wyneb ac ar-lein gyda Andrew Tamplin o Canna Consulting • Cwrs lles 6 wythnos gyda'r maethegydd Angharad Griffiths • Sesiynau Paned Pawb bob mis i gadw mewn cysylltiad a rhannu gwybodaeth
CYNALIADWYEDD	Bod yn fentrus wrth ddatblygu cyfleoedd newydd gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Cael y cydbwysedd cywir wrth gymryd risg - weithiau mae'n rhaid mentro i ddatblygu prosiectau llwyddiannus newydd. **diweddariad 2023-2024** • 4 fflat newydd ar gyfer pobl ifanc wedi cwblhau yng Nghaernarfon • ty newydd wedi prynu yng Nghaernarfon ar gyfer pobl ifanc profiadol o ofal

AMCANION ELUSENNOL

Yr ydym yn adolygu ein nodau, amcanion a gweithgareddau bob blwyddyn gan edrych ar beth yr ydym wedi ei gyflawni ac allbynnau ein gwaith dros y 12 mis blaenorol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau a gweithgareddau yn parhau i gyflawni ein amcanion elusennol.

Nod GISDA Cyf yw darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc a byddwn yn cyrraedd ein nod drwy gyflawni ein amcanion a darparu

⇒ llety a gwasanaethau cefnogol
⇒ gweithgareddau creadigol ac artistig
⇒ gweithgareddau therapiwtig, hamdden ac addysgiadol
⇒ cyngor a gwybodaeth
⇒ hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth i roi cymorth i bobl ifanc datblygu hyder, gwytnwch, sgiliau byw'n annibynnol, sgiliau cyflogaeth a chyfranogi yn llawn mewn cymdeithas yn rhydd o unrhyw anfantais

I gyflawni hyn byddwn yn sicrhau

⇒ llywodraethiant o ansawdd uchel
⇒ diwylliant lle bydd staff yn cael eu cefnogi a gwerthfawrogi am eu gwaith
⇒ adnoddau i flaenoriaethu 'Model Fi' sef dull therapiwtig o weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc

YSTADEGAU 2023-2024

LLYNEDD.....

623 o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth uniongyrchol
£46,868 mewn grantiau yn uniongyrchol i bobl ifanc
67 o bobl ifanc digartref neu risg o ddigartrefedd wedi byw yn llety GISDA
141 nosweithiau clwb LHDTC+ wedi gynnal
259 o staff o fudiadau ar draws Cymru wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o LHDTC+
10 person ifanc wedi cael cyfle i deithio dramor
97% o bobl ifanc yn nodi bod y gefnogaeth yn dda iawn

"Heb GISDA dwi ddim yn gwybod lle fyswn i rwan. Byswn i ar y stryd ac yn stryglo ddim yn gwybod be i neud"

"Roedd y gefnogaeth ges i gan GISDA yn amhrisiadwy i fi fel oedolyn ifanc. Ges i gymorth ganddyn nhw ac roedden nhw'n gyson yn helpu fi gyrraedd fy nodau a dysgu sut i fyw yn annibynnol. Dros y blynyddoedd oni'n derbyn cefnogaeth gan GISDA fe wnaeth fy mywyd wella'n sylweddol wrth imi ddod yn fwy annibynnol, a chyflawni rhai o fy nodau bywyd."

BUDD CYHOEDDUS

Wrth adolygu ein amcanion, gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ein gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y dyfodol yn unol a gofynion cyfreithiol Deddf Elusennau 2011 mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac yn hyderus ein bod yn darparu budd cyhoeddus sylweddol fel y dangosir yn yr adroddiad hwn.

GWERTHOEDD GISDA

Mae gwerthoedd GISDA yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithredu ac i bob dim rydym yn ei wneud

Mae GISDA Cyf yn credu mewn pobl ifanc, waeth beth fo'u hamgylchiadau, eu rhyw, eu hil, eu hanabledd na'u hymddygiad. Credwn mewn pobl ifanc sydd wedi eu cam-drin, pobl ifanc bregus a phobl ifanc heb gefnogaeth teulu. Byddwn yn eu cefnogi, yn sefyll yn gadarn drostynt ac yn ceisio sicrhau bob cyfle fel y gallent gyrraedd eu potensial mewn bywyd. Rydym yn gwneud hyn am ein bod yn credu mewn pobl ifanc. Ein nod yw gwella ansawdd bywyd a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc yn ein cymdeithas.

Rydym yn credu.....



⇒ **Gonestrwydd**
mewn darparu gwasanaeth gonest a diffuant i bobol ifanc bob amser.

⇒ **Parch, Urddas ac Empathi**
mewn parchu teimladau, credoau a hawliau pob unigolyn

⇒ **Gwrando a Chlywed**
mewn cymryd pob cyfle i wrando ar lais pobl ifanc fel ein bod yn gwybod beth sydd angen ei newid oherwydd ein bod wedi clywed beth mae nhw wedi'i ddweud wrthym.

⇒ **Tegwch**
bod pawb yn haeddu'r un cyfle ac yn cael y gefnogaeth maent eu hangen i oresgyn rhwystrau.

⇒ **Ymbweru a Galluogi**
mewn annog pobl ifanc i gredu ynddynt eu hunain a bod yn uchelgeisiol yn eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

NODAU LLESIANT

Mae GISDA Cyf yn ymrwymo i ymgorffori a mabwysiadu 7 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gyflawni ein nod ac amcanion.

Mae Nodau Llesiant GISDA Cyf yn amlinellu ein hymrwymedigaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sut mae GISDA Cyf am ymateb i'r ddeddf wrth gyflawni ein nod ac amcanion a sut fydd ein heffaith yn cael ei weld ar y genhedlaeth nesaf.

	GISDA lewyrchus Creu cyfleoedd cyffrous i baratoi pobl ifanc a chyfrannu at leihau amddifadedd ymysg pobl ifanc. Fe wnawn hynny drwy hyrwyddo cyflogadwyedd a gyrfa i bob person ifanc. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Academi Cyfleon a TAITH
	**GISDA gydnerth** Arfogi ac ymbweru'r genhedlaeth nesaf gyda'r sgiliau a'r gwydnwch i wynebu heriau bywyd. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Cymorth Tai, Gwirfoddoli, Fedraf I
	**GISDA iachach** Gwneud defnydd o safonau Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau cwmni sydd yn hybu iechyd a lles staff a phobl ifanc a mabwysiadu'r egwyddor '5 ffordd at les' **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Cymorth Tai a Fedraf I
	**GISDA sy'n fwy cyfartal** Gweithredu polisïau cyfleoedd cyfartal ym mhob rhan o'n gwaith gan ymdrechu i ddileu unrhyw rwystrau ar ffordd pobl ifanc. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Cymorth Tai a LHDTC+
	**GISDA o gymunedau cydlynus** Integreiddio pobl ifanc i'r gymuned a sicrhau lle i'r gymuned o fewn GISDA **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Gwirfoddoli, Academi Cyfleon, Creadigol a Bwrdd Pobl Ifanc
	**GISDA gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** Cynorthwyo ac ymbweru staff a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder i gyfrannu'n y Gymraeg. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Mae holl wasanaethau a phrosiectau GISDA yn cael eu darparu yn y Gymraeg
	**GISDA sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** Ymrwymo i chwarae ein rhan i leihau ein ôl troed carbon a gweithredu ein polisïau amgylcheddol. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosect Caffi Creu a Chynllun Gweithredol Amgylcheddol Blynyddol

CYFLAWNIADAU A GWEITHGAREDDAU 2023-2024

⇒ HYBIAU POBL IFANC – TRECHU TLODI

Mae GISDA wedi sefydlu tri hwb ar draws Gwynedd i gefnogi pobl ifanc, gan bwysleisio pwysigrwydd rhyngweithio wyneb yn wyneb a darparu mannau diogel iddynt dderbyn cymorth. Mae ein hybiau, sydd wedi'u lleoli yng Nghaernarfon, Blaenau Ffestiniog, a Phwllheli, yn cynnig mynediad i ystod eang o wasanaethau cymorth, gwybodaeth, gweithgareddau a grantiau.

Ar gael mae cefnogaeth a chyngor ar llety, budd daliadau, cyllidebu, gwaith ag addysg, iechyd meddwl, y gymuned a mwy. Mae'r gefnogaeth yma yn gymorth sydyn ar unwaith ag yn angenrheidiol i bobl ifanc mewn sefyllfa argyfwng.
Yn ychwanegol i hyn mae'r hybiau yn cynnig amryw o gefnogaeth ariannol i bobl ifanc mewn argyfwng.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf roedd gwerth £46,868 o grantiau wedi rhoi yn uniongyrchol i bobl ifanc mewn angen.

Cronfa Glasspool
Mae GISDA yn falch o gyhoeddi ein bod wedi cael ein dewis fel partner cymeradwy Glasspool. Pwrpas y rhaglen yw cynyddu lles ariannol a lleihau tlodi. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu rhoi grantiau hyd at £500 i unigolion mewn angen.

Banc data cenedlaethol
Partner Good Things Foundation sydd yn ein galluogi i roi cerdyn SIM ffon am ddim i bobl ifanc sydd wedi'u hallgau'n ddigidol.

Talebau Ynni
Partner i Fuel Bank Foundation sydd yn ein galluogi i roi talebau ynni i bobl ifanc mewn crisis ynni oherwydd y cynnydd mewn costau byw.

Banc Bwyd
Mae modd i bobl ifanc derbyn taleb banc bwyd o'r hybiau er mwyn derbyn pecyn bwyd o'r banc lleol.

Cronfa Cymorth Ddewisol (DAF)
Mae GISDA yn bartner sydd yn gallu ceisio am arian gan Lywodraeth Cymru i helpu pobl ifanc gyda chostau hanfodol megis bwyd, nwy, trydan, dillad mewn argyfwng ynghyd a grantiau penodol i gefnogi pobl ifanc i symud mewn i gartref am y tro cyntaf.

Gwytnwch Bwyd
Cydweithio gyda Phlant Mewn Angen i ddarparu pecynnau bwyd iach ac offer coginio bach i gefnogi unigolion o dan 18 neu rieni ifanc i gynyddu eu gwytnwch bwyd.

Grant Cymorth i Waith
Trwy ein prosiect Academi Cyfleon mae gan bobl ifanc mynediad at grantiau ar gyfer symud ymlaen i waith sydd yn cynnwys arian tuag at ddillad i gyfweliad, trafnidiaeth, offer neu wisg a mwy.

TAI A CHEFNOGAETH
⇒ CYMORTH TAI

Mae ein prosiect Cymorth Tai yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc sydd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Dyma'r mwyaf o ein prosiectau yma yn GISDA ac mae'n darparu cefnogaeth i 62 o bobl ifanc ar draws Gwynedd ar unrhyw un adeg.

Mae'r unedau hyn yn lletya ac yn darparu cartref i dri deg un o bobl ifanc. Mae 26 o'r rhain yn sengl, a phump yn deuluoedd sy'n cael eu cefnogi mewn tai teulu. Rydym hefyd yn cefnogi tri deg un o bobl ifanc eraill yn ein cymunedau gydag atgyfeiriadau yn dod o bob ardal yng Ngwynedd.

269 o bobl ifanc digartref neu mewn risg o ddigartrefedd wedi cael eu cefnogi

- **52%** o bobl ifanc yn ddigartref oherwydd toriad perthynas
- **48%** o bobl ifanc mewn B&B neu yn "sofa surfing" ar bwynt cyfeirio – hyn yn gynydd o 7% ers 2022-2023.

Anghenion pobl ifanc

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn heriol iawn gyda anghenion pobl ifanc am ein gwasanaeth Cymorth Tai yn parhau i gynyddu. Mae nifer o bobl ifanc gyda anghenion iechyd meddwl yn parhau i fod yn uchel ar 79% sydd bryderus iawn ac yn heriol i staff. Rydym hefyd wedi gweld cynydd yn y nifer o bobl ifanc sydd yn dod atom o dan 18. Yn y cyfnod hwn roedd 59% o bobl ifanc yn 16 neu 17 ar bwynt symud i mewn i'r hostel

- **100%** o bobl ifanc gydag anghenion llety
- **79%** o bobl ifanc gydag anghenion iechyd meddwl
- **32%** o bobl ifanc yn ein llety cefnogol yn unieithu fel LHDTC+
- **27%** o bobl ifanc yn rhieni

Effaith

- **97%** yn nodi bod y gefnogaeth yn dda iawn
- **98%** yn nodi eu bod yn gallu cyfathrebu am unrhyw fater
- **100%** yn nodi bod GISDA wedi eu helpu i reoli llety
- **75%** yn nodi bod GISDA wedi eu helpu i fyw bywyd iach
- **86%** yn nodi bod GISDA wedi eu helpu i reoli eu iechyd meddwl

"The support I was given when I was under GISDA's support proved invaluable to me as a young adult. They gave me advice and constantly helped me to achieve my goals and helped me in learning how to live independently. Over the years I was supported by GISDA my life improved dramatically as I gained independence, as well as achieved some of my life goals. "

"Mae fy Ngweithiwr Allweddol yn hyfryd ac wedi cynnig yr holl gefnogaeth y gall hi i mi. Rwy'n hynod ddiolchgar am faint mae hi/Gisda yn fy helpu."

"I enjoy being able to come to the Gisda office to socialise with staff & having the freedom to chat about anything & everything without judgement"

"Do you know how grateful I am that you came to work at GISDA because not only have you helped me so much and that and would probably be dead without you but you're like my little mentor too. You do so much stuff with me and I'm forever grateful for that not seriously I am so grateful and thankful to you that I can't even express in words how I'll ever repay you for helping me."

⇒ ÔL OFAL

Gall gadael gofal fod yn un o'r cyfnodau anoddaf ym mywyd person ifanc, felly mae'n hanfodol eu bod wedi'u paratoi'n briodol ac yn barod ar gyfer yr her.

Ariennir y gwasanaeth hwn gan Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Mae'r prosiect yn cynnig cefnogaeth i unigolion rhwng 16 a 25 mlwydd oed sydd wedi bod dan ofal yr Awdurdod Lleol a ble mae cyfrifoldeb i barhau i'w cefnogi wedi iddynt adael eu lleoliad gofal. Mae'r cynghorwyr personol yn cynnig cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i baratoi'r person ifanc ar gyfer y eu taith i fod yn oedolion annibynnol. Bydd bob person ifanc yn derbyn cynllun llwybr sydd yn canolbwyntio ar lety, addysg, hyfforddiant, iechyd, teulu, perthnasoedd cymdeithasol a'u hawliau. Mae'r gweithiwr addysg a chyflogaeth yn sicrhau bod y bobl ifanc yma sydd yn gadael gofal yn cael y gefnogaeth ychwanegol i'w cefnogi i barhau i gadw eu gwaith, mynychu coleg neu unrhyw hyfforddiant

- **130** yn derbyn cefnogaeth ar unrhyw un tro
- **63%** o unigolion yn byw yng Ngwynedd
- **4** person ifanc wedi derbyn cefnogaeth yn ein tai ôl ofal

⇒ RHIENI IFANC

Mae ein prosiect rhieni ifanc yn darparu cefnogaeth i rieni ifanc 16-25. Ariannwyd y prosiect gan Garfield Weston Foundation.
Mae ein gweithwyr cymorth yn hyrwyddo hawliau rhieni ifanc, eu grymuso a'u cefnogi wrth weithio i godi eu hyder, ac yn eu cynorthwyo gyda gwahanol broblemau. Mae'r gweithwyr cymorth yn cynnal sesiynau un-i-un ac yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr ac ymwelydd iechyd pan fo angen. Maent hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau ceisiadau grant amrywiol i helpu'r bobl ifanc i fynychu coleg neu gael help gyda chostau teithio neu ofal plant. Er bod adnoddau o fewn y prosiect yn gyfyngedig, mae gwaith ein staff wedi bod yn rhagorol.

- **68** o rieni ifanc wedi derbyn cefnogaeth
- **10** o rieni ifanc wedi derbyn llety cefnogol
- **11** grwp rhieni wedi cynnal

"Had so much help from 1 person and taught me life skills to deal with issues that I will definitely use!! Thanks"
"Rwyf wedi cael llawer o gefnogaeth o gael tŷ i chwilio am swyddi, dangos i mi sut i dalu biliau a chwilio am ofal plant."

Profiad rhiant ifanc – erbyn rwan mae'r person ifanc isod wedi derbyn cartref ac rydym wedi ei chefnogi gyda grantiau i symud i mewn a darparu cefnogaeth barhaus i'w gefnogi i fyw bywyd annibynnol a hapus!

"Helen made sure I was ok every week, and I knew I could pick the phone and call her when I needed to. No one else cares about me or can offer such support. No one else understands how difficult my situation is and I would give anything to be able to find a safe home for me and my daughter. Moving from one B&B to another is no joke. I don't want to be in this situation but I've no choice. I have to move again and again without notice and it isn't fair. Helen helps me sort these moves and helps me with what needs to be done next. She has supplied me with boxes to help with moving and has also taken me shopping, for a cuppa or just for a walk and a chat – especially when I was stuck in a Travelodge near the A55, pregnant and with a 1-year-old.

Helen helped me move to Felinheli – away from the A55. It's difficult because there are no hoses out there. Loads of places are filled with older people or those with drug and alcohol problems or coming out of jail. It's horrible being surrounded by these types of people.

Helen has been there for us more than our family have. She knows my baby better than anyone in my family.

I am so looking forward to getting my own place where we can be a family. My babies have never had this because we've had to move around so much. What's comforting to know is that Helen is there to support me to achieve this."

⇒ PROSIECT LHDTC+

Sefydlwyd clwb LHDTC+ GISDA yn 2017. Roedd hi wedi bod yn amlwg ers rhai blynyddoedd bod canran uchel o bobl ifanc oedd yn cael eu cyfeirio at brif wasanaeth digartrefedd GISDA yn bobl ifanc o'r gymuned LHDTC+ ond nid oedd cefnogaeth benodol ar eu cyfer. Erbyn hyn mae'r prosiect wedi mynd o nerth i nerth gyda chlybiau wedi eu sefydlu yng Nghaernarfon, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog ynghyd a chynorthwyo a chynghori ysgolion a chymunedau i gychwyn clybiau eu hunain!

Yn ychwanegol i'r clybiau mae'r prosiect yn cynnig cefnogaeth ar faterion LHDTC+ i bobl ifanc ag i brosiectau eraill o fewn GISDA. Maent hefyd wedi bod yn gweithio i godi ymwybyddiaeth ar draws y sir!

Cronfa Gymunedol y Loteri sydd wedi ariannu'r prosiect am y ddwy flynedd diwethaf ag rydym wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn arian o'r gronfa Pawb a'i Le i barhau am y 3 mlynedd nesaf!

- ✓ **58 aelodau cyson i'r clybiau**
- ✓ **51%** yn uniaethu yn cisryweddol
- ✓ **48%** yn uniaethu fel trawsryweddol, anneuaidd
- ✓ **1%** heb ateb/ddim yn siŵr
- ✓ **21** unigolyn wedi derbyn cefnogaeth 1:1
- ✓ **141** o glybiau ieuenctid wedi cynnal
- ✓ **10** gwirfoddolwr

"I've found myself feeling much less isolated, since it's nice to be around a group of people who consider my mental health, and also I have been able to made changes at my school with GISDA which makes my experiences at school much easier."
"Mae'n lle da i hangio allan efo pobl tebyg, maen gofod judgment free. Dw i wedi mwynhau y sesiynau creadigol fel y cerddoriaeth a podcast"
"Heb GISDA, fydda bethau'n shit. Bydda ei iechyd meddwl nhw'n isel, unig, isolated, marginalised, bydda'r physicalness dal yna. Rŵan mae gobaith. Maen nhw mor hapus i ddod yma, maen nhw'n uniaethu efo'r lleil".
"Bydda'n rhaid mynd i Gaer/Manceinion i gael cefnogaeth clinig heblaw bod GISDA yma. Da ni'n byw ynghanol 'nunlle ac maen nhw'n eithaf socially anxious yn gyffredinol. Mae o'n big deal bod nhw wedi dod yma o gwbl." – Rhiant unigolyn.

Hyfforddiant

- **259** o staff mewn sefydliadau ar draws Cymru wedi derbyn hyfforddiant
- **96%** yn graddio y gwybodaeth yn dda neu yn arddercho

"Diolch. Hynod ddefnyddiol. Digon o waith meddwl a hefyd ysgogiad i wneud mwy o ymchwil fy hun ond hefyd ymwybodol o gysylltiadau gall helpu" - Trefnydd Theatr Ieuenctid, Urdd

⇒ ICAN || FEDRA'I

Mae Hwb ICAN GISDA yn darparu cymorth cynnar, therapiwtig a hawdd i bobl ifanc 16 i 25 sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl a'u lles. Mae'r hwb yn cefnogi ac yn ategu at wasanaethau arbenigol y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Drwy'r cynllun yma gallwch gael mynediad i amryw wasanaethau yn cynnwys.

⇒ Gweithdai amrywiol
⇒ Cefnogaeth 1:1
⇒ Hybiau galw mewn
⇒ Cyfeirio ymlaen
⇒ Ymyraethau therapiwtig
⇒ Hyfforddiant ymwybyddiaeth o hunan laddiad

265 unigolyn wedi derbyn cefnogaeth

166 o gyfeiriadau wedi derbyn

- **43%** gan wasanaethau iechyd meddwl
- **21%** yn hunan gyfeiriadau
- **16%** o brosiectau eraill GISDA
- **20% o:** gwasanaeth prawf, meddyg teulu, gwasanaethau cymdeithasol, teulu a ffrindiau, adran ddigartref, asiantaeth tai, sefydliadau addysg, mudiadau 3ydd sector

Ar bwynt cyfeirio:

- **100%** gydag anghenion iechyd meddwl
- **69%** gyda diagnosis iechyd meddwl
- **56%** mewn risg o hunan niweidio a/neu hunan laddiad
- **86%** wedi gweld meddyg teulu am eu hiechyd meddwl
- **34%** wedi mynd i'r ysbyty gyda'i iechyd meddwl

Effaith cefnogaeth

- **70% yn nodi bod eu hiechyd meddwl a lles wedi gwella**
- **59% yn nodi eu bod yn gallu ymdopi'n well efo sefyllfaoedd anodd**
- **77% wedi nodi eu bod yn fwy ymwybodol o'r gefnogaeth ar gael**

"The support I've received from Gisda has been life-saving. I don't know where I would be without their support. Their regular activities (which I enjoy) get me out of the house and have increased my confidence. The staff are lovely and I find myself having a laugh and feel relaxed every time."

CYFLEON ADDYSG, GWAITH A HYFFORDDIANT

⇒ ACADEMI CYFLEON

Mae'r Academi Cyfleon yn cefnogi pobl ifanc sydd yn aml bellach i ffwrdd or farchnad gwaith. Rydym yn gweithio gyda'r unigolyn i greu cynllun llwybr clir i adnabod gwahanol ffyrdd o arfogi'r unigolyn gyda'r sgiliau, hyder a / neu gymwysterau i'w galluogi i symud ymlaen o gefnogaeth i fyw yn annibynnol ac i gyflogaeth.

- Cefnogaeth cyflogadwyedd
- Gweithgareddau i godi hyder
- Sgiliau cyflogadwyedd - creu CV, sgiliau cyfweld, sut i ymddwyn yn y gwaith
- Profiad gwaith a gwirfoddoli
- Cefnogaeth i symud ymlaen i swyddi, addysg, hyfforddiant
- Gweithdai sgiliau byw'n annibynnol: rheoli amser, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, hylendid personol, coginio a mwy!

130 o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth
155 o sesiynau byw'n annibynnol a chyflogadwyedd wedi cwblhau
192 sesiynau hyfforddiant ac achrediadau wedi gwblhau
87% o bobl ifanc wedi nodi cynnydd yn eu sgôr cyflogadwyedd cyffredinol

- **54%** yn nodi cynnydd mewn hyder
- **74%** yn nodi cynnydd mewn sgiliau cyflogadwyedd
- **47%** yn nodi cynnydd yn eu cymhelliant

⇒ GWIRFODDOLI

Mae gwirfoddoli wedi dod yn rhan hanfodol a bwysig iawn o GISDA yn y blynyddoedd diwethaf. Dros y prosiect hwn rydym wedi annog pobl ifanc i wirfoddoli ymysg ein prosiectau yn cynorthwyo gyda gwaith LLAIS, creu ymgyrchoedd, gweithgareddau amgylcheddol, cynnal sesiynau, cynorthwyo staff gyda gweithdai, mentora cyfoed a mwy. Rydym hefyd wedi canolbwyntio a'r geisio annog pobl ifanc i wirfoddoli yn y gymuned. Credwn fod hyn yn hynod o bwysig er mwyn integreiddio'r bobl ifanc i'r gymuned leol a chreu cysylltiadau newydd.
Rhan bwysig o'r prosiect hefyd ydy gwirfoddolwyr allanol yn rhoi eu hamser i GISDA er budd pobl ifanc. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cael gwirfoddolwyr yn: cynnal sesiynau cwnsela, sesiynau therapi celf, garddio, gwnïo, gweu, darparu cefnogaeth emosiynol a mwy.

- **105** o bobl wedi gwirfoddoli
- **1948** o oriau gwirfoddoli

"GISDA helped me find my voice, now I volunteer to help others find theirs. Together, we're not just changing lives; we're shaping futures and building a community where every voice matters."

⇒ TAITH

Rydym wedi bod yn hynod o ffodus o dderbyn cefnogaeth gan Taith i gynnig cyfleoedd teithio i bobl ifanc bregus. Mae Taith yn brosiect sydd dwy flynedd; yn yr amser hwn rydym yn gallu cynnig cyfle i'n pobl ifanc deithio i'r Ffindir, Gwlad Pwyl, Efrog Newydd a Chernyw.

Mae Taith yn rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol a sefydlwyd i greu cyfleoedd sy'n newid bywydau pobl yng Nghymru i astudio, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio ym mhedwar ban y byd. Mae'r rhaglen wedi ymrwymo i wella mynediad i bobl ag anableddau, anghenion dysgu ychwanegol, grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a phobl o gefndiroedd difreintiedig.

- Teithiau i **Efrog Newydd, Gwlad Pwyl, Cernyw ac Ynys Enlli**
- **12** person ifanc wedi teithio dramor
- **8** aelod staff wedi gael cyfleon teithio
- **3** unigolyn wedi cymryd rhan mewn podlediad TAITH
- **2** o bobl ifanc wedi cyflwyno eu profiad nhw o TAITH yng Nghynhadledd Gwaith Ieuenctid yng Nghaerdydd

"Roedd mynd i Efrog Newydd yn brofiad bythgofiadwy i fi. Roedd o'n hwyl dysgu am sut oedd ein profiadau yn debyg ac yn wahanol, er ein bod wedi tyfu fyny mewn llefydd mor wahanol"

"Fe wnaeth y trip ddysgu gymaint i fi am fy hun. oni filltiroedd allan o fy comfort zone. Dwi'n fwy abl na dwi'n feddwl ac mae o wedi rhoi mwy o annibyniaeth i fi"

CYFRANOGI A CHREADIGOL

⇒ GISDA CREADIGOL

Mae gwaith creadigol yn ddull therapiwtig sydd yn caniatáu'r bobl ifanc i fynegi eu hunain a'u teimladau. Rydym yn credu yn gryf mewn darparu cyfleoedd creadigol i bobl ifanc felly rydym wedi buddsoddi mewn tîm: GISDA CREADIGOL.

Mae ein gweithgareddau celfyddydol amrywiol yn annog pobl ifanc i fynegi eu hunain a'u teimladau mewn ffordd greadigol anffurfiol. Mae GISDA yn credu yn gryf mewn rhoi amryw o gyfleoedd blasu a chyfleoedd tymor hir i bobl ifanc allu magu hyder, ennill sgiliau newydd, ehangu eu gorwelion a chyfarfod eraill!

Mae Plant mewn Angen yn ariannu prosiect NABOD sydd yn brosiect ar y cyd gyda FRANWEN. Mae 'Nabod yn brosiect hir dymor fydd yn cynnig cyfleoedd amrywiol i bobl ifanc i gyd-greu theatr sy'n dyrchafu llais yr unigolyn ac sy'n ennyn newid cymdeithasol.

- **38** sesiwn NABOD
- **15** clwb ar ôl ysgol
- **86** sesiwn creadigol amrywiol
- **2** Gig GISDA

Wedi cydweithio a chynnal sesiynau mewn partneriaeth gyda:

- Franwen
- CARN
- Cerdd Cymunedol Cymru
- Eisteddfod Genedlaethol
- Cyngor Gwynedd

- Gwynedd Creadigol
- Llenyddiaeth Cymru
- Canolfan Gerdd Wiliam Mathias
- Llety Arall
- Galeri Caernarfon
- Artistiaid amrywiol (Rhys Grail, Lleucu Non, Martin Daws, Hedydd Ioan, Ann Catrin a Lois Prys)
- Ysgolion: Dyffryn Nantlle, Dyffryn Ogwen, Botwnnog, Glan y Mor, Brynrefail, Tryfan

⇒ CAFFI CREU

Nôd prosiect Caffi Creu ydy codi ymwybyddiaeth o leihau gwastraff a'r economi gylchol drwy weithdai, mentrau ac ymgyrchoedd ar ailddefnyddio, ailgylchu ac ail-greu. Mae'r prosiect yn anelu at addysgu pobl ifanc y dyfodol a'u harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fabwysiadu ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol.

- **95** sesiwn amgylcheddol
  - **33** sesiwn lleihau gwastraff
  - **18** sesiwn lleihau gwastraff bwyd
  - **28** sesiwn codi ymwybyddiaeth o defnyddio gwastraff fel adnodd-
- **202** o bobl ifanc wedi mynychu sesiwn

⇒ LLAIS POBL IFANC

Mae LLAIS yn un o nodau strategol GISDA ac rydym yn sicrhau bod llais pobl ifanc yn ganolog i'r gwaith, bod y llais yna'n cael ei glywed a'un bod yn cyd -ynhyrchu syniadau newydd!

Rydym yn cyflogi Swyddog Ymgynghori a Llais sydd yn cynnal ein Bwrdd Pobl Ifanc.

- 35 cyfarfod bwrdd pobl ifanc wedi'u cynnal
- Gweithio gyda Phrifysgol Bangor ar bodlediad am brofiadau pobl ifanc bregus
- Ymweliad gan Gomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru
- Sesiwn 'Democratiaeth i Bawb' yn Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy oedd wedi'i ariannu drwy Gronfa Celf Siaradwr Senedd y DU, sydd yn annog prosiectau ymgysylltu creadigol er mwyn hybu dealltwriaeth o ddemocratiaeth
- Ymweliad gan Swyddog Addysg ac Ymgysylltu'r Senedd
- Hystings i'r Etholiad Cyffredinol yn 2024
- Ymateb i ymgynghoriadau allanol
- Person ifanc yn cynrychioli GISDA ar Senedd Ieuenctid Cymru

GWOBRAU AC ACHREDIADAU

⇒ **GWOBRAU RHAGORIAETH GWAITH IEUENCTID 2023**
GISDA yn falch o fod wedi ennill gwobr 'Arloesedd yn y Gymraeg mewn Gwaith Ieuenctid'

⇒ **GWOBRAU IECHYD MEDDWL A LLESIANT CYMRU 2023**
Gwobr arian am Wasanaeth Cefnogi Iechyd Meddwl orau

⇒ **GWOBRAU CELF A DIGARTREFEDD RHYNGWLADOL 2023**
Pencampwr Cyd-Gynhyrchu y flwyddyn

ADOLYGIAD ARIANNOL

Archwiliwr Cofrestredig sy'n archwilio cyfrifon yr Elusen. Mae'r cyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â gofynion a osodwyd gan Ddeddfwriaethau Elusennau a Chwmnïau, ac yn rhoi adroddiad cryno a chlir o sefyllfa ariannol a gweithgareddau'r Elusen. Cyhoeddir adroddiad blynyddol sydd yn cael ei ddosbarthu yn ôl y gofyn ar ôl iddo gael ei dderbyn yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Mae GISDA yn comisiynu'r gwasanaeth hwn bob 3 blynedd ac yn mynd allan am dendr i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

⇒ INCWM A GWARIANT

Gwelwyd bod costau cyflogi a chynnal y cwmni wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y flwyddyn, serch hynny llwyddwyd i orffen y flwyddyn ariannol gyda swm penodol o syrffed anghyfyngedig. Ar y cyfan roedd yr incwm yn weddol gyson gyda'r flwyddyn ariannol flaenorol. Bu'r Tîm Rheoli yn edrych ar ffyrdd o leihau gorbenion a lleihau risg o or ddibynnu ar ffrydiau grantiau penodol. Mae'r bwrdd yn ymwybodol o'r cynnydd yng nghostau gweithredu, megis costau ynni a chyflogaeth ac wedi cymeradwyo cyllideb briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.

⇒ CRONFA WRTH GEFN

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi adolygu anghenion yr elusen o ran yr hyn y dylid ei gadw wrth gefn o ystyried y prif heriau y mae'n ei wynebu. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu polisi sy'n dweud y dylid cadw digon i allu rhedeg y cwmni am dri mis os daw y cwmni i ben. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r gronfa wrth gefn ddwywaith y flwyddyn mewn cyfarfodydd Bwrdd Rheoli. Mae'r Trysorydd a'r Rheolwr Cyllid yn ystyried incwm a gwariant am y flwyddyn flaenorol ac yna'n cyflwyno eu hargymhellion ynglŷn â'r hyn y dylai fod wrth gefn. Fe fydd unrhyw benderfyniadau ar gyllidebau yn ystyried anghenion y gronfa wrth gefn. Mae cynnal y gronfa yma yn ofynnol er mwyn galluogi sicrwydd sydd yn hybu cyrff allanol i fuddsoddi gan, felly, greu cynaliadwyedd i GISDA. Nid oes modd dibynnu ar y gronfa hon mewn unrhyw ffordd gan mai cronfa ar gyfer un sefyllfa yn unig yw hi – sef caniatáu'r cwmni i barhau am gyfnod byr er mwyn dod a'r cwmni a'i holl weithgareddau i ben. Byddai'r gronfa wrth gefn, hefyd, yn caniatáu'r cwmni i barhau i gyrraedd ei rwymedigaethau ariannol am dri mis. Y lefel presennol o arian rhydd wrth gefn i GISDA Cyf ar ddiwedd Mawrth 2024 yw £707,905.

RISGIAU A HERIAU

Mae GISDA wedi parhau i wynebu risgiau a heriau dros y flwyddyn diwethaf yn dilyn cyfnod y pandemig covid a'r effaith mae hynny wedi cael ar iechyd a llesiant staff, iechyd a llesiant y bobl ifanc rydym yn eu cefnogi a'r effaith mae hynny wedi ei gael ar ein gallu i gynnal gweithgareddau.

Ein hymagwedd at yr heriau hyn a'r holl risgiau mae GISDA yn eu wynebu yw blaenoriaethu ein bod yn gallu parhau i gyflwyno ein gwasanaethau yn effeithiol gan ddiogelu ein staff a'r bobl ifanc rydym yn eu cefnogi.

Mae gan GISDA gofrestr risg cynhwysfawr sy'n cyfeirio at nifer o gategorïau risg yn cynnwys llywodraethiant, cyllid, cydymffurfiaeth cyfreithiol, iechyd a diogelwch, adnoddau dynol a gwasanaethau. Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn gosod archwaeth risg ar gyfer pob un o'r

categorïau ac yna'n sgorio'r risgiau o fewn y categorïau yn ôl eu tebygolrwydd ac effaith cyn benderfynu ar ba gamau y dylid eu cymryd i drin a monitro'r risgiau hynny. Mae'r gofrestr yn cael ei graffu'n rheolaidd gan y Tim Rheoli, yr Is-banel Staffio, Llywodraethiant a Busnes a'r Bwrdd Rheoli.

CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

⇒ 'LLE DA' – Caernarfon

Buom yn llwyddiannus ar y cyd gyda Cyngor Gwynedd i ddenu arian grant sylweddol gan Llywodraeth Cymru ac arian Cyngor Gwynedd i adnewyddu ein prif swyddfa ar y Maes yng Nghaernarfon yn ogystal a'r adeilad drws nesaf sef NatWest. Bydd 'Lle Da' yn datblygu 4 prif elfen er budd pobl ifanc lleol

- 4 Fflat i bobl ifanc fyw ynddynt
- Caffi hyfforddi a datblygu sgiliau pobl ifanc
- Gofod aml asiantaethol i ddarparu popeth o dan un to i bobl ifanc
- Swyddfeydd newydd i staff

Cwblhawyd Gwedd 1 yn ystod dechrau 2021 sef sicrhau bod y to, y cefn a'r ffenestri yn iawn. Fe lanhawyd blaen yr adeilad a pheintio un ochor fel bod y ddau adeilad yn edrych yn lan a thaclus o'r tu allan. Cwblhawyd gwedd 2 ym mis Gorffennaf 2023 a Gwedd 3 ym mis Tachwedd 2023. Mae peth oedi wedi bod wrth baratoi y tendr ar gyfer y gwedd olaf sef y llawr gwaelod yn bennaf oherwydd diffyg arian. Rydym yn gobeithio y bydd y tendr olaf yn mynd allan ym mis Gorffennaf 2024 er mwyn symud ymlaen i orffen y prosiect.

⇒ PARTNERIAETHAU

Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaid yn fawr iawn, mae'r gwerth maent yn cyfrannu atom fel cwmni yn amhrisiadwy. Ni allwn ddarparu dim heb weithio ar y cyd ac mae mewnbwn pawb yn bwysig. Mae GISDA yn cydnabod ein cryfder ac yn tynnu ar eraill sydd gyda cryfderau gwahanol fel y gallwn ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth. Dyma gydnabod yn ffurfiol ein Rhanddeiliaid a Phartneriaid. Rydym yn ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad yn fawr iawn boed hynny drwy gyd weithio, ariannu, rhannu arbenigedd neu cefnogi ein gwaith. Diolch.

- Cyngor Gwynedd
- Llywdodraeth Cymru
- Cymdeithas Tai Grŵp Cynefin
- Cymdeithas Tai ADRA
- Heddlu Gogledd Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Prawf a Chyfiawnder Ieuenctid
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU
- Mantell Gwynedd
- Urdd Cymru
- Cronfa Loteri Cymunedol
- Plant Mewn Angen BBC
- Frân Wen

- WCVA
- Garfield Weston
- Shelter Cymru
- Cyngor ar Bopeth
- Banciau Bwyd
- Coleg Llandrillo Menai
- Senedd Ieuenctid Cymru
- Prifysgol Bangor
- Antur Waunfawr
- Dref Werdd
- Storiel
- M-Sparc
- Amgueddfa Cymru
- PACT Gogledd Cymru
- Cerdd Cymunedol Cymru
- Moondance
- Galeri Caernarfon
- Pontio Bangor
- RCS
- Felin Fach
- Sefydliad Cymunedol Cymru
- Sylfaen Cymunedol, Caernarfon

MANYLION GWEINYDDOL
Strwythur, Llywodraethiant a Rheolaeth

⇒ **Dogfen Llywodraethiant**

Mae GISDA yn gwmni cyfyngedig trwy warant a lywodraethir gan ei Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu dyddiedig 18.06.2018. Mae GISDA hefyd yn elusen sydd wedi'i chofrestru gyda'r comisiwn elusennau

⇒ **Aelodau Bwrdd**

Mae'r aelodau bwrdd yn gyfarwyddwyr y cwmni ac yn ymddiriedolwyr elusen ac yn cael eu hethol yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Yr aelodau bwrdd hefyd yw aelodau'r cwmni. Mae'n ròl gwirfoddol a heb unrhyw fudd ariannol o'r elusen

⇒ **Cyfrifoldebau**

Yr aelodau bwrdd sydd yn rheoli busnes yr elusen ac maent yn gyfrifol am:

- Gydymffurfiad â Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.
- Gydymffurfiad â deddfwriaeth a safonau a osodwyd gan ein deiliad diddordeb.
- Sicrhau fod y Cwmni yn gweithredu gwerth gorau ym mhob agwedd o'i waith.
- Atebolrwydd i ddeiliad diddordeb drwy fonitro safon y gwasanaethau a ddarperir a sicrhau bod pob agwedd o'r gwaith yn cael ei reoli yn effeithiol.

⇒ **Recriwtio Ymddiriedolwyr**

Mae GISDA yn gweithredu trefn recriwtio agored a theg er mwyn ceisio denu amrediad eang o gefndiroedd, sgiliau a phrofiadau i'r elusen. Mae apwyntiadau yn cael eu gwneud am gyfnod o dair blynedd gyda'r posibilrwydd o ail etholiad am gyfnod o dair blynedd pellach. Wrth recriwtio mae GISDA yn ystyried unrhyw sgiliau arbennig sydd angen yn dilyn awdit sgiliau blynyddol

⇒ **Anwythiad Ymddiriedolwyr**

Mae pob ymddiriedolwr newydd yn dilyn rhaglen anwytho sy'n cynnwys

- pecyn anwytho a llawlyfr ymddiriedolwyr
- ymweliad gyda'r Prif Weithredwr i holl swyddfeydd, prosiectau a hosteli GISDA
- hyfforddiant diogelu ac unrhyw hyfforddiant arall sydd ei angen.

⇒ **Trefniadau Bwrdd Rheoli**

Mae'r Bwrdd yn gallu cynnwys i fyny at 12 o ymddiriedolwyr ac yn cyfarfod yn ddeu fisol neu'n amlach os oes angen. Maent hefyd yn cynnal diwrnod strategol yn flynyddol

⇒ **Is-baneli**

Mae'r ymddiriedolwyr wedi sefydlu 3 is-banel i gynorthwyo efo rheoli gwaith y Bwrdd sef

- is-banel cyllid ac asedau
- is-banel gwasanaethau a phrosiectau
- is-banel staffio, llywodraethiant a busnes

Mae'r is-baneli yn cyfarfod yn ddeu fisol i graffu materion o fewn eu cylch gorchwyl ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd llawn efo argymhellion.

Polisïau

Mae gan GISDA cyfres o bolisïau i gyd-fynd efo'r amrediad o wasanaethau, prosiectau a busnes mae'r elusen yn ei weithredu ac rydym yn ychwanegu at y polisïau hyn yn ôl yr angen. Mae'r polisïau yn cael eu hadolygu a diweddaru yn rheolaidd.

Adnoddau Dynol

Mae GISDA yn cydnabod mai ei staff yw prif adnodd yr elusen ac yn parhau i ddatblygu, cryfhau a gweithredu polisïau, gweithdrefnau a threfniadau adnoddau dynol i greu diwylliant gwaith lle mae staff yn teimlo'n iach a diogel a bod eu gwaith ac yn cael ei werthfawrogi.
Yn fwy nag erioed yn dilyn cyfnod mor heriol rydym wedi bod yn rhoi llawer o bwyslais ar lesiant a diogelwch staff a sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y gefnogaeth maent eu hangen i sicrhau eu bod yn medru cyflawni eu gwaith er lles y bobl ifanc rydym yn eu cefnogi.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd Rheoli mewn perthynas â'r Datganiadau Ariannol

Mae gofynion Deddf Cwmnïau yn gorfodi'r Bwrdd Rheoli i baratoi adroddiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sydd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae'r Bwrdd Rheoli yn dilyn gwerth gorau ac yn (1) dewis polisïau cyfrifeg addas a'u gweithredu yn gyson a (2) gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a doeth a (3) pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw os nad yw'n anaddas i ystyried bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.
Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg addas sy'n datgan gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw amser sefyllfa ariannol cwmni elusennol ac sydd yn sicrhau bod yr adroddiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r Bwrdd Rheoli hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly'n cymryd camau priodol i rwystro ac adnabod twyll ac anghysondebau eraill.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Mae Aelodau'r Bwrdd Rheoli am y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad wedi eu nodi ar dudalen 1. Maent yn gyfarwyddwyr o dan Ddeddfwriaeth Cwmnïau ac yn ymddiriedolwyr o dan Ddeddfwriaeth Elusennol. Mewn cytundeb â Deddf Cwmnïau, fel cyfarwyddwyr y cwmni, rydym yn datgan:

- Cyn belled a gallwn wybod, nid oes unrhyw wybodaeth ar gyfer yr archwiliad perthnasol nad ydym yn ymwybodol ohono
- Fel cyfarwyddwyr y cwmni, rydym wedi cymryd holl gamau angenrheidiol i sicrhau ein bod ni ac archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol o'r holl wybodaeth archwiliad perthnasol.

Archwilwyr

Ail-apwyntiwyd W.J.Matthews & Son fel archwilwyr y cwmni elusennol yn ystod y flwyddyn ac maent wedi nodi eu parodrwydd i barhau i wneud hynny.
Drwy orchymyn y Bwrdd ar 11.07.24 ac wedi arwyddo ar ei ran gan :

	Mrs Llinos Owen (Cadeirydd)

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau GISDA Cyfyngedig

Barn

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol GISDA Cyfyngedig am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2024 sydd yn cynnwys y datganiad o weithredoedd ariannol, y fantolen, y datganiad ynghylch llif arian a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102, 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2023, ac am yr adnoddau cyllid a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail ein barn

Rydym wedi cynnal ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r anghenion ethegol sydd yn gymwys i'n archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Ethegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ethegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu fod y tystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a chymwys i baratoi sail i'n barn.

Canlyniadau ynglŷn a busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes byw o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau yn briodol.
Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud a digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r endid i barhau fel busnes byw am gyfnod o leiaf 12 mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol.
Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas a busnes byw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth gynwysedig yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwiliwr arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r helaeth fod wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw ganlyniadau o sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu sydd fel arall yn ymddangos yn sylweddol anghywir. Os daw yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiant sylweddol ymddangosiadol neu anghysondebau, mae'n ofynnol arnom i benderfynu os oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall. Os down i gasgliad , ar sail y gwaith a gwblhawyd fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth

ychwanegol yma, mae'n ofynnol arnom i ymadrodd y ffaith.

Nid oes gennym ddim i ymadrodd mewn cyswllt â hyn.

Barn ar faterion eraill a benodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd yng nghwrs yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson a'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi ei pharatoi yn unol â gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad

Yn sgil yr wybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camfynegiant sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglŷn â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmnïau 2006 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:

- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw, neu os yw adroddiadau cymwys i'n harchwiliad heb eu derbyn gan ganghennau na ymwelwyd gennym, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol mewn cytundeb â'r cofnodion ariannol a'r adroddiadau, neu
- fod rhai datgeliadau am dal ymddiriedolwyr a benodir dan gyfraith wedi eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr oll o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at bwrpas deddf cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg wir a theg ac am y rheolau mewnol mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro'n angenrheidiol i alluogi paratoad o ddatganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamosodiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi y datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel yn gymwys, materion perthnasol i allu'r busnes i barhau a defnyddio y sail busnes byw o gyfrifo os nad yw'r ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu i gau y cwmni neu roi gorau i weithredu, neu heb fod gyda dewis rhesymol ond i wneud hynny.

Cyfrifoldeb yr archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein amcanion yw i dderbyn sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchaf o sicrwydd, ond nid yn gwarantu y buasai archwiliad wedi ei chynnal yn unol ag ISAs (DU) yn darganfod camddatganiad sylweddol, os yw yn bod pob adeg. Gall camosodiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, a byddent yn cael eu cysidro yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y buasai'n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio dewisiadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau yma.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn

perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod gan y tim ymgysylltu ar y cyd y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys;
- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol i'r cwmni trwy drafodaethau â ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector;
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn a allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, amgylcheddol a deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gan reolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Roedd deddfau a rheoliadau a nodwyd yn cael eu cyfleu o fewn y tim archwilio yn rheolaidd ac roedd y tim yn parhau i fod yn effro i achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y cwmni i gamddatganiad perthnasol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:

- Wneud ymholiadau gan reolwyr ynghylch ble roeddent o'r farn bod tueddiad i dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn rheoli a diystyru rheolaethau, rydym yn:

- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;
- Asesu a oedd dyfarniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;
- Ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin.

Mewn ymateb i'r risg o afreolaidd-dra a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cytuno ar ddatgeliadau datganiadau ariannol i ddogfennau ategol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn ein gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddem yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad oherwydd gallent gynnwys cuddio neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Fel rhan o archwiliad a ymgymerir yn unol ag ISAs (DU), rydym yn ymarfer barn proffesiynol a chynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad, rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamosodiad sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio yn ymatebol i'r risg hynny, a chael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio darganfod camosodiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch nag o risg yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cyd-dwyllo, ffugio, gadael gwybodaeth allan yn fwriadol, camfynegiadau, neu anwybyddu reolau mewnol.
- Cael dealltwriaeth o reolaeth ariannol perthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at bwrpas o fynegi barn ar effeithiolrwydd y rheolau mewnol.
- Asesu priodolrwydd y polisïau cyfrifyddol a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb o amcangyfrifau cyfrifyddol a datgeliaethau cysylltiedig a wneir gan yr ymddiriedolwyr.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd o'r sail cyfrifo busnes byw gan yr ymddiriedolwyr ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gawsom, os os oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amgylchiadau a all godi amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel uned byw. Os y down i gasgliad fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae'n ofynnol arnom i dynnu sylw, yn ein adroddiad archwiliwr i'r datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os nad yw'r datgeliadau yn ddigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y tystiolaeth archwilio a dderbyniwyd hyd at dyddiad adroddiad yr archwiliwr. Er hynny, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi'r cwmni i beidio parhau fel busnes byw.
- Asesu y cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac os yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli y trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn ffurf sydd yn cyflawni cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu gyda'r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynglŷn, ymysg materion eraill, paratoi cwmpas ac amseru yr archwiliad a darganfyddiadau sylweddol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw wendidau sylfaenol mewn rheolaeth ariannol a ddarganfuwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

Defnyddio ein adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi ei wneud i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Adran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Rydym wedi ymgymryd a'r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni elusennol ar y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad yr archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at eithaf â ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw y cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

David Chidley (Prif archwiliwr statudol)
Dros ac ar ran
W J Matthews a'i Fab,
Archwiliwr Statudol
a Chyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
CAERNARFON
LI55 1AB

Dyddiad: 11.07.2024

GISDA Cyfyngedig

Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant) *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024*

	Nodiadau	Cronfeydd Anghgyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	2024	2023
		£	£	£	£
Incwm					
Incwm gwirfoddol					
Grantiau a Rhoddion	***3***	5,701	-	5,701	32,199
Incwm o weithgareddau elusennol					
Grantiau, cytundebau rhenti ac ati	***4***	343,309	1,536,874	1,880,183	1,940,979
Llog banc		11,484	-	11,484	1,437
Incwm arall		780	-	780	3,672
Cyfanswm incwm		361,274	1,536,874	1,898,148	1,978,287
Gwariant					
Gweithgareddau elusennol	***6***	253,141	1,511,273	1,764,414	1,687,078
Incwm/ (gwariant) net		108,133	25,601	133,734	291,209
Trosglwyddiad rhwng cronfeydd		226,241	(226,241)	-	-
Symudiad net mewn cronfeydd		334,374	(200,640)	133,734	291,209
Cronfeydd ar 1 Ebrill 2023		794,920	1,221,025	2,015,945	1,724,736
Cronfeydd ar 31 Mawrth 2024		1,129,294	1,020,385	2,149,679	2,015,945

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio i gyd o weithgareddau sydd yn parhau. Mae'r holl enillion a cholledion a gydnabyddir yn y flwyddyn wedi eu cynnwys uchod. Mae'r syrffed am y flwyddyn at bwrpas y Ddeddf Cwmnïau yn cynnwys yr adnoddau cyllid net am y flwyddyn yn £133,734 (2023 – £291,209).

GISDA Cyfyngedig
Mantolen *ar 31 Mawrth 2024*
(Rhif cofrestru'r cwmni 2484575)

	Nodiadau		2024 £	2023 £
ASEDAU SEFYDLOG				
Asedau cyffyrddadwy a ddefnyddir gan yr Elusen	***10***		1,151,389	1,032,866
Buddsoddiadau	**11**		150,000	-
ASEDAU CYFREDOL				
Dyledwyr	***12***	140,216		133,390
Buddsoddiadau	**13**	150,000		-
Arian yn y banc		644,146		977,445
		1,084,362		1,110,835
CREDYDWYR: *Symiau yn daladwy o fewn blwyddyn*	***14***	(86,072)		(127,756)
ASEDAU CYFREDOL NET			998,290	983,079
CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			**2,149,679**	**2,015,945**
ASEDAU NET			2,149,679	2,015,945
CRONFEYDD INCWM				
Cronfeydd cyfyngedig	***17***		1,020,385	1,221,025
Cronfeydd anghyfyngedig	***16***		1,129,294	794,920
			2,149,679	2,015,945

Ar ran y Bwrdd ..... (Cyfarwyddwr)
Mrs Llinos Owen

Dyddiad 11.07.2024

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 41 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

GISDA Cyfyngedig

Datganiad ynghylch llif arian *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2024*

	Nodyn	2024 £	2023 £
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	***19***	99,654	444,331
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		11,484	1,437
Prynu asedau sefydlog	***10***	(144,437)	(28,726)
Prynu buddsoddiadau		(300,000)	-
Arian a ddefnyddiwyd i fuddsoddi		(432,953)	(27,289)
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Ad-daliadau morgais		-	(133,250)
Arian o weithgareddau ariannu		-	(133,250)
Cynnydd/(lleihad) mewn arian a chyfatebolion arian		**(333,299)**	**283,792**
Arian a chyfatebolion arian ar 1 Ebrill 2023		977,445	693,653
Arian a chyfatebolion arian ar 31 Mawrth 2024		644,146	977,445

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024*

1. Polisiau cyfrifyddol

Mae'r prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, penderfyniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd â amcangyfrifir wrth baratoi y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

a) Sail Paratoi Cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu yn unol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau" Datganiad o Ymarferion Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) – (SORP Elusennau (FRS102)), yr Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Cwmniau 2006.

Mae GISDA Cyfyngedig yn bodloni gofynion diffiniad uned budd cyhoeddus dan FRS102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau yn wreiddiol ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion os na nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifo perthnasol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro nad oes ansicrwydd sylweddol am allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw.

b) Polisïau cydnabod incwm

Dangosir adnoddau cyllid yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd unrhyw ganllawiau perfformiad ynghlwm a'r eitemau incwm wedi eu cyflawni neu yn gyflawn o fewn rheolaeth yr elusen a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl. Cyfrifir am grantiau ple nad yw'r hawl yn ddibynnol ar berfformiad gan yr elusen, pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant. Gohirir incwm os nad canllawiau hawl wedi eu cyrraedd neu os yw'r incwm wedi ei neilltuo ar gyfnod yn y dyfodol.

Cydnabyddir incwm grantiau sydd ddim yn dibynnol ar gyflawni gweithgareddau penodol pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant. Gohirir incwm os nad yw'r elusen wedi cyflawni gweithgareddau penodol i roi hawl i'r incwm neu lle mae'r incwm wedi ei glustnodi at gyfnod diweddarach.

Cydnabyddir incwm grantiau sydd yn ddibynnol ar berfformiad neu gyflawni gweithgareddau penodol fel mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau drwy berfformiad o'i oblygiadau.

c) Cyfrifo cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall. Mae cronfeydd penodedig yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu rhoi i'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at bwrpas arbennig. Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol a chyfyngiadau penodol dan amodau y rhoddwr neu sydd wedi eu codi gan yr elusen at bwrpas arbennig.

ch) Gwariant

Cydnabyddir gwariant pan mae oblygiad cyfreithiol neu weithredol i wneud taliad i drydydd person, y mae'n debygol fydd taliad yn angenrheidiol a gellir mesur yr blygiad yn ddibynadwy.

Cyfrifir yr holl wariant yn y datganiad o weithredoedd ariannol ar sail croniant.

Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau a godir wrth gyflenwi gweithgareddau a gwasanaethau i'r buddiolwyr. Mae'n cynnwys y costau a benodir yn uniongyrchol i'r gweithgareddau a'r costau anuniongyrchol sydd yn angenrheidiol i'w cefnogi.

Cyfrifir TAW na ellir ei hawlio fel cost yn erbyn y gweithgaredd a achosodd y gwariant.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024*

d) Costau cynorthwyol

Costau cynorthwyol yw gweithgareddau sydd yn cefnogi gwaith yr elusen ond sydd ddim yn ymwneud a gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cynorthwyol yn cynnwys yr adran weinyddol, cyllid, personél a llywodraethol sydd yn cefnogi y gwahanol brosiectau elusennol. Mae'r costau hyn wedi eu dosbarthu rhwng y gwahanol adrannau fel y dangosir yn nodyn 7.

dd) Les gweithredol

Mae'r elusen yn dosbarthu rhenti eiddo fel les gweithredol; mae tetl i'r eiddo yn aros gyda'r prydleswr ac mae bywyd economaidd yr eiddo yn llawer hirach na term y les.

e) Asedau sefydlog

Mae asedau sefydlog gyda chost mwy na £1,000 yn cael eu cyfalafu a'u cynnwys ar gost gan gynnwys unrhyw gostau atodol o gaffaeilio. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau llai gwerth gweddilliol dros gyfnod amcangyfrifol o'u hoes fel a ganlyn:

Offer swyddfa	20-33%
Dodrefn tai	20%
Gwelliannau	25%
Moduron	20%

f) Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau asedau sefydlog yn cael eu cofnodi i ddechrau ar gost, ac yn dilyn hynny yn cael eu datgan ar gost llai unrhyw golledion amhariad cronedig.
Mae balans mewn cyfrif cadw sydd ag aeddfedrwydd o flwyddyn neu fwy ar ddyddiad yr cadw yn cael ei ystyried yn fuddsoddiad ased sefydlog.
Mae balans mewn cyfrif cadw sydd ag aeddfedrwydd o fwy na thri mis ond llai na blwyddyn yn fuddsoddiad ased cyfredol.

ff) Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl nodi unrhyw disgownt masnachol a gynnigwŷd. Dangosir blaendaliadau ar werth y swm a dalwyd ymlaen llaw llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

g) Arian mewn banc ac mewn llaw

Mae arian mewn banc ac mewn llaw yn cynnwys arian buddsoddiadau tymor byr sydd yn aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael neu o agor y cyfrif adnau.

ng) Credydwyr a darpariaethau

IAITH GYMRAEG	Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg GISDA gan Comisiynydd Y Gymraeg yn 2020 Byddwn yn parhau i fonitro a gweithredu'rcynllun i sicrhau darpariaeth gwasanaethau Cymraeg i bobl ifanc bregus a chefnogi staff i fod yn hyderus i ddarparu'r gwasanaeth **diweddariad 2022-2023** • wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr 'Y Gymraeg mewn Gwaith Ieuenctid' • wedi datblygu ffilm animeiddiad byr yn amlygu ein Cynnig Cymraeg i bobl ifanc
CYDRADDOLDEB, CYNHWYSIANT AC AMRYWIAETH	Parhau i ddatblygu amrediad cynhwysfawr o bolisïau a chefnogaeth arloesol sy'n gwerthfawrogi a dathlu cryfderau a chyfraniad pawb gwaeth beth fo'u hunaniaeth na'u cefndir. **diweddariad 2022-2023** • wedi derbyn 2 wobr am ein gwaith hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant • wedi cyflwyno polisiau newydd Trawsnewid yn y Gwaith a Niwroamrywiaeth o fewn y cwmni
LLESIANT STAFF	Mae staff yn flaenoriaeth i GISDA ac felly mae sicrhau cynllun llesiant blynyddol staff i'n cefnogi a'n galluogi i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf yn hanfodol Byddwn yn parhau i ddatblygu amgylchedd gwaith i sicrhau fod GISDA yn elusen o ddewis i weithio iddo. **diweddariad 2022-2023** • wedi cryfhau ein Polisi Salwch, wedi cyflwyno polisi yswiriant marwolaeth tra'n gyflogedig a pholisi newydd Menopos yn y Gwaith • cyrraedd safon arian yng Ngwobrau Iechyd Gweithle Bach Cymru Iach Ar Waith • wedi penodi 2 bencampwr lleiant yn y gweithle – un Iechyd Corfforol ac un Iechyd Meddwl
CYNALIADWYEDD	Bod yn fentrus wrth ddatblygu cyfleoedd newydd gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Ein bod yn cael y cydbwysedd cywir wrth gymryd risg - weithiau mae'n rhaid mentro i ddatblygu prosiectau llwyddiannus newydd. **diweddariad 2022-2023** • 4 fflat newydd ar gyfer pobl ifanc wedi cwblhau yng Nghaernarfon • wedi cynnal ymgynghori eang efo pobl ifanc ar gyfer gofod hwb yng Nghaernarfon

AMCANION ELUSENNOL

Yr ydym yn adolygu ein nodau, amcanion a gweithgareddau bob blwyddyn gan edrych ar beth yr ydym wedi ei gyflawni ac allbynnau ein gwaith dros y 12 mis blaenorol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau a gweithgareddau yn parhau i gyflawni ein amcanion elusennol.

Nod GISDA Cyf yw darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc a byddwn yn cyrraedd ein nod drwy gyflawni ein amcanion a darparu

⇒ llety a gwasanaethau cefnogol
⇒ gweithgareddau creadigol ac artistig
⇒ gweithgareddau therapiwtig, hamdden ac addysgiadol
⇒ cyngor a gwybodaeth
⇒ hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth i roi cymorth i bobl ifanc datblygu hyder, gwytnwch, sgiliau byw'n annibynnol, sgiliau cyflogaeth a chyfranogi yn llawn mewn cymdeithas yn rhydd o unrhyw anfantais

I gyflawni hyn byddwn yn sicrhau

⇒ llywodraethiant o ansawdd uchel
⇒ diwylliant lle bydd staff yn cael eu cefnogi a gwerthfawrogi am eu gwaith
⇒ adnoddau i flaenoriaethu 'Model Fi' sef dull therapiwtig o weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc

YSTADEGAU 2022-2023

LLYNEDD.....

⇒ **266** o bobl ifanc digartref neu mewn risg o ddod yn ddigartref wedi cael eu cefnogi drwy prosiect Cymorth Tai
⇒ **35** o bobl ifanc wedi mynychu cyfarfodydd bwrdd pobl ifanc i rannu eu LLAIS
⇒ **138** o nosweithiau clwb LHDTC+ wedi gynnal rhwng Caernarfon, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog
⇒ **120** o bobl ifanc ÔI Ofal wedi cael cefnogaeth arbenigol gennym
⇒ **104** sesiwn creadigol therapiwtig wedi cynnal
⇒ **119** o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth cyflogadwyedd gan yr Academi Cyfleon
⇒ **265** o bobl wedi derbyn cefnogaeth iechyd meddwl drwy Hwb ICAN

BUDD CYHOEDDUS

Wrth adolygu ein amcanion, gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ein gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y dyfodol yn unol a gofynion cyfreithiol Deddf Elusennau 2011 mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac yn hyderus ein bod yn darparu budd cyhoeddus sylweddol fel y dangosir yn yr adroddiad hwn.

GWERTHOEDD GISDA

Mae gwerthoedd GISDA yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithredu ac i bob dim rydym yn ei wneud

Mae GISDA Cyf yn credu mewn pobl ifanc, waeth beth fo'u hamgylchiadau, eu rhyw, eu hil, eu hanabledd na'u hymddygiad. Credwn mewn pobl ifanc sydd wedi eu cam-drin, pobl ifanc bregus a phobl ifanc heb gefnogaeth teulu. Byddwn yn eu cefnogi, yn sefyll yn gadarn drostynt ac yn ceisio sicrhau bob cyfle fel y gallent gyrraedd eu potensial mewn bywyd. Rydym yn gwneud hyn am ein bod yn credu mewn pobl ifanc. Ein nod yw gwella ansawdd bywyd a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc yn ein cymdeithas.

Rydym yn credu.....



⇒ **Gonestrwydd**
mewn darparu gwasanaeth gonest a diffuant i bobol ifanc bob amser.

⇒ **Parch, Urddas ac Empathi**
mewn parchu teimladau, credoau a hawliau pob unigolyn

⇒ **Gwrando a Chlywed**
mewn cymryd pob cyfle i wrando ar lais pobl ifanc fel ein bod yn gwybod beth sydd angen ei newid oherwydd ein bod wedi clywed beth mae nhw wedi'i ddweud wrthym.

⇒ **Tegwch**
bod pawb yn haeddu'r un cyfle ac yn cael y gefnogaeth maent eu hangen i oresgyn rhwystrau.

⇒ **Ymbweru a Galluogi**
mewn annog pobl ifanc i gredu ynddynt eu hunain a bod yn uchelgeisiol yn eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

NODAU LLESIANT

Mae GISDA Cyf yn ymrwymo i ymgorffori a mabwysiadu 7 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gyflawni ein nod ac amcanion.

Mae Nodau Llesiant GISDA Cyf sydd ar gael yn swyddfa GISDA Cyf yn amlinellu ein hymrwymedigaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sut mae GISDA Cyf am ymateb i'r ddeddf wrth gyflawni ein nod ac amcanion a sut fydd ein heffaith yn cael ei weld ar y genhedlaeth nesaf. Dyma grynodeb:

	**GISDA lewyrchus** Creu cyfleoedd cyffrous i baratoi pobl ifanc a chyfrannu at leihau amddifadedd ymysg pobl ifanc. Fe wnawn hynny drwy hyrwyddo cyflogadwyedd a gyrfa i bob person ifanc. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Academi Cyfleon a TAITH
	**GISDA gydnerth** Arfogi ac ymbweru'r genhedlaeth nesaf gyda'r sgiliau a'r gwydnwch i wynebu heriau bywyd. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Cymorth Tai, Gwirfoddoli, Fedraf I
	**GISDA iachach** Gwneud defnydd o safonau Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau cwmni sydd yn hybu iechyd a lles staff a phobl ifanc a mabwysiadu'r egwyddor '5 ffordd at les' **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Cymorth Tai a Fedraf I
	**GISDA sy'n fwy cyfartal** Gweithredu polisïau cyfleoedd cyfartal ym mhob rhan o'n gwaith gan ymdrechu i ddileu unrhyw rwystrau ar ffordd pobl ifanc. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Cymorth Tai a LHDTC+
	**GISDA o gymunedau cydlynus** Integreiddio pobl ifanc i'r gymuned a sicrhau lle i'r gymuned o fewn GISDA **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosiectau Gwirfoddoli, Academi Cyfleon, Creadigol a Bwrdd Pobl Ifanc
	**GISDA gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** Cynorthwyo ac ymbweru staff a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder i gyfrannu'n y Gymraeg. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Mae holl wasanaethau a phrosiectau GISDA yn cael eu darparu yn y Gymraeg
	**GISDA sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** Ymrwymo i chwarae ein rhan i leihau ein ôl troed carbon a gweithredu ein polisïau amgylcheddol. **sut mae GISDA'n cyflawni hyn?** Prosect Caffi Creu a Chynllun Gweithredol Amgylcheddol Blynyddol

CYFLAWNIADAU A GWEITHGAREDDAU 2022-2023

TAI A CHEFNOGAETH

⇒ CYMORTH TAI

Mae ein prosiect Cymorth Tai yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc sydd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Dyma'r mwyaf o ein prosiectau yma yn GISDA ac mae'n darparu cefnogaeth i 62 o bobl ifanc ar draws Gwynedd ar unrhyw un adeg.

Mae'r unedau hyn yn lletya ac yn darparu cartref i dri deg un o bobl ifanc. Mae 26 o'r rhain yn sengl, a phump yn deuluoedd sy'n cael eu cefnogi mewn tai teulu. Rydym hefyd yn cefnogi tri deg un o bobl ifanc eraill yn ein cymunedau gydag atgyfeiriadau yn dod o bob ardal yng Ngwynedd.

Mae'r flwyddyn diwethaf wedi bod yn flwyddyn heriol iawn gydag effeithiau cyfnod y pandemig dal i'w teimlo ac anghenion pobl ifanc am ein gwasanaeth Cymorth Tai yn parhau i gynyddu.

- **266** o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth gan y prosiect
- **82%** o'r bobl ifanc gyda anghenion iechyd meddwl, a **31%** gyd anghenion iechyd corfforol
- **19** person ifanc wedi symud ymlaen o'n hosteli cefnogaeth ddwys – 60% y rhain i fflatiau symud ymlaen neu cefnogaeth symudol GISDA
- **55%** o gyfeiriadau yn hunan gyfeiriadau
- **£5.77** o werth cymdeithasol am bob £1 a fuddsoddwyd yn y prosiect

"Heb help GISDA fyswn i ddim yn annibynnol, fyswn i ddim yn dechrau coleg, fyswn i heb ddechrau mynd i'r gym a fyswn i ddim hefo fflat fy hun, hefyd fyswn i ddim di gallu gwella iechyd meddwl fi gan fod fi wedi bod yn strygglo lot ond mae staff GISDA bob tro wedi gneud siŵr dwi'n ok" – person ifanc wedi derbyn cefnogaeth Cymorth Tai

⇒ GWASANAETH GALW MEWN – CYMORTH TAI

Mae ein cydlynydd cyfeiriadau yn cynnal **3 sesiwn galw mewn yn wythnosol** yng Nghaernarfon, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog ag ar gael i unrhyw un sydd angen cefnogaeth neu gyngor a'r llety, arian, budd daliadau, cyllidebu, Gwaith ag addysg, iechyd meddwl, y gymuned a mwy. Mae'r gefnogaeth yma yn gymorth sydyn ar unwaith ag yn angenrheidiol i bobl ifanc mewn sefyllfa argyfwng.

- **87** person ifanc wedi galw mewn a derbyn cefnogaeth
- **41%** o'r rhain yn "sofa surfing" neu ar y stryd
- Y prif faes cefnogaeth oedd **Rheoli Llety.**

⇒ ATAL DIGARTREFEDD

Mae prosiect Atal Digartrefedd ag ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi pobl ifanc sydd mewn risg uchel o ddod yn ddigartref. Mae'r Cydlynydd yn gyfrifol am atal digartrefedd drwy gefnogi'r unigolyn a chwilio am lety fforddiadwy gan hefyd sicrhau bod eu holl anghenion

cefnogaeth yn cael ei ymateb boed hynny drwy gefnogaeth y prosiect neu eu cyfeirio at y gefnogaeth fwyaf addas.

- Roedd **46** unigolyn (**17** ohonynt yn rieni ifanc) wedi derbyn cefnogaeth ddwys i gynorthwyo i dderbyn llety argyfwng, sefydlu budd daliadau, cyllidebu, mynediad i fanciau bwyd a grantiau ar gyfer dillad, cefnogaeth iechyd meddwl, cefnogaeth cyflogadwyedd, codi hyder a chymhelliant a mwy. Bydd y gweithiwr hefyd yn parhau i gefnogi'r unigolyn ar ôl gael llety i geisio am grantiau ar gyfer dodrefn, i helpu gyda biliau a chyllidebu ag i helpu gyda sgiliau byw'n annibynnol.
- Ar y pwynt cyfeirio roedd
  - **18** yn 'sofa surfing'
  - **5** ar y stryd
  - **8** mewn llety dros dro
  - **4** mewn llety rhent breifat
  - **11** gyda theulu mewn llety anaddas

- **62** cyfeiriadau ymlaen wedi ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y person ifanc yn derbyn cymorth ychwanegol arbenigol b e.e. gwasanaeth iechyd meddwl, gwasanaeth cyflogadwyedd, adran digartrefedd, DWP ac yn y blaen.
- **£11,800** o grantiau wedi ei derbyn yn uniongyrchol i'r bobl ifanc i gynorthwyo gyda rhent a blaendal llety, dillad, bwyd, nwyddau cychwynnol llety a mwy.

"Helen helped me with paperwork and stuff. Cared for me – a lot of times people don't. Absolutely treated with respect and listened to. Without Helens support I would have cried! The support was really comforting – I was in a really low place at the time – so safe to go to Helen – even when I said I was pregnant she congratulated me and reassured me – thanks so much for everything!!"

"I felt really low and couldn't reach out as I had trust issues and no family support. Helen supported me with my mental health and housing and can't wait for my new flat. Helen has taught me how to manage my accommodation explaining with budgeting and where to contact if needed too. Thank you'.

– dyfyniadiau gan bobl ifanc sydd yn derbyn cefnogaeth gan gwasanaeth Atal Digartrefedd

⇒ ÔL OFAL

Gall gadael gofal fod yn un o'r cyfnodau anodda ym mywyd person ifanc, felly mae'n hanfodol eu bod wedi'u paratoi'n briodol ac yn barod ar gyfer yr her.

Ariennir y gwasanaeth hwn gan Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Mae'r prosiect yn cynnig cefnogaeth i unigolion rhwng 16 a 25 mlwydd oed sydd wedi bod dan ofal yr Awdurdod Lleol a ble mae cyfrifoldeb i barhau i'w cefnogi wedi iddynt adael eu lleoliad gofal. Mae'r cynghorwyr personol yn cynnig cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i baratoi'r person ifanc ar gyfer y eu taith i fod yn oedolion annibynnol. Bydd bob person ifanc yn derbyn cynllun llwybr sydd yn ffocysu ar lety, addysg, hyfforddiant, iechyd, teulu, perthnasoedd cymdeithasol a'u hawliau.

Mae'r gweithiwr addysg a chyflogaeth yn sicrhau bod y bobl ifanc yma sydd yn gadael gofal yn cael y gefnogaeth ychwanegol i'w cefnogi i barhau i gadw eu gwaith, mynychu coleg neu unrhyw hyfforddiant

120 yn derbyn cefnogaeth ar yr un tro

2 dŷ gyda chefnogaeth i bobl ifanc ôl ofal

⇒ RHIENI IFANC

Mae ein prosiect rhieni ifanc yn darparu cefnogaeth i rieni ifanc 16-25. Ariannwyd y prosiect gan Garfield Weston Foundation.
Mae ein gweithwyr cymorth yn hyrwyddo hawliau rhieni ifanc, eu grymuso a'u cefnogi wrth weithio i godi eu hyder, ac yn eu cynorthwyo gyda gwahanol broblemau. Mae'r gweithwyr cymorth yn cynnal sesiynau un-i-un ac yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr ac ymwelydd iechyd pan fo angen. Maent hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau ceisiadau grant amrywiol i helpu'r bobl ifanc i fynychu coleg neu gael help gyda chostau teithio neu ofal plant. Er bod adnoddau o fewn y prosiect yn gyfyngedig, mae gwaith ein staff wedi bod yn rhagorol.

- ⇒ **76** rhiant wedi derbyn cefnogaeth gan GISDA
- ⇒ **10** taith i rieni ifanc a'u plant i adeiladu perthynas a chael hwyl!
- ⇒ **8** rhiant wedi derbyn ty a chefnogaeth gan GISDA

"Dwi ddim yn gwybod lle fyswn i heb key worker fi, mai wedi helpu fi gael ty a dangos i fi sut i gwneud biliau a pethau felna. Swni mashwr yn homelss ac bysa babi fi di gael ei tynnu oddiwrth fi. Medraim diolch digon."

⇒ PROSIECT LHDTC+

Sefydlwyd clwb LHDTC+ GISDA yn 2017. Roedd hi wedi bod yn amlwg ers rhai blynyddoedd bod canran uchel o bobl ifanc oedd yn cael eu cyfeirio at brif wasanaeth digartrefedd GISDA yn bobl ifanc o'r gymuned LHDTC+ ond nid oedd cefnogaeth benodol ar eu cyfer. Erbyn hyn mae'r prosiect wedi mynd o nerth i nerth gyda chlybiau wedi eu sefydlu yng Nghaernarfon, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog ynghyd a chynorthwyo a chynghori ysgolion a chymunedau i gychwyn clybiau eu hunain!

Yn ychwanegol i'r clybiau mae'r prosiect yn cynnig cefnogaeth ar faterion LHDTC+ i bobl ifanc ag i brosiectau eraill o fewn GISDA. Maent hefyd wedi bod yn gweithio i godi ymwybyddiaeth ar draws y sir!

Cronfa Gymunedol y Loteri sydd wedi ariannu'r prosiect am y ddwy flynedd diwethaf ag rydym wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn arian o'r gronfa Pawb a'i Le i barhau am y 3 mlynedd nesaf!

- **138** noson clwb + parti Nadolig + taith i Balchder
- **74** aelod yn mynychu'r clybiau yn rheolaidd
- **5** gwirfoddolwr wedi rhoi **352** o oriau i'r prosiect
- **323** o unigolion wedi mynychu sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth

Prosiect LHDTC+ GISDA ar y map!

Ym mis Mawrth 2023, teithiodd dau o'n gwirfoddolwyr anhygoel Kayley (nhw/they/them) a Klaire (hi/she/her) i Efrog Newydd i fynychu a chyflwyno yng Nghynhadledd Cymorth Technegol flynyddol Canolfan Ali Forney.

Fel aelod o'r rhaglen Cymorth Technegol – cawsom wahoddiad i roi cyflwyniad ar ein gwaith a rhannu arfer gorau ar sut rydym yn ymgysylltu â phobl ifanc LHDTC+ mewn ardaloedd gwledig.

Hefyd yn bresennol yn y gynhadledd roedd sefydliadau LHDTC+ o Iwerddon, Lloegr, El Salvador, Gwlad Pwyl a Nairobi.

⇒ ICAN || FEDRA'I

Mae Hwb ICAN GISDA yn darparu cymorth cynnar, therapiwtig ag hawdd i bobl ifanc 16 i 25 sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl a'u lles. Mae'r hwb yn cefnogi ag ategu at wasanaethau arbenigol y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Drwy'r cynllun yma gallwch gael mynediad i amryw wasanaethau yn cynnwys.

- Gweithdai amrywiol
- Cefnogaeth 1:1
- Hybiau galw mewn
- Cyfeirio ymlaen
- Ymyraethau therapiwtig
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o hunan laddiad

- **265** o bobl wedi derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect
- **143** sesiwn grwp wedi cael ei gynnal
- **16** gwirfoddolwr yn gymysgedd o: cwnselwyr, therapydd celf, cynorthwydd galw mewn a cynorthwydd cefnogaeth emosiynol
- **656** oriau gwirfoddol

Enghreifftiau o ymyraethau drwy'r prosiect:

- **Iechyd Corfforol**: Aelodaeth campfa, dillad gweithio allan, dosbarthiadau ffitrwydd, boteli dwr, gwersi yoga, Golf, Cerdded Llesiant Wythnosol, Gweithgareddau awyr agored
- **Therapiwtig**: Llyfrau hunangymorth, Caffi Galar, nosweithiau ffilm, Cwnsela, Grwp dynion
- **Digidol:** Darparu cardiau sim chwe mis, defnydd o liniaduron yn ein hybiau
- **Creadigol:** gweithgareddau gwnïo, celf, theatr, celf yn y coed, therapi Celf, Sesiynau Ysgrifennu'n greadigol gyda Ar y Dibyn

CYFLEON ADDYSG, GWAITH A HYFFORDDIANT

⇒ ACADEMI CYFLEON

Mae'r Academi Cyfleon yn cefnogi pobl ifanc sydd yn aml yn bellach i ffwrdd or farchnad lafur. Byddem yn gweithio gyda'r unigolyn i greu cynllun llwybr clir i adnabod gwahanol ffyrdd o arfogi'r unigolyn gyda'r sgiliau, hyder a / neu gymwysterau i'w galluogi i symud ymlaen o gefnogaeth i fyw yn annibynnol ac i gyflogaeth.

- Cefnogaeth cyflogadwyedd
- Gweithgareddau i godi hyder
- Sgiliau cyflogadwyedd - creu CV, sgiliau cyfweld, sut i ymddwyn yn y gwaith
- Profiad gwaith a gwirfoddoli
- Cefnogaeth i symud ymlaen i swyddi, addysg, hyfforddiant
- Gweithdai sgiliau byw'n annibynnol: dweud yr amser, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, hylendid personol, coginio a mwy!

- **124** person ifanc wedi derbyn cefnogaeth cyflogadwyedd
- **199** achrediad neu uned hyfforddiant wedi ei gwblhau
- **56** wedi cau a symud ymlaen i waith neu cyfleon gwirfoddoli
- **54** sesiwn grŵp byw'n annibynnol

Fel rhan o'r gwaith yma rydym wedi darparu sesiynau ataliol addysg amgen mewn ysgolion ar draws Wynedd ar gyfer plant sydd yn datgysylltu o'r ysgol neu angen cefnogaeth 1:1. Darparwyd amryw o sesiynau wedi ei achredu gan Agored Cymru yn cynnwys: Ymwybyddiaeth LGBTQ+, Ymwybyddiaeth Alcohol, Codi Hyder, Sgiliau Grymuso, Cadw Perthnasau Iach ynghyd a sesiynau byw'n annibynnol.

69 o sesiynau addysg amgen wedi cynnal mewn ysgolion ar draws Gwynedd

⇒ GWIRFODDOLI

Mae gwirfoddoli wedi dod yn rhan hanfodol a bwysig iawn o GISDA yn y blynyddoedd diwethaf.

Dros y prosiect hwn rydym wedi annog pobl ifanc i wirfoddoli ymysg ein prosiectau yn cynorthwyo gyda gwaith LLAIS, creu ymgyrchoedd, glanhau, cynnal sesiynau, cynorthwyo staff gyda gweithdai, mentora cyfoed a mwy. Rydym hefyd wedi canolbwyntio a'r geisio annog pobl ifanc i wirfoddoli yn y gymuned. Credwn fod hyn yn hynod o bwysig, yn enwedig ar ôl cyfnod COVID er mwyn integreiddio'r bobl ifanc i'r gymuned leol a chreu cysylltiadau newydd.

Rhan bwysig o'r prosiect hefyd ydy gwirfoddolwyr allanol yn roi eu amser i GISDA er budd pobl ifanc. Dros y flwyddyn diwehtaf rydym wedi gael gwirfoddolwyr yn: cynnal sesiynau cwnsela, sesiynau therapi celf, garddio, gwnio, gweu, darparu cefnogaeth emosiynol a mwy.

80 unigolyn wedi gwirfoddoli

2396 oriau gwirfoddoli ar draws y prosiectau

⇒ TAPI (TIM O AMGYLCH PERSON IFANC)

Nod TAPI oedd cymryd arweiniad gan bobl ifanc mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill yn y maes i wella gwasanaethau i bobl ifanc yng Ngwynedd. fel rhan o'r peilot roedd pobl ifanc yn derbyn gweithiwr allweddol a oedd yn eu cefnogi ar eu taith i fyw'n annibynnol ac i gyflogaeth - boed hynny gyda'u hiechyd meddwl, codi hyder, sgiliau byw'n annibynnol, grantiau, cefnogaeth emosiynol, sgiliau cyflogadwyedd a mwy!

Mae nifer o fudiadau yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc ond o safbwynt yr unigolyn mae dod o hyd i'r hyn sydd ei angen yn gallu bod yn anodd iawn. Nid yw chwaith yn mynd yn haws pam bydd cefnogaeth yn cael ei dderbyn - mae hi yna yn anodd iawn i berson ifanc gydlynu'r holl gefnogaeth a'r mudiadau o'u cwmpas heb rwydwaith cymorth a rhywun i arwain y ffordd.

Roedd 2 strand i'r peilot yma sef:

Ymchwil a gwerthuso

- Prifysgol Bangor – gwerthusiad o effaith pecyn ymyrraethau prosiect peilot TAPI ar bobl ifanc
- Sylfaen Cymru – gwerthusiad o'r prosiect peilot yn ei gyfanrwydd
- Mantell Gwynedd – adroddiad ar werth cymdeithasol ymyrraethau Cymorth Tai Gisda
- Co-Production Wales Network – archwiliad ar waith ymgynghori a chyd-gynhyrchu Gisda efo pobl ifanc a phrosiect arbennig i gyd-gynhyrchu gyda phobl ifanc ar brosiect Lle Da

Ymyraethau

- Prosiectau creadigol a llesiant yn cynnwys gwaith theatre, gwaith celf, beicio, gweithgareddau awyr agored a mwy
- Sesiynau a chefnogaeth cyflogadwyedd
- Sgiliau byw'n annibynnol
- Sesiynau ymwybyddiaeth LHDTC+
- Bwrdd Pobl Ifanc
- A llawer mwy

Nodwyd y gwerthusiadau rhai or pwyntiau ag argymhellion isod:

"Mae'r ymchwil hwn ynghyd â thystiolaeth meintiol a gasglwyd gan GISDA yn cynnig tystiolaeth gref o ran effeithiolrwydd cynllun TAPI ym meysydd ***sgiliau a chyrhaeddiad dysgu, hyder, lles, chyflogadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol, a chyfranogiad.*** *"* (Ymchwil Gwerthuso TAPI GISDA – Adroddiad Llawn, Dr Myfanwy Davies, Gwilym Sion ap Gruffudd, Prifysgol Bangor)

"Mae'r gwerthusiad o brosiect TAPI yn awgrymu bod prinder gweithwyr allweddol, o ganlyniad mae risg fod anghenion rhai bobl ifanc heb eu diwallu. Mae meithrin perthynas dda gyda'r gweithwyr allweddol yn gwbl greiddiol i ddatblygiad sgiliau personol a phroffesiynol cyfranogwyr i'r dyfodol a'u hymdeimlad o lwyddiant. Mae bobl ifanc angen 'person' sefydlog, sydd yn gwrando, y gellir ymddiried ynddynt ac sydd yn 'gafael llaw' i'w 'tywys' drwy systemau a gwasanaethau. " (Adroddiad Ymchwil:TAPI – Cwmni CELyn)

Mae GISDA yn parhau i godi ymwybyddiaeth am y prosiect a'r gwaith ymchwil ac yn cwblhau ceisiadau am arian i barhau gyda'r gwaith yn symud ymlaen....

⇒ **TAITH**

Rydym wedi bod yn hynod o ffodus o derbyn cefnogaeth gan Taith i gynnal teithiau i bobl ifanc bregus. Mae Taith yn prosiect sydd dwy flynydd, yn yr amser hyn rydym yn gall cynnig cyfle i'n pobl ifanc i deithio i'r Ffindir, Gwlad Pwyl,Gwlad Belg, Efrog Newydd a Cernyw.

Mae Taith yn raglen cyfnewid dysgu rhyngwladol a sefydlwyd i greu cyfleoedd sy'n newid bywydau pobl yng Nghymru i astudio, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio ym mhedwar ban byd. Mae'r rhaglen wedi ymrwymo i wella mynediad i bobl ag anableddau, anghenion dysgu ychwanegol, grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a phobl o gefndiroedd difreintiedig.

Y nod yw i BOB dysgwr ledled Cymru gael mynediad at gyllid a chyfleoedd Taith.

Dechrau flwyddyn hon mi aeth criw o 4 person ifanc a 3 aelod staff i ymweld a'r Ffindir i ddysgu sut mae'r Ffindir yn defnyddio natur fel ymyrraeth iechyd meddwl. Treuliodd y pobl ifanc penwythnos llesiol yn y goedwig yn Isoranta, lle cafon y profiad o skio traws gwlad, cerdded yn y coed ac adeiladu pabell. Gwnaeth y gweithgareddau yma helpu y pobl ifanc i fagu hyder, gwellau sgiliau cyfathrebu a a dysgodd iddynt sut y gall bod ym myd natur helpu eu lles.

"Mae'r daith hon wedi newid fy mywyd yn llwyr. Rwyf wedi esblygu a dod allan o'r profiad hwn yn ddyn gwell"

CYFRANOGI A CHREADIGOL

⇒ GISDA CREADIGOL

Mae gwaith creadigol yn ddull therapiwtig sydd yn caniatáu'r bobl ifanc i fynegi eu hunain a'i theimladau. Rydym yn credu yn gryf mewn darparu cyfleoedd creadigol i bobl ifanc felly rydym wedi buddsoddi mewn tîm: GISDA CREADIGOL.

Mae ein gweithgareddau celfyddydol amrywiol yn annog pobl ifanc i fynegi eu hunain a'u teimladau mewn ffordd greadigol anffurfiol. Mae GISDA yn credu yn gryf yn rhoi amryw o gyfleoedd flasu a thymor hir i bobl ifanc allu magu hyder, ennill sgiliau newydd, ehangu eu gorwelion a chyfarfod eraill!

Mae Plant mewn Angen yn ariannu prosiect NABOD sydd yn brosiect ar y cyd gyda FRANWEN. Mae 'Nabod yn brosiect hir dymor fydd yn cynnig cyfleoedd amrywiol i bobl ifanc i gyd-greu theatr sy'n dyrchafu llais yr unigolyn ac sy'n ennyn newid cymdeithasol.

Rydym wedi cynnal 73 sesiwn yn gymysgedd o theatr, celf weledol, tripiau i orielau gwahanol, animeiddio, ysgrifennu'n greadigol, cerddoriaeth, cynhyrchu a llawer mwy! 82% o bobl ifanc yn nodi effaith bositif ar eu llesiant ar ol cymryd rhan mewn cyfres o sesiynau.

Dyma mae'r bob ifanc yn ei ddweud:

"Really hwyl cael dyfeisio fo (perfformiad byr) fy hun a bod yn greadigol"

"I've enjoyed the session, thinking creatively and enjoyed drawing doodles for the window"

"Dwi erioed di neud unrhyw fath o actio o'r blaen, a gan feddwl fod hwn ddim yn actio proffesiynnol - neshi wir fwynhau cael go ar neud rhywbeth dwi erioed wedi neud o'r blaen"

⇒ CAFFI CREU

Nod prosiect Caffi Creu ydy codi ymwybyddiaeth o leihau gwastraff a'r economi gylchol drwy weithdai, mentrau ac ymgyrchoedd ar ailddefnyddio, ailgylchu ac ail-greu. Mae'r prosiect yn anelu at addysgu pobl ifanc y dyfodol a'u harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fabwysiadu ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol.

Mae 31 gweithdy/sesiwn wedi eu cynnal yn cynnwys

- dylunio poteli dwr ail ddefnydd
- printio ar fagiau ail ddefnydd
- creu bin compost
- gwnio a thrwsio dillad
- hel garlleg gwyllt i goginio
- sesiynau codi sbwriel
- garddio a thyfu bwyd
- celf yn defnyddio gwastraff

⇒ LLAIS POBL IFANC

Mae LLAIS yn un o nodau strategol GISDA ac rydym yn gweithio i sicrhau bod llais pobl ifanc yn ganolog i'r gwaith, yn cael eu clywed ag yn cyd gynhyrchu syniadau newydd!

Rydym yn cyflogi Swyddog Ymgynghori a Llais sydd yn cynnal ein Bwrdd Pobl Ifanc.

Yn ystod y flwyddyn mae :

- **25** Cyfarfod Bwrdd / Gweithgaredd Bwrdd wedi cael ei gynnal
- **36** o bobl ifanc wedi cymryd rhan
- **250** awr o wirfoddoli

Mae GISDA yn **Sefydliad Partner Senedd Ieuenctid Cymru** gyda Keira wedi ei hethol i gynrychioli lleisiau pobl ifanc GISDA yn y Senedd mewn materion yn ymwneud â iechyd meddwl, hawliau LHDTC+ a digartrefedd.

Rydym hefyd yn cynnal yr isod:

- Cynnal cyfarfodydd preswylwyr i ganfod eu barn am ein gwasanaeth cymorth tai
- Darparu bocsys adborth ddi-enw
- Darparu cefnogaeth person-ganolog
- Gweithio GYDA'r person ifanc er eu anghenion
- Lobio a chodi ymwybyddiaeth yn defnyddio llais, profiadau a barn bobl ifanc

Gyda chymorth grant gan Lywodraeth Cymru rydym wedi bod yn ymgynghori gyda phobl ifanc GISDA ar draws pob gwasanaeth a phrosiect i sicrhau bod eu barn a llais yn cael eu clywed ar gyfer datblygu Strategaeth Tlodi Plant a Phobl Ifanc newydd y Llywodraeth. Rydym wedi cynnwys plant a phobl ifanc digartref, rhieni ifanc, ol ofal ac o'r gymuned LHDTC+ yn yr ymgynghoriad.

Fel rhan o ymrwymiad GISDA i gryfhau'r ffyrdd rydym yn cynnwys llais pobl ifanc yn y gwasanaethau a phrosiectau rydym yn datblygu mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru wedi bod yn ein cefnogi i adnabod dulliau gwaith cydgynhyrchu, technegau cyd-ddylunio ac arfau er mwyn ymgysylltu'n effeithiol gyda phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau

GWOBRAU AC ACHREDIADAU

⇒ **CYMRU IACH AR WAITH**
GISDA yn falch o fod wedi cyrraedd safon arian yng Ngwobrau Iechyd Gweithle Bach Cymru Iach Ar Waith

⇒ **GWOBRAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU 2022**
GISDA yn falch o fod wedi derbyn gwobr cymeradwyaeth uchel yng nghategori 'Hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant'.

⇒ **RHAGLEN FUSNES CENEDL HYBLYG 2**
GISDA yn falch o fod wedi cwblhau rhaglen fusnes Cenedl Hyblyg 2 efo Chwarae Teg ar gyfer cydraddoldeb rhywedd yn y gweithle

⇒ **GWOBRAU RHAGORIAETH GWAITH IEUENCTID 2022**
GISDA yn falch o fod wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr 'Y Gymraeg mewn Gwaith Ieuenctid'

⇒ **GWOBRAU CYMUNEDOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**
Prosiect LHDTC+ GISDA wedi ennill gwobr arbennig yng nghategori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Gwobrau Cymunedol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Archwiliwr Cofrestredig sy'n archwilio cyfrifon yr Elusen. Mae'r cyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â gofynion a osodwyd gan Ddeddfwriaethau Elusennau a Chwmnïau, ac yn rhoi adroddiad cryno a chlir o sefyllfa ariannol a gweithgareddau'r Elusen. Cyhoeddir adroddiad blynyddol sydd yn cael ei ddosbarthu yn ôl y gofyn ar ôl iddo gael ei dderbyn yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Mae GISDA yn comisiynu'r gwasanaeth hwn bob 3 blynedd ac yn mynd allan am dendr i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae tendr newydd mewn lle ar gyfer 2021-2024 wedi ei ddewis gan y Bwrdd yn dilyn proses teg ac agored.

⇒ INCWM A GWARIANT

Llwyddwyd i orffen y flwyddyn ariannol gyda syrffed anghyfyngedig, a fydd yn galluogi bwrw ymlaen gyda strategaethau tymor canolig er mwyn gallu sicrhau gwytnwch yn y tymor hir. Unwaith yn rhagor fe welwyd cynnydd yn yr incwm dderbyniwyd ar gyfer gweithgareddau elusennol, gan olygu cynnydd yng ngwariant ar y gwasanethau hanfodol y ddarperir gan yr Elusen. Braf oedd gallu adrodd fod gwariant odan penawdau sydd o fydd atodol i'r defnyddwyr gwasaneth megis gweithgareddau wedi dychwelyd yn ôl i'r lefelau cyn y cyfnodau clo. Mae'r bwrdd yn ymwybodol o'r cynnydd yng nghostau gweithredu, megis costau ynni a chyflogaeth ac wedi cymeradwyo cyllideb briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.

⇒ CRONFA WRTH GEFN

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi adolygu anghenion yr elusen o ran yr hyn y dylid ei gadw wrth gefn o ystyried y prif heriau y mae'n ei wynebu. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu polisi sy'n dweud y dylid cadw digon i allu rhedeg y cwmni am dri mis os daw y cwmni i ben. Mae'r ymddiriedolwyr

yn adolygu'r gronfa wrth gefn ddwywaith y flwyddyn mewn cyfarfodydd Bwrdd Rheoli. Mae'r Trysorydd a'r Pennaeth Cyllid yn ystyried incwm a gwariant am y flwyddyn flaenorol ac yna'n cyflwyno eu hargymhellion ynglŷn â'r hyn y dylai fod wrth gefn. Fe fydd unrhyw benderfyniadau ar gyllidebau yn ystyried anghenion y gronfa wrth gefn. Mae cynnal y gronfa yma yn ofynnol er mwyn galluogi sicrwydd sydd yn hybu cyrff allanol i fuddsoddi gan, felly, greu cynaliadwyedd i GISDA. Nid oes modd dibynnu ar y gronfa hon mewn unrhyw ffordd gan mai cronfa ar gyfer un sefyllfa yn unig yw hi – sef caniatáu'r cwmni i barhau am gyfnod byr er mwyn dod a'r cwmni a'i holl weithgareddau i ben. Byddai'r gronfa wrth gefn, hefyd, yn caniatáu'r cwmni i barhau i gyrraedd ei rwymedigaethau ariannol am dri mis. Y lefel presennol o arian rhydd wrth gefn i GISDA Cyf ar ddiwedd Mawrth 2023 yw £492,054.

RISGIAU A HERIAU

Mae GISDA wedi parhau i wynebu risgiau a heriau dros y flwyddyn diwethaf yn dilyn cyfnod y pandemig covid a'r effaith mae hynny wedi cael ar iechyd a llesiant staff, iechyd a llesiant y bobl ifanc rydym yn eu cefnogi a'r effaith mae hynny wedi ei gael ar ein gallu i gynnal gweithgareddau.

Ein hymagwedd at yr heriau hyn a'r holl risgiau mae GISDA yn eu wynebu yw blaenoriaethu ein bod yn gallu parhau i gyflwyno ein gwasanaethau yn effeithiol gan ddiogelu ein staff a'r bobl ifanc rydym yn eu cefnogi.

Mae gan GISDA gofrestr risg cynhwysfawr sy'n cyfeirio at nifer o gategorïau risg yn cynnwys llywodraethiant, cyllid, cydymffurfiaeth cyfreithiol, iechyd a diogelwch, adnoddau dynol a gwasanaethau. Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn gosod archwaeth risg ar gyfer pob un o'r categorïau ac yna'n sgorio'r risgiau o fewn y categorïau yn ôl eu tebygolrwydd ac effaith cyn benderfynu ar ba gamau y dylid eu cymryd i drin a monitro'r risgiau hynny. Mae'r gofrestr yn cael ei graffu'n rheolaidd gan y Tim Rheoli, yr Is-banel Staffio, Llywodraethiant a Busnes a'r Bwrdd Rheoli.

CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

⇒ 'LLE DA' – Caernarfon

Buom yn llwyddiannus ar y cyd gyda Cyngor Gwynedd i ddenu arian grant sylweddol gan Llywodraeth Cymru ac arian Cyngor Gwynedd i adnewyddu ein prif swyddfa ar y Maes yng Nghaernarfon yn ogystal a'r adeilad drws nesaf sef NatWest. Bydd 'Lle Da' yn datblygu 4 prif elfen er budd pobl ifanc lleol

- 4 Fflat i bobl ifanc fyw ynddynt
- Caffi hyfforddi a datblygu sgiliau pobl ifanc
- Gofod aml asiantaethol i ddarparu popeth o dan un to i bobl ifanc
- Swyddfeydd newydd i staff

Cwblhawyd Gwedd 1 yn ystod dechrau 2021 sef sicrhau bod y to, y cefn a'r ffenestri yn iawn. Fe lanhawyd blaen yr adeilad a pheintio un ochor fel bod y ddau adeilad yn edrych yn lan a thaclus o'r tu allan. Mae Gwedd 2,3 a 4 sef y gwaith mewnol wedi dechrau yn Ionawr 2023 a bydd yn parhau yn ystod 2023-2024.

PARTNERIAETHAU

Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaid yn fawr iawn, mae'r gwerth maent yn cyfrannu atom fel cwmni yn amhrisiadwy. Ni allwn ddarparu dim heb weithio ar y cyd ac mae mewnbwn pawb yn bwysig. Mae GISDA yn cydnabod ein cryfder ac yn tynnu ar eraill sydd gyda cryfderau gwahanol fel y gallwn ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth. Dyma gydnabod yn ffurfiol ein Rhanddeiliaid a Phartneriaid. Rydym yn ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad yn fawr iawn boed hynny drwy gyd weithio, ariannu, rhannu arbenigedd neu cefnogi ein gwaith. Diolch.

- Cyngor Gwynedd
- Llywdodraeth Cymru
- Cymdeithas Tai Grŵp Cynefin
- Cymdeithas Tai ADRA
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Prawf a Chyfiawnder Ieuenctid
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU
- Mantell Gwynedd
- Urdd Cymru
- Cronfa Loteri Cymunedol
- Plant Mewn Angen BBC
- Fran Wen
- WCVA
- Garfield Weston
- ESF
- Shelter Cymru
- Cyngor ar Bopeth
- Adferiad
- Banciau Bwyd
- Coleg Llandrillo Menai
- Senedd Ieuenctid Cymru
- Paul Fahey
- Kiri Pritchard- McLean
- Prifysgol Bangor
- Antur Waunfawr
- Dref Werdd
- Storiel
- M-Sparc
- Amgueddfa Cymru (Llechi)
- PACT Gogledd Cymru
- Cerdd Cymunedol Cymru
- Moondance
- Galeri Caernarfon
- Pontio Bangor
- Chwarae Teg
- Felin Fach
- Sefydliad Cymunedol Cymru
- Sylfaen Cymunedol, Caernarfon

MANYLION GWEINYDDOL

Strwythur, Llywodraethiant a Rheolaeth

⇒ **Dogfen Llywodraethiant**

Mae GISDA yn gwmni cyfyngedig trwy warant a lywodraethir gan ei Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu dyddiedig 18.06.2018. Mae GISDA hefyd yn elusen sydd wedi'i chofrestru gyda'r comisiwn elusennau

⇒ **Aelodau Bwrdd**

Mae'r aelodau bwrdd yn gyfarwyddwyr y cwmni ac yn ymddiriedolwyr elusen ac yn cael eu hethol yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Yr aelodau bwrdd hefyd yw aelodau'r cwmni. Mae'n ròl gwirfoddol a heb unrhyw fudd ariannol o'r elusen

⇒ **Cyfrifoldebau**

Yr aelodau bwrdd sydd yn rheoli busnes yr elusen ac maent yn gyfrifol am:

- Gydymffurfiad â Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.
- Gydymffurfiad â deddfwriaeth a safonau a osodwyd gan ein deiliad diddordeb.
- Sicrhau fod y Cwmni yn gweithredu gwerth gorau ym mhob agwedd o'i waith.
- Atebolrwydd i ddeiliad diddordeb drwy fonitro safon y gwasanaethau a ddarperir a sicrhau bod pob agwedd o'r gwaith yn cael ei reoli yn effeithiol.

⇒ **Recriwtio Ymddiriedolwyr**

Mae GISDA yn gweithredu trefn recriwtio agored a theg er mwyn ceisio denu amrediad eang o gefndiroedd, sgiliau a phrofiadau i'r elusen. Mae apwyntiadau yn cael eu gwneud am gyfnod o dair blynedd gyda'r posibilrwydd o ail etholiad am gyfnod o dair blynedd pellach. Wrth recriwtio mae GISDA yn ystyried unrhyw sgiliau arbennig sydd angen yn dilyn awdit sgiliau blynyddol

⇒ **Anwythiad Ymddiriedolwyr**

Mae pob ymddiriedolwr newydd yn dilyn rhaglen anwytho sy'n cynnwys

- pecyn anwytho a llawlyfr ymddiriedolwyr
- ymweliad gyda'r Prif Weithredwr i holl swyddfeydd, prosiectau a hosteli GISDA
- hyfforddiant diogelu ac unrhyw hyfforddiant arall sydd ei angen.

⇒ **Trefniadau Bwrdd Rheoli**

Mae'r Bwrdd yn gallu cynnwys i fyny at 12 o ymddiriedolwyr ac yn cyfarfod yn ddeu fisol neu'n amlach os oes angen. Maent hefyd yn cynnal diwrnod strategol yn flynyddol

⇒ **Is-baneli**

Mae'r ymddiriedolwyr wedi sefydlu 3 is-banel i gynorthwyo efo rheoli gwaith y Bwrdd sef

- is-banel cyllid ac asedau
- is-banel gwasanaethau a phrosiectau
- is-banel staffio, llywodraethiant a busnes

Mae'r is-baneli yn cyfarfod yn ddeu fisol i graffu materion o fewn eu cylch gorchwyl ac yn adrodd yn ol i'r Bwrdd llawn efo argymhellion

Polisïau

Mae gan GISDA cyfres o bolisïau i gyd-fynd efo'r amrediad o wasanaethau, prosiectau a busnes mae'r elusen yn ei weithredu ac rydym yn ychwanegu at y polisïau hyn yn ôl yr angen. Mae'r polisïau yn cael eu hadolygu a diweddaru yn rheolaidd.

Rydym yn falch iawn o fod wedi gweithio efo 'Chwarae Teg' fel rhan o'u rhaglen Cenedl Hyblyg 2 dros y ddwy flynedd diwethaf i adolygu a gwella ein polisïau o safbwynt cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn y broses o ddatblygu Strategaeth Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrwyiaeth GISDA a fydd yn gweithredu fel fframwaith i bob gwasanaeth, gweithgaredd a phrosiect mae'r cwmni'n ei wneud. Rydym wedi diweddaru ein polisiau cydraddoldeb ac wedi ychwanegu polisiau newydd i gyfres polisiau'r cwmni yn cynnwys Menopos Yn Y Gwaith, Niwro-amrywiaeth a Trawsnewid Yn Y Gwaith er mwyn sicrhau amgylchedd cynhwysol a man gwaith diogel i bawb efo'r darpariaeth o gymorth priodol i bob unigolyn

Adnoddau Dynol

Mae GISDA yn cydnabod mai ei staff yw prif adnodd yr elusen ac yn parhau i ddatblygu, cryfhau a gweithredu polisïau, gweithdrefnau a threfniadau adnoddau dynol i greu diwylliant gwaith lle mae staff yn teimlo'n iach a diogel a bod eu gwaith ac yn cael ei werthfawrogi.

Yn fwy nag erioed yn dilyn cyfnod mor heriol rydym wedi bod yn rhoi llawer o bwyslais ar lesiant a diogelwch staff a sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y gefnogaeth maent eu hangen i sicrhau eu bod yn medru cyflawni eu gwaith er lles y bobl ifanc rydym yn eu cefnogi

Cyfrifoldebau'r Bwrdd Rheoli mewn perthynas â'r Datganiadau Ariannol

Mae gofynion Deddf Cwmnïau yn gorfodi'r Bwrdd Rheoli i baratoi adroddiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sydd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae'r Bwrdd Rheoli yn dilyn gwerth gorau ac yn (1) dewis polisïau cyfrifeg addas a'u gweithredu yn gyson a (2) gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a doeth a (3) pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw os nad yw'n anaddas i ystyried bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg addas sy'n datgan gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw amser sefyllfa ariannol cwmni elusennol ac sydd yn sicrhau bod yr adroddiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r Bwrdd Rheoli hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly'n cymryd camau priodol i rwystro ac adnabod twyll ac anghysondebau eraill.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Mae Aelodau'r Bwrdd Rheoli am y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad wedi eu nodi ar dudalen 1. Maent yn gyfarwyddwyr o dan Ddeddfwriaeth Cwmnïau ac yn ymddiriedolwyr o dan Ddeddfwriaeth Elusennol. Mewn cytundeb â Deddf Cwmnïau, fel cyfarwyddwyr y cwmni, rydym yn datgan:

- Cyn belled a gallwn wybod, nid oes unrhyw wybodaeth ar gyfer yr archwiliad perthnasol nad ydym yn ymwybodol ohono
- Fel cyfarwyddwyr y cwmni, rydym wedi cymryd holl gamau angenrheidiol i sicrhau ein bod ni ac archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol o'r holl wybodaeth archwiliad perthnasol.

Archwilwyr

Ail-apwyntiwyd W.J.Matthews & Son fel archwilwyr y cwmni elusennol yn ystod y flwyddyn ac maent wedi nodi eu parodrwydd i barhau i wneud hynny.

Drwy orchymyn y Bwrdd ar 12.07.23 ac wedi arwyddo ar ei ran gan

	Mrs Llinos Owen (Cadeirydd)

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau GISDA Cyfyngedig

Barn

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol GISDA Cyfyngedig am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2023 sydd yn cynnwys y datganiad o weithredoedd ariannol, y fantolen, y datganiad ynghylch llif arian a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102, 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2023, ac am yr adnoddau cyllid a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail ein barn

Rydym wedi cynnal ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r anghenion ethegol sydd yn gymwys i'n archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Ethegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ethegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu fod y tystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a chymwys i baratoi sail i'n barn.

Canlyniadau ynglŷn a busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes byw o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau yn briodol.
Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud a digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r endid i barhau fel busnes byw am gyfnod o leiaf 12 mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol.
Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas a busnes byw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth gynwysedig yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwiliwr arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r helaeth fod wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw ganlyniadau o sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen yr wybodaeth aral ac, wrth wneud hynny, ystyried os oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau arianno neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu sydd fel arall yn ymddangos yn sylweddol anghywir. Os daw yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiant sylweddol ymddangosiadol neu anghysondebau, mae'n ofynnol arnom benderfynu os oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn y wybodaeth arall. Os down i gasgliad , ar sail y gwaith a gwblhawyd fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth

ychwanegol yma, mae'n ofynnol arnom i ymadrodd y ffaith.

Nid oes gennym ddim i ymadrodd mewn cyswllt â hyn.

Barn ar faterion eraill a benodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd yng nghwrs yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson a'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi ei pharatoi yn unol â gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad

Yn sgil yr wybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camfynegiant sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglŷn â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmnïau 2006 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:

- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw, neu os yw adroddiadau cymwys i'n harchwiliad heb eu derbyn gan ganghennau na ymwelwyd gennym, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol mewn cytundeb â'r cofnodion ariannol a'r adroddiadau, neu
- fod rhai datgeliadau am dal ymddiriedolwyr a benodir dan gyfraith wedi eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr oll o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at bwrpas deddf cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg wir a theg ac am y rheolau mewnol mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro'n angenrheidiol i alluogi paratoad o ddatganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamosodiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi y datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel yn gymwys, materion perthnasol i allu'r busnes i barhau a defnyddio y sail busnes byw o gyfrifo os nad yw'r ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu i gau y cwmni neu roi gorau i weithredu, neu heb fod gyda dewis rhesymol ond i wneud hynny.

Cyfrifoldeb yr archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein amcanion yw i dderbyn sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchaf o sicrwydd, ond nid yn gwarantu y buasai archwiliad wedi ei chynnal yn unol ag ISAs (DU) yn darganfod camddatganiad sylweddol, os yw yn bod pob adeg. Gall camosodiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, a byddent yn cael eu cysidro yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y buasai'n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio dewisiadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau yma.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn

perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod gan y tim ymgysylltu ar y cyd y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys;
- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol i'r cwmni trwy drafodaethau â ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector;
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn a allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, amgylcheddol a deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gan reolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Roedd deddfau a rheoliadau a nodwyd yn cael eu cyfleu o fewn y tim archwilio yn rheolaidd ac roedd y tim yn parhau i fod yn effro i achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y cwmni i gamddatganiad perthnasol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:

- Wneud ymholiadau gan reolwyr ynghylch ble roeddent o'r farn bod tueddiad i dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn rheoli a diystyru rheolaethau, rydym yn:

- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;
- Asesu a oedd dyfarniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;
- Ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin.

Mewn ymateb i'r risg o afreolaidd-dra a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cytuno ar ddatgeliadau datganiadau ariannol i ddogfennau ategol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn ein gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddem yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad oherwydd gallent gynnwys cuddio neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Fel rhan o archwiliad a ymgymerir yn unol ag ISAs (DU), rydym yn ymarfer barn proffesiynol a chynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad, rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamosodiad sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio yn ymatebol i'r risg hynny, a chael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio darganfod camosodiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch nag o risg yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cyd-dwyllo, ffugio, gadael gwybodaeth allan yn fwriadol, camfynegiadau, neu anwybyddu reolau mewnol.
- Cael dealltwriaeth o reolaeth ariannol perthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at bwrpas o fynegi barn ar effeithiolrwydd y rheolau mewnol.
- Asesu priodolrwydd y polisïau cyfrifyddol a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb o amcangyfrifau cyfrifyddol a datgeliaethau cysylltiedig a wneir gan yr ymddiriedolwyr.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd o'r sail cyfrifo busnes byw gan yr ymddiriedolwyr ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gawsom, os os oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amgylchiadau a all godi amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel uned byw. Os y down i gasgliad fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae'n ofynnol arnom i dynnu sylw, yn ein adroddiad archwiliwr i'r datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os nad yw'r datgeliadau yn ddigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y tystiolaeth archwilio a dderbyniwyd hyd at dyddiad adroddiad yr archwiliwr. Er hynny, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi'r cwmni i beidio parhau fel busnes byw.
- Asesu y cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac os yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli y trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn ffurf sydd yn cyflawni cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu gyda'r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynglŷn, ymysg materion eraill, paratoi cwmpas ac amseru yr archwiliad a darganfyddiadau sylweddol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw wendidau sylfaenol mewn rheolaeth ariannol a ddarganfuwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

Defnyddio ein adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi ei wneud i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Adran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Rydym wedi ymgymryd a'r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni elusennol ar y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad yr archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at eithaf â ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw y cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

David Chidley (Prif archwiliwr statudol)
Dros ac ar ran
W J Matthews a'i Fab,
Archwiliwr Statudol
a Chyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
CAERNARFON
LI55 1AB

Dyddiad: 12.07.2023

GISDA Cyfyngedig

Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant) *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023*

	Nodiadau	Cronfeydd Anghgyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	2023 £	2022 £
Incwm					
Incwm gwirfoddol Grantiau a Rhoddion	*3*	3,591	28,608	32,199	38,330
Incwm o weithgareddau elusennol Grantiau, cytundebau rhenti ac ati	*4*	311,027	1,629,952	1,940,979	1,588,459
Llog banc		1,437	-	1,437	70
Incwm arall		3,672	-	3,672	20,478
Cyfanswm incwm		319,727	1,658,560	1,978,287	1,647,337
Gwariant Gweithgareddau elusennol	*6*	116,873	1,570,205	1,687,078	1,440,077
Incwm net a symudiadau net mewn cronfeydd am y flwyddyn		202,854	88,355	291,209	207,260
Cronfeydd ar 1 Ebrill 2022		592,066	1,132,670	1,724,736	1,517,476
Cronfeydd ar 31 Mawrth 2023		794,920	1,221,025	2,015,945	1,724,736

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio i gyd o weithgareddau sydd yn parhau. Mae'r holl enillion a cholledion a gydnabyddir yn y flwyddyn wedi eu cynnwys uchod. Mae'r syrffed am y flwyddyn at bwrpas y Ddeddf Cwmnïau yn cynnwys yr adnoddau cyllid net am y flwyddyn yn £291,209 (2022 – 207,260).

GISDA Cyfyngedig

Mantolen *ar 31 Mawrth 2023*
(Rhif cofrestru'r cwmni 2484575)

	Nodiadau		2023 £	2022 £
ASEDAU SEFYDLOG				
Asedau cyffyrddadwy a ddefnyddir gan yr Elusen	*11*		1,032,866	1,021,168
ASEDAU CYFREDOL				
Dyledwyr	*12*	133,390		248,455
Arian yn y banc		977,445		693,653
		1,110,835		942,108
CREDYDWYR: *Symiau yn daladwy o fewn blwyddyn*	*13*	(127,756)		(109,909)
ASEDAU CYFREDOL NET			983,079	832,199
CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			**2,015,945**	**1,853,367**
CREDYDWYR: *Symiau yn daladwy ar ôl blwyddyn*	*14*		-	(128,631)
ASEDAU NET			2,015,945	1,724,736
CRONFEYDD INCWM				
Cronfeydd cyfyngedig	*17*		1,221,025	1,132,670
Cronfeydd anghyfyngedig	*16*		794,920	592,066
			2,015,945	1,724,736

Ar ran y Bwrdd ..... (Cyfarwyddwr)
Mrs Llinos Owen

Dyddiad 12.07.2023

Mae'r nodiadau ar dudalennau 31 i 41 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

GISDA Cyfyngedig

Datganiad ynghylch llif arian *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2023*

	Nodyn	2023 £	2022 £
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	***19***	444,331	30,280
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		1,437	70
Llog a dderbyniwyd	***11***	(28,726)	(18,890)
Prynu asedau sefydlog		-	-
Gwerthiant asedau sefydlog			
Arian a ddefnyddiwyd i fuddsoddi		(27,289)	(18,820)
Llif arian o weithgareddau ariannu		-	-
Derbynneb morgais		(133,250)	(8,839)
Ad-daliadau morgais			
Arian o weithgareddau ariannu		(133,250)	(8,839)
Cynnydd mewn arian a chyfatebolion arian		**283,792**	**2,621**
Arian a chyfatebolion arian ar 1 Ebrill 2022		693,653	691,032
Arian a chyfatebolion arian ar 31 Mawrth 2023		977,445	**693,653**

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023*

1. Polisiau cyfrifyddol

Mae'r prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, penderfyniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd â amcangyfrifir wrth baratoi y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

a) Sail Paratoi Cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu yn unol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau" Datganiad o Ymarferion Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) – (SORP Elusennau (FRS102)), yr Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Cwmniau 2006.
Mae GISDA Cyfyngedig yn bodloni gofynion diffiniad uned budd cyhoeddus dan FRS102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau yn wreiddiol ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion os na nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifo perthnasol.
Mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro nad oes ansicrwydd sylweddol am allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw.

b) Polisïau cydnabod incwm

Dangosir adnoddau cyllid yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd unrhyw ganllawiau perfformiad ynghlwm a'r eitemau incwm wedi eu cyflawni neu yn gyflawn o fewn rheolaeth yr elusen a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl. Cyfrifir am grantiau ple nad yw'r hawl yn ddibynnol ar berfformiad gan yr elusen, pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant. Gohirir incwm os nad canllawiau hawl wedi eu cyrraedd neu os yw'r incwm wedi ei neilltuo ar gyfnod yn y dyfodol.

Cydnabyddir incwm grantiau sydd ddim yn dibynnol ar gyflawni gweithgareddau penodol pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant. Gohirir incwm os nad yw'r elusen wedi cyflawni gweithgareddau penodol i roi hawl i'r incwm neu lle mae'r incwm wedi ei glustnodi at gyfnod diweddarach.

Cydnabyddir incwm grantiau sydd yn ddibynnol ar berfformiad neu gyflawni gweithgareddau penodol fel mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau drwy berfformiad o'i oblygiadau.

c) Cyfrifo cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall. Mae cronfeydd penodedig yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu rhoi i'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at bwrpas arbennig. Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol a chyfyngiadau penodol dan amodau y rhoddwr neu sydd wedi eu codi gan yr elusen at bwrpas arbennig.

ch) Gwariant

Cydnabyddir gwariant pan mae oblygiad cyfreithiol neu weithredol i wneud taliad i drydydd person, y mae'n debygol fydd taliad yn angenrheidiol a gellir mesur yr blygiad yn ddibynadwy.
Cyfrifir yr holl wariant yn y datganiad o weithredoedd ariannol ar sail croniant.
Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau a godir wrth gyflenwi gweithgareddau a gwasanaethau i'r buddiolwyr.
Mae'n cynnwys y costau a benodir yn uniongyrchol i'r gweithgareddau a'r costau anuniongyrchol sydd yn angenrheidiol i'w cefnogi.

Cyfrifir TAW na ellir ei hawlio fel cost yn erbyn y gweithgaredd a achosodd y gwariant.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023*

d) Costau cynorthwyol
Costau cynorthwyol yw gweithgareddau sydd yn cefnogi gwaith yr elusen ond sydd ddim yn ymwneud a gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cynorthwyol yn cynnwys yr adran weinyddol, cyllid, personél a llywodraethol sydd yn cefnogi y gwahanol brosiectau elusennol. Mae'r costau hyn wedi eu dosbarthu rhwng y gwahanol adrannau fel y dangosir yn nodyn 7.

dd) Les gweithredol
Mae'r elusen yn dosbarthu rhenti eiddo fel les gweithredol; mae tetl i'r eiddo yn aros gyda'r prydleswr ac mae bywyd economaidd yr eiddo yn llawer hirach na term y les.

e) Asedau sefydlog
Mae asedau sefydlog gyda chost mwy na £1,000 yn cael eu cyfalafu a'u cynnwys ar gost gan gynnwys unrhyw gostau atodol o gaffaeilio. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau llai gwerth gweddilliol dros gyfnod amcangyfrifol o'u hoes fel a ganlyn:

Offer swyddfa	20-33%
Dodrefn tai	20%
Gwelliannau	25%
Moduron	20%

f) Dyledwyr
Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl nodi unrhyw disgownt masnachol a gynnigwŷd. Dangosir blaendaliadau ar werth y swm a dalwyd ymlaen llaw llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

ff) Arian mewn banc ac mewn llaw
Mae arian mewn banc ac mewn llaw yn cynnwys arian buddsoddiadau tymor byr sydd yn aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael neu o agor y cyfrif adnau.

g) Credydwyr a darpariaethau
Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fydd gan yr elusen oblygiad cyfredol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol gyda'r canlyniad tebygol o drosglwyddiad o eiddo i drydydd person a gellir mesur y swm angenrheidiol i setlo'r oblygiad yn ddibynadwy. Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

ng) Offerynnau ariannol
Dim ond offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cofnodir offerynnau ariannol sylfaenol i dechrau ar bris y contract os nad yw'r trefniant yn sefydlu gweithrediad ariannu, pan fyddent yn cael eu cofnodi ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi eu gostyngi ar raddfa llog y farchnad am offeryn ariannol tebyg.

h) Costau pensiwn
Mae'r gost o baratoi pensiwn a manteision cyffelyb yn cael eu prisio i'r Datganiad o Weithredoedd ariannol fel mae'r rhwymedigaeth yn codi. Mae'r elusen yn talu cyfraniadau pensiwn ar sail cyfraniadau wedi eu diffinio.

2. Statws gyfreithiol y cwmni
Mae'r cwmni yn gyfyngedig drwy warrant. Wrth ddirwyn i ben neu ddiddymu y cwmni ac wedi bodloni ei holl ddyledio a'i rwymedigaethau, os erys unrhyw eiddo o gwbl yn weddill, ni thelir ef i aelodau y cwmni na'i ddosbarthu yn eu mys ond yn hytrach ei roi i sefydliad elusennol arall gydag amcanion cyffelyb i amcanion y cwmni. Gan na dderbynnir unrhy eiddo o'r cwmni gan yr aelodau, nid oes Cysondeb o Gronfeydd Ariannol yn angenrheidiol.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023

3. Incwm gwirfoddol	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm 2023	Cyfanswm 2022
	£	£	£	£
Rhodd Elusen Weston	-	15,833	15,833	4,167
Rhoddion eraill	3,591	12,775	16,366	34,163
	3,591	28,608	32,199	38,330

4. Gweithgareddau elusennol	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm 2023	Cyfanswm 2022
	£	£	£	£
Rhent	287,731	-	287,731	292,528
Grant Cymorth Tai	-	682,736	682,736	633,081
Grant Cynulliad Cenedlaethol	-	27,136	27,136	27,318
Grant Cyngor Gwynedd	-	90,978	90,978	90,978
Plant Mewn Angen	-	39,116	39,116	-
Grant Erasmus	-	-	-	1,429
Grantiau Cyngor Gwynedd	-	46,146	46,146	64,241
Grantiau Prosiect LGBT	-	42,375	42,375	47,000
Incwm Llogi Ystafelloedd	-	-	-	145
Rhent Tai Gisda	23,296	-	23,296	23,296
Grantiau Dros Unigolion Ifanc	-	5,381	5,381	10,604
Caffi Creu	-	29,894	29,894	16,576
Prosiect ICAN	-	106,000	106,000	119,037
Loteri Cymuned Pobl Ifanc	-	-	-	3,242
Grantiau Academi Cyfleon	-	71,924	71,924	121,661
Kickstart	-	16,154	16,154	49,675
Grant TAPI	-	296,887	296,887	76,153
Grant CAHMS	-	-	-	8,790
Grant Cymorth Llaw	-	-	-	705
Cronfa Pears Foundation	-	-	-	2,000
Grant Datblygu Loteri	-	40,061	40,061	-
CWVYS	-	10,000	10,000	-
Grant TAITH	-	54,684	54,684	-
Grant Moondance	-	70,480	70,480	-
	311,027	1,629,952	1,940,979	1,588,459

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023*

5. Incwm Gohiriedig

	Incwm Gohiriedig 2022 £	Derbyniadau 2023 £	Incwm Gohiriedig 2023 £	Incwm a Gydnabyddir 2023 £
Rhodd Elusen Weston	5,833	10,000	-	15,833
Grantiau Dros Unigolion Ifanc	3,311	2,070	-	5,381
Cyngor Gwynedd Cefnogi Tai	5,000	-	-	5,000
Cyngor Gwynedd	4,872	-	-	4,872
Rhieni Ifanc	20,000	-	-	20,000
Grant Cymorth Tai	-	52,756	52,756	-

6. Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd

	Cynlluniau Llety a Chefnogaeth £	Cynlluniau Cefnogi a Datblygu £	Eraill £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Costau staff	473,840	394,181	4,121	872,142	856,728
Costau adeiladau	206,332	5,804	23,697	235,833	219,720
Adnewyddu a thrwsio	13,305	-	1,595	14,900	13,001
Teithio a chynhaliaeth	15,168	22,603	3,449	41,220	31,097
Hyfforddiant	1,661	8,668	50	10,379	8,694
Gweithgareddau	1,747	49,779	5,363	56,889	23,525
Gwariant tros bobl ifanc	125	43,265	225	43,615	36,509
Costau proffesiynol	78	77,494	-	77,572	10,221
Costau swyddfa a ffon	14,247	2,171	5,855	22,273	31,029
Hysbysebu a marchnata	186	4,682	5,389	10,257	2,539
Dibrisiant	-	17,028	-	17,028	7,381
Eraill	4,514	825	4,019	9,358	7,025
Costau llywodraethol	21,929	18,789	1,612	42,330	33,009
Costau cynorthwyol	120,850	103,546	8,886	233,282	159,599
Cyfanswm	873,982	748,835	64,261	1,687,078	1,440,077

Roedd gwariant ar weithgareddau elusennol yn £1,687,078 (2022- £1,440,077). O'r gwariant yma roedd £116,873 (2022- £290,461) yn anghyfyngedig a £1,570,205 (2022 - £1,149,616) yn gyfyngedig.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023

7. Dadansoddiad o gostau llywodraethol a chynorthwyol

I ddechrau, mae'r cwmni elusennol yn nodi ei gostau cynorthwyol. Yna nodir y costau sydd yn berthnasol i'r pwrpas llywodraethol. Wedi adnabod y costau llywodraethol, rhannir y costau cynorthwyol cyffredinol a'r costau llywodraethol rhwng y tri gweithgaredd elusennol a ymgymerwyd yn ystod y flwyddyn. Nodir dosbarthiad y costau rhwng y gweithgareddau elusennol ar sail defnydd.

	Cynorthwyol Cyffredinol	Llywodraethol	Cyfanswm 2023	Cyfanswm 2022
	£	£	£	£
Costau staff canolog	146,333	36,442	182,775	120,981
Costau swyddfa a ffon	17,248	-	17,248	17,694
Costau adeiladau	34,805	-	34,805	26,984
Adnewyddu a thrwsio	204	-	204	210
Teithio a chynhaliaeth	2,340	-	2,340	1,337
Hyfforddiant	5,134	-	5,134	2,572
Gweithgareddau	1,209	-	1,209	148
Hysbysebu a marchnata	7,870	-	7,870	1,517
Costau proffesiynol	6,912	-	6,912	7,165
Archwilio a chyfrifo	4,131	4,200	8,331	8,767
Cyfarfod blynyddol	-	1,688	1,688	-
Costau llog a chostau banc	4,619		4,619	4,684
Eraill	2,477	-	2,477	550
	233,282	42,330	275,612	192,608

Adnoddau Cyllid Net

Nodir yr adnoddau cyllid net ar ôl codi:

	2023	2022
	£	£
Rhent	155,145	146,682
Dibrisiant	17,028	7,381
Ffioedd archwilio	4,200	4,200
Archwiliwr – ffioedd eraill	4,131	4,567

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023*

8. Costau Staff a chydnabyddiaeth yr ymddiriedolwyr

	2023	2022
	£	£
Cyflogau	947,887	874,692
Yswiriant cenedlaethol	73,455	68,808
Pensiwn	33,575	34,209
	1,054,917	977,709

Nid oedd cydnabyddiaeth unrhyw aelod o staff dros £60,000 y flwyddyn. Nodir costau pensiwn i'r gweithgareddau ar yr un canran a'r cyflogaeth perthynol.

Ni dderbyniwyd ffioedd na thal rheoli yn ystod y flwyddyn *(2022– Dim)*. Ni wnaed taliadau i gyfarwyddwyr am gostau a achoswyd *(2022 – Dim)*.

Nid oedd gan unrhyw Ymddiriedolwr neu berson arall yn gysylltiedig a'r elusen unrhyw ddiddordeb personol mewn unrhyw gontract neu drafodion gyda'r elusen yn ystod y flwyddyn (*2022 – Dim*).

Mae personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r tîm rheoli. Roedd cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol yr elusen yn £226,624 *(2022 - £191,181)*.

Roedd cyfartaledd nifer cyflogedig yr elusen yn ystod y flwyddyn, ar sail blwyddyn llawn, fel a ganlyn:

	2023	*2022*
	Nifer	Nifer
Prif Weithredwr	1	1
Cynllun Llety a Chefnogaeth	19	22
Cynlluniau Cefnogi a Datblygu Eraill	22	20
Gweinyddol	3	5
	45	48

Telir cyfraniadau pensiwn i gynllun gyda'r cyfraniadau wedi eu diffinio. Nid oedd unrhyw flaendaliadau pensiwn ar ddiwedd y flwyddyn *(2022- Dim)*.

10. Treth

Fel elusen mae GISDA Cyfyngedig yn eithriedig o dreth ar incwm ac enillion o fewn adran 505 o'r Gyfraith Dreth 1988 ac adran 256 o'r Gyfraith Treth Enillion Cyfalaf 1992 hyd at eu bod yn cael eu defnyddio at weithgareddau elusennol. Nid oed unrhyw rwymedigaeth treth wedi codi.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023*

11.

	Asedau sefydlog dirweddol				
	Adeiladau a Gwelliannau £	***Offer swyddfa*** £	***Dodrefn Tai*** £	***Moduron*** £	***Cyfanswm*** £
Cost/Gwerth					
Ar 1 Ebrill 2022	1,096,350	179,440	105,276	16,500	1,397,566
Ychwanegiadau	-	15,926	-	12,800	28,726
Ar 31 Mawrth 2023	1,096,350	195,366	105,276	29,300	1,426,292
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2022	106,922	153,600	105,276	10,600	376,398
Cost am y flwyddyn	-	12,868	-	4,160	17,028
Ar 31 Mawrth 2023	106,922	166,468	105,276	14,760	393,426
Gwerth yn y llyfrau					
Ar 31 Mawrth 2023	989,428	28,898	-	14,540	1,032,866
Ar 31 Mawrth 2022	989,428	25,840	-	5,900	1,021,168

Mae'r holl asedau sefydlog yn cael eu defnyddio i hyrwyddo amcanion yr elusen.

12. Dyledwyr	**2023** £	**2022** £
Dyledwyr masnachol	124,617	238,200
Blaendaliadau	5,288	5,570
Dyledwyr eraill	3,485	4,685
	133,390	248,455

Yn gynwysedig yn y dyledwyr eraill mae £2,285 yn ddyledus ar ôl blwyddyn.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023*

13. **Credydwyr:** *symiau yn daladwy o fewn blwyddyn*	2023 £	2022 £
Credydwyr masnachol	12,842	19,590
Treth a nawdd cymdeithasol	33,067	14,783
Incwm gohiriedig	52,756	39,016
Costau wedi cronni	29,091	36,520
	127,756	109,909

14. **Credydwyr:** *symiau yn daladwy ar ôl blwyddyn*	2023 £	2022 £
Morgais	-	128,631

Ad-dalwyd y morgais yn llawn yn ystod y flwyddyn.

15. Ymrwymiadau

Les Gweithredol

Mae gan yr elusen ymrwymiadau dan les weithredol fel a ganlyn:

	Tir ac Adeiladau		Eraill	
	2023 £	2022 £	2023 £	2022 £
Taliadau les:				
O fewn un flwyddyn	173,339	158,330	2,716	-
Rhwng un a phum mlwyddyn	-	18,000	-	2,716
Dros bum mlynedd	-	-	-	-
	173,339	176,330	2,716	2,716

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023*

16. Cronfeydd anghyfyngedig

	Balans 1 Ebrill 2022	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2023
	£	£	£	£	£
Cronfa Gyffredinol	510,066	(118,000)	319,727	(116,873)	594,920
Cronfa Dynodedig	82,000	118,000	-	-	200,000
	592,066	-	319,727	(116,873)	794,920

	Balans 1 Ebrill 2021	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2022
	£	£	£	£	£
Cronfa gyffredinol	425,182	-	375,345	(290,461)	510,066
Cronfa Dynodedig	82,000	-	-	-	82,000
	507,182	-	375,345	(290,461)	592,066

17. Cronfeydd cyfyngedig

	Balans 1 Ebrill 2022	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2023
	£	£	£	£	£
Cynlluniau llety a chefnogaeth	22,515	-	682,736	(705,251)	-
Cynlluniau cefnogi a datblygu	380,155	-	975,824	(864,954)	491,025
Grantiau a Rhoddion Adeiladau	730,000	-	-	-	730,000
	1,132,670	-	1,658,560	(1,570,205)	1,221,025

	Balans 1 Ebrill 2021	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2022
	£	£	£	£	£
Cynlluniau llety a chefnogaeth	22,515	-	633,081	(633,081)	22,515
Cynlluniau cefnogi a datblygu	257,779	-	638,911	(516,535)	380,155
Grantiau a Rhoddion Adeiladau	730,000	-	-	-	730,000
	1,010,294	-	1,271,992	(1,149,616)	1,132,670

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023*

18. Dadansoddiad asedau net rhwng cronfeydd

	Asedau Sefydlog Dirweddol £	Asedau Cyfredol Net £	Credydwyr Ar ôl un Blwyddyn £	Cyfanswm £
Ffynonellau cyfyngedig	730,000	491,025	-	1,221,025
Ffynonellau anghyfyngedig	302,866	492,054	-	794,920
	1,032,866	983,079	-	2,015,945

19. Cymodi'r elw gweithredol â'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol

	2023 £	2022 £
	291,209	207,260
Symudiad net mewn cronfeydd	(1,437)	(70)
Llog a dderbyniwyd	4,619	4,684
Llog morgais a dalwyd	17,028	7,381
Dibrisiant	115,065	(142,255)
(Cynnydd)/Lleihad mewn dyledwyr	17,847	(46,720)
Cynnydd/(Lleihad) mewn credydwyr		
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	**444,331**	**30,280**

20. Dadansoddiad o gronfeydd y flwyddyn flaenorol

Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant) *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

	Cronfeydd Anghgyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	2022	2021
	£	£	£	£
Incwm				
Incwm gwirfoddol				
Grantiau a Rhoddion	27,663	10,667	38,330	20,325
Incwm o weithgareddau elusennol				
Grantiau, cytundebau rhenti ac ati	327,134	1,261,325	1,588,459	1,509,058
Elw ar werthu ased sefydlog	-	-	-	14,350
Llog banc	70	-	70	59
Incwm arall				
Incwm Cynllun Cadw Swyddi	20,478	-	20,478	23,825
	-	-	-	21,669
Cyfanswm incwm	375,345	1,271,992	1,647,337	1,589,286
Gwariant				
Gweithgareddau elusennol	290,461	1,149,616	1,440,077	1,309,862
Incwm net a symudiadau net mewn cronfeydd am y flwyddyn	84,884	122,376	207,260	279,424
Cronfeydd ar 1 Ebrill 2021	507,182	1,010,294	1,517,476	1,238,052
Cronfeydd ar 31 Mawrth 2022	592,066	1,132,670	1,724,736	1,517,476

GISDA CYFYNGEDIG / ARFON YOUNG SINGLE HOMELESS GROUP

England & Wales - Charity number 1068325

Accounts

GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

GISDA CYFYNGEDIG

(CWMNI WEDI EI GYFYNGU DRWY WARANT)

DATGANIAD ARIANNOL AC ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

BLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

RHIF ELUSEN: 1068325

RHIF CWMNI: 2484575

CYFEIRIADAU

Rhif Elusen: 1068325

Rhif Cwmni: 2484575

Swyddfa Gofrestredig: 22/23 Y Maes, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2NA

Arwchwilwyr: W J Matthews A'i Fab, 11-15 Bont Bridd, Caernarfon

Bancwyr: Lloyds Bank PLC, 268 Stryd Fawr, Bangor

Cyfreithwyr: Richard Hall, Bryn Gwynhoedl, Llangwnadl, Pwllheli

Ysgrifennydd Cwmni: Elizabeth George

Prif Weithredwr: Sian Elen Tomos

Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr

Cyfarwyddwyr y cwmni elusennol yw ei ymddiriedolwyr at ddibenion y gyfraith elusennau a thrwy gydol yr adroddiad hwn cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel yr ymddiriedolwyr.

Mae'r ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ac ers diwedd y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

Cadeirydd: Parch Ron J Williams

Is-gadeirydd: Mrs Llinos Angharad Owen

Trysorydd: Mr Dewi Jones

Ymddiriedolwyr :

- Dr Dylan Wyn Evans
- Ms Elen Foulkes (apwyntiwyd 28.03.2022)
- Ms Gilly Harradence
- Mrs Ffion Jon (ymddeol 27.07.2021)
- Cyng Elwyn Jones
- Dr Peter Harlech Jones
- Mr W Tudor Jones
- Ms Elen Mai Owen (ymddeol 10.11.2021)
- Dr Gwenllian Parry (apwyntiwyd 24.05.2021)
- Mr Rhys Parry (apwyntiwyd 28.03.2022)
- Mrs Carys Thomas (ymddeol 28.03.2022)

GAIR GAN Y CADEIRYDD

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol GISDA am 2021-2022 i'ch sylw. Cyfarfodydd rhithiol oedd cyfarfodydd blynyddol GISDA am y ddwy flynedd diwethaf o ganlyniad i'r Pandemig. Mae'n braf nad cyfarfod rhithiol fydd yn cael ei gynnal eleni ond cyfarfod wyneb yn wyneb yn Galeri. 'Does dim angen ein hatgoffa pa mor heriol fu'r ddwy flynedd diwethaf; nid yn unig i ni yn GISDA, ond i bob elusen, mudiad, cwmni a phawb ohonom.

Pan ymyrrwyd ar ein patrwm gwaith arferol, fel ddigwyddodd gyda'r pandemig, braf dweud bod GISDA wedi goresgyn yr anawsterau i sicrhau bod gwasanaethau GISDA wedi parhau mor esmwyth â phosibl a gwelwyd addasu cyflym i ffordd newydd o weithio. Llwyddwyd i wneud hyn oherwydd ymroddiad y tîm rheoli a gweithwyr GISDA a'r awydd i weld y gwaith yn llwyddo a datblygu, hyd yn oed mewn cyfnod o argyfwng. O ran technoleg, roedd y mwyafrif yn berchen gliniadur ag i'r rhai oedd heb, roeddem wedi datrys hyn mewn dim gyda chymorth cwmni technoleg mae GISDA yn ei ddefnyddio. Mae heddiw yn gyfle i ddiolch i bawb am eich gwaith.

Mae cyfarfod blynyddol 2022 yn digwydd ar gyfnod cyffrous yn hanes GISDA gyda'r holl gynlluniau sy'n digwydd i'n hadeiladau ar y Maes gan gynnwys adeilad banc y NatWest. Tra bydd y gwaith yn cael ei gwblhau bydd nifer o staff GISDA'n gorfod addasu i weithio mewn swyddfeydd eraill. Gan fod GISDA'n gallu addasu i wahanol amgylchiadau, mae gennyf bob hyder y llwyddir eto i wneud hyn. Ond rydym yn cydnabod yr her i'n staff tra fydd y gwaith yn mynd rhagddo.

Yn anffodus, mae anwybodaeth yn y gymdeithas o waith da GISDA yn parhau. Pan ddown ar draws yr anwybodaeth yma, daliwn ar bob cyfle i rannu am waith yr elusen a rhannu copïau o Adroddiad Blynyddol GISDA gyda chymaint o bobl ac y gallwn! Buan daw pobol i ddeall wedyn dyfnder y gefnogaeth a roir i ieuenctid a theuluoedd Gwynedd.

Diolch i aelodau'r bwrdd; mae rhai arno ers blynyddoedd ac eraill yn newydd. Gwn fod pob aelod ar fwrdd GISDA boed yn y gorffennol neu heddiw yno oherwydd fod y gwaith a wneir gan GISDA yn bwysig i'r aelodau. Gwerthfawrogwn eich ymroddiad a'ch mewnbwn i waith yr elusen.

Gŵyr rhai fy mod yn un o'r criw fu'n gyfrifol am sefydlu GISDA nôl yn 1985. Ers hynny 'rwyf wedi gweld GISDA'n datblygu i fod yr elusen cyffrous ac effeithiol y mae heddiw. Hwn fydd fy adroddiad olaf fel Cadeirydd, gan fy mod wedi penderfynu mai dyma'r amser priodol i orffen yn fy rôl. Yn ystod fy nghyfnod ar y bwrdd cefais gyfnodau ar wahanol adegau i weithredu fel Cadeirydd. Bu'n fraint cael bod yn rhan o fwrdd a gwaith GISDA – diolch i chi gyd am eich cefnogaeth.

Pob dymuniad da i GISDA i'r dyfodol; daliwch ati i gyflawni y gwaith da a wneir heddiw fel ag yn y gorffennol. Mae nifer o'n hieuenctid yn ddyledus iawn i GISDA am gael derbyn gwasanaeth a chefnogaeth. Y rheswm am hyn yw fod GISDA wedi ac yn parhau i wneud gwahaniaeth i fywyd ein pobol ifanc. Diolch i bawb sy'n rhan o'r gwaith.

Pob hwyl a llwyddiant i'r gwaith i'r dyfodol, ***Ron Williams* (Cadeirydd GISDA)**

GAIR GAN Y BRIF WEITHREDWRAIG

Dyma ni ar ddiwedd ail flwyddyn lawn ers dechrau'r pandemig a effeithiodd lawer un ohonom mewn gwahanol ffyrdd. Daethom yn ôl yn araf deg i normalrwydd gan barhau i ddilyn canllawiau y Llywodraeth i wneud ein gorau i gadw pawb yn ddiogel tra hefyd yn symud ymlaen i gynnig gwasanaeth o ansawdd ac wyneb i wyneb i bobl ifanc.

Yn yr un modd a'r flwyddyn blaenorol ceisiom ein gorau i flaenoriaethu llesiant staff a phobl ifanc a'u harfogi gyda phopeth oedd angen i gyflawni y gefnogaeth gorau posibl. Cawsom ambell gyfarfod lle daeth staff i gyd at eu gilydd a bu nifer ar deithiau cerdded amrywiol ar ddiwrnodau llesiant staff ac ati. Trefnwyd nifer o weithgareddau hwyl a llesiant i bobl ifanc yn ogystal gan gynnwys trip i Lundain, dringo, padl fyrddio a llawer mwy. Mae gweithgareddau yn rhan mawr o ethos GISDA i sicrhau darpariaeth sydd yn therapiwtig ei naws i bobl ifanc i'w cynorthwyo i fod yn hapus fel eu bod mewn gwell lle i gyd weithio ar ddatblygu sgiliau byw yn annibynnol. Datblygwyd prosiectau cyffrous newydd a byddem yn parhau i'w datblygu yn ystod y flwyddyn.

Mae'r hyn mae ein staff wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn yn eithriadol ac rwyf yn hynod o falch a diolchgar i bob un. Unwaith eto aethpwyd y filltir ychwanegol i sicrhau bod ein pobl ifanc mwyaf bregus yn cael y sylw priodol, yr amser a'r gwasanaeth gorau i gwrdd gyda'u hanghenion. Mae'r amser, clust a sylw a roddir gan ein staff yn ddi amod ac yn gwneud gwahaniaeth enfawr i ganlyniadau pobl ifanc bregus a digartref. Dyma yw cryfder GISDA sef ein staff a'n gallu a'n harbenigedd i ddeall pobl ifanc, i gredu ynddynt, i'w harfogi a'u hannog i ddilyn eu breuddwydion. Dros y flwyddyn buom yn datblygu ein sgiliau cyd gynhyrchu gyda phobl ifanc gan eu hymbweru i gymryd cyfrifoldeb dros eu bywydau eu hunain. Braint ac anrhydedd mawr yw gallu cydweithio gyda phobl ifanc, hoffwn ddiolch i bob un am eu ffydd a'u hyder ynom a'u caniatâd i'w helpu ar eu taith mewn bywyd. Hoffwn roi sylw hefyd i'n staff cyllid a gweinyddol sydd yn gweithio yn ddiwyd bob dydd i gefnogi gwaith ein prosiectau.

Diolch o galon i'r Tîm Rheoli a'r Bwrdd Rheoli a fu'n gefn mawr i mi wrth lywio'r cwmni drwy flwyddyn brysur ond cyffrous iawn. Mae cyfraniad bob un person o fewn GISDA boed yn berson ifanc, Rheolwr neu Aelod Bwrdd yr un mor bwysig a'u gilydd. Mae gweithio mewn tîm yn hanfodol i lwyddiant unrhyw gwmni ac rwyf yn eithriadol o falch a ffodus o bob un sydd yn chwarae eu ròl hanfodol i rediad llyfn GISDA. Edrychaf ymlaen yn fawr i gydweithio gyda chi yn ystod y flwyddyn. Diolch yn fawr

Diolch arbennig i'n harianwyr am eu cefnogaeth yn arbennig Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Gronfa Cymunedol y Loteri, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan. Rydym yn falch ein bod yn bodloni eu hanghenion fel comisiynwyr ac yn gobeithio y gallwn barhau i gydweithio dros y blynyddoedd nesaf.

Cyn dod i derfyn, hoffwn dalu teyrnged arbennig i'n Cadeirydd sef y Parch. Ron Williams sydd yn ymddeol o'r Bwrdd eleni. Bu'n aelod o fwrdd Rheoli GISDA am 37 mlynedd. Bu'n Gadeirydd ar sawl achlysur. Bu'n ffyddlon a theyrngar tu hwnt i eiriau ac hebddo ni fyddai GISDA yn lle mae'r cwmni heddiw. Arweiniodd y Bwrdd a'r cwmni yn gadarn gan sicrhau ein bod wastad yn glynu at ein egwyddorion a'n gwerthoedd a'n bod bob amser yn rhoi y bobl ifanc yn y canol. Ar lefel bersonol bu'n graig o gefnogaeth di ffuant ac mae fy nyled iddo yn enfawr. Diolch o galon i chi Ron a phob dymuniad da i chi, bydd eich cyfraniad i GISDA byth yn mynd yn angof, gallaf eich sicrhau.

Diolch yn fawr!

***Sian Tomos* (Prif Weithredwraig GISDA)**

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR YN CYNNWYS ADRODDIAD STRATEGOL

CYFLWYNIAD

Mae'r ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at bwrpas Deddf Cwmnïau yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 sydd hefyd wedi eu paratoi er mwyn cwrdd gyda'r angen am adroddiad cyfarwyddwyr a chyfrifon at bwrpas Deddf Cwmnïau

Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Elusennau 2011, Deddf Cwmnïau 2006, Erthyglau a Memorandwm y Cwmni elusennol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau". Datganiad o ymarferion cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau, Datganiad o Weithredoedd Ariannol yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102). Mae asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cofnodi ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion

STRATEGAETH 2019-2023

Mae Strategaeth GISDA Cyf ar gyfer 2019-2023 yn nodi ein gwerthoedd, ein blaenoriaethau a'n hymrwymiad hir-dymor i barhau i roi cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus. Mae'n adlewyrchu ein trafodaethau ar draws y cwmni o farn a llais pobl ifanc i fyny at aelodau ein Bwrdd Rheoli ac yn rhywbeth yr ydym yn falch iawn ohono. Ers 2019 rydym wedi bod yn canolbwyntio ar y 5 nôd strategol canlynol:

1.	**LLAIS – GISDA yn sicrhau bod llais pobl ifanc digartref a bregus yn ganolog i bopeth**
2.	**LLETY - GISDA yn gwmni sydd yn ymateb i anghenion llety a chefnogaeth pobl ifanc digartref a bregus**
3.	**CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD - GISDA yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus drwy weithgareddau creadigol, artistig, therapiwtig, hamdden ac addysgiadol.**
4.	**CYMUNED – GISDA yn gwmni sydd yn cyfranogi a chwarae ei ran yn y gymuned er budd pobl ifanc digartref a bregus**
5.	**CYNALIADWYEDD – GISDA yn datblygu cynlluniau, mentrau cymdeithasol a meithrin partneriaethau i sicrhau cynaliadwyedd y cwmni**

Dros y flwyddyn diwethaf mae GISDA wedi bod yn ymgynghori ac ymgysylltu'n eang gyda defnyddwyr gwasanaeth, pobl ifanc, staff, partneriaid, rhan ddeiliaid allweddol a'r gymuned ehangach ac rydym yn edych ymlaen at gyflwyno ein strategaeth newydd ar gyfer 2023-2028 yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

AMCANION ELUSENNOL

Yr ydym yn adolygu ein nodau, amcanion a gweithgareddau bob blwyddyn gan edrych ar beth yr ydym wedi ei gyflawni ac allbynnau ein gwaith dros y 12 mis blaenorol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau a gweithgareddau yn parhau i gyflawni ein amcanion elusennol.

Nod GISDA Cyf yw darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc a byddwn yn cyrraedd ein nod drwy gyflawni ein amcanion a darparu

⇒ llety a gwasanaethau cefnogol
⇒ gweithgareddau creadigol ac artistig
⇒ gweithgareddau therapiwtig, hamdden ac addysgiadol
⇒ cyngor a gwybodaeth
⇒ hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth i roi cymorth i bobl ifanc datblygu hyder, gwytnwch, sgiliau byw'n annibynnol, sgiliau cyflogaeth a chyfranogi yn llawn mewn cymdeithas yn rhydd o unrhyw anfantais

I gyflawni hyn byddwn yn sicrhau

⇒ llywodraethiant o ansawdd uchel
⇒ diwylliant lle bydd staff yn cael eu cefnogi a gwerthfawrogi am eu gwaith
⇒ adnoddau i flaenoriaethu 'Model Fi' sef dull therapiwtig o weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc

YSTADEGAU 2021-2022

LLYNEDD.....

⇒ **237** o bobl ifanc
⇒ digartref neu mewn risg o ddod yn ddigartref wedi cael eu cefnogi drwy prosiect Cymorth Tai
⇒ **453** o alwadau mewn i'n hybiau
⇒ **45** o bobl ifanc wedi mynychu cyfarfodydd bwrdd pobl ifanc i rannu eu LLEISIAU
⇒ **95** o glybiau LGBTQ+ wedi'u gynnal ar draws y sir
⇒ **120** o bobl ifanc Ôl Ofal wedi cael cefnogaeth arbenigol gennym
⇒ **109** o sesiynau addysg amgen wedi cynnal mewn ysgolion ar draws Gwynedd gyda phlant sy'n dad gysylltu efo ysgol neu angen cefnogaeth 1i1
⇒ **30** o bobl ifanc wedi lleoli mewn gwaith efo cwmnïau lleol drwy cynllun Kickstart
⇒ **126** gweithdy creadigol therapiwtig wedi cynnal
⇒ **138** o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth cyflogadwyedd gan yr Academi Cyfleon
⇒ **104** o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth iechyd meddwl drwy Hwb ICAN

MAE'R HYN RYDYM YN EI WNEUD YN GWEITHIO.....

⇒ **86%** o bobl ifanc o'r prosiect Cymorth Tai wedi symud ymlaen i lety addas
⇒ **80%** o bobl ifanc yn teimlo eu bod yn fwy annibynnol yn dilyn cefnogaeth
⇒ **85%** yn nodi bod cefnogaeth GISDA wedi gwella eu iechyd meddwl
⇒ **79%** o bobl ifanc a gefnogwyd drwy Kickstart wedi cael eu cadw ymlaen mewn cyflogaeth neu wedi symud ymlaen i addysg.

BUDD CYHOEDDUS

Wrth adolygu ein amcanion, gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ein gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y dyfodol yn unol a gofynion cyfreithiol Deddf Elusennau 2011 mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac yn hyderus ein bod yn darparu budd cyhoeddus sylweddol fel y dangosir yn yr adroddiad hwn.

GWERTHOEDD GISDA

Mae gwerthoedd GISDA yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithredu ac i bob dim rydym yn ei wneud

Mae GISDA Cyf yn credu mewn pobl ifanc, waeth beth fo'u hamgylchiadau, eu rhyw, eu hil, eu hanabledd na'u hymddygiad. Credwn mewn pobl ifanc sydd wedi eu cam-drin, pobl ifanc bregus a phobl ifanc heb gefnogaeth teulu. Byddwn yn eu cefnogi, yn sefyll yn gadarn drostynt ac yn ceisio sicrhau bob cyfle fel y gallent gyrraedd eu potensial mewn bywyd. Rydym yn gwneud hyn am ein bod yn credu mewn pobl ifanc. Ein nod yw gwella ansawdd bywyd a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc yn ein cymdeithas.

⇒ Gonestrwydd
Rydym yn darparu gwasanaeth gonest a diffuant i bobol ifanc bob amser.

⇒ Parch
Rydym yn parchu'r unigolyn, parchu ei deimladau, credo a'i hawliau

⇒ Gwrando a Chlywed
Rydym yn ymrwymo i wrando a chlywed llais y person ifanc gan gymryd pob cam posibl i eirioli ar ei ran. Byddwn yn cymryd pob cam posibl i ymateb i lais y person ifanc a cheisio cwrdd ag unrhyw angen os yn bosibl.

⇒ Hyrwyddo Cyfle Cyfartal a Pharchu Amrywiaeth
Mae GISDA Cyf yn parchu unrhyw wahaniaeth ymysg staff, gwirfoddolwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth ac yn parchu'r amrywiaeth. Wrth benodi staff newydd, dyrchafu staff presennol, derbyn cyfeiriad newydd fe sicrhawn bob amser na fyddem yn gwahaniaethu ar sail hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd, anabledd, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, statws priodasol, cefndir troseddu amherthnasol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, statws economaidd na gwerthoedd gwleidyddol.

⇒ Ymbweru a Galluogi
Byddwn yn ymrwymo i sicrhau bod pob defnyddwyr gwasanaeth yn cael y cyfle i ennill y sgiliau angenrheidiol i'w ymbweru a'i galluogi i fyw bywyd annibynnol. Ein nod yw cynyddu gwydnwch a hyder pobl ifanc i sicrhau eu bod wedi'u harfogi gyda'r strategaethau i ymdopi gyda heriau bywyd.

⇒ Cynaliadwyedd
Rydym fel cwmni yn awyddus i fod mor gyfeillgar â phosibl tuag at yr amgylchedd. Mae gennym god ymarfer sydd yn nodi ein ymrwymedigaeth tuag at hyn.

NODAU LLESIANT

Mae GISDA Cyf yn ymrwymo i ymgorffori a mabwysiadu 7 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gyflawni ein nod ac amcanion.

Mae Nodau Llesiant GISDA Cyf sydd ar gael yn swyddfa GISDA Cyf yn amlinellu ein hymrwymedigaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sut mae GISDA Cyf am ymateb i'r ddeddf wrth gyflawni ein nod ac amcanion a sut fydd ein heffaith yn cael ei weld ar y genhedlaeth nesaf. Dyma grynodeb:

GISDA lewyrchus
Creu cyfleoedd cyffrous i baratoi pobl ifanc a chyfrannu at leihau amddifadedd ymysg pobl ifanc. Fe wnawn hynny drwy hyrwyddo cyflogadwyedd a gyrfa i bob person ifanc.

GISDA gydnerth
Arfogi ac ymbweru'r genhedlaeth nesaf gyda'r sgiliau a'r gwydnwch i wynebu heriau bywyd.

GISDA iachach
Gwneud defnydd o safonau Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau cwmni sydd yn hybu iechyd a lles staff a phobl ifanc a mabwysiadu'r egwyddor '5 ffordd at les'

GISDA sy'n fwy cyfartal
Gweithredu polisïau cyfleoedd cyfartal ym mhob rhan o'n gwaith gan ymdrechu i ddileu unrhyw rwystrau ar ffordd pobl ifanc.

GISDA o gymunedau cydlynus
Integreiddio pobl ifanc i'r gymuned a sicrhau lle i'r gymuned o fewn GISDA

GISDA gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cynorthwyo ac ymbweru staff a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder i gyfrannu'n y Gymraeg.

GISDA sy'n cymryd cyfrifoldeb am ein rhan o fewn yr amgylchedd
Ymrwymo i chwarae ein rhan i leihau ein ôl troed carbon a gweithredu ein polisïau amgylcheddol.

CYFLAWNIADAU A GWEITHGAREDDAU 2021-2022

TAI A CHEFNOGAETH

⇒ CYMORTH TAI

Mae ein prosiect Cymorth Tai yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc sydd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Dyma'r mwyaf o ein prosiectau yma yn GISDA ac mae'n darparu cefnogaeth i 62 o bobl ifanc ar draws Gwynedd ar unrhyw un adeg.

Mae'r unedau hyn yn lletya ac yn darparu cartref i dri deg un o bobl ifanc. Mae 26 o'r rhain yn sengl, a phump yn deuluoedd sy'n cael eu cefnogi mewn tai teulu. Rydym hefyd yn cefnogi tri deg un o bobl ifanc eraill yn ein cymunedau gydag atgyfeiriadau yn dod o bob ardal yng Ngwynedd.

Mae'r flwyddyn diwethaf wedi bod yn flwyddyn heriol iawn gan i ni ddod allan o'r cyfnod pandemig ag anghenion pobl ifanc wedi cynyddu yn sylweddol sydd yn roi mwy o bwysau ar y gwasanaeth.

- **183** cyfeiriad i'r gwasanaeth gyda 170 o rain yn gyfeiriadau llwyddiannus.
- **62%** yn nodi mai toriad mewn perthynas oedd y brif rheswm o fod yn ddigartref neu mewn risg o ddod yn ddigartref.
- **237** o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth gan y prosiect
- **66%** o'r bobl ifanc gyda anghenion iechyd meddwl, 18% cynnydd ers y flwyddyn cynt.
- **50%** o'r bobl ifanc yn ein hosteli a tai symud ymlaen yn adnabod eu hunain fel rhan o gymuned LGBTQ+
- **£45,000+** o grantiau llwyddiannus yn uniongyrchol i'r bobl ifanc i'w gefnogi i symud ymlaen neu cynnal cartref am y tro gyntaf.

Roedd **43 o bobl ifanc ar ein rhestr aros ar ddiwedd y flwyddyn**. Y prif reswm am hyn ydy'r prinder tai i'r bobl ifanc rydym y neu gefnogi i allu symud ymlaen iddynt. Mae ein cydlynydd cyfeiriadau yn gweithio gyda'r rhai ar ein rhestr aros trwy'r gwasanaeth galw mewn a gall y bobl ifanc dderbyn cefnogaeth iechyd meddwl ag cyflogadwyedd gan ein prosiectau eraill wrth iddynt ddisgwyl am le yn brosiect Cymorth Tai

⇒ GWASANAETH GALW MEWN – CYMORTH TAI

Mae ein cydlynydd cyfeiriadau yn cynnal **3 sesiwn galw mewn yn wythnosol** yng Nghaernarfon, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog ag ar gael i unrhyw un sydd angen cefnogaeth neu gyngor a'r llety, arian, budd daliadau, cyllidebu, Gwaith ag addysg, iechyd meddwl, y gymuned a mwy. Mae'r gefnogaeth yma yn gymorth sydyn ar unwaith ag yn angenrheidiol i bobl ifanc mewn sefyllfa argyfwng.

- **453** o alwadau mewn dros y flwyddyn
- **86** person ifanc wedi galw mewn a derbyn cefnogaeth
- **30%** o'r rhain yn "sofa surfing" neu ar y stryd
- Y prif faes cefnogaeth oedd **Rheoli Llety.**

⇒ GWERTH CYMDEITHASOL / SROI – CYMORTH TAI

Comisiynwyd Social Value Cymru I ddadansoddi gwerth prosiect Cymorth Tai. Mae'r adroddiad wedi ystyried effaith y gwasanaeth hwn ar y pobl ifanc, ond bydd hefyd ei werth i wasanaethau statudol eraill. Trwy ymgysylltu a phobl ifanc sy'n derbyn y gwasanaethau, staff, a rhan ddeiliaid eraill, a thrwy archwilio'r wybodaeth a'r data sydd ar gael, gwnaethpwyd amcangyfrifon priodol, ac fe'u cefnogir gan dystiolaeth eilaidd. Rydym wedi dadansoddi canfyddiadau'r prosiect yn ystod Ebrill 2021-Mawrth 2022 gan ddefnyddio fframwaith Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (Social Return on Investment/SROI).

£5.77 o werth cymdeithasol am bob £1 a fuddsoddwyd yn y prosiect

- **80%** o bobl ifanc yn teimlo eu bod yn fwy annibynnol yn dilyn cefnogaeth
- **85%** yn nodi bod cefnogaeth GISDA wedi gwella eu iechyd meddwl
- **100%** o staff a gymerwyd rhan yn yr asesiad yn dweud eu bod wedi datblygu sgiliau ac yn cael boddhad personol o helpu eraill

⇒ ATAL DIGARTREFEDD

Mae prosiect Atal Digartrefedd ag ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi pobl ifanc sydd mewn risg uchel o ddod yn ddigartref. Mae'r Cydlynydd yn gyfrifol am atal digartrefedd drwy gefnogi'r unigolyn a chwilio am lety fforddiadwy gan hefyd sicrhau bod eu holl anghenion cefnogaeth yn cael ei ymateb boed hynny drwy gefnogaeth y prosiect neu eu cyfeirio at y gefnogaeth fwyaf addas.

Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld iechyd meddwl yn cynyddu'n sylweddol ymysg y bobl ifanc (72%). Rhwystr mawr i'r prosiect yma yw'r diffyg tai fforddiadwy ag addas felly mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi am gyfnod hirach.

- Roedd **35** unigolyn wedi derbyn cefnogaeth ddwys i gynorthwyo i dderbyn llety argyfwng, sefydlu budd daliadau, cyllidebu, mynediad i fanciau bwyd a grantiau ar gyfer dillad, cefnogaeth iechyd meddwl, cefnogaeth cyflogadwyedd, codi hyder a chymhelliant a mwy. Bydd y gweithiwr hefyd yn parhau i gefnogi'r unigolyn ar ôl gael llety i geisio am grantiau ar gyfer dodrefn, i helpu gyda biliau a chyllidebu ag i helpu gyda sgiliau byw'n annibynnol.
- Y prif reswm o ddigartrefedd oedd toriad mewn perthynas (47%) ac yn gorlenwi (25%). Rhesymau eraill oedd wedi codi oedd ôl-ddyledion rhent, perthynas partner yn chwalu, cam-drin domestig, llety anaddas a salwch.
- **44** cyfeiriadau ymlaen wedi ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y person ifanc yn derbyn cymorth ychwanegol arbenigol b e.e. gwasanaeth iechyd meddwl, gwasanaeth cyflogadwyedd, adran digartrefedd, DWP ac yn y blaen.
- **£8000** o grantiau wedi ei derbyn yn uniongyrchol i'r bobl ifanc allu symud ymlaen.

"You have helped me more in a few months than anyone else in 5 years! Thank you so much for everything you've done for me I should have had your support years ago."

– dyfyniad gan berson ifanc sydd yn derbyn cefnogaeth gan gwasanaeth Atal Digartrefedd

⇒ ÔL OFAL

Gall gadael gofal fod yn un o'r cyfnodau anodda ym mywyd person ifanc, felly mae'n hanfodol eu bod wedi'u paratoi'n briodol ac yn barod ar gyfer yr her.

Ariennir y gwasanaeth hwn gan Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Mae'r prosiect yn cynnig cefnogaeth i unigolion rhwng 16 a 25 mlwydd oed sydd wedi bod dan ofal yr Awdurdod Lleol a ble mae cyfrifoldeb i barhau i'w cefnogi wedi iddynt adael eu lleoliad gofal. Mae'r cynghorwyr personol yn cynnig cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i baratoi'r person ifanc ar gyfer y eu taith i fod yn oedolion annibynnol. Bydd bob person ifanc yn derbyn cynllun llwybr sydd yn ffocysu ar lety, addysg, hyfforddiant, iechyd, teulu, perthnasoedd cymdeithasol a'u hawliau. Mae'r gweithiwr addysg a chyflogaeth yn sicrhau bod y bobl ifanc yma sydd yn gadael gofal yn cael y gefnogaeth ychwanegol i'w cefnogi i barhau i gadw eu gwaith, mynychu coleg neu unrhyw hyfforddiant

120 yn derbyn cefnogaeth ar yr un tro

⇒ PROSIECT LHDTC+

Sefydlwyd clwb LHDTC+ GISDA yn 2017. Roedd hi wedi bod yn amlwg ers rhai blynyddoedd bod canran uchel o bobl ifanc oedd yn cael eu cyfeirio at brif wasanaeth digartrefedd GISDA yn bobl ifanc o'r gymuned LHDTC+ ond nid oedd cefnogaeth benodol ar eu cyfer. Sefydlwyd clwb bob yn ail wythnos, bach iawn oedd y niferoedd ar y cychwyn. Roeddem yn llwyddiannus yn derbyn grant Loteri am £100,000 a cychwynnodd prosiect newydd LHDTC+ ym mis Chwefror 2021.

Mae'r prosiect wedi mynd o nerth o nerth gyda chlybiau wedi ei sefydlu yng Nghaernarfon, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog. Mae'r arweinydd tîm yn cefnogi prosiectau GISDA gyda materion LHDTC+ gan hefyd cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth LHDTC+ mewn ysgolion, gyda mudiadau eraill ag grwpiau yn y gymuned.

- **2** clwb newydd wedi ei sefydlu dros y flwyddyn
- **5** aelod staff yn gweithio ar y prosiect (4 rhan amser)
- **95** clwb wedi'u gynnal dros y 3 ardal: Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon
- **80** aelod yn mynychu'r clybiau yn rheolaidd
- **260** unigolyn wedi derbyn sesiwn hyfforddiant LHDTQ+

⇒ ICAN || FEDRA'I

Mae Hwb ICAN GISDA yn darparu cymorth cynnar, therapiwtig ag hawdd i bobl ifanc 16 i 25 sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl a'u lles. Mae'r hwb yn cefnogi ag ategu at wasanaethau arbenigol y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Drwy'r cynllun yma gallwch gael mynediad i amryw wasanaethau yn cynnwys.

- Gweithdai amrywiol
- Cefnogaeth 1:1
- Hybiau galw mewn
- Cyfeirio ymlaen
- Ymyraethau therapiwtig
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o hunan laddiad

104 o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth

Ymyraethau drwy'r prosiect:

- Iechyd Corfforol: Aelodaeth campfa, dillad gweithio allan, dosbarthiadau ffitrwydd, boteli dwr, gwersi yoga
- Darparu deunydd therapiwtig: Llyfrau hunangymorth, Llyfrau gweithgareddau, cylchgronau lles, deunydd celf, fidgets a mwy!
- Trafnidiaeth: Talu am wersi gyrru, trwydded gyrru, prawf theori. Ad dalu costau bws
  - 25 person i ifanc wedi mynychu sesiwn astudio theori gyrru
  - 30 awr o wersi gyrru wedi ei gwblhau.
- Digidol: Darparu cardiau sim chwe mis, defnydd o liniaduron yn ein hybiau
- Creadigol: gweithgareddau gwnïo, celf, theatr, celf yn y coed a mwy!

"I have been able to talk to someone about my life choices and just had a hand in general. I feel that I have someone there for me"

"I feel speaking with staff and accessing support has helped me reduce my self-harming and speak about my emotions"

"Thank you for everything you have helped me with I'm actually really great now, back on the road to normal!"

CYFLEON ADDYSG, GWAITH A HYFFORDDIANT

⇒ ACADEMI CYFLEON

Mae'r Academi Cyfleon yn cefnogi pobl ifanc i greu cynllun llwybr clir i adnabod gwahanol ffyrdd o arfogi'r unigolyn gyda'r sgiliau, hyder a / neu gymwysterau i'w galluogi i symud ymlaen o gefnogaeth i fyw yn annibynnol ac i gyflogaeth.
Ariennir o'r gronfa cynhwysiant gweithredol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac yn cael ei weinyddu gan WCVA hyd at Awst 2022.

Fel rhan o'r gwaith yma rydym wedi darparu sesiynau addysg amgen mewn ysgolion ar draws Wynedd ar gyfer plant sydd yn datgysylltu o'r Ysgol neu angen cefnogaeth 1:1. Darparwyd amryw o sesiynau wedi ei achredu gan Agored Cymru yn cynnwys: Ymwybyddiaeth LGBTQ+, Ymwybyddiaeth Alcohol, Codi Hyder, Sgiliau Grymuso, Cadw Perthnasau Iach ynghyd a sesiynau byw'n annibynnol fel Siopa, Coginio pryd, Cyllidebu, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a mwy!

- **138** person ifanc wedi derbyn cefnogaeth cyflogadwyedd
- **109** o sesiynau addysg amgen wedi cynnal mewn ysgolion ar draws Gwynedd gyda phlant sy'n datgysylltu efo ysgol neu angen cefnogaeth 1i1
- **200** achrediad neu uned hyfforddiant wedi ei gwblhau
- **71** wedi cau a symud ymlaen
- **58%** o rain wedi symud ymlaen i waith cyflogedig
- **24%** wedi symud ymlaen i addysg neu Hyfforddiant

⇒ KICKSTART

Mae GISDA yn gynrychiolwyr ar gyfer cyflogwyr yng Ngwynedd drwy gyflogadwyedd y Llywodraeth–Kickstart
Roedd y cynllun Kickstart yn cynnig swyddi wedi ei ariannu yn llawn gyda chyflogwyr lleol ac

roeddem yn llwyddiannus yn lleoli 30 person ifanc mewn amryw o swyddi ar draws Gwynedd ynghyd a chynnig pecyn cefnogaeth ddwys i sicrhau bod y bobl ifanc yn cael profiad gwerthfawr.

- **30** person ifanc wedi ei leoli gyda chyflogwyr lleol
- **79%** o bobl ifanc a gefnogwyd drwy Kickstart wedi cael eu cadw ymlaen mewn cyflogaeth neu wedi symud ymlaen i addysg.

"Mae Kickstart wedi bod yn brofiad gwerth chwil i ni a'r bobl ifanc. Mae'r Cwmni a'r gweithwyr wedi elwa'n fawr o'r holl brofiad. Rydym wedi gallu cynnig swydd i 4 berson ifanc yn dilyn eu lleoliad" - Lloriau Ross Hughes (Cyflogwr drwy gynllun Kickstart GISDA)

⇒ GWIRFODDOLI

Mae gwirfoddoli wedi dod yn rhan hanfodol a bwysig iawn o GISDA yn y blynyddoedd diwethaf. Y flwyddyn yma roeddem yn llwyddiannus i dderbyn grant CIST, Cyngor Gwynedd a grant Gwirfoddoli Cymru, Llywodraeth Cymru a WCVA

Dros y prosiect hwn rydym wedi annog pobl ifanc i wirfoddoli ymysg ein prosiectau yn cynorthwyo gyda gwaith LLAIS, creu ymgyrchoedd, glanhau, cynnal sesiynau, cynorthwyo staff gyda gweithdai, mentora cyfoed a mwy. Rydym hefyd wedi canolbwyntio a'r geisio annog pobl ifanc i wirfoddoli yn y gymuned. Credwn fod hyn yn hynod o bwysig, yn enwedig ar ôl cyfnod COVID er mwyn integreiddio'r bobl ifanc i'r gymuned leol a chreu cysylltiadau newydd.

Dros **30** o bobl ifanc wedi gwirfoddoli bob chwarter

Lleoliadau yn y gymuned: siopau elusen, caffis lleol, ysgol gynradd, codi sbwriel, Antur Waunfawr a mwy!

TAPI (TIM O AMGYLCH PERSON IFANC)

Rydym yn hynod o ffodus o fod wedi derbyn arian o Gronfa Adnewyddu Cymunedol Cyngor Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Nod TAPI yw cymryd arweiniad gan bobl ifanc mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill yn y maes i wella gwasanaethau i bobl ifanc yng Ngwynedd. Byddwn yn gwerthuso pwysigrwydd darparu gwasanaeth holistig wedi ei deilwra a sydd yn sicrhau bod mynediad at nifer o wasanaethau yn broses llyfn i'r person ifanc.

Mae nifer o fudiadau yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc ond o safbwynt yr unigolyn mae dod o hyd i'r hyn sydd ei angen yn gallu bod yn anodd iawn. Nid yw chwaith yn mynd yn haws pan fydd cefnogaeth yn cael ei dderbyn – mae hi wedyn yn anodd iawn i berson ifanc gydlynu'r holl gefnogaeth a mudiadau o'u cwmpas heb rwydwaith cymorth a rhywun i arwain y ffordd.

Mae'n hanfodol bod mudiadau statudol a thrydydd sector yn cydweithio i wenud pethau'n haws i bobl ifanc – i greu y Tim o Amgylch y Person Ifanc (TAPI).

Trwy gynnal y peilot yma byddwn yn

- Adnabod bylchau mewn darpariaeth er mwyn paratoi cynllun busnes mewn cydweithrediad gyda phobl ifanc i fynd i'r afael a'r rhwystrau a'r bylchau hynny
- Ymchwilio i'r dulliau mwyaf effeithiol o weithio gyda phobl ifanc bregus yng Ngwynedd gan geisio adnabod rhinweddau o fewn ymarfer sydd yn sicrhau ymyrraeth lwyddianus gyda chanlyniadau da
- Adnabod y ddeddfwriaethau, polisiau a gweithdrefnau sydd yn berthnasol i bobl ifanc bregus
- Gofyn y cwestiwn a ydym yn clywed a gwrando ar leisiau pobl ifanc trwy Bwrdd Pobl Ifanc GISDA
- Casglu data a mapio anghenion pobl ifanc bregus yng Ngwynedd
- Adnabod ffyrdd o wella cydweithio rhwng partneriaid yng Ngwynedd er budd pobl ifanc
- Treialu a mesur amryw o ymyraethau therapiwtig i bobl ifanc Gwynedd
- Adnabod ac amlinellu'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc bregus

Rydym eisioes wedi adnabod rhai o'r rhwystrau er enghraifft gwendid llthrrennedd pobl ifanc, diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, diffyg llety priodol a diffyg cefnogaeth cyflogadwyedd i enwi rhai.

Bydd yr arian mae GISDA wedi ei dderbyn yn edrych ar yr elfennau uchod mewn cydweithrediada gydag eraill. Ymysg rhai fydd yn rhan o'r prosiect mae Cwmni CELyn, Prifysgol Bangor, Antur Waunfawr, Plas Menai, Mantell Gwynedd, Frân Wen, Sylfaen Cymunedol a Copronet Cymru, ond hefyd byddwn yn cynnwys mewnbwn a thrafodaethau gyda'r mudiadau statudol fel Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Cymdeithasau Tai a'r Ganolfan Waith a Phensiynau

CYFRANOGI A CHREADIGOL

⇒ GISDA CREADIGOL

Mae gwaith creadigol yn ddull therapiwtig sydd yn caniatáu'r bobl ifanc i fynegi eu hunain a'i theimladau. Rydym yn credu yn gryf mewn darparu cyfleoedd creadigol i bobl ifanc felly rydym wedi buddsoddi mewn tîm: GISDA CREADIGOL.

- **126** sesiwn creadigol
- **Math o sesiynau** :tripiau i galerïau lleol | arlunio | celf amrywiol | gwnïo | printio leino | Theatr Fforwm | drama | crefftau Calan Gaeaf | crefftau Nadolig | tie dye | hyfforddiant syrcas | creu addurniadau Nadolig ar gyfer ffenestri'r Maes

⇒ CAFFI CREU

Nod prosiect Caffi Creu ydy codi ymwybyddiaeth o leihau gwastraff a'r economi gylchol drwy weithdai, mentrau ac ymgyrchoedd ar ailddefnyddio, ailgylchu ac ail-greu. Mae'r prosiect yn anelu at addysgu pobl ifanc y dyfodol a'u harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fabwysiadu ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol.

dros 40 o weithdai wedi'u cynnal!

Caffi Creu yn y gymuned:

- **CAFFI CREU X MSPARC** - Rydym yn cydweithio gyda MSPARC I gynnal gofod "MAKERS SPACE" yng Nghaernarfon. Mae'r gofod yma yn cynnwys peiriannau creu mwg, creu crysau T, argraffwr 3D, torrwr finyl a mwy. Mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc mynychu sesiynau blasu newydd, creu cynnyrch eu hunain gan ddysgu sgiliau newydd a chael hwyl!

- **CAFFI CREU X STORIEL A CIMERA** - Cyfres o weithdai ar y cyd gyda Storiel a Cwmni syrcas Cimera i greu llusernau yn defnyddio deunyddiau cynaliadwy ac wedi'u hailgylchu. Mynychwyd pobl ifanc i greu'r llusernau er mwyn eu defnyddio i ddathlu dydd Gŵyl Dewi mewn gorymdaith ym Mangor.
- **CAFFI CREU X GŴYL LLES** - Trefnwyd Gŵyl Lles gan Gyngor Gwynedd ar gyfer pobl ifanc y sir. Fel rhan o'r ŵyl rhedodd Caffi Creu gweithdai llesiant er budd bobl ifanc.
- **CAFFI CREU X PONTIO'R CENEDLAETHAU** - Cyfres o weithdai peilot i bobl ifanc GISDA a'r genhedlaeth hŷn. Cyfle i'r cenedlaethau cyfnewid sgiliau a dysgu gan ei gilydd. Fel rhan o'r peilot rydym wedi cynnal gweithdai feltio, gwnïo, coginio a phrintio.
- **CAFFI CREU X DREF WERDD** - Mae Dref Werdd wedi creu man cyfarfod a gweithgareddau yn y coed yn Blaenau Ffestiniog lle mae amryw o weithgareddau yn cael ei chynnal. Trefnwyd sesiwn Celf yn y Coed fel rhan o brosiect Caffi Creu lle'r oedd pobl ifanc yn cael cyfle i beintio a chreu deunydd celf gyda natur wrth sgwrsio a chael paned gydag eraill o'r gymuned!

⇒ LLAIS POBL IFANC

Mae LLAIS yn un o nodau strategol GISDA ac rydym yn gweithio i sicrhau bod llais pobl ifanc yn ganolog i'r gwaith, yn cael eu clywed ag yn cyd gynhyrchu syniadau newydd!

Rydym yn cyflogi Swyddog Ymgynghori a Llais sydd yn cynnal ein Bwrdd Pobl Ifanc.

Yn ystod y flwyddyn mae :

- **35** Cyfarfod Bwrdd / Gweithgaredd Bwrdd wedi cael ei gynnal
- **45** o bobl ifanc wedi cymryd rhan
- **330** awr o wirfoddoli

Mae GISDA yn **Sefydliad Partner Senedd Ieuenctid Cymru** am y ddwy flynedd nesaf fe gynhaliodd y Bwrdd Pobl Ifanc Hustings Tachwedd 2021 i ethol cynrychiolydd ifanc rhwng 11-18 oed i gynrychioli pobl ifanc GISDA yn y Senedd. I gynrychioli lleisiau pobl ifanc GISDA mewn materion yn ymwneud â iechyd meddwl, hawliau LHDTC+ a digartrefedd mewn cyfarfodydd Senedd rhithiol.

Rydym hefyd yn cynnal yr isod:

- Cynnal cyfarfodydd preswylwyr i ganfod eu barn am ein gwasanaeth cymorth tai
- Darparu bocsys adborth ddi-enw
- Darparu cefnogaeth person-ganolog
- Gweithio GYDA'r person ifanc er eu anghenion
- Lobio a chodi ymwybyddiaeth yn defnyddio llais, profiadau a barn bobl ifanc

Fel rhan o ymrwymiad GISDA i gryfhau'r ffyrdd rydym yn cynnwys llais pobl ifanc yn y gwasanaethau a phrosiectau rydym yn datblygu mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru wedi bod yn ein cefnogi i adnabod dulliau gwaith cydgynhyrchu, technegau cyd-ddylunio ac arfau er mwyn ymgysylltu'n effeithiol gyda phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau

⇒ EMPYRE ERASMUS

Dechreuwyd ar ein prosiect EMPYRE ym mis Medi 2019. Prosiect cyffrous iawn wedi cael ei ariannu gan gronfa gymdeithasol Ewropeaidd drwy gynllun enwog Erasmus + yw Empyre. Mae

GISDA yn un o 8 partner o 4 Gwlad. Mae Prifysgol o'r 4 Gwlad sef Gwlad Pwyl, Cymru, Ffindir ac Awstria wedi cyfeillio gydag elusen gwaith ieuenctid o fewn eu gwlad a'r syniad ydy astudio a dysgu am wahanol ymarfer ieuenctid ar draws Ewrop. Dros y 2 flynedd diwethaf rydym wedi bod yn cydweithio i ddatblygu cwrs prifysgol ar gyfer gweithiwr ieuenctid y dyfodol. Mae GISDA yn cael ei gynnwys fel ymarfer dda o weithio gyda phobl ifanc yn y modiwl. Rydym wedi gweld budd mawr o'r prosiect o ddysgu gan wledydd eraill, creu partneriaethau gyda mudiadau tebyg ar draws Ewrop a rhannu profiadau! Bydd y prosiect yn dod i ben yn 2022 a bydd GISDA yn integreiddio'r modiwl i mewn i gynllun hyfforddiant y cwmni a gobeithio gallu cydweithio gyda'r partneriaid ar brosiectau yn y dyfodol.

GWOBRAU AC ACHREDIADAU

⇒ **CYMRU IACH AR WAITH**
Yn Medi 2021 mae GISDA yn falch o fod wedi cyrraedd safon arian yng Ngwobrau Iechyd Gweithle Bach Cymru Iach Ar Waith ac yn Nigwyddiad Cymeradwyaeth Cofid-19 Cymru Iach Ar Waith yn Rhagfyr 2021 daeth GISDA yn ail yng nghategori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

⇒ **GWOBRAU TRECHU TROSEDD A CHYMUNED UCHEL SIRYF GWYNEDD 2022**
Yn Mawrth 2022 mae GISDA yn falch o fod wedi derbyn Gwobr Personol yr Uchel Siryf mewn cydnabyddiaeth o'n gwaith i gefnogi ac arwain pobl ifanc yn y gymuned a Gwobr Trechu Trosedd am Prosiect LHDT+

⇒ **GWOBRAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU 2022**
Yn Ebrill 2022 mae GISDA yn falch o fod wedi deryn gwobr cymeradwyaeth uchel yng nghategori 'Hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant'.

⇒ **CHWARAE TEG**
Mae GISDA yn falch o fod wedi cwblhau rhaglen fusnes Cenedl Hyblyg 2 yn ystod 2021-2022 ar gyfer cydraddoldeb rhywedd yn y gweithle.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Archwiliwr Cofrestredig sy'n archwilio cyfrifon yr Elusen. Mae'r cyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â gofynion a osodwyd gan Ddeddfwriaethau Elusennau a Chwmnïau, ac yn rhoi adroddiad cryno a chlir o sefyllfa ariannol a gweithgareddau'r Elusen. Cyhoeddir adroddiad blynyddol sydd yn cael ei ddosbarthu yn ôl y gofyn ar ôl iddo gael ei dderbyn yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Mae GISDA yn comisiynu'r gwasanaeth hwn bob 3 blynedd ac yn mynd allan am dendr i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae tendr newydd mewn lle ar gyfer 2021-2024 wedi ei ddewis gan y Bwrdd yn dilyn proses teg ac agored.

⇒ **INCWM A GWARIANT**
Llwyddwyd i orffen y flwyddyn ariannol gyda syrffed anghyfyngedig, a fydd yn galluogi bwrw ymlaen gyda strategaethau tymor canolig er mwyn gallu sicrhau gwytnwch yn y tymor hir. Unwaith yn rhagor fe welwyd cynnydd yn yr incwm dderbyniwyd ar gyfer gweithgareddau elusennol, gan olygu cynnydd yng ngwariant ar y gwasanethau hanfodol y ddarperir gan yr Elusen. Braf oedd gallu adrodd fod gwariant odan penawdau sydd o fydd atodol i'r defnyddwyr gwasaneth megis gweithgareddau wedi dychwelyd yn ôl i'r lefelau cyn y cyfnodau clo. Mae'r

bwrdd yn ymwybodol o'r cynnydd yng nghostau gweithredu, megis costau ynni a chyflogaeth ac wedi cymeradwyo cyllideb briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.

⇒ CRONFA WRTH GEFN

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi adolygu anghenion yr elusen o ran yr hyn y dylid ei gadw wrth gefn o ystyried y prif heriau y mae'n ei wynebu. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu polisi sy'n dweud y dylid cadw digon i allu rhedeg y cwmni am dri mis os daw y cwmni i ben. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r gronfa wrth gefn ddwywaith y flwyddyn mewn cyfarfodydd Bwrdd Rheoli. Mae'r Trysorydd a'r Pennaeth Cyllid yn ystyried incwm a gwariant am y flwyddyn flaenorol ac yna'n cyflwyno eu hargymhellion ynglŷn â'r hyn y dylai fod wrth gefn. Fe fydd unrhyw benderfyniadau ar gyllidebau yn ystyried anghenion y gronfa wrth gefn. Mae cynnal y gronfa yma yn ofynnol er mwyn galluogi sicrwydd sydd yn hybu cyrff allanol i fuddsoddi gan, felly, greu cynaliadwyedd i GISDA. Nid oes modd dibynnu ar y gronfa hon mewn unrhyw ffordd gan mai cronfa ar gyfer un sefyllfa yn unig yw hi – sef caniatáu'r cwmni i barhau am gyfnod byr er mwyn dod a'r cwmni a'i holl weithgareddau i ben. Byddai'r gronfa wrth gefn, hefyd, yn caniatáu'r cwmni i barhau i gyrraedd ei rwymedigaethau ariannol am dri mis. Y lefel presennol o arian rhydd wrth gefn i GISDA Cyf ar ddiwedd Mawrth 2022 yw £300,898.

RISGIAU A HERIAU

Mae GISDA wedi parhau i wynebu risgiau a heriau dros y flwyddyn diwethaf yn cynnwys covid a'r effaith mae hynny wedi cael ar iechyd a llesiant staff, iechyd a llesiant y bobl ifanc rydym yn eu cefnogi a'r effaith mae hynny wedi ei gael ar ein gallu i gynnal gweithgareddau.

Ein hymagwedd at yr heriau hyn a'r holl risgiau mae GISDA yn eu wynebu yw blaenoriaethu ein bod yn gallu parhau i gyflwyno ein gwasanaethau yn effeithiol gan ddiogelu ein staff a'r bobl ifanc rydym yn eu cefnogi.

Mae gan GISDA gofrestr risg cynhwysfawr sy'n cyfeirio at nifer o gategorïau risg yn cynnwys llywodraethiant, cyllid, cydymffurfiaeth cyfreithiol, iechyd a diogelwch, adnoddau dynol a gwasanaethau. Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn gosod archwaeth risg ar gyfer pob un o'r categorïau ac yna'n sgorio'r risgiau o fewn y categorïau yn ôl eu tebygolrwydd ac effaith cyn benderfynu ar ba gamau y dylid eu cymryd i drin a monitro'r risgiau hynny. Mae'r gofrestr yn cael ei graffu'n rheolaidd gan y Tim Rheoli, yr Is-banel Staffio, Llywodraethiant a Busnes a'r Bwrdd Rheoli.

CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

⇒ 'LLE DA' - Caernarfon

Buom yn llwyddiannus ar y cyd gyda Cyngor Gwynedd i ddenu arian grant sylweddol gan Llywodraeth Cymru ac arian Cyngor Gwynedd i adnewyddu ein prif swyddfa ar y Maes yng Nghaernarfon yn ogystal a'r adeilad drws nesaf sef NatWest. Bydd 'Lle Da' yn datblygu 4 prif elfen er budd pobl ifanc lleol

- 4 Fflat i bobl ifanc fyw ynddynt
- Caffi hyfforddi a datblygu sgiliau pobl ifanc
- Gofod aml asiantaethol i ddarparu popeth o dan un to i bobl ifanc

- Swyddfeydd newydd i staff

Cwblhawyd gwedd 1 yn ystod dechrau 2021 sef sicrhau bod y to, y cefn a'r ffenestri yn iawn. Fe lanhawyd blaen yr adeilad a pheintio un ochor fel bod y ddau adeilad yn edrych yn lan a thaclus o'r tu allan. Bydd Gwedd 2 sef y gwaith mewnol yn dechrau yn ystod Haf 2022. Yn anffodus bu blwyddyn o oedi am resymau amrywiol ond yn bennaf oherwydd y galw eithriadol mewn adeiladwyr, prinder defnyddiau ac amserlenni cytundebau eraill yn rhedeg yn hwyr. Er bod yr oedi wedi cael effaith arnom rydym yn parhau yn bositif ac yn edrych ymlaen I'r gwaith ddechrau. Amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cymryd bron I flwyddyn I gael ei gwblhau

⇒ **STRATEGAETH 2023-2028**

Rydym wedi dechrau ymgynghori gyda staff a phobl ifanc fel y gallwn gwblhau Strategaeth newydd cyn diwedd 2022. Mae hyn yn gyfle i ni adolygu ein blaenoriaethau, cyfle i adlewyrchu a sicrhau bod trywydd y cwmni yn cyd fynd gyda gofynion pobl ifanc lleol.

⇒ **PARTNERIAETHAU**

Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaid yn fawr iawn, mae'r gwerth maent yn cyfrannu atom fel cwmni yn amhrisiadwy. Ni allwn ddarparu dim heb weithio ar y cyd ac mae mewnbwn pawb yn bwysig. Mae GISDA yn cydnabod ein cryfder ac yn tynnu ar eraill sydd gyda cryfderau gwahanol fel y gallwn ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth. Dyma gydnabod yn ffurfiol ein Rhan ddeiliaid a Phartneriaid. Rydym yn ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad yn fawr iawn boed hynny drwy gyd weithio, ariannu, rhannu arbenigedd neu cefnogi ein gwaith. Diolch.

- Cyngor Gwynedd
- Llywdodraeth Cymru
- Cymdeithas Tai Grŵp Cynefin
- Cymdeithas Tai ADRA
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Prawf a Chyfiawnder Ieuenctid
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU
- Cronfa Adnedwydd Cymunedol – Adran Levelling Up Llywodraeth y DU
- Mantell Gwynedd
- Urdd Cymru
- Cronfa Loteri Cymunedol
- Plant Mewn Angen BBC
- Fran Wen
- WCVA
- Garfield Weston
- ESF
- Shelter Cymru
- Cyngor ar Bopeth
- Adferiad
- Banciau Bwyd
- Coleg Llandrillo Menai
- Senedd Ieuenctid Cymru
- Paul Fahey
- Kiri Pritchard- McLean
- Prifysgol Bangor

- Antur Waunfawr
- Dref Werdd
- Storiel
- M-Sparc
- Amgueddfa Cymru (Llechi)
- PACT Gogledd Cymru
- Cerdd Cymunedol Cymru
- Moondance
- Galeri Caernarfon
- Pontio Bangor
- Chwarae Teg
- Felin Fach
- Sefydliad Cymunedol Cymru
- Sylfaen Cymunedol, Caernarfon

MANYLION GWEINYDDOL

Strwythur, Llywodraethiant a Rheolaeth

⇒ **Dogfen Llywodraethiant**

Mae GISDA yn gwmni cyfyngedig trwy warant a lywodraethir gan ei Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu dyddiedig 18.06.2018. Mae GISDA hefyd yn elusen sydd wedi'i chofrestru gyda'r comisiwn elusennau

⇒ **Aelodau Bwrdd**

Mae'r aelodau bwrdd yn gyfarwyddwyr y cwmni ac yn ymddiriedolwyr elusen ac yn cael eu hethol yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Yr aelodau bwrdd hefyd yw aelodau'r cwmni. Mae'n ròl gwirfoddol a heb unrhyw fudd ariannol o'r elusen

⇒ **Cyfrifoldebau**

Yr aelodau bwrdd sydd yn rheoli busnes yr elusen ac maent yn gyfrifol am:

- Gydymffurfiad â Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.
- Gydymffurfiad â deddfwriaeth a safonau a osodwyd gan ein deiliad diddordeb.
- Sicrhau fod y Cwmni yn gweithredu gwerth gorau ym mhob agwedd o'i waith.
- Atebolrwydd i ddeiliad diddordeb drwy fonitro safon y gwasanaethau a ddarperir a sicrhau bod pob agwedd o'r gwaith yn cael ei reoli yn effeithiol.

⇒ **Recriwtio Ymddiriedolwyr**

Mae GISDA yn gweithredu trefn recriwtio agored a theg er mwyn ceisio denu amrediad eang o gefndiroedd, sgiliau a phrofiadau i'r elusen. Mae apwyntiadau yn cael eu gwneud am gyfnod o dair blynedd gyda'r posibilrwydd o ail etholiad am gyfnod o dair blynedd pellach. Wrth recriwtio mae GISDA yn ystyried unrhyw sgiliau arbennig sydd angen yn dilyn awdit sgiliau blynyddol

⇒ **Anwythiad Ymddiriedolwyr**

Mae pob ymddiriedolwr newydd yn dilyn rhaglen anwytho sy'n cynnwys

- pecyn anwytho a llawlyfr ymddiriedolwyr
- ymweliad gyda'r Prif Weithredwr i holl swyddfeydd, prosiectau a hosteli GISDA
- hyfforddiant diogelu ac unrhyw hyfforddiant arall sydd ei angen.

⇒ **Trefniadau Bwrdd Rheoli**

Mae'r Bwrdd yn gallu cynnwys i fyny at 12 o ymddiriedolwyr ac yn cyfarfod yn ddeu fisol neu'n amlach os oes angen. Maent hefyd yn cynnal diwrnod strategol yn flynyddol

⇒ **Is-baneli**

Mae'r ymddiriedolwyr wedi sefydlu 3 is-banel i gynorthwyo efo rheoli gwaith y Bwrdd sef

- is-banel cyllid ac asedau
- is-banel gwasanaethau a phrosiectau
- is-banel staffio, llywodraethiant a busnes

Mae'r is-baneli yn cyfarfod yn ddeu fisol i graffu materion o fewn eu cylch gorchwyl ac yn adrodd yn ol i'r Bwrdd llawn efo argymhellion

Polisïau

Mae gan GISDA cyfres o bolisïau i gyd-fynd efo'r amrediad o wasanaethau, prosiectau a busnes mae'r elusen yn ei weithredu ac rydym yn ychwanegu at y polisïau hyn yn ôl yr angen. Mae'r polisïau yn cael eu hadolygu a diweddaru yn rheolaidd.

Rydym yn falch iawn o fod wedi gweithio efo 'Chwarae Teg' fel rhan o'u rhaglen Cenedl Hyblyg 2 dros y flwyddyn diwethaf i adolygu a gwella ein polisïau o safbwynt cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Yn ystod y flwyddyn diwethaf diweddarwyd ein Cynllun Hybu'r Gymraeg ac rydym yn ddiolchgar i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am eu cymorth gyda hyn. Rydym yn falch iawn o'n 'Cynnig Cymraeg' yn GISDA ac wedi comisiynu animeiddiad byr sydd yn dangos yr amrediad o wasanaethau a chefnogaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn GISDA.

Adnoddau Dynol

Mae GISDA yn cydnabod mai ei staff yw prif adnodd yr elusen ac yn parhau i ddatblygu, cryfhau a gweithredu polisïau, gweithdrefnau a threfniadau adnoddau dynol i greu diwylliant gwaith lle mae staff yn teimlo'n iach a diogel a bod eu gwaith ac yn cael ei werthfawrogi.
Yn fwy nag erioed yn dilyn cyfnod mor heriol rydym wedi bod yn rhoi llawer o bwyslais ar lesiant a diogelwch staff a sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y gefnogaeth maent eu hangen i sicrhau eu bod yn medru cyflawni eu gwaith er lles y bobl ifanc rydym yn eu cefnogi

Cyfrifoldebau'r Bwrdd Rheoli mewn perthynas â'r Datganiadau Ariannol

Mae gofynion Deddf Cwmnïau yn gorfodi'r Bwrdd Rheoli i baratoi adroddiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sydd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae'r Bwrdd Rheoli yn dilyn gwerth gorau ac yn (1) dewis polisïau cyfrifeg addas a'u gweithredu yn gyson a (2) gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a doeth a (3) pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw os nad yw'n anaddas i ystyried bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.
Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg addas sy'n datgan gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw amser sefyllfa ariannol cwmni elusennol ac sydd yn sicrhau bod yr adroddiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r Bwrdd Rheoli hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly'n cymryd camau priodol i rwystro ac adnabod twyll ac anghysondebau eraill.


Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Mae Aelodau'r Bwrdd Rheoli am y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad wedi eu nodi ar dudalen 1. Maent yn gyfarwyddwyr o dan Ddeddfwriaeth Cwmnïau ac yn ymddiriedolwyr o dan Ddeddfwriaeth Elusennol. Mewn cytundeb â Deddf Cwmnïau, fel cyfarwyddwyr y cwmni, rydym yn datgan:

- Cyn belled a gallwn wybod, nid oes unrhyw wybodaeth ar gyfer yr archwiliad perthnasol nad ydym yn ymwybodol ohono
- Fel cyfarwyddwyr y cwmni, rydym wedi cymryd holl gamau angenrheidiol i sicrhau ein bod ni ac archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol o'r holl wybodaeth archwiliad perthnasol.

Archwilwyr

Ail-apwyntiwyd W.J.Matthews & Son fel archwilwyr y cwmni elusennol yn ystod y flwyddyn ac maent wedi nodi eu parodrwydd i barhau i wneud hynny.
Drwy orchymyn y Bwrdd ar 20.07.22 ac wedi arwyddo ar ei ran gan

	Mr J Ron Williams (Cadeirydd)

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau GISDA Cyfyngedig

Barn

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol GISDA Cyfyngedig am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2022 sydd yn cynnwys y datganiad o weithredoedd ariannol, y fantolen, y datganiad ynghylch llif arian a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102, 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2022, ac am yr adnoddau cyllid a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail ein barn

Rydym wedi cynnal ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r anghenion ethegol sydd yn gymwys i'n archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Ethegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ethegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu fod y tystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a chymwys i baratoi sail i'n barn.

Canlyniadau ynglŷn a busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes byw o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau yn briodol.
Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud a digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r endid i barhau fel busnes byw am gyfnod o leiaf 12 mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol.
Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas a busnes byw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth gynwysedig yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwiliwr arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r helaeth fod wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw ganlyniadau o sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu sydd fel arall yn ymddangos yn sylweddol anghywir. Os daw yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiant sylweddol ymddangosiadol neu anghysondebau, mae'n ofynnol arnom i benderfynu os oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall. Os down i gasgliad , ar sail y gwaith a gwblhawyd fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth ychwanegol yma,

mae'n ofynnol arnom i ymadrodd y ffaith.

Nid oes gennym ddim i ymadrodd mewn cyswllt â hyn.

Barn ar faterion eraill a benodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd yng nghwrs yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson a'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi ei pharatoi yn unol â gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad

Yn sgil yr wybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camfynegiant sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglŷn â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmnïau 2006 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:

- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw, neu os yw adroddiadau cymwys i'n harchwiliad heb eu derbyn gan ganghennau na ymwelwyd gennym, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol mewn cytundeb â'r cofnodion ariannol a'r adroddiadau, neu
- fod rhai datgeliadau am dal ymddiriedolwyr a benodir dan gyfraith wedi eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr oll o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at bwrpas deddf cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg wir a theg ac am y rheolau mewnol mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro'n angenrheidiol i alluogi paratoad o ddatganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamosodiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi y datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel yn gymwys, materion perthnasol i allu'r busnes i barhau a defnyddio y sail busnes byw o gyfrifo os nad yw'r ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu i gau y cwmni neu roi gorau i weithredu, neu heb fod gyda dewis rhesymol ond i wneud hynny.

Cyfrifoldeb yr archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein amcanion yw i dderbyn sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchaf o sicrwydd, ond nid yn gwarantu y buasai archwiliad wedi ei chynnal yn unol ag ISAs (DU) yn darganfod camddatganiad sylweddol, os yw yn bod pob adeg. Gall camosodiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, a byddent yn cael eu cysidro yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y buasai'n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio dewisiadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau yma.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau

perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod gan y tim ymgysylltu ar y cyd y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys;
- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol i'r cwmni trwy drafodaethau â ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector;
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn a allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, amgylcheddol a deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gan reolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Roedd deddfau a rheoliadau a nodwyd yn cael eu cyfleu o fewn y tim archwilio yn rheolaidd ac roedd y tim yn parhau i fod yn effro i achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y cwmni i gamddatganiad perthnasol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:

- Wneud ymholiadau gan reolwyr ynghylch ble roeddent o'r farn bod tueddiad i dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn rheoli a diystyru rheolaethau, rydym yn:

- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;
- Asesu a oedd dyfarniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;
- Ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin.

Mewn ymateb i'r risg o afreolaidd-dra a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cytuno ar ddatgeliadau datganiadau ariannol i ddogfennau ategol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn ein gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddem yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl.
Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad oherwydd gallent gynnwys cuddio neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Fel rhan o archwiliad a ymgymerir yn unol ag ISAs (DU), rydym yn ymarfer barn proffesiynol a chynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad, rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamosodiad sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio yn ymatebol i'r risg hynny, a chael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio darganfod camosodiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch nag o risg yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cyd-dwyllo, ffugio, gadael gwybodaeth allan yn fwriadol, camfynegiadau, neu anwybyddu reolau mewnol.
- Cael dealltwriaeth o reolaeth ariannol perthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at bwrpas o fynegi barn ar effeithiolrwydd y rheolau mewnol.
- Asesu priodolrwydd y polisïau cyfrifyddol a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb o amcangyfrifau cyfrifyddol a datgeliaethau cysylltiedig a wneir gan yr ymddiriedolwyr.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd o'r sail cyfrifo busnes byw gan yr ymddiriedolwyr ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gawsom, os os oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amgylchiadau a all godi amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel uned byw. Os y down i gasgliad fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae'n ofynnol arnom i dynnu sylw, yn ein adroddiad archwiliwr i'r datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os nad yw'r datgeliadau yn ddigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y tystiolaeth archwilio a dderbyniwyd hyd at dyddiad adroddiad yr archwiliwr. Er hynny, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi'r cwmni i beidio parhau fel busnes byw.
- Asesu y cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac os yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli y trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn ffurf sydd yn cyflawni cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu gyda'r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynglŷn, ymysg materion eraill, paratoi cwmpas ac amseru yr archwiliad a darganfyddiadau sylweddol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw wendidau sylfaenol mewn rheolaeth ariannol a ddarganfuwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

Defnyddio ein adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi ei wneud i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Adran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Rydym wedi ymgymryd a'r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni elusennol ar y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad yr archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at eithaf â ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw y cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

David Chidley (Prif archwiliwr statudol)
Dros ac ar ran
W J Matthews a'i Fab,
Archwiliwr Statudol
a Chyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
CAERNARFON
Ll55 1AB

Dyddiad: 20/07/2022.

GISDA Cyfyngedig

Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant) *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

	Nodiadau	Cronfeydd Anghgyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	2022	2021
		£	£	£	£
Incwm					
Incwm gwirfoddol Grantiau a Rhoddion	*3*	27,663	10,667	38,330	20,325
Incwm o weithgareddau elusennol Grantiau, cytundebau rhenti ac ati	*4*	327,134	1,261,325	1,588,459	1,509,058
Elw ar werthu ased sefydlog		-	-	-	14,350
Llog banc		70	-	70	59
Incwm arall		20,478	-	20,478	23,825
Incwm Cynllun Cadw Swyddi		-	-	-	21,669
Cyfanswm incwm		375,345	1,271,992	£1,647,337	£1,589,286
Gwariant **Gweithgareddau elusennol**	*6*	290,461	1,149,616	1,440,077	1,309,862
Incwm net a symudiadau net mewn cronfeydd am y flwyddyn		84,884	122,376	207,260	279,424
Cronfeydd ar 1 Ebrill 2021		507,182	1,010,294	1,517,476	£1,238,052
Cronfeydd ar 31 Mawrth 2022		592,066	1,132,670	1,724,736	£1,517,476

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio i gyd o weithgareddau sydd yn parhau. Mae'r holl enillion a cholledion a gydnabyddir yn y flwyddyn wedi eu cynnwys uchod. Mae'r syrffed am y flwyddyn at bwrpas y Ddeddf Cwmnïau yn cynnwys yr adnoddau cyllid net am y flwyddyn yn £207,260 (2021 – 279,424).

GISDA Cyfyngedig

Mantolen *ar 31 Mawrth 2022*
(Rhif cofrestru'r cwmni 2484575)

	Nodiadau		2022 £	2021 £
ASEDAU SEFYDLOG				
Asedau cyffyrddadwy a ddefnyddir gan yr Elusen	*11*		1,021,168	1,009,658
ASEDAU CYFREDOL				
Dyledwyr	*12*	248,455		106,200
Arian yn y banc		693,653		691,032
		942,108		797,232
CREDYDWYR: *Symiau yn daladwy o fewn blwyddyn*	*13*	(109,909)		(156,629)
ASEDAU CYFREDOL NET			832,199	640,603
CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			**1,853,367**	**1,650,261**
CREDYDWYR: *Symiau yn daladwy ar ôl blwyddyn*	*14*		(128,631)	(132,785)
ASEDAU NET			1,724,736	£1,517,476
CRONFEYDD INCWM				
Cronfeydd cyfyngedig	*17*		1,132,670	1,010,294
Cronfeydd anghyfyngedig	*16*		592,066	507,182
			£1,724,736	£1,517,476

Ar ran y Bwrdd ..... (Cyfarwyddwr)
Mr J Ron Williams

Dyddiad 20/07/2022.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 38 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

GISDA Cyfyngedig

Datganiad ynghylch llif arian *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2022*

	Nodyn	2022 £	2021 £
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	***20***	30,280	293,974
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		70	59
Prynu asedau sefydlog	***11***	(18,890)	(18,021)
Gwerthiant asedau sefydlog		-	14,350
Arian a ddefnyddiwyd i fuddsoddi		(18,820)	**(3,612)**
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Derbynneb morgais		-	-
Ad-daliadau morgais		(8,839)	(10,976)
Arian o weithgareddau ariannu		(8,839)	**(10,976)**
Cynnydd mewn arian a chyfatebolion arian		**2,621**	**279,386**
Arian a chyfatebolion arian ar 1 Ebrill 2021		691,032	411,646
Arian a chyfatebolion arian ar 31 Mawrth 2022		**£693,653**	**£691,032**

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

1. Polisiau cyfrifyddol

Mae'r prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, penderfyniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd â amcangyfrifir wrth baratoi y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

a) Sail Paratoi Cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu yn unol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau" Datganiad o Ymarferion Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) – (SORP Elusennau (FRS102)), yr Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Cwmniau 2006.
Mae GISDA Cyfyngedig yn bodloni gofynion diffiniad uned budd cyhoeddus dan FRS102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau yn wreiddiol ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion os na nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifo perthnasol.
Mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro nad oes ansicrwydd sylweddol am allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw.

b) Polisïau cydnabod incwm

Dangosir adnoddau cyllid yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd unrhyw ganllawiau perfformiad ynghlwm a'r eitemau incwm wedi eu cyflawni neu yn gyflawn o fewn rheolaeth yr elusen a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl. Cyfrifir am grantiau ple nad yw'r hawl yn ddibynnol ar berfformiad gan yr elusen, pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant. Gohirir incwm os nad canllawiau hawl wedi eu cyrraedd neu os yw'r incwm wedi ei neilltuo ar gyfnod yn y dyfodol.

Cydnabyddir incwm grantiau sydd ddim yn dibynnol ar gyflawni gweithgareddau penodol pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant. Gohirir incwm os nad yw'r elusen wedi cyflawni gweithgareddau penodol i roi hawl i'r incwm neu lle mae'r incwm wedi ei glustnodi at gyfnod diweddarach.

Cydnabyddir incwm grantiau sydd yn ddibynnol ar berfformiad neu gyflawni gweithgareddau penodol fel mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau drwy berfformiad o'i oblygiadau.

c) Cyfrifo cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall. Mae cronfeydd penodedig yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu rhoi i'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at bwrpas arbennig. Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol a chyfyngiadau penodol dan amodau y rhoddwr neu sydd wedi eu codi gan yr elusen at bwrpas arbennig.

ch) Gwariant

Cydnabyddir gwariant pan mae oblygiad cyfreithiol neu weithredol i wneud taliad i drydydd person, y mae'n debygol fydd taliad yn angenrheidiol a gellir mesur yr blygiad yn ddibynadwy.
Cyfrifir yr holl wariant yn y datganiad o weithredoedd ariannol ar sail croniant.
Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau a godir wrth gyflenwi gweithgareddau a gwasanaethau i'r buddiolwyr. Mae'n cynnwys y costau a benodir yn uniongyrchol i'r gweithgareddau a'r costau anuniongyrchol sydd yn angenrheidiol i'w cefnogi.

Cyfrifir TAW na ellir ei hawlio fel cost yn erbyn y gweithgaredd a achosodd y gwariant.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

d) Costau cynorthwyol

Costau cynorthwyol yw gweithgareddau sydd yn cefnogi gwaith yr elusen ond sydd ddim yn ymwneud a gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cynorthwyol yn cynnwys yr adran weinyddol, cyllid, personél a llywodraethol sydd yn cefnogi y gwahanol brosiectau elusennol. Mae'r costau hyn wedi eu dosbarthu rhwng y gwahanol adrannau fel y dangosir yn nodyn 7.

dd) Les gweithredol

Mae'r elusen yn dosbarthu rhenti eiddo fel les gweithredol; mae tetl i'r eiddo yn aros gyda'r prydleswr ac mae bywyd economaidd yr eiddo yn llawer hirach na term y les.

e) Asedau sefydlog

Mae asedau sefydlog gyda chost mwy na £1,000 yn cael eu cyfalafu a'u cynnwys ar gost gan gynnwys unrhyw gostau atodol o gaffaeilio. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau dros gyfnod amcangyfrifol o'u hoes fel a ganlyn:

Offer swyddfa	20-33%
Dodrefn tai	20%
Gwelliannau	25%
Moduron	20%

f) Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl nodi unrhyw disgownt masnachol a gynnigwŷd. Dangosir blaendaliadau ar werth y swm a dalwyd ymlaen llaw llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

ff) Arian mewn banc ac mewn llaw

Mae arian mewn banc ac mewn llaw yn cynnwys arian buddsoddiadau tymor byr sydd yn aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael neu o agor y cyfrif adnau.

g) Credydwyr a darpariaethau

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fydd gan yr elusen oblygiad cyfredol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol gyda'r canlyniad tebygol o drosglwyddiad o eiddo i drydydd person a gellir mesur y swm angenrheidiol i setlo'r oblygiad yn ddibynadwy. Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

ng) Offerynnau ariannol

Dim ond offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cofnodir offerynnau ariannol sylfaenol i dechrau ar bris y contract os nad yw'r trefniant yn sefydlu gweithrediad ariannu, pan fyddent yn cael eu cofnodi ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi eu gostyngi ar raddfa llog y farchnad am offeryn ariannol tebyg.

h) Costau pensiwn

Mae'r gost o baratoi pensiwn a manteision cyffelyb yn cael eu prisio i'r Datganiad o Weithredoedd ariannol fel mae'r rhwymedigaeth yn codi. Mae'r elusen yn talu cyfraniadau pensiwn ar sail cyfraniadau wedi eu diffinio.

2. Statws gyfreithiol y cwmni

Mae'r cwmni yn gyfyngedig drwy warrant. Wrth ddirwyn i ben neu ddiddymu y cwmni ac wedi bodloni ei holl ddyledion a'i rwymedigaethau, os erys unrhyw eiddo o gwbl yn weddill, ni thelir ef i aelodau y cwmni na'i ddosbarthu yn eu mysg, ond yn hytrach ei roi i sefydliad elusennol arall gydag amcanion cyffelyb i amcanion y cwmni. Gan na dderbynnir unrhyw eiddo o'r cwmni gan yr aelodau, nid oes Cysondeb o Gronfeydd Ariannol yn angenrheidiol.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

3. Incwm gwirfoddol

	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£
Rhodd Elusen Weston	-	4,167	4,167	5,000
Rhoddion eraill	27,663	6,500	34,163	15,325
	27,663	10,667	38,330	20,325

4. Gweithgareddau elusennol

	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£
Rhent	292,528	-	292,528	285,028
Grant Cymorth Tai	-	633,081	633,081	614,643
Grant Cynulliad Cenedlaethol	-	27,318	27,318	27,318
Grant Cyngor Gwynedd	-	90,978	90,978	90,978
BBC/Cyngor Gwynedd Rhieni Ifanc	-	-	-	14,934
Grant Erasmus	-	1,429	1,429	10,602
Grantiau Cyngor Gwynedd	-	64,241	64,241	31,555
Grantiau Prosiect LGBT	-	47,000	47,000	31,808
Grant Mantell Gwynedd	-	-	-	1,000
Incwm Te a Cofi/ Fan Sgram	-	-	-	21,460
Incwm Llogi Ystafelloedd	145	-	145	4,429
Rhent Tai Gisda	23,296	-	23,296	22,840
Grantiau Dros Unigolion Ifanc	-	10,604	10,604	3,100
Caffi Creu	-	16,576	16,576	3,711
Grant Srewfix	-	-	-	5,000
Cronfa Gymunedol Cymru	-	-	-	15,000
Art Council Wales	-	-	-	9,000
Grant Lottery - Llesiant Staff	-	-	-	10,000
Grant Iechyd a Lles Betsi Cadwalder	-	-	-	10,000
Grantiau Covid Cyngor Gwynedd	-	-	-	82,000
Prosiect ICAN	-	119,037	119,037	14,614
Loteri Cymuned Pobl Ifanc	-	3,242	3,242	3,958
Grantiau Academi Cyfleon	-	121,661	121,661	66,289
Grantiau Moondance	-	-	-	71,600
Economic Resilience Fund	-	-	-	12,000
Kickstart	11,165	38,510	49,675	12,491
Fframwaith Therapiwtig	-	-	-	33,700
Grant TAPI	-	76,153	76,153	-
Grant CAHMS	-	8,790	8,790	-
Grant Cymorth Llaw	-	705	705	-
Cronfa Pears Foundation	-	2,000	2,000	-
	327,134	1,261,325	1,588,459	1,509,058

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

5. Incwm Gohiriedig

	Incwm Gohiriedig 2021	Derbyniadau 2022	Incwm Gohiriedig 2022	Incwm a Gydnabyddir 2022
	£	£	£	£
Rhodd Elusen Weston	-	10,000	5,833	4,167
Grantiau Dros Unigolion Ifanc	4,280	9,635	3,311	10,604
Loteri	3,242	-	-	3,242
Erasmus	1,429	-	-	1,429
Cyngor Gwynedd Cefnogi Tai	3,000	5,000	5,000	3,000
Caffi Creu	16,576	-	-	16,576
Grantiau Academi Cyfleon	7,323	114,338	-	121,661
Prosiect ICAN	2,939	116,098	-	119.037
Cyngor Gwynedd	-	4,872	4,872	-
Rhieni Ifanc	-	20,000	20,000	-

6. Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd

	Cynlluniau Llety a Chefnogaeth	Cynlluniau Cefnogi a Datblygu	Eraill	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£	£
Costau staff	472,882	383,846	-	856,728	752,098
Costau adeiladau	180,957	1,882	36,880	219,720	233,192
Adnewyddu a thrwsio	11,037	180	1,784	13,001	22,958
Cafe - Te a Cofi	-	-	-	-	7,782
Teithio a chynhaliaeth	13,242	16,628	1,227	31,097	11,586
Hyfforddiant	3,304	5,390	-	8,694	6,723
Gweithgareddau	3,051	16,488	3,986	23,525	9,163
Gwariant tros bobl ifanc	1,561	34,584	365	36,509	14,712
Costau proffesiynol	-	9,321	900	10,221	3,313
Costau swyddfa a ffon	16,818	8,088	6,123	31,029	32,531
Hysbysebu a marchnata	50	2,489	-	2,539	6,631
Dibrisiant	-	7,381	-	7,381	3,829
Eraill	3,483	1,817	1,724	7,025	3,035
Dyledwyr drwg				-	(1,519)
Costau llywodraethol	18,692	12,915	1,402	33,009	32,839
Costau cynorthwyol	90,374	62,446	6,779	159,599	170,989
Cyfanswm	815,451	563,456	61,170	1,440,077	1,309,862

Roedd gwariant ar weithgareddau elusennol yn £1,440,077 (2021- £1,309,862). O'r gwariant yma roedd £290,461 (2021- £393,583) yn anghyfyngedig a £1,149,616 (2021 - £916,279) yn gyfyngedig.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

7. Dadansoddiad o gostau llywodraethol a chynorthwyol

I ddechrau, mae'r cwmni elusennol yn nodi ei gostau cynorthwyol. Yna nodir y costau sydd yn berthnasol i'r pwrpas llywodraethol. Wedi adnabod y costau llywodraethol, rhannir y costau cynorthwyol cyffredinol a'r costau llywodraethol rhwng y tri gweithgaredd elusennol a ymgymerwyd yn ystod y flwyddyn. Nodir dosbarthiad y costau rhwng y gweithgareddau elusennol ar sail defnydd.

	Cynorthwyol Cyffredinol	Llywodraethol	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£
Costau staff canolog	92,172	28,809	120,981	131,305
Costau swyddfa a ffon	17,694	-	17,694	20,345
Costau adeiladau	26,984	-	26,984	27,054
Adnewyddu a thrwsio	210	-	210	30
Teithio a chynhaliaeth	1,337	-	1,337	491
Hyfforddiant	2,572	-	2,572	4,311
Gweithgareddau	148	-	148	135
Hysbysebu a marchnata	1,517	-	1,517	1,610
Costau proffesiynol	7,165	-	7,165	8,142
Archwilio a chyfrifo	4,567	4,200	8,767	5,330
Costau llog a chostau banc	4,684	-	4,684	4,492
Eraill	550	-	550	583
	159,599	33,009	192,608	203,829

Adnoddau Cyllid Net

Nodir yr adnoddau cyllid net ar ôl codi:

	2022	2021
	£	£
Rhent	146,682	148,323
Dibrisiant	7,381	3,829
Ffioedd archwilio	4,200	2,900
Archwiliwr – ffioedd eraill	4,567	2,340

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

8. Costau Staff a chydnabyddiaeth yr ymddiriedolwyr

	2022	2021
	£	£
Cyflogau	874,692	796,817
Yswiriant cenedlaethol	68,808	57,739
Pensiwn	34,209	28,847
	977,709	883,403

Nid oedd cydnabyddiaeth unrhyw aelod o staff dros £60,000 y flwyddyn. Nodir costau pensiwn i'r gweithgareddau ar yr un canran a'r cyflogaeth perthynol.

Ni dderbyniwyd ffioedd na thal rheoli yn ystod y flwyddyn *(2021– Dim).* Ni wnaed taliadau i gyfarwyddwyr am gostau a achoswyd *(2021 – Dim).*

Nid oedd gan unrhyw Ymddiriedolwr neu berson arall yn gysylltiedig a'r elusen unrhyw ddiddordeb personol mewn unrhyw gontract neu drafodion gyda'r elusen yn ystod y flwyddyn (*2021 – Dim*).

Mae personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r tîm rheoli. Roedd cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol yr elusen yn £191,181 *(2021 - £159,229).*

Roedd cyfartaledd nifer cyflogedig yr elusen yn ystod y flwyddyn, ar sail blwyddyn llawn, fel a ganlyn:

	2022	*2021*
	Nifer	Nifer
Prif Weithredwr	1	1
Cynllun Llety a Chefnogaeth	22	20
Cynlluniau Cefnogi a Datblygu Eraill	20	20
Gweinyddol	5	5
	48	46

Telir cyfraniadau pensiwn i gynllun gyda'r cyfraniadau wedi eu diffinio. Nid oedd unrhyw flaendaliadau pensiwn ar ddiwedd y flwyddyn *(2021- Dim).*

10. Treth

Fel elusen mae GISDA Cyfyngedig yn eithriedig o dreth ar incwm ac enillion o fewn adran 505 o'r Gyfraith Dreth 1988 ac adran 256 o'r Gyfraith Treth Enillion Cyfalaf 1992 hyd at eu bod yn cael eu defnyddio at weithgareddau elusennol. Nid oed unrhyw rwymedigaeth treth wedi codi.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

11. **Asedau sefydlog dirweddol**

	Adeiladau a Gwelliannau £	*Offer swyddfa* £	*Dodrefn Tai* £	*Moduron* £	*Cyfanswm* £
Cost/Gwerth					
Ar 1 Ebrill 2021	1,096,350	160,549	105,276	16,500	1,378,675
Ychwanegiadau	-	18,891	-	-	18,891
Ar 31 Mawrth 2022	1,096,350	179,440	105,276	16,500	1,397,566
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2021	106,922	147,819	105,276	9,000	369,017
Cost am y flwyddyn	-	5,781	-	1,600	7,381
Ar 31 Mawrth 2022	106,922	153,600	105,276	10,600	376,398
Gwerth yn y llyfrau					
Ar 31 Mawrth 2022	989,428	25,840	-	5,900	1,021,168
Ar 31 Mawrth 2021	989,428	12,730	-	7,500	1,009,658

Mae'r holl asedau sefydlog yn cael eu defnyddio i hyrwyddo amcanion yr elusen.

12. Dyledwyr	**2022** £	**2021** £
Dyledwyr masnachol	238,200	94,013
Blaendaliadau	5,570	6,015
Dyledwyr eraill	4,685	6,172
	248,455	106,200

Yn gynwysedig yn y dyledwyr eraill mae £3,484 yn ddyledus ar ôl blwyddyn.

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

13. Credydwyr: *symiau yn daladwy o fewn blwyddyn*	**2022**	**2021**
	£	**£**
Credydwyr masnachol	19,590	50,748
Treth a nawdd cymdeithasol	14,783	17,421
Incwm gohiriedig	39,016	38,789
Costau wedi cronni	36,520	49,671
	109,909	156,629

14. Credydwyr: *symiau yn daladwy ar ôl blwyddyn*	**2022**	**2021**
	£	**£**
Morgais	128,631	132,785

Mae'r morgais wedi ei sicrhau ar swyddfa cofrestredig yr elusen. Bydd swm o £108,246 (2021 - £113,175) yn ad-daladwy ar ôl pum mlynedd. Ad-delir y morgais mewn symiau cyfartal i orffen Tachwedd 2042. Mae graddfa llog o 3.8% ar y benthyciad.

15. Ymrwymiadau

Les Gweithredol

Mae gan yr elusen ymrwymiadau dan les weithredol fel a ganlyn:

	Tir ac Adeiladau		**Eraill**	
	2022	**2021**	**2022**	**2021**
	£	**£**	**£**	**£**
Taliadau les:				
O fewn un flwyddyn	158,330	157,748	-	-
Rhwng un a phum mlwyddyn	18,000	-	2,716	5,434
Dros bum mlynedd	-	-	-	-
	176,330	157,748	2,716	5,434

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

16. Cronfeydd anghyfyngedig

	Balans 1 Ebrill 2021	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2022
	£	£	£	£	£
Cronfa Gyffredinol	425,182	-	375,345	290,461	510,066
Cronfa Dynodedig	82,000	-	-	-	82,000
	507,182	-	375,345	290,461	592,066

	Balans 1 Ebrill 2020	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2021
	£	£	£	£	£
Cronfa gyffredinol	397,780	(82,000)	502,985	393,583	425,182
Cronfa Dynodedig	-	82,000	-	-	82,000
	397,780	-	502,985	393,583	507,182

17. Cronfeydd cyfyngedig

	Balans 1 Ebrill 2021	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2022
	£	£	£	£	£
Cynlluniau llety a chefnogaeth	22,515	-	633,081	633,081	22,515
Cynlluniau cefnogi a datblygu	257,779	-	638,911	516,535	380,155
Grantiau a Rhoddion Adeiladau	730,000	-	-	-	730,000
	1,010,294	-	1,271,992	1,149,616	1,132,670

	Balans 1 Ebrill 2020	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2021
	£	£	£	£	£
Cynlluniau llety a chefnogaeth	22,515	-	614,643	614,643	22,515
Cynlluniau cefnogi a datblygu	87,757	-	471,658	301,636	257,779
Grantiau a Rhoddion Adeiladau	730,000	-	-	-	730,000
	840,272	-	1,086,301	916,279	1,010,294

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022*

18. Dadansoddiad asedau net rhwng cronfeydd

	Asedau Sefydlog Dirweddol £	Asedau Cyfredol Net £	Credydwyr Ar ôl un Blwyddyn £	Cyfanswm £
Ffynonellau cyfyngedig	730,000	402,670	-	1,132,670
Ffynonellau anghyfyngedig	291,168	429,529	128,631	592,066
	1,021,168	832,199	128,631	1,724,736

19. Cymodi'r elw gweithredol â'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol

	2022 £	2021 £
Symudiad net mewn cronfeydd	207,260	279,424
Llog a dderbyniwyd	(70)	(59)
Llog morgais a dalwyd	4,684	4,492
Dibrisiant	7,381	3,829
Elw ar waredu asedau sefydlog	-	(14,350)
(Cynnydd) Lleihad/ mewn stoc	-	324
(Cynnydd)/Lleihad mewn dyledwyr	(142,255)	(21,225)
Cynnydd/(Lleihad) mewn credydwyr	(46,720)	41,539
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	**£30,280**	**£293,974**

GISDA CYFYNGEDIG / ARFON YOUNG SINGLE HOMELESS GROUP

England & Wales - Charity number 1068325

Accounts

GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

GISDA Cyfyngedig

(Cwmni wedi ei Gyfyngu drwy Warant)

Adroddiad a Datganiad Ariannol
Siân Elen Tomos

Blwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021

Rhif Elusen	**1068325**
Rhif y Cwmni	**2484575**

Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr Elusen

Blwyddyn yn gorffen Mawrth 31, 2021

Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol

ENW	GISDA Cyfyngedig
CYFEIRIAD	22/23 Y Maes, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2NA.
RHIFAU COFRESTRU	Rhif Cofrestru Cwmni 2484575 Rhif Cofrestru Elusen 1068325

PERSONÉL ALLWEDDOL SYDD HEFYD YN YMDDIRIEDOLWYR

Parch. J Ron Williams (Cadeirydd)	Ers 07/12/1989
Mr. W.Tudor Owen	Ers 13/10/2003
Mr Dewi Jones	Ers 20/06/2012
Mrs. Carys Thomas	Ers 15/03/2015
Mrs. Ffion Jon	Ers 21/11/2016
Ms Gilly Harradence	Ers 16/07/2018
Cyng Elin Walker Jones	Ers 29/11/2018
Ms Elen Mai Owen	Ers 21/01/2019
Dr Peter Harlech Jones	Ers 21/01/2019
Ms Siân Williams	Ers 21/01/2019
Mr Rhys Davies	Ers 18/02/2019
Cyng Elwyn Jones	Ers 09/07/2021
Dr Dylan Wyn Evans	Ers 22/03.2021
Mrs Llinos Angharad Owen	Ers 22/03/2021
Mrs Gwenllian Glyn Parry	Ers 24/05/2021

YMDDIRIEDOLWYR WEDI GADAEL

Ms Sian Williams	Ers 21/01/2019	Gadael 13/03/2020
Cyng Elin Walker Jones	Ers 29/11/2018	Gadael 09/07/2020
Mr Rhys Davies	Ers 18/02/2019	Gadael 22/03/2021

Ysgrifennydd Cwmni

Elizabeth George

Personél Rheoli Allweddol

Sian Tomos	Prif Weithredwr
Elizabeth George	Pennaeth Busnes
Steffan Llŷr Williams	Pennaeth Gwasanaethau
Gwyn Llyn Parry	Pennaeth Cyllid (ers Mawrth 2020)

Bancwyr	Lloyds Bank plc, 268 High Street, BANGOR, Gwynedd, LL57 1RT.
Cyfrifwyr	W.J.Mathews & Son, 11-15 Bridge Street, CAERNARFON, Gwynedd
Cyfreithwyr	Richard Hall, Bryn Gwynhoedl, Llangwnadl, PWLLHELI

1.0 Cyflwyniad

Mae'r ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at bwrpas Deddf Cwmnïau yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021 sydd hefyd wedi eu paratoi er mwyn cwrdd gyda'r angen am adroddiad cyfarwyddwyr a chyfrifon at bwrpas Deddf Cwmnïau

Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Elusennau 2011, Deddf Cwmnïau 2006, Erthyglau a Memorandwm y Cwmni elusennol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau". Datganiad o ymarferion cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau, Datganiad o Weithredoedd Ariannol yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102). Mae asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cofnodi ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion

2.0 Strategaeth 2019-2023

Mae Strategaeth GISDA Cyf ar gyfer 2019-2023 yn nodi ein gwerthoedd, ein blaenoriaethau a'n hymrwymiad hir-dymor i barhau i roi cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus. Mae'n adlewyrchu ein trafodaethau ar draws y cwmni o farn a llais pobl ifanc i fyny at aelodau ein Bwrdd Rheoli ac yn rhywbeth yr ydym yn falch iawn ohono. Yr ydym yn hyderus y bydd yn dod yn ddogfen fyw a bydd ein canlyniadau yn efelychu'r nodau strategol sydd ynddo dros y blynyddoedd nesaf. Byddwn yn canolbwyntio ar y 5 nôd strategol canlynol:

1.	**LLAIS – GISDA yn sicrhau bod llais pobl ifanc digartref a bregus yn ganolog i bopeth**
2.	**LLETY - GISDA yn gwmni sydd yn ymateb i anghenion llety a chefnogaeth pobl ifanc digartref a bregus**
3.	**CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD - GISDA yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus drwy weithgareddau creadigol, artistig, therapiwtig, hamdden ac addysgiadol.**
4.	**CYMUNED – GISDA yn gwmni sydd yn cyfranogi a chwarae ei ran yn y gymuned er budd pobl ifanc digartref a bregus**
5.	**CYNALIADWYEDD – GISDA yn datblygu cynlluniau, mentrau cymdeithasol a meithrin partneriaethau i sicrhau cynaliadwyedd y cwmni**

3.0 Strwythur a Llywodraethiant Bwrdd Rheoli GISDA Cyf

Mae'r aelodau bwrdd yn gyfarwyddwyr y cwmni ac yn ymddiriedolwyr elusen ac yn cael eu hethol yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Yr aelodau bwrdd hefyd yw aelodau'r cwmni. Yr aelodau bwrdd sydd yn rheoli busnes yr elusen ac maent yn gyfrifol am:

- Gydymffurfiad â Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.
- Gydymffurfiad â deddfwriaeth a safonau a osodwyd gan ein deiliad diddordeb.
- Sicrhau fod y Cwmni yn gweithredu gwerth gorau ym mhob agwedd o'i waith.
- Atebolrwydd i ddeiliad diddordeb drwy fonitro safon y gwasanaethau a ddarperir a sicrhau bod pob agwedd o'r gwaith yn cael ei reoli yn effeithiol.

Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn rhoi eu hamser yn wirfoddol a heb unrhyw fudd ariannol o'r elusen.

Yn ystod 2020-2021 mae'r Bwrdd Rheoli wedi parhau efo'u hymrwymiad i sicrhau trefniadau llywodraethiant cryf o fewn GISDA Cyf. Mewn cyfnod digynsail lle cafwyd pandemig covid-19 drwy'r byd mae'r Bwrdd wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn defnyddio cyfryngau rhithiol i ddarparu arweiniad cadarn a chryf i GISDA Cyf a sicrhau ein bod yn medru parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bobl ifanc bregus a digartref Gwynedd. Sefydlwyd 3 is-banel i gynorthwyo efo rheoli gwaith y Bwrdd sef is-banel cyllid ac asedau; is-banel gwasanaethau a phrosiectau; ac is-banel staffio, llywodraethiant a busnes

Mae Bwrdd Rheoli GISDA Cyf yn parhau i ddatblygu sustemau a gweithdrefnau cadarn i adnabod a rheoli risg. Mae gan y cwmni polisïau, gweithdrefnau adnabod a rheoli risg a Chofrestr Risg. Mae'r cofrestr yn cyfeirio at nifer o gategorïau risg yn cynnwys llywodraethiant, cyllid, cydymffurfiaeth cyfreithiol a gwasanaethau. Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn gosod archwaeth risg ar gyfer pob un o'r categorïau ac yna'n sgorio'r risgiau o fewn y categorïau yn ôl eu tebygolrwydd ac effaith cyn benderfynu ar ba gamau y dylid eu cymryd i drin a monitro y risgiau hynny. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cael eu hysbysu o'r risgiau mwyaf uchel yn rheolaidd mewn cyfarfodydd bwrdd deufisol ac mae'r cofrestr risg yn cael ei graffu'n fanwl yn ddeu fisol gan yr is-banel Staffio, LLywodraethiant a Busnes.

4.0 Amcanion Elusennol GISDA Cyf

4.1 Nod ac Amcanion GISDA Cyf

Nod GISDA Cyf

Darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc

Amcanion GISDA Cyf (yn unol â chyfansoddiad y cwmni)

Rhoi cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus drwy ddarparu

- llety a gwasanaethau cefnogol
- gweithgareddau creadigol ac artistig
- gweithgareddau therapiwtig, hamdden ac addysgiadol
- cyngor a gwybodaeth
- hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth

i roi cymorth iddynt datblygu hyder, gwydnwch, sgiliau byw yn annibynnol, sgiliau cyflogaeth a chyfranogi yn llawn mewn cymdeithas yn rhydd o unrhyw anfantais.

I gyflawni hyn byddwn yn sicrhau:

- llywodraethiant o ansawdd uchel
- diwylliant lle bydd staff yn cael eu cefnogi a gwerthfawrogi am eu gwaith.
- adnoddau i flaenoriaethu 'model fi' sef dull o weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc.

Bydd llywodraethiant a diwylliant yn cael eu monitro'n flynyddol fel rhan o adroddiad blynyddol y cwmni.

4.2 Gwerthoedd GISDA Cyf

Mae GISDA Cyf yn credu mewn pobl ifanc, waeth beth fo'u hamgylchiadau, eu rhyw, eu hil, eu hanabledd na'u hymddygiad. Credwn mewn pobl ifanc sydd wedi eu cam-drin, pobl ifanc bregus a phobl ifanc heb gefnogaeth teulu. Byddwn yn eu cefnogi, yn sefyll yn gadarn drostynt ac yn ceisio sicrhau bob cyfle fel y gallant gyrraedd eu potensial mewn bywyd. Rydym yn gwneud hyn am ein bod yn credu mewn pobl ifanc. Ein nod yw gwella ansawdd bywyd a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc yn ein cymdeithas.

- **Gonestrwydd**

Rydym yn darparu gwasanaeth gonest a diffuant i bobol ifanc bob amser.

- **Parch**

Rydym yn parchu'r unigolyn, parchu ei deimladau, credo a'i hawliau

- **Gwrando a Chlywed**

Rydym yn ymrwymo i wrando a chlywed llais y person ifanc gan gymryd pob cam posibl i eirioli ar ei ran. Byddwn yn cymryd pob cam posibl i ymateb i lais y person ifanc a cheisio cwrdd ag unrhyw angen os yn bosibl.

- **Hyrwyddo Cyfle Cyfartal a Pharchu Amrywiaeth**

Mae GISDA Cyf yn parchu unrhyw wahaniaeth ymysg staff, gwirfoddolwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth ac yn parchu'r amrywiaeth. Wrth benodi staff newydd, dyrchafu staff presennol, derbyn cyfeiriad newydd fe sicrhawn bob amser na fyddem yn gwahaniaethu ar sail hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd, anabledd, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, statws priodasol, cefndir troseddu amherthnasol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, statws economaidd na gwerthoedd gwleidyddol.

- **Ymbweru a Galluogi**

Byddwn yn ymrwymo i sicrhau bod pob defnyddwyr gwasanaeth yn cael y cyfle i ennill y sgiliau angenrheidiol i'w ymbweru a'i galluogi i fyw bywyd annibynnol. Ein nod yw cynyddu gwydnwch a hyder pobl ifanc i sicrhau eu bod wedi'u harfogi gyda'r strategaethau i ymdopi gyda heriau bywyd.

Rydym hefyd fel cwmni yn awyddus i fod mor gyfeillgar â phosibl tuag at yr amgylchedd. Mae gennym gôd ymarfer sydd yn nodi ein ymrwymedigaeth tuag at hyn.

4.3 Nodau Llesiant GISDA cyf

Mae GISDA Cyf yn ymrwymo i ymgorffori a mabwysiadu 7 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gyflawni ein nod ac amcanion.

Mae Nodau Llesiant GISDA Cyf sydd ar gael yn swyddfa GISDA Cyf yn amlinellu ein hymrwymedigaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sut mae GISDA Cyf am ymateb i'r ddeddf wrth gyflawni ein nod ac amcanion a sut fydd ein heffaith yn cael ei weld ar y genhedlaeth nesaf. Dyma grynodeb:

GISDA lewyrchus

Creu cyfleoedd cyffrous i baratoi pobl ifanc a chyfrannu at leihau amddifadedd ymysg pobl ifanc. Fe wnawn hynny drwy hyrwyddo cyflogadwyedd a gyrfa i bob person ifanc.

GISDA gydnerth

Arfogi ac ymbweru'r genhedlaeth nesaf gyda'r sgiliau a'r gwydnwch i wynebu heriau bywyd.

GISDA iachach

Gwneud defnydd o safonau Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau cwmni sydd yn hybu iechyd a lles staff a phobl ifanc a mabwysiadu'r egwyddor '5 ffordd at les'

GISDA sy'n fwy cyfartal

Gweithredu polisïau cyfleoedd cyfartal ym mhob rhan o'n gwaith gan ymdrechu i ddileu unrhyw rwystrau ar ffordd pobl ifanc.

GISDA o gymunedau cydlynol

Integreiddio pobl ifanc i'r gymuned a sicrhau lle i'r gymuned o fewn GISDA

GISDA gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cynorthwyo ac ymbweru staff a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder i gyfrannu'n y Gymraeg.

GISDA sy'n cymryd cyfrifoldeb am ein rhan o fewn yr amgylchedd

Ymrwymo i chwarae ein rhan i leihau ein ôl troed carbon a gweithredu ein polisïau amgylcheddol.

4.4 Sicrhau bod ein gwaith yn cyflawni ein amcanion elusennol

Yr ydym yn adolygu ein nodau, amcanion a gweithgareddau bob blwyddyn gan edrych ar beth yr ydym wedi ei gyflawni ac allbynnau ein gwaith dros y 12 mis blaenorol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau a gweithgareddau yn parhau i gyflawni ein amcanion elusennol. Roedd ein gwasanaethau a gweithgareddau dros y flwyddyn diwethaf yn parhau i ganolbwyntio ar:

- Cynnig amrywiaeth o gynlluniau tai i ymateb i ofynion ein defnyddwyr gwasanaeth.
- Cynnig amrywiaeth o wasanaethau cefnogi i ymateb i ofynion a datblygiadau ein defnyddwyr gwasanaeth.
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i sicrhau'r amrywiaeth ehangach bosib i gyrraedd anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth.
- Gweithio tuag at roi gwasanaeth o safon ar gyfer pob gweithgaredd ar ran y defnyddwyr gwasanaeth.
- Cynnig cyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn ogystal â darparu amrywiaeth eang o brofiadau gwaith i ddisgyblion, myfyrwyr a gwirfoddolwyr.

4.5 Sicrhau bod ein amcanion elusennol yn cyflawni budd cyhoeddus

Wrth adolygu ein amcanion, gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ein gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y dyfodol mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus gan gynnwys y canllaw 'Budd cyhoeddus: rhedeg elusen (PB2)'.

Fel elusen, rydym yn ymdrechu i sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc; cyfleoedd iddynt gael profiadau gwahanol er mwyn eu galluogi i feddwl am eu dyheadau a'u diddordebau mewn bywyd. Credwn drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau bod drysau'n agor i gamu at gyfleoedd gwahanol ac amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o'n gweithgarwch elusennol wedi'i ffocysu ar atal digartrefedd. Rydym yn gwneud nifer fawr o waith ataliol yn yr ysgolion uwchradd yng Ngwynedd ac mae disgyblion ysgol yn cael budd mawr o'r sesiynau sydd yn hwyliog iawn ond addysgiadol hefyd. Wrth reswm mae hyn wedi bod yn anodd iawn yn ystod y flwyddyn a hanner diwethaf ond rydym yn gobeithio parhau gyda'r gwaith yma o fis Medi 2021 ymlaen. Yn y gorffennol rydym hefyd wedi cael ein gwahodd i amryw o sesiynau yn y gymdeithas megis mewn capeli, cymdeithasau Merched y Wawr a llawer mwy ac mae'r croeso wedi bod yn arbennig iawn. Credwn ei fod yn gyfrifoldeb arnom i sicrhau bod cymdeithas - yn blant ac oedolion - yn ymwybodol o broblemau pobl ifanc ac yn deall y rhesymau fel bod modd i gymdeithas dynnu at ei gilydd i sicrhau nad yw pobl ifanc bregus a digartref yn cael eu gwahaniaethu.

Credwn bod y gymdeithas yn elwa'n fawr o wasanaeth GISDA Cyf, nid yn unig y bobl ifanc sydd yn derbyn gwasanaeth uniongyrchol ond bod teuluoedd estynedig, gweithwyr proffesiynol a chymunedau yn cyd-fyw'n brafiach o wybod fod gwasanaeth fel GISDA Cyf ar gael i bobl ifanc bregus.

Mae gennym linell gysylltu 24 awr y dydd. Mae ein staff wedi'u hyfforddi i ddelio gyda materion dydd i ddydd a materion brys ac felly gall pobl ifanc yng Ngwynedd fod yn hyderus y gallwn eu cynorthwyo i gwrdd â'u hanghenion neu eu harwain at y gwasanaeth priodol pan fyddant yn cysylltu gyda ni am gyngor.


Ein prif weithgarwch elusennol yw darpariaeth o gefnogaeth sydd ynghlwm â llety, cefnogaeth iechyd meddwl lefel isel, addysg, cymodi a chynnig gweithgareddau er mwyn cefnogi pobl ifanc i fagu hyder a hunan werth a datblygu sgiliau byw yn annibynnol. Rydym yn cyfarfod â phobl ifanc i:

- Asesu eu hanghenion a'r lefel o gefnogaeth sydd ei angen
- Cynorthwyo unigolion i adnabod targedau a llunio cynlluniau gweithredu . Adolygir hyn bob 6 i 8 wythnos gyda chynnydd yn cael ei nodi ar system monitro SEREN.
- Cynnig gwybodaeth a chyngor ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys ffordd o fyw, cyllido sylfaenol, tai, iechyd, dysgu, camdriniaeth sylweddau, hyfforddiant a chyflogaeth.

- Cynorthwyo pobl ifanc i ddelio gyda'r heriau sy'n effeithio ar eu dysgu a'u cyfleoedd gwaith.
- Rhoi mynediad at wasanaethau arbenigol yn ôl yr angen gan gyflwyno ceisiadau ar ran bobl ifanc pan fo angen.
- Cefnogi pobl ifanc i waith neu hyfforddiant, trwy gysylltiadau gyda chyflogwyr a sefydliadau hyfforddi.
- Cyflwyno rhaglen addysg amgen wedi'i achredu gan Agored Cymru ar faterion sy'n amrywio o sgiliau byw sylfaenol i gelf a chrefft.
- Darparu cyfleoedd amrywiol i bobl ifanc.

5.0 Ystadegau GISDA Cyf rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021

Yn ystod 2020 – 2021 mae GISDA wedi cyrraedd 536 o bobl ifanc yng Ngwynedd -. Gweler isod pa brosiect o fewn GISDA ddarparodd wasanaeth ar gyfer bob cyfeiriad. Fe welwch mai Prosiect Cymorth Tai oedd ein prif brosiect eto ac wedi cefnogi 251 o bobl ifanc o fewn y flwyddyn. Derbyniwyd 183 cyfeiriad newydd i'r prosiect yn ystod y flwyddyn ac ar bwynt cyfeirio roedd 38% yn nodi eu bod yn "sofa surfing" nododd 4% o'r cyfeiriadau eu bod yn cysgu ar y stryd. O'r holl gyfeiriadau i brosiect Cymorth Tai y prif reswm dros y cyfeiriad oedd toriad mewn perthynas sef 57%.



6.0 Gwasanaethau 2020-2021

Effaith y Pandemig ar GISDA

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roeddem wedi addasu'n llwyddiannus i weithio o adref yn sgil rheolau ac arweiniad y Llywodraeth yn sgil y pandemig Covid 19. Roedd ein systemau technoleg wedi caniatáu i ni allu gwneud hyn yn ddi drafferth. Er hyn roedd gennym staff yn parhau i gysgu i mewn bob nos drwy gydol yr amser a mawr yw ein diolch iddynt am ymroddiad i'r gwaith yn ystod y flwyddyn anodd. O safbwynt y bobl ifanc, bu hi'n anodd am sawl rheswm. Bu cyfnod hir lle nad oedd nifer yn gallu gweld eu gweithwyr cefnogol wyneb i wyneb ac heb os cafodd hyn effaith ar nifer ohonynt. Nid pawb oedd efo mynediad at ddeunyddiau technoleg megis ffon a lap top ond fe aethom ati i wneud ceisiadau grantiau i'w galluogi i dderbyn cefnogaeth gorau bosibl o dan yr amgylchiadau. Wrth i gyfyngiadau leihau rhywfaint aethom ymlaen i gynnig cefnogaeth wyneb i wyneb yn ystod haf 2020. Roedd gennym systemau da mewn lle o ran arwyddo mewn, glanhau mwy trylwyr a bu Cyngor Gwynedd yn eithriadol o gefnogol drwy ddarparu offer diogelwch priodol ar ein gyfer. Bu'n anodd iawn ar y dechrau ond o ystyried maint ein cwmni, credwn ein bod wedi addasu'n dda iawn gan sicrhau y cefnogaeth gorau posibl i staff a phobl ifanc. Wrth nesáu tuag at diwedd y flwyddyn ariannol sef Mawrth 2021 roeddem wedi trefnu gweithgareddau llesiant i staff a pobl ifanc er mwyn gofalu am eu teimladau a'u hyder wrth ddod yn ôl yn araf i normalrwydd gwaith. Byddem yn ymgynghori gyda staff o ran ein trefniadau gweithio tymor hir yn ystod y misoedd nesaf gan feddwl am yr elfennau hynny sydd wedi gweithio'n dda ac yn well gan geisio adeiladu ar hynny.

Amlinellwn isod rhai o'n prosiectau, gwasanaethau a datblygiadau newydd a fu yn ystod 2020-2021

- **'Y Lle Da'**

Buom yn llwyddiannus ar y cyd gyda Cyngor Gwynedd i ddenu arian grant sylweddol gan Llywodraeth Cymru ac arian Cyngor Gwynedd i adnewyddu ein prif swyddfa ar y Maes yng Nghaernarfon yn ogystal a'r adeilad drws nesaf sef Natwest. Bydd y Lle Da yn datblygu 4 prif elfen er budd pobl ifanc lleol

- 4 Fflat i bobl ifanc fyw ynddynt

- ❖ Caffi hyfforddi a datblygu sgiliau pobl ifanc
- ❖ Gofod aml asiantaethol i ddarparu popeth o dan un to i bobl ifanc
- ❖ Swyddfeydd newydd i staff

Cwblhawyd gwedd 1 yn ystod y flwyddyn sef sicrhau bod y to, y cefn a'r ffenestri yn iawn. Fe lanhawyd blaen yr adeilad a pheintio un ochor fel bod y ddau adeilad yn edrych yn lan a thaclus o'r tu allan. Bydd Gwedd 2 sef y gwaith mewnol yn dechrau yn ystod haf 2021.

Byddem yn gorfod parhau i addasu ein safle gwaith yng Nghaernarfon am y tro ond y gobaith ydy y bydd gennym ofod aml bwrpas gwerth chweil erbyn 2022 a fydd yn ein rhoi mewn lle da i barhau i ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc yr ardal am flynyddoedd i ddod.

➢ **Datblygiad Swyddfa newydd ym Mhwllheli**

Agorwyd swyddfa newydd ym Mhwllheli ym mis Mawrth 2021. Roeddem wedi bod yn pendroni ers amser ac wedi gweld bod yna gynnydd yn y galw am ein gwasanaeth yn ardal Dwyfor. Roeddem yn teimlo bod yr ardal yn cael ei adael ar ei ôl ac nad oedd tegwch mynediad i bobl ifanc o'r ardal honno. Buom yn ffodus iawn o gael rhodd sylweddol gan ddyn busnes lleol a bydd hyn yn ein cynorthwyo gyda chostau rhent am y flwyddyn i gynnal y gwasanaeth. Bydd yna staff ar gael bob dydd i helpu gyda holl anghenion pobl ifanc ond un o'r prif wasanaethau fydd yn cael ei gynnal o Pwllheli fydd HWB ICAN iechyd meddwl mewn cydweithrediad gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Gweler isod am amlinelliad manylach o'r hyn fydd yr HWB yn ei gynnig i bobl ifanc.

➢ **Gwasanaeth Craidd: Gweithwyr Allweddol a Gweithwyr Cefnogol Prosiect Cymorth Tai**

Dyma brosiect mwyaf GISDA o ran maint sef Prosiect Cymorth Tai. O fewn y tîm mae gweithwyr allweddol, gweithwyr cefnogol a gweithwyr cysgu mewn. Mae'r tîm yn gwneud gwaith arbennig i gefnogi pobl ifanc mwyaf bregus ein cymdeithas ac yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau. Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth ar gyfer 62 o bobl ifanc ar unrhyw un amser. Mae'n gefnogaeth ddwys a therapiwtig. Fel rheol mae pobl ifanc yn derbyn cefnogaeth am flwyddyn i flwyddyn a hanner cyn symud ymlaen. Mae rhai pobl ifanc angen cefnogaeth am gyfnod hirach, rydym yn trio tynnu

gwasanaethau eraill i mewn pan yn briodol ac yn ceisio sicrhau bod y person ifanc yn y canol bob amser.

Rydym yn craffu dangosyddion y tîm hwn gan mai dyma'r prosiect lle rydym yn casglu'r nifer fwyaf o ystadegau. Gweler isod rhai o ystadegau'r tîm dros flwyddyn:

- Derbyniwyd 183 o gyfeiriadau newydd y flwyddyn hon yn y prosiect yma
- Gyda'r Gwasanaeth cymdeithasol yn cyfeirio'r canraf uchaf o bobl ifanc - 24%
- Rydym wedi gweld 98 o bobl ifanc a oedd yn byw yn ein hosteli neu fflatiau yn symud ymlaen yn bositif o'n gwasanaeth i lety preifat, tai a rennir, tai cymdeithasol neu aros yn gartref y teulu.
- Dros y flwyddyn ddiwethaf mae staff wedi gweld cynnydd yn y bobl ifanc sydd yn cyflwyno eu hunain gydag anhwylderau iechyd meddwl, gyda 49% yn nodi hyn fel eu prif angen o ran cefnogaeth.
- Roedd 67% o'r bobl ifanc gafodd eu cyfeirio at yng ngwasanaeth yn ddigartref oherwydd eu bod wedi dioddef tor perthynas adref.
- Roedd 72% o bobl ifanc wedi cael eu hadnabod yn NEET (dim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) wrth ddod i mewn i'n gwasanaeth ac roedd 52% wedi ymgysylltu efo cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant wrth dderbyn gwasanaeth gan GISDA

➢ **Ochor strategol a cydweithredol Cymorth Tai**

- Mae'r gwasanaeth wedi cyflawni canlyniadau llwyddiannus yn unol â gofynion y rhaglen Cymorth Tai
- Mae'r gwasanaeth wedi cyflawni canlyniadau sy'n ataliol ac yn cynrychioli gwerth am arian.
- Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at nodau cyffredinol yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru.
- Mae GISDA wedi bod yn llwyddiannus yn cyrraedd eu hamcanion gyda llawer o themâu positif wedi cael ei amlinellu.
- Rhagweithiol iawn o ran cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth gydag enghreifftiau rhagorol o ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol.
- Adborth rhan ddeiliad a defnyddwyr gwasanaeth yn bositif.

- Mae ein Pennaeth gwasanaethau yn parhau i fod yn rhan o Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru sydd yn cynnwys darparwyr / sefydliadau / awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth. Fel rhan o'r pwyllgor yma mae'n rhoi cyfle i ni allu rhannu unrhyw ddiweddariadau, derbyn unrhyw wybodaeth am y prosiect yn genedlaethol a hefyd yn fforwm gwych i ein hadborth gael ei basio ymlaen i Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig iawn bod GISDA yn rhan o bwyllgorau tebyg i'r elusen gael llais yn nhrafodaeth yn nyfodol y prosiect yn rhanbarthol a chenedlaethol.

- Mae GISDA yn aelod blaenllaw o Gymorth Cymru sef corff trosfwaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd a'r rhai sydd yn darparu cymorth yn faes tai a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Maent yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisïau, deddfwriaeth ac ymarfer sy'n effeithio ar ein gwasanaeth yma yn GISDA. Mae aelodau o staff a hefyd y defnyddwyr gwasanaeth wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ar draws y flwyddyn sydd wedi bod yn fforwm gwych i rannu adborth, arfer da a chyfleoedd sydd ar gael i'r elusen.

- Fel un o nifer o elusennau cenedlaethol mae GISDA yn rhan o sefydliad 'End Youth Homelessness Cymru' sydd yn ymgyrch ledled Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Arweinir y gwaith gan elusen Llamau. Mae'n darparu llwyfan cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth , rhannu profiadau ac yn llais cryf i lobio i Lywodraeth Cymru am faterion sydd yn ymwneud a digartrefedd pobl ifanc.

- <u>Rhanddeilliad a Phartneriaid Eraill</u>

  - Grŵp Cynefin
  - Adra
  - Adran Ddigartrefedd Cyngor Gwynedd
  - Heddlu Gogledd Cymru
  - Cyngor Cymdeithasol Cyngor Gwynedd
  - Gwasanaethau Prawf a Chyfiawnder Ieuenctid
  - CAMHS
  - Prosiect Lles Cymunedol
  - Canolfan Waith
  - Shelter Cymru
  - Cynghorydd Dyledion

- Cais
- Banciau Bwyd
- Coleg Llandrillo Menai

➢ **Tîm Symud Ymlaen GISDA**

Sefydlwyd Tîm Symud Ymlaen GISDA i geisio ymateb i'r galw am ddarparwyr addysg amgen wrth ymgysylltu gyda phobl ifanc oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi gyda darpariaeth prif lif. Mae GISDA wastad wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd addysgiadol amgen a phrofiadau creadigol a hamdden i gysylltu a phobl ifanc ar eu llwybr tuag at fyw yn annibynnol. Ymgais yw Tîm Symud Ymlaen i ffurfioli'r llwybr yma a chreu strwythur cadarn sydd yn glir i ddefnyddwyr gwasanaeth a chomisiynwyr o'r amrediad eang o gefnogaeth a sesiynau oedd ar gael oddi fewn GISDA.

➢ **Academi Cyfleon**

Ariannwyd y prosiect gan WCVA gronfa argyfwng gwasanaethau gwirfoddol ag cronfa cynhwysiad gweithredol. Prosiect yn cynnig cefnogaeth therapiwtig i bobl ifanc i greu llwybr wedi ei deilwra i symud ymlaen o gefnogaeth i gyfleoedd gwaith, gwirfoddoli, hyfforddiant neu addysg. Roedd y prosiect peilot chwe mis yn llwyddiannus iawn ac rydym yn falch o dderbyn cyllid i barhau'r prosiect gan y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol hyd at Fehefin 2022. Er y cyfnodau clo ychwanegol a'r heriau a wynebir y staff a'r bobl ifanc roedd allbynnau'r prosiect yn llwyddiannus iawn:

- 190 o alwadau wyneb yn wyneb mewn i'r academi.
- 44 person ifanc wedi derbyn cefnogaeth
- 72 sesiwn yn yr Academi i godi hyder, datblygu sgiliau, cymryd rhan a gwella llesiant!
    - 14 sesiwn creadigol:
    - 6 sesiwn amgylcheddol
    - 12 sesiwn coginio
    - 10 sesiwn codi ymwybyddiaeth
    - 11 sesiwn cyflogadwyedd
    - 19 sesiwn hyfforddiant
- 37 modiwl hyfforddiant neu achrediad wedi cwblhau

Dyfyniadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth:

"Roedd Covid wedi effeithio ar fy iechyd meddwl felly mae cael rhywle i fynd lle dwi'n teimlo'n ddiogel a chael rhywbeth i'w wneud wedi helpu. Mae'n rhywle i fod yn greadigol, sy'n fy ysgogi"

"Mae cael rhywle i arddangos fy nghelf/mynegi fy hun yn greadigol wedi rhoi hwb mawr i'm hyder a'm cymhelliant ac mae wedi fy helpu i ddychwelyd i gelf, ac ailgydio mewn cariad ato"

- **Kickstart**

Cynllun wedi ei ddatblygu gan y Llywodraeth ar gyfer rhoi swyddi gwerth chweil i bobl ifanc 16 i 25 sydd yn ddi-waith. Rhoddodd GISDA gais i fod yn "gateway" ar gyfer cynrychioli cyflogwyr gan hefyd sicrhau bod pobl ifanc yn cael chwarae teg. Mae GISDA wedi cynrychioli 24 cyflogwr gyda dros 70 o rolau. Rydym wedi datblygu pecyn cefnogaeth rydym yn ei gynnig i gyflogwyr er mwyn darparu'r gefnogaeth cyflogadwyedd a hyfforddiant gan hefyd creu incwm ar gyfer ehangu prosiect yr Academi. Mae'r cynllun yn gweithio yn dda iawn gyda'r academi i greu cyfleoedd gwaith cefnogol i allu symud y bobl ifanc ymlaen.

- **Caffi Creu**

Roedd GISDA yn llwyddiannus mewn grant ar y cyd gyda chymunedau Gwynedd a Chyngor Gwynedd yn cael pot o arian gan Gronfa Economi Gylchol Adferiad Gwyrdd. Bwriad y grant oedd sefydlu mentrau cymunedol atgyweirio ac ail ddefnyddio a chodi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol. Ganwyd CAFFI CREU gydag elfen bwysig:

1. Dysgu pobl ifanc i greu cynnyrch eu hunain a datblygu busnesau ei hunain.
2. Rhoi cyfle i bobl ifanc ail ddefnyddio ag ailgylchu.
3. Annog cydweithio ac annog gwirfoddoli o fewn y gymuned.
4. Dysgu ag addysgu pobl ifanc am materion amgylcheddol.

Dros y misoedd diwethaf mae'r prosiect wedi:

- Cynnal ymgynghoriad newid hinsawdd gyda grŵp o bobl ifanc
- Cynnal gweithgaredd wythnosol garddio a thyfu bwyd yn ein hostel.
- Pecynnau hadau: pobl yn cael galw mewn am becyn hadau i drio tyfu bwyd eu hunain
- Wedi cynnal cystadleuaeth uwch seiclo ar gyfryngau cymdeithasol i drio ymgysylltu a'r gymuned.

- Wedi gallu cefnogi artistiaid lleol wrth gomisiynu 10 artist greu fideo i ni ar amryw o bynciau yn cynnwys tyfu bwyd, uwch seiclo, celf amgylcheddol, creu deunyddiau harddwch, trwsio offer a mwy.
- Dros 100 o posts i godi ymwybyddiaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol o newid hinsawdd, i ddyfyniadau, rhannu busnesau lleol, ffeithiau a mwy!

➢ **Model 'Fi' Model Therapiwtig**

Mae GISDA wedi mabwysiadu model seicolegol o ddarparu gwasanaeth ers blynyddoedd ac yn ôl yn 2015 fe wnaethom ei ddatblygu mewn fframwaith therapiwtig unigryw o'r enw 'Model Fi' i gynnwys elfennau o symud ymlaen i waith mewn awyrgylch o ddealltwriaeth a chefnogaeth. Mae staff y cwmni wedi parhau i sicrhau eu bod yn gweithio'n gyson mewn ffordd therapiwtig ac mae elfennau eraill wedi bod yn llwyddiannus yn arbennig hyfforddiant mae'r cwmni wedi buddsoddi yn sylweddol ynddo dros y blynyddoedd ar gyfer cyrsiau sydd yn sicrhau dealltwriaeth unigolion o safbwynt seicolegol. Rhan arall sydd wedi bod yn llwyddiannus yw bod staff yn cael gofod i adlewyrchu ar eu gwaith a hynny dan oruchwyliaeth seicolegydd profiadol iawn. Mae staff yn gwerthfawrogi yr amser yma ac mae'n gyfle iddynt gael cefnogaeth ei gilydd mewn gofod saff a niwtral.

Rydym yn awyddus i ddatblygu'r dull hwn o weithio ymhellach i sicrhau bod yna gysondeb yn arbennig wrth i staff newydd dechrau yn y cwmni. Bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu yn 2021-2022 i sicrhau bod staff newydd yn mabwysiadau'r egwyddorion yn eu gwaith bob dydd yn unol â gwerthoedd GISDA

➢ **Cynllun Atal Digartrefedd Llywodraeth Cymru**

Mae'r prosiect Atal Digartrefedd wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn roedd y gweithiwr wedi cefnogi 37 o bobl ifanc ac wedi gallu atal 82% o rain rhag dod yn ddigartref. Cyflawnwyd hyn drwy eu cefnogi i gadw eu tenantiaeth, dod o hyd i denantiaeth newydd, cynnal sesiynau cymodi gyda theuluoedd sydd wedi galluogi rhai o'r defnyddwyr gwasanaeth i ddychwelyd adref. Mae'r gweithiwr atal digartrefedd wedi bod yn cyfeirio rhai pobl ifanc at wasanaethau eraill sydd yn fwy cymwys i gwrdd gyda'u hanghenion. Mae'r aelod o staff hefyd wedi bod yn gweithio yn agos gydag adran ddigartrefedd y cyngor lle maent wedi atal nifer o bobl ifanc fod yn ddigartref drwy ei symud i lety dros dro tra bod y gweithiwr atal digartrefedd yn gweithio i ddod o hyd i lety mwy

parhaol. Mae sesiynau cymodi wedi cael ei redeg gyda'r bobl ifanc a'u teuluoedd i'w hatal rhag gadael y tŷ teuluol ac osgoi digartrefedd. Buom yn llwyddiannus wrth herio rhybuddion gadael gan landlordiaid, eto helpu i osgoi digartrefedd. Roedd helpu a chefnogi rhieni ifanc i ddod o hyd i gartref yn rhan fawr o'r gwaith hefyd.

- **Cytundeb gyda Gwasanaethau Cymdeithasol (Pobl Ifanc Ôl Ofal)**

Ariennir y gwasanaeth hwn gan Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd.

Mae Gwasanaeth Ôl-ofal GISDA yn cefnogi pobl ifanc sydd wedi bod drwy'r system gofal. Fel gwasanaethau eraill GISDA rydym yn dilyn y model therapiwtig ('Model Fi') wrth weithio gyda, a chefnogi, y bobl ifanc.

Mae Gwasanaeth Ôl-ofal GISDA yn cyflogi uwch cynghorydd personol therapiwtig llawn amser, dau gynghorydd personol therapiwtig llawn amser a gweithiwr addysg a chyflogaeth rhan amser. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth i unigolion rhwng 16 a 25 mlwydd oed sydd wedi bod dan ofal yr Awdurdod lleol a ble mae cyfrifoldeb i barhau i'w cefnogi wedi iddynt adael eu lleoliad gofal. Mae'r gwasanaeth a staff yn ymrwymo i:

- cefnogi unigolion
- cefnogi pobl ifanc sydd yn byw mewn lleoliad gofal
- sicrhau eu bod yn cynnig cyngor ac arweiniad sy'n galluogi pobl ifanc i ymbaratoi a magu sgiliau i bontio i fod yn oedolyn a byw'n annibynnol
- cynorthwyo a chefnogi pobl ifanc i gwblhau eu 'Cynllun Llwybr' sydd yn canolbwyntio ar wahanol agweddau o fywyd person ifanc
- rhoi cyfleoedd i osod targedau a nodau sydd yn cefnogi pobl ifanc cyflawni eu dyheadau ac uchelgeisiau

Mae Cynlluniau Llwybr yn edrych ar agweddau megis: Llety, Addysg a Hyfforddiant, Iechyd, Teulu a Pherthnasau Cymdeithasol a Hawliau. Mae'r tîm yn ymfalchïo mewn sicrhau fod y person ifanc yn parhau yn ganolog i'w gwaith.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y ddarpariaeth yma ac i wella'r allbynnau ac ystadegau yn ymwneud â phobl ifanc mewn gofal.

Y mae 124 o bobl ifanc wedi derbyn y gwasanaeth yma ganddynt dros y flwyddyn ddiwethaf, 53% yn uwch na'r flwyddyn cynt.

Mae gennym 2 dŷ o'n heiddo ni wedi'u lleoli yng Nghaernarfon ac mae cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r ddau dŷ gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd

- **Prosiect Ieuenctid LHDT GISDA**

  Yn y flwyddyn ddiwethaf buom yn llwyddiannus i dderbyn cyllid o Gronfa Gymunedol y Loteri i allu ehangu ein darpariaeth a gwasanaeth LHDT. Mae'r Clwb Ieuenctid a chyfer pobl ifanc LHDT a sefydlwyd yn 2017 wedi profi i fod yn eithriadol o boblogaidd a llwyddiannus a bellach mae dros 80 o bobl ifanc yn aelodau o'r clwb. Yn hanesyddol mae'r clwb wedi bod yn eithaf tlawd o ran adnoddau a chyllid, ond mae'r arian Loteri yma wedi ein galluogi i ni allu yn ail lansio a ffurfioli systemau i gynnal prosiect LHDT i bobl ifanc ar draws Gwynedd. Y mae ganddynt ddau staff cyflogedig yn arwain y prosiect o dan arweiniad yr aelodau a'r gwirfoddolwyr. Blaenoriaethau'r prosiect yma dros y ddwy flynedd nesaf fydd;

  - Darparu gofod saff, diogel a chyfforddus i bobl ifanc LHDT fynychu.
  - Agor clybiau ieuenctid LHDT ym Mhwllheli a Blaenau Ffestiniog.
  - Cynnig gwasanaeth galw heibio i unigolion o'r gymuned LHDT.
  - Datblygu a chyd-weithio gyda sefydliadau ar draws Gwynedd.
  - Platfform i gynnig cefnogaeth i rieni plant a phobl ifanc er mwyn iddynt gefnogi ei gilydd os ydynt yn ei chael hi'n anodd derbyn rhywioldeb eu plentyn
  - Trefnu amserlen o weithgareddau/ gweithdai a digwyddiadau i'r bobl ifanc.
  - Creu cysylltiadau newydd gyda darpariaeth debyg o gwmpas Cymru.
  - Darparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth LHDT i ysgolion/colegau a sefydliadau.
  - Cychwyn fforwm rhanbarthol i sefydliadau LHDT.
  - Meithrin Mentoriaid Ifanc

  Y mae wedi bod yn amser heriol i sefydlu prosiect newydd yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau COVID, ond mae'r aelodau o staff wedi rhoi gweithdrefnau, polisïau a chynlluniau yn ei le i allu cynnig gwasanaeth gwych i bobl ifanc LHDT yng Ngwynedd.

- **Caffi GISDA (Caffi i ddarparu hyfforddiant i bobl ifanc)**

Bu'n flwyddyn eithriadol o heriol o safbwynt Caffi GISDA. Gorfu i ni gau am fisoedd oherwydd cyfyngiadau a rheolau Llywodraeth i gadw pawb yn saff rhag y feirws Covid. Bu'n gyfnod ansicr i ni fel busnes ond hefyd i staff oedd yn cael eu cyflogi ac i wirfoddolwyr oedd yn arfer dod am brofiadau gwaith. Gwnaethom ein gorau drwy gadw mewn cysylltiad efo pawb a sicrhau bod pawb yn cael cyflogau llawn cyn hired ag oedd bosibl. Derbyniom grant busnes gan y Llywodraeth ac fe leddfodd hyn ychydig ar y faich ariannol. Fe wnaethom agor ar adegau a threialu'r opsiwn i bobl fynd a bwyd allan efo nhw ond ni fu'n hawdd. Yng nghanol covid fe dderbyniom grant mewn cydweithrediad a chyngor Gwynedd i ail wneud ein adeilad ac ail adeiladu caffi newydd. Gwnaethom y penderfyniad ar ddechrau 2021 nad oedd yn hyfyw i ni ail agor y caffi nes oedd y gwaith adnewyddu wedi ei orffen. Canlyniad hyn oedd diswyddo 3 aelod o staff. Yn ystod 2021 bydd ein Pennaeth Busnes yn edrych ar fodel newydd a chynllunio i ail agor y caffi ar ei newydd wedd.

- **Rhieni Ifanc**

Yr oeddynt wedi derbyn arian am dair blynedd gan Blant Mewn Angen i weithio gyda rhieni ifanc sydd o dan 18 oed a ddaeth i ben ym mis Hydref. Mi roedd y staff yn gwneud gwaith arbennig yn hyrwyddo hawliau rhieni ifanc, yn eu ymbweru i deimlo'n hyderus a'u cynorthwyo gyda materion amrywiol. Mae nifer o astudiaethau achos wedi profi gwerth a llwyddiant y prosiect ac mae'r arianwyr yn hynod o hapus gyda sut mae'r prosiect yn parhau i gefnogi'r rhieni. Mi wnaeth y staff gynnal sesiynau grŵp a 1:1 ac yn cydweithio'n agos gyda cholegau ac ymwelwyr iechyd pan fo'r angen. Llwyddodd y staff hefyd i gwblhau ceisiadau grant amrywiol i gynorthwyo'r bobl ifanc fynychu coleg neu i gael cymorth gyda chostau teithio neu warchod. Nid oedd adnoddau mawr gyda'r prosiect ond profwyd y gwahaniaeth arwyddocaol mae'r staff wedi ei wneud er y diffyg adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae GISDA wedi bod yn cefnogi rhieni ifanc ers blynyddoedd ac wedi rhedeg sawl prosiect llwyddiannus. Rydym yn credu y dylai bob rhiant ifanc gael y cyfle i fod yn berson ifanc yn ogystal â bod yn rhiant a chael mynediad i'r holl gyfleoedd sydd ar gael. Un o ein blaenoriaethau'r flwyddyn nesaf fydd ymchwilio i mewn i gyllid newydd i allu parhau gyda'r gwasanaeth yma yn yr hir dymor.

- **Empyre Erasmus**

  Dechreuwyd ar ein prosiect ym mis Medi 2019. Prosiect cyffrous iawn wedi cael ei ariannu gan gronfa gymdeithasol Ewropeaidd drwy gynllun enwog Erasmus + yw Empyre. Mae GISDA yn un o 8 partner o 4 Gwlad. Mae Prifysgol o'r 4 Gwlad sef Gwlad Pwyl, Cymru, Ffindir ac Awstria wedi cyfeillio gydag elusen gwaith ieuenctid o fewn eu gwlad a'r syniad ydy astudio a dysgu am wahanol ymarfer ieuenctid ar draws Ewrop. Tuag at y diwedd, y nod ydy gwerthuso'r gwahanol ymarfer gan ddewis yr ymarfer sydd yn rhoi'r canlyniadau gorau i bobl ifanc. Er y cyfnod clo rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r gwledydd newydd i ddatblygu modiwl ar lein ar gyfer gweithwyr y dyfodol. Mae'n waith cyffrous ac mae bob cyfarfod yn fraint gael mynychu gan ein bod yn dysgu a rhannu profiadau gydag eraill. Mae'r prosiect wedi cael ei estyn i 2022 ac mae pawb yn croesi bysedd gallwn lansio'r prosiect gyda'n gilydd blwyddyn nesaf!

- **ICAN**

  Rydym yn falch o wedi cael ein comisiynu gan Betsi Cadwaladr i ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc sydd yn dioddef o anhwylderau iechyd meddwl lefel isel yn ardal Pwllheli a Chaernarfon. Dyma'r hwb Ican cyntaf o'r fath sydd yn cynnig cefnogaeth arbenigol i bobl ifanc rhwng 16 a 25. Peilot ydy'r prosiect ar hyn o bryd hyd at Ragfyr 21 ac rydym yn y dyddiau cynnar. Mae 2 aelod o staff yn gweithio ar y prosiect i gynnig y gefnogaeth yma ynghyd a thîm o wirfoddolwyr. Mae'r prosiect yn cynnig galwadau a sgyrsiau llesiant 1:1, galluogi ni i gyfeirio pobl ifanc ymlaen i wasanaethau arbenigol, cynnal gweithdai i hybu llesiant ac iechyd meddwl pobl ifanc a gwasanaeth galw mewn o'r hybiau.

7.0 Adolygiad Ariannol

Llwyddwyd i orffen y flwyddyn ariannol wedi osgoi'r diffyg a gyllidebwyd. Treuliwyd amser yn paratoi ar gyfer creu Cynllun Busnes cynhwysfawr ar gyfer 2020-2021 a bu Aelodau'r Bwrdd yn gweithio'n agos gyda'r Tim Rheoli ar hynny. Llwyddwyd i gyflwyno systemau prynu nwyddau electronig newydd a gosod siart cyfrifon newydd. Mae gennym asedau a gofod swyddfa ein hunain sydd yn dod a manteision a heriau. Rydym yn gobeithio treulio rhagor o amser yn mesur eu gwerth a chyfrifo eu costau rhedeg er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyllidebu am gyfnod hirach na blwyddyn o hyn allan. Rydym wedi dechrau edrych ar gynllun dichonoldeb ar y cyd gyda Cyngor Gwynedd i greu prosiect ar y cyd ar yr hen safle Natwest a'n swyddfa presennol. Yn anffodus fe ddaeth cyfnod y feirws ar draws trafodaethau adeiladol ond

gobeithiwn allu ail afael ar hyn yn ystod y flwyddyn. Ein breuddwyd yw creu canolfan lles a chyfleon pobl ifanc fydd yn cynnwys llety i bobl ifanc.

Cronfa Wrth Gefn

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi adolygu anghenion yr elusen o ran yr hyn y dylid ei gadw wrth gefn o ystyried y prif heriau y mae'n ei wynebu. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu polisi sy'n dweud y dylid cadw digon i allu rhedeg y cwmni am dri mis os daw y cwmni i ben. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r gronfa wrth gefn ddwywaith y flwyddyn mewn cyfarfodydd Bwrdd Rheoli. Mae'r Trysorydd a'r Pennaeth Cyllid yn ystyried incwm a gwariant am y flwyddyn flaenorol ac yna'n cyflwyno eu hargymhellion ynglŷn â'r hyn y dylai fod wrth gefn. Fe fydd unrhyw benderfyniadau ar gyllidebau yn ystyried anghenion y gronfa wrth gefn. Mae cynnal y gronfa yma yn ofynnol er mwyn galluogi sicrwydd sydd yn hybu cyrff allanol i fuddsoddi gan, felly, greu cynaliadwyedd i GISDA Cyf. Nid oes modd dibynnu ar y gronfa hon mewn unrhyw ffordd gan mai cronfa ar gyfer un sefyllfa yn unig yw hi – sef caniatáu'r cwmni i barhau am gyfnod byr er mwyn dod a'r cwmni a'i holl weithgareddau i ben. Byddai'r gronfa wrth gefn, hefyd, yn caniatáu'r cwmni i barhau i gyrraedd ei rwymedigaethau ariannol am dri mis. Y lefel presennol o arian wrth gefn i GISDA Cyf ar ddiwedd Mawrth 2021 yw £227,524.

Archwiliwr Cofrestredig sy'n archwilio cyfrifon yr Elusen. Mae'r cyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â gofynion a osodwyd gan Ddeddfwriaethau Elusennau a Chwmnïau, ac yn rhoi adroddiad cryno a chlir o sefyllfa ariannol a gweithgareddau'r Elusen. Cyhoeddir adroddiad blynyddol sydd yn cael ei ddosbarthu yn ôl y gofyn ar ôl iddo gael ei dderbyn yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Mae GISDA yn comisiynu'r gwasanaeth hwn bob 3 blynedd ac yn mynd allan am dendr i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae tendr newydd mewn lle ar gyfer 2018-2021 wedi ei ddewis gan y Bwrdd yn dilyn proses teg ac agored.

8.0 Polisïau

Mae gan GISDA cyfres o bolisïau i gyd-fynd efo'r amrediad o wasanaethau, prosiectau a busnes mae'r cwmni yn ei weithredu ac yr ydym yn ychwanegu at y polisïau hyn yn ôl yr angen. Mae'r polisïau a adolygwyd a diweddarwyd yn ystod 2020-2021 yn cynnwys Polisi Diogelu, Cynllun Iaith Gymraeg, Llawlyfr Staff a Llawlyfr Aelodau Bwrdd

9.0 Adnoddau Dynol a Gweinyddiaeth

Rydym yn parhau i adolygu a chryfhau trefniadau Adnoddau Dynol GISDA Cyf dan arweiniad yr is-banel staffio, llywodraethiant a busnes sydd yn cynnwys 3 aelod o'r Bwrdd Rheoli. Rydym wedi parhau i ddefnyddio cwmni Richard Hall am gyngor cyfreithiol cyflogaeth ac i gynnig cefnogaeth ar achosion unigol yn ôl yr angen ac yn bwriadu parhau efo'r gwasanaeth yma yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mewn cyfnod mor anodd rydym wedi rhoi llawer o bwyslais ar lesiant a diogelwch staff a sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y gefnogaeth maent eu hangen i sicrhau eu bod yn medru cyflawni eu gwaith er lles ein defnyddwyr gwasanaeth

Mae holl bolisïau a gweithdrefnau GISDA Cyf yn cyd-fynd efo marc ansawdd ISO 9001:2015 ac yn Ionawr 2021 adnewyddwyd achrediad ISO GISDA Cyf yn dilyn archwiliad allanol.

10.0 Dangosyddion Perfformiad

Rydym yn adrodd ar ddangosyddion yn rheolaidd ac mae Is-grwp Gwasanaethau GISDA Cyf yn cyfarfod bob 2 fis i graffu ar y ffigyrau ac ystadegau. Defnyddir y dangosyddion hyn ar gyfer ein defnydd ein hunain i fesur ansawdd ac i fonitro datblygiad ein gwasanaeth ond mae'r adroddiad hefyd yn cael ei anfon at ein comisiynwyr. Prif bwrpas y dangosyddion yw i ni ddadansoddi ac adnabod patrymau er mwyn ein galluogi ni i gynllunio gwasanaethau priodol o fewn yr ardal briodol yn ôl yr angen. Rydym wedi buddsoddi mewn system o'r enw InFORM sydd yn casglu data drwy ganiatâd y person ifanc er mwyn sicrhau ein bod yn cynllunio gwasanaethau ar sail angen.

Ar lefel mwy personol i'r person ifanc mae gennym system o'r enw 'SEREN', system monitro sydd wedi ei gynllunio i ymateb i anghenion ac i fesur llwyddiant a datblygiadau'r person ifanc wrth gael gwasanaeth gan GISDA Cyf. Mae hefyd yn ffordd defnyddiol o feddwl am y canlyniad yn gyntaf a gosod targedau llai er mwyn eu cyrraedd.

11.0 Marchnata a Hyrwyddo

Rydym yn credu'n gryf bod hyrwyddo'r gwaith da sydd yn digwydd yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r prif faterion sydd yn effeithio pobl ifanc yn eithriadol bwysig. Isod, rhestrir rhai o'r dulliau a'r cyfryngau y defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn:

- Erthyglau a straeon yn y wasg.
- Cyfweliadau teledu a radio.
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion.

- Sesiynau codi ymwybyddiaeth i asiantaethau e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymwelwyr Iechyd, Capeli lleol ac ati.
- Gwefan .
- Rhwydweithio a chydweithio gydag asiantaethau eraill.
- Cyfryngau Cymdeithasol Facebook, Twitter ac Instagram.
- Stondinau mewn amrywiol ddigwyddiadau lleol.

12.0 Cynlluniau i'r Dyfodol

Fel nodwyd uchod, bu hi'n flwyddyn wahanol iawn i ni fel pawb arall. Credwn ein bod wedi cael blwyddyn gweddol lwyddiannus o ran y gwasanaethau ychwanegol a ddechreuwyd ac hefyd o ran y ffordd wnaethom addasu i geisio parhau i ddarparu gofal a chefnogaeth i bobl ifanc digartref bregus Gwynedd. Ein prif datblygiad strategol yn ystod y flwyddyn fydd parhau i ddatblygu ac adnewyddu ein prif swyddfeydd ar y Maes yng Nghaernarfon. Fel nodwyd eisoes mae'r gwaith wedi dechrau a bydd yn parhau yn ystod Haf a Gaeaf 2021. Rydym yn gobeithio bydd gennym ofod gwerth chweil i bobl ifanc erbyn 2022 ac yn gallu darparu'r gwasanaeth o'r radd flaenaf. Mae gennym fwrdd pobl ifanc ac mae eu llais nhw yn bwysig wrth i ni ddatblygu ein gwasanaethau. Hoffem gryfhau yn ystod y flwyddyn gan sicrhau ein bod yn cynllunio ar y cyd gyda nhw a'n bod yn eu galluogi nhw i ddylanwadu ar gynlluniau'r dyfodol.

O safbwynt effaith y pandemig ar bobl ifanc, mae dau beth amlwg yr hoffem lobio i wella yn ystod y flwyddyn. Mae'r galw i wella gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc ar gynnydd ac rydym eisioes wedi dechau prosiect newydd i fynd i'r afael gyda hyn. Byddem yn monitro'r prosiect hwn yn fanwl gan edrych ar batrymau i weld pa ardal mae'r galw pennaf, pa fath o anghenion sydd yn codi er mwyn gweld sut allwn ddatblygu ein darpariaeth i deilwra ar gyfer y bobl ifanc. Yr ail fater amlwg yw'r cynnydd sylweddol mewn prisiau tai yng Ngwynedd. Nid oes llawer o dai rhent preifat ar gael a pan mae nhw'n dod i fyny nid ydynt yn fforddiadwy ac maent tu allan i gyrraedd ein pobl ifanc. Mae hyn wedi effeithio ni gan nad oes gymaint o symudiadau o lety cymdeithasol i eiddo preifat nag ymlaen i brynu tŷ cyntaf. Rhwng hynny a'r ffaith nad oes digon o eiddo pwrpasol ar gael yn arbennig fflatiau 1 ystafell wely mae pobl ifanc yn dueddol i aros gyda GISDA am gyfnodau hirach a mwy na sydd angen arnynt. Mae hyn yn golygu bod ein rhestrau aros yn parhau i godi a nid oes gennym lety ar eu cyfer gan nad ydym yn gallu symud pobl ifanc yn ei blaen i lety parhaol. Byddem yn parhau i gydweithio gyda'r Cymdeithasau Tai lleol, Adran digartrefedd a thîm opsiynau tai Gwynedd i sicrhau bod pawb yn deall y galw o safbwynt pobl ifanc.

Fel arfer bydd hi'n bwysig ein bod yn blaenoriaethu ar sail angen ac addasu wrth fynd yn ein blaen. Byddem hefyd yn dechrau edrych ar ein strategaeth tymor hir gan bod ein Strategaeth bresennol yn dod i ben yn 2023. Mae gennym dîm rheoli cryf sydd yn cydweithio ar wahanol elfennau ac mae ein strwythurau llywodraethu o ran ein Bwrdd Rheoli ac îs grwpiau wedi sefydlu yn dda ac felly rydym mewn lle da i baratoi a datblygu ar gyfer y dyfodol.

Byddem yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag eraill yn ystod y flwyddyn, datblygu partneriaethau newydd ac yn trio cryfhau ein perthynas gyda'r Cymdeithasau Tai lleol. Mae'n rhaid parhau i gynnal ein perthynas agos gyda'r Awdurdod Lleol a chryfhau unrhyw bartneriaeth gyda Gwasanaethau cymdeithasol, adran dai, adran addysg, gwasanaethau ieuenctid ac adran economi. Rydym wedi datblygu perthynas dda gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ystod y flwyddyn, eto rydym yn gobeithio parhau i gydweithio a darparu gwasanaethau ar eu rhan. Mae rôl y trydydd sector yn dod yn fwy amlwg mewn perthynas a phobl ifanc ac felly rydym y gobeithio ein bod mewn lle da i ddarparu ar ran y cyrff comisiynu os daw cyfleon pellach yn 2021-2022

13.0 Polisi Tâl staff personél Rheoli

Mae aelodau'r bwrdd yn adnabod eu bod yn ymddiriedolwyr yr elusen ac efo cyfrifoldeb am reoli'r elusen, ac mae'r Tîm Rheoli sydd yn gyfrifol am weithredu, rhedeg a rheoli a chyfarwyddo'r elusen o ddydd i ddydd. Mae'r ymddiriedolwyr yn rhoi eu hamser yn wirfoddol ac ni roddwyd unrhyw gydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn.

Mae tâl y Tîm Rheoli yn cael ei adolygu yn flynyddol fel rhan o adolygiad holl staff yr elusen. Mae'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn adolygu perfformiad y Brifweithredwraig yn flynyddol yn unol â pholisïau'r cwmni.

14.0 Perthynas ag asiantaethau eraill

Mae'r elusen yn cael ei harwain gan bolisïau lleol a chenedlaethol ar faterion megis Tai, Amddiffyn Plant, Iechyd, Gwasanaethau plant ac yn y blaen.

Mae'r cwmni wedi cofrestru gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sef asiantaeth ymbarél y Sector Wirfoddol yng Nghymru yn ogystal â Mantell Gwynedd, sydd yn cynrychioli a brwydro dros y Sector

Wirfoddol ar lefel sirol. Maent yn cynnig cefnogaeth, cyfleoedd hyfforddiant a gwybodaeth yn ogystal â lobïo dros gynyddu adnoddau i'r Sector.

Mae'r cwmni yn aelod o nifer o asiantaethau sy'n cynnig gwybodaeth gyfredol ar bolisi cymdeithasol a newidiadau mewn deddfwriaeth e.e. Cymorth Cymru, CWVYS, Homeless Link a Agored Cymru

Mae'r cwmni yn cael ei gynrychioli ar nifer o Bartneriaethau'r Awdurdod Lleol, sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn gytûn ag anghenion lleol a newidiadau mewn deddfwriaeth berthnasol.

Mae'r Brifweithredwraig yn ymgymryd â'r dyletswyddau ychwanegol canlynol yn rhinwedd ei swydd :

- Aelod o Arloesi Gwynedd Wledig (rhan o Menter Môn).
- Cynrychioli'r 3ydd sector ar y grŵp '3ydd sector a'r Cyngor ar y cyd' sydd yn cael ei drefnu gan Cyngor Gwynedd.
- Aelod o Fwrdd Cydweithredaf Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru

Mae'n bwysig rhwydweithio a chydweithio o fewn y fforymau uchod gan ei fod yn cyfrannu tuag at ddatblygu GISDA Cyf yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

15.0 Cyfrifoldebau'r Bwrdd Rheoli mewn perthynas â'r Datganiadau Ariannol

Mae gofynion Deddf Cwmnïau yn gorfodi'r Bwrdd Rheoli i baratoi adroddiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sydd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae'r Bwrdd Rheoli yn dilyn gwerth gorau ac yn (1) dewis polisïau cyfrifeg addas a'u gweithredu yn gyson a (2) gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a doeth a (3) pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw os nad yw'n anaddas i ystyried bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg addas sy'n datgan gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw amser sefyllfa ariannol cwmni elusennol ac sydd yn sicrhau bod yr adroddiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r Bwrdd Rheoli hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly'n cymryd camau priodol i rwystro ac adnabod twyll ac anghysondebau eraill.

16.0 Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Mae Aelodau'r Bwrdd Rheoli am y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad wedi eu nodi ar dudalen 1. Maent yn gyfarwyddwyr o dan Ddeddfwriaeth Cwmnïau ac yn ymddiriedolwyr o dan Ddeddfwriaeth Elusennol. Mewn cytundeb â Deddf Cwmnïau, fel cyfarwyddwyr y cwmni, rydym yn datgan:

- ✓ Cyn belled a gallwn wybod, nid oes unrhyw wybodaeth ar gyfer yr archwiliad perthnasol nad ydym yn ymwybodol ohono.
- ✓ Fel cyfarwyddwyr y cwmni, rydym wedi cymryd holl gamau angenrheidiol i sicrhau ein bod ni ac archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol o'r holl wybodaeth archwiliad perthnasol.

Archwilwyr

Ail-apwyntiwyd W.J.Matthews & Son fel archwilwyr y cwmni elusennol yn ystod y flwyddyn ac maent wedi nodi eu parodrwydd i barhau i wneud hynny.

Drwy orchymyn y Bwrdd ar 26.07.21 ac wedi arwyddo ar ei ran gan

J.R. Williams

.....Mr. J. Ron Williams (Cadeirydd)

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau GISDA Cyfyngedig

Barn

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol GISDA Cyfyngedig am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2021 sydd yn cynnwys y datganiad o weithredoedd ariannol, y fantolen, y datganiad ynghylch llif arian a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102, 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2021, ac am yr adnoddau cyllid a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail ein barn

Rydym wedi cynnel ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith cymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r anghenion ethegol sydd yn gymwys i'n archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Ethegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ethegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu fod y tystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a chymwys i baratoi sail i'n barn.

Canlyniadau ynglŷn a busnes byw

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol ble mae'r ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chwi lle:

- nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail ymadrodd cyfrifo busnes byw wrth baratoi y datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol ansicrwydd sylweddol sydd wedi eu adnabod a all godi amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i ddefnyddio'r sail cyfrifo busnes byw am gyfnod o leiaf deuddeg mis o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i ddosbarthu.

Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am y gwybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth gynwysedig yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwiliwr arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r helaeth fod wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw ganlyniadau o sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu sydd fel arall yn ymddangos yn sylweddol anghywir. Os daw yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiant sylweddol ymddangosiadol neu anghysondebau, mae'n ofynnol arnom i benderfynu os oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall. Os down i gasgliad , ar sail y gwaith a gwblhawyd fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth ychwanegol yma, mae'n ofynnol arnom i ymadrodd y ffaith.

Nid oes gennym ddim i ymadrodd mewn cyswllt â hyn.

Barn ar faterion eraill a benodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd yng nghwrs yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson a'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi ei pharatoi yn unol â gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad

Yn sgil yr wybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camfynegiant sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglŷn â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmnïau 2006 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:

- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw, neu os yw adroddiadau cymwys i'n harchwiliad heb eu derbyn gan ganghennau na ymwelwyd gennym, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol mewn cytundeb â'r cofnodion ariannol a'r adroddiadau, neu
- fod rhai datgeliadau am dal ymddiriedolwyr a benodir dan gyfraith wedi eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr oll o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at bwrpas deddf cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg wir a theg ac am y rheolau mewnol mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro'n angenrheidiol i alluogi paratoad o ddatganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamosodiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi y datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel yn gymwys, materion perthnasol i allu'r busnes i barhau a defnyddio y sail busnes byw o gyfrifo os nad yw'r ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu i gau y cwmni neu roi gorau i weithredu, neu heb fod gyda dewis rhesymol ond i wneud hynny.

Cyfrifoldeb yr archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein amcanion yw i dderbyn sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchaf o sicrwydd, ond nid yn gwarantu y buasai archwiliad wedi ei chynnal yn unol ag ISAs (DU) yn darganfod camddatganiad sylweddol, os yw yn bod pob adeg. Gall camosodiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, a byddent yn cael eu cysidro yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y buasai'n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio dewisiadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau yma.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod gan y tim ymgysylltu ar y cyd y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys;

- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol i'r cwmni trwy drafodaethau â ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector;
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn a allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, amgylcheddol a deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gan reolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Roedd deddfau a rheoliadau a nodwyd yn cael eu cyfleu o fewn y tim archwilio yn rheolaidd ac roedd y tim yn parhau i fod yn effro i achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y cwmni i gamddatganiad perthnasol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:

- Wneud ymholiadau gan reolwyr ynghylch ble roeddent o'r farn bod tueddiad i dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn rheoli a diystyru rheolaethau, rydym yn:

- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;
- Asesu a oedd dyfarniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;
- Ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin.

Mewn ymateb i'r risg o afreolaidd-dra a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cytuno ar ddatgeliadau datganiadau ariannol i ddogfennau ategol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn ein gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddem yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad oherwydd gallent gynnwys cuddio neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Fel rhan o archwiliad a ymgymerir yn unol ag ISAs (DU), rydym yn ymarfer barn proffesiynol a chynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad, rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamosodiad sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio yn ymatebol i'r risg hynny, a chael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio darganfod camosodiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch nag o risg yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cyd-dwyllo, ffugio, gadael gwybodaeth allan yn fwriadol, camfynegiadau, neu anwybyddu reolau mewnol.
- Cael dealltwriaeth o reolaeth ariannol perthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at bwrpas o fynegi barn ar effeithiolrwydd y rheolau mewnol.3

- Asesu priodolrwydd y polisïau cyfrifyddol a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb o amcangyfrifau cyfrifyddol a datgeliaethau cysylltiedig a wneir gan yr ymddiriedolwyr.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd o'r sail cyfrifo busnes byw gan yr ymddiriedolwyr ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gawsom, os os oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amgylchiadau a all godi amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel uned byw. Os y down i gasgliad fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae'n ofynnol arnom i dynnu sylw, yn ein adroddiad archwiliwr i'r datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os nad yw'r datgeliadau yn ddigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y tystiolaeth archwilio a dderbyniwyd hyd at dyddiad adroddiad yr archwiliwr. Er hynny, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi'r cwmni i beidio parhau fel busnes byw.
- Asesu y cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac os yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli y trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn ffurf sydd yn cyflawni cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu gyda'r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynglŷn, ymysg materion eraill, paratoi cwmpas ac amseru yr archwiliad a darganfyddiadau sylweddol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw wendidau sylfaenol mewn rheolaeth ariannol a ddarganfuwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

Defnyddio ein adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi ei wneud i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Adran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Rydym wedi ymgymryd a'r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni elusennol ar y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad yr archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at eithaf â ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw y cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

David Chidley (Prif archwiliwr statudol)
Dros ac ar ran
W J Matthews a'i Fab,
Archwiliwr Statudol
a Chyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
CAERNARFON
LI55 1AB

Dyddiad: 26/07/2021.

GISDA Cyfyngedig

Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant) *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021*

	Nodiadau	Cronfeydd Anghgyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	2021 £	2020 £
Incwm					
Incwm gwirfoddol					
Grantiau a Rhoddion	***3***	15,325	5,000	20,325	8,699
Incwm o weithgareddau elusennol					
Grantiau, cytundebau rhenti ac ati	***4***	427,757	1,081,301	1,509,058	1,283,601
Elw ar werthu ased sefydlog		14,350	-	14,350	-
Llog banc		59	-	59	283
Incwm arall		23,825	-	23,825	21,734
Incwm Cynllun Cadw Swyddi		21,669	-	21,669	-
Cyfanswm incwm		502,985	1,086,301	£1,589,286	£1,314,317
Gwariant					
Gweithgareddau elusennol	***6***	393,583	916,279	1,309,862	1,219,641
(Gwariant)/Incwm net a symudiadau net mewn cronfeydd am y flwyddyn		109,402	170,022	279,424	94,676
Cronfeydd ar 1 Ebrill 2020		£397,780	£840,272	£1,238,052	£1,143,376
Cronfeydd ar 31 Mawrth 2021		£507,182	£1,010,294	£1,517,476	£1,238,052

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio i gyd o weithgareddau sydd yn parhau. Mae'r holl enillion a cholledion a gydnabyddir yn y flwyddyn wedi eu cynnwys uchod. Mae'r syrffed am y flwyddyn at bwrpas y Ddeddf Cwmnïau yn cynnwys yr adnoddau cyllid net am y flwyddyn yn £279,424 (2020 – 94,676).

GISDA Cyfyngedig

Mantolen *ar 31 Mawrth 2021*
(Rhif cofrestru'r cwmni 2484575)

	Nodiadau		2021 £		2020 £
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau cyffyrddadwy a ddefnyddir gan yr Elusen	***11***		1,009,658		995,467
ASEDAU CYFREDOL					
Stoc		-		324	
Dyledwyr	***12***	106,200		84,975	
Arian yn y banc		691,032		411,646	
		797,232		496,945	
CREDYDWYR: *Symiau yn daladwy mewn blwyddyn*	***13***	(156,629)		(115,090)	
ASEDAU CYFREDOL NET			640,603		381,855
CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			**1,650,261**		1,377,322
CREDYDWYR: *Symiau yn daladwy Ar ôl blwyddyn*	***14***		(132,785)		(139,270)
ASEDAU NET			£1,517,476		£1,238,052
CRONFEYDD INCWM					
Cronfeydd cyfyngedig	***17***		1,010,294		840,272
Cronfeydd anghyfyngedig	***16***		507,182		397,780
			£1,517,476		£1,238,052

Ar ran y Bwrdd ..... (Cyfarwyddwr)
Mr J Ron Williams

Dyddiad 26 Gorffennaf 2021

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 38 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

GISDA Cyfyngedig

Datganiad ynghylch llif arian *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021*

	Nodyn	2021	2020
		£	£
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	***20***	293,974	162,038
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		59	283
Prynu asedau sefydlog	***11***	(18,021)	(5,313)
Gwerthiant asedau sefydlog		14,350	-
Arian a ddefnyddiwyd i fuddsoddi		**(3,612)**	**(5,030)**
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Derbynneb morgais			-
Ad-daliadau morgais		(10,976)	(9,379)
Arian o weithgareddau ariannu		**(10,976)**	**(9,379)**
Cynnydd mewn arian a chyfatebolion arian		**279,386**	**147,629**
Arian a chyfatebolion arian ar 1 Ebrill 2020		411,646	264,017
Arian a chyfatebolion arian ar 31 Mawrth 2021		£691,032	£411,646

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021*

1. Polisiau cyfrifyddol

Mae'r prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, penderfyniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd â amcangyfrifir wrth baratoi y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

a) Sail Paratoi Cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu yn unol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau" Datganiad o Ymarferion Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) – (SORP Elusennau (FRS102)), yr Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Cwmniau 2006.

Mae GISDA Cyfyngedig yn bodloni gofynion diffiniad uned budd cyhoeddus dan FRS102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau yn wreiddiol ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion os na nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifo perthnasol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro nad oes ansicrwydd sylweddol am allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw.

b) Polisïau cydnabod incwm

Dangosir adnoddau cyllid yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd unrhyw ganllawiau perfformiad ynghlwm a'r eitemau incwm wedi eu cyflawni neu yn gyflawn o fewn rheolaeth yr elusen a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl. Cyfrifir am grantiau ple nad yw'r hawl yn ddibynnol ar berfformiad gan yr elusen, pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant. Gohirir incwm os nad canllawiau hawl wedi eu cyrraedd neu os yw'r incwm wedi ei neilltuo ar gyfnod yn y dyfodol.

Cydnabyddir incwm grantiau sydd ddim yn dibynnol ar gyflawni gweithgareddau penodol pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant. Gohirir incwm os nad yw'r elusen wedi cyflawni gweithgareddau penodol i roi hawl i'r incwm neu lle mae'r incwm wedi ei glustnodi at gyfnod diweddarach.

Cydnabyddir incwm grantiau sydd yn ddibynnol ar berfformiad neu gyflawni gweithgareddau penodol fel mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau drwy berfformiad o'i oblygiadau.

c) Cyfrifo cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall. Mae cronfeydd penodedig yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu rhoi i'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at bwrpas arbennig. Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol a chyfyngiadau penodol dan amodau y rhoddwr neu sydd wedi eu codi gan yr elusen at bwrpas arbennig.

ch) Gwariant

Cydnabyddir gwariant pan mae oblygiad cyfreithiol neu weithredol i wneud taliad i drydydd person, y mae'n debygol fydd taliad yn angenrheidiol a gellir mesur yr blygiad yn ddibynadwy.

Cyfrifir yr holl wariant yn y datganiad o weithredoedd ariannol ar sail croniant.

Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau a godir wrth gyflenwi gweithgareddau a gwasanaethau i'r buddiolwyr. Mae'n cynnwys y costau a benodir yn uniongyrchol i'r gweithgareddau a'r costau anuniongyrchol sydd yn angenrheidiol i'w cefnogi.

Cyfrifir TAW na ellir ei hawlio fel cost yn erbyn y gweithgaredd a achosodd y gwariant.

d) Costau cynorthwyol

Costau cynorthwyol yw gweithgareddau sydd yn cefnogi gwaith yr elusen ond sydd ddim yn ymwneud a gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cynorthwyol yn cynnwys yr adran weinyddol, cyllid, personél a llywodraethol sydd yn cefnogi y gwahanol brosiectau elusennol. Mae'r costau hyn wedi eu dosbarthu rhwng y gwahanol adrannau fel y dangosir yn nodyn 7.

dd) Les gweithredol

Mae'r elusen yn dosbarthu rhenti eiddo fel les gweithredol; mae tetl i'r eiddo yn aros gyda'r prydleswr ac mae bywyd economaidd yr eiddo yn llawer hirach na term y les.

e) Asedau sefydlog

Mae asedau sefydlog gyda chost mwy na £1,000 yn cael eu cyfalafu a'u cynnwys ar gost gan gynnwys unrhyw gostau atodol o gaffaeilio. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau dros gyfnod amcangyfrifol o'u hoes fel a ganlyn:

Offer swyddfa	20-33%
Dodrefn tai	20%
Gwelliannau	25%
Moduron	20%

f) Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl nodi unrhyw disgownt masnachol a gynnigwŷd. Dangosir blaendaliadau ar werth y swm a dalwyd ymlaen llaw llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

ff) Arian mewn banc ac mewn llaw

Mae arian mewn banc ac mewn llaw yn cynnwys arian buddsoddiadau tymor byr sydd yn aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael neu o agor y cyfrif adnau.

g) Credydwyr a darpariaethau

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fydd gan yr elusen oblygiad cyfredol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol gyda'r canlyniad tebygol o drosglwyddiad o eiddo i drydydd person a gellir mesur y swm angenrheidiol i setlo'r oblygiad yn ddibynadwy. Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

ng) Offerynnau ariannol

Dim ond offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cofnodir offerynnau ariannol sylfaenol i dechrau ar bris y contract os nad yw'r trefniant yn sefydlu gweithrediad ariannu, pan fyddent yn cael eu cofnodi ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi eu gostyngi ar raddfa llog y farchnad am offeryn ariannol tebyg.

h) Costau pensiwn

Mae'r gost o baratoi pensiwn a manteision cyffelyb yn cael eu prisio i'r Datganiad o Weithredoedd ariannol fel mae'r rhwymedigaeth yn codi. Mae'r elusen yn talu cyfraniadau pensiwn ar sail cyfraniadau wedi eu diffinio.

2. Statws cyfreithiol y cwmni

Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warrant. Wrth ddirwyn i ben neu ddiddymu y cwmni ac wedi bodloni ei holl ddyledion a'i rwymedigaethau, os erys unrhyw eiddo o gwbl yn weddill, ni thelir ef i aelodau y cwmni na'i ddosbarthu yn eu mysg, ond yn hytrach ei roi i sefydliad elusennol arall gydag amcanion cyffelyb i amcanion y cwmni. Gan na dderbynnir unrhyw eiddo o'r cwmni gan yr aelodau, nid oes Cysondeb o Gronfeydd Ariannol yn angenrheidiol.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021*

3. Incwm gwirfoddol	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm 2021	Cyfanswm 2020
	£	£	£	£
Rhodd Elusen Weston	-	5,000	5,000	3,000
Rhoddion eraill	15,325	-	15,325	5,699
	£15,325	£5,000	£20,325	£8,699

4. Gweithgareddau elusennol	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm 2021	Cyfanswm 2020
	£	£	£	£
Rhent	285,028	-	285,028	288,983
Grant SPPG	-	614,643	614,643	614,643
Grant Cynulliad Cenedlaethol	-	27,318	27,318	24,835
Grant Gwirfoddoli Cymru	-	-	-	19,849
Grant Cist - Priosect Gwirfoddoli	-	-	-	7,504
Grant Cyngor Gwynedd	-	90,978	90,978	90,978
BBC/Cyngor Gwynedd Rhieni Ifanc	-	14,934	14,934	22,098
Grant Erasmus	-	10,602	10,602	7,575
Grantiau Cyngor Gwynedd	-	31,555	31,555	53,605
Grantiau Prosiect LGBT	-	31,808	31,808	6,427
Grant Cymdeithas Adeiladu Nationwide	-	-	-	11,364
Grant Mantell Gwynedd		1,000	1,000	4,750
Grant Carn	-	-	-	740
Incwm Te a Cofi/ Fan Sgram	21,460	-	21,460	82,098
Incwm Llogi Ystafelloedd	4,429	-	4,429	14,939
Rhent Tai Gisda	22,840	-	22,840	23,296
Grantiau Dros Unigolion Ifanc	-	3,100	3,100	8,761
Grant Sportslot	-	-	-	956
Grwp Cynefin	-	-	-	200
Caffi Creu	-	3,711	3,711	-
Grant Srewfix	-	5,000	5,000	-
Cronfa Gymunedol Cymru	-	15,000	15,000	-
Art Council Wales	-	9,000	9,000	-
Grant Lottery - Llesiant Staff	-	10,000	10,000	-
Grant Iechyd a Lles Betsi Cadwalder	-	10,000	10,000	-
Grantiau Covid Cyngor Gwynedd	82,000	-	82,000	-
Prosiect ICAN	-	14,614	14,614	-
Loteri Cymuned Pobl Ifanc	-	3,958	3,958	-
Grantiau Academi Cyfleon	-	66,289	66,289	-
Grantiau Moondance	-	71,600	71,600	-
Economic Resilience Fund	12,000	-	12,000	-
Kickstart	-	12,491	12,491	-
Fframwaith Therapiwtig	-	33,700	33,700	-
	£427,757	£1,081,301	£1,509,058	£1,283,601

5. Incwm Gohiriedig

	Incwm Gohiriedig 2020	Derbyniadau	Incwm Gohiriedig 2021	Incwm a Gydnabyddir 2021
Rhodd Elusen Weston	5,000	-	-	5,000
Grantiau Dros Unigolion Ifanc	650	6,730	4,280	3,100
Loteri	7,200	-	3,242	3,958
BBC/Cyngor Gwynedd Rhieni Ifanc	3,959	10,975	-	14,934
Erasmus	2,165	9,866	1,429	10,602
Prosiect LGBT	8,932	22,876	-	31,808
Cymorth Llaw	3,672	-		3,672
Cyngor Gwynedd Cefnogi Tai	-	3,000	3,000	-
Caffi Creu	-	20,286	16,575	3,711
Grantiau Academi Cyfleon	-	73,612	7,323	66,289
Prosiect ICAN		17,553	2,939	14,614
	31,578	164,898	38,788	157,688

6. Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd

	Cynlluniau Llety a Chefnogaeth	Cynlluniau Cefnogi a Datblygu	Eraill	Cyfan-swm 2021	Cyfan-swm 2020
	£	£	£	£	£
Costau staff	207,813	532,095	12,190	752,098	651,683
Costau adeiladau	190,394	23,950	18,848	233,192	193,256
Adnewyddu a thrwsio	9,484	11,978	1,496	22,958	22,062
Cafe - Te a Cofi	-	7,760	22	7,782	36,959
Teithio a chynhaliaeth	1,635	9,775	176	11,586	35,457
Hyfforddiant	-	6,723	-	6,723	8,524
Gweithgareddau	276	8,196	691	9,163	10,134
Gwariant tros bobl ifanc	385	14,327	-	14,712	11,462
Costau proffesiynol	-	3,313	-	3,313	3,783
Costau swyddfa a ffon	2,824	27,736	1,971	32,531	27,992
Hysbysebu a marchnata	-	6,631	-	6,631	5,854
Dibrisiant	-	3,829	-	3,829	596
Eraill	2,623	412	-	3,035	4,760
Dyledwyr drwg	(1,519)	-	-	(1,519)	1,687
Costau llywodraethol	12,290	19,499	1,050	32,839	20,532
Costau cynorthwyol	63,989	101,528	5,472	170,989	184,900
Cyfanswm	£490,194	£777,752	£41,916	£1,309,862	£1,219,641

Roedd gwariant ar weithgareddau elusennol yn £1,309,862, (2020- £1,219,641). O'r gwariant yma roedd £393,583, (2020- £422,605) yn anghyfyngedig a £916,279, (2020 - £797,036) yn gyfyngedig.

7. Dadansoddiad o gostau llywodraethol a chynorthwyol

I ddechrau, mae'r cwmni elusennol yn nodi ei gostau cynorthwyol. Yna nodir y costau sydd yn berthnasol i'r pwrpas llywodraethol. Wedi adnabod y costau llywodraethol, rhannir y costau cynorthwyol cyffredinol a'r costau llywodraethol rhwng y tri gweithgaredd elusennol a ymgymerwyd yn ystod y flwyddyn. Nodir dosbarthiad y costau rhwng y gweithgareddau elusennol ar sail defnydd.

	Cynorthwyol Cyffredinol	Llywodraethol	Cyfanswm 2021	Cyfanswm 2020
	£	£	£	£
Costau staff canolog	103,795	27,510	131,305	119,054
Costau swyddfa a ffon	20,345	-	20,345	25,259
Costau adeiladau	27,054	-	27,054	25,078
Adnewyddu a thrwsio	30	-	30	558
Teithio a chynhaliaeth	491	-	491	2,000
Hyfforddiant	4,311	-	4,311	772
Gweithgareddau	135	-	135	-
Hysbysebu a marchnata	1,610	-	1,610	1,180
Costau proffesiynol	8,142	-	8,142	18,094
Archwilio a chyfrifo		5,330	5,330	4,448
Cyfarfod blynyddol	-	-	-	238
Costau llog a chostau banc	4,492	-	4,492	6,204
Eraill	584	-	583	2,546
	£170,989	£32,840	£203,829	£205,432

8. Adnoddau Cyllid Net

Nodir yr adnoddau cyllid net ar ôl codi:

	2021	2020
	£	£
Rhent	148,323	144,360
Dibrisiant	3,829	596
Ffioedd archwilio	2,900	2,890
Archwiliwr – ffioedd eraill	2,340	1,558

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021*

9. **Costau Staff a chydnabyddiaeth yr ymddiriedolwyr**	**2021**	**2020**
	£	**£**
Cyflogau	796,817	693,296
Yswiriant cenedlaethol	57,739	49,606
Pensiwn	28,847	27,835
	883,403	£770,737

Nid oedd cydnabyddiaeth unrhyw aelod o staff dros £60,000 y flwyddyn. Nodir costau pensiwn i'r gweithgareddau ar yr un canran a'r cyflogaeth perthynol.

Ni dderbyniwyd ffioedd na thal rheoli yn ystod y flwyddyn *(2020– Dim).* Ni wnaed taliadau i gyfarwyddwyr am gostau a achoswyd *(2020 – DIM).*

Nid oedd gan unrhyw Ymddiriedolwr neu berson arall yn gysylltiedig a'r elusen unrhyw ddiddordeb personol mewn unrhyw gontract neu drafodion gyda'r elusen yn ystod y flwyddyn. (*2020 – Dim*).

Mae personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r tîm rheoli. Roedd cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol yr elusen yn £159,229 *(2020 - £115,185).*

Roedd cyfartaledd nifer cyflogedig yr elusen yn ystod y flwyddyn, ar sail blwyddyn llawn, fel a ganlyn:

	2021	*2020*
	Nifer	*Nifer*
Prif Weithredwr	1	1
Cynllun Llety a Chefnogaeth	20	21
Cynlluniau Cefnogi a Datblygu Eraill	20	14
Gweinyddol	5	7
	46	43

Telir cyfraniadau pensiwn i gynllun gyda'r cyfraniadau wedi eu diffinio. Nid oedd unrhyw flaendaliadau pensiwn ar ddiwedd y flwyddyn. *(2020- DIM),*

10. Treth

Fel elusen mae GISDA Cyfyngedig yn eithriedig o dreth ar incwm ac enillion o fewn adran 505 o'r Gyfraith Dreth 1988 ac adran 256 o'r Gyfraith Treth Enillion Cyfalaf 1992 hyd at eu bod yn cael eu defnyddio at weithgareddau elusennol. Nid oed unrhyw rwymedigaeth treth wedi codi.

11. Asedau sefydlog dirweddol

	Adeiladau a Gwelliannau £	*Offer swyddfa* £	*Dodrefn Tai* £	*Moduron* £	*Cyfanswm* £
Cost/Gwerth					
Ar 1 Ebrill 2020	1,096,350	150,529	105,276	42,900	1,395,055
Ychwanegiadau	-	10,021	-	8,000	18,021
Gwarediadau	-	-	-	(34,400)	(34,400)
Ar 31 Mawrth 2021	1,096,350	160,550	105,276	16,500	1,447,476
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2020	106,922	144,490	105,276	42,900	399,588
Cost am y flwyddyn	-	3,329	-	500	3,829
Rhyddhawyd a r warediadau	-	-	-	(34,400)	(34,400)
Ar 31 Mawrth 2021	106,922	147,819	105,276	9,000	369,017
Gwerth yn y llyfrau					
Ar 31 Mawrth 2021	£989,428	£12,731	£-	£7,500	£1,009,659
Ar 31 Mawrth 2020	£989,428	£6,039	£ -	£ -	£995,467

Mae'r holl asedau sefydlog yn cael eu defnyddio i hyrwyddo amcanion yr elusen.

12. Dyledwyr	**2021** £	**2020** £
Dyledwyr masnachol	94,013	62,854
Blaendaliadau	6,015	15,036
Dyledwyr eraill	6,172	7,085
	106,200	£84,975

Yn gynwysiedig yn y dyledwyr eraill mae £4,684 yn ddyledus ar ôl blwyddyn.

13. Credydwyr: *symiau yn daladwy ymhen blwyddyn*	**2021**	**2020**
	£	**£**
Credydwyr masnachol	50,748	38,510
Treth a nawdd cymdeithasol	17,421	16,105
Incwm gohiriedig	38,789	32,243
Costau wedi cronni	49,671	28,232
	£156,629	£115,090

14. Credydwyr: *symiau yn daladwy ar ôl blwyddyn*	**2021**	**2020**
	£	**£**
Morgais	£132,785	£139,270

Mae'r morgais wedi ei sicrhau ar swyddfa cofrestredig yr elusen. Bydd swm o £113,175 (2020 - £117,919) yn ad-daladwy ar ôl pum mlynedd. Ad-delir y morgais mewn symiau cyfartal i orffen Tachwedd 2042. Mae graddfa llog o 3.8% ar y benthyciad.

15. Ymrwymiadau

Les Gweithredol

Mae gan yr elusen ymrwymiadau dan les weithredol fel a ganlyn:

	Tir ac Adeiladau		**Eraill**	
	£	**£**	**£**	**£**
	2021	**2020**	**2021**	**2020**
Taliadau les:				
O fewn un blwyddyn	157,748	142,143	-	-
Rhwng un a pump blwyddyn	-	6,350	5,434	8,150
Dros bum mlynedd	-	-	-	-
	£157,748	£148,493	£5,434	£8,150

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021*

16. Cronfeydd anghyfyngedig

	Balans 1 Ebrill 2020	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2021
	£	£	£	£	£
Cronfa Gyffredinol	397,780	(82,000)	502,985	393,583	425,182
Cronfa Dynodedig	-	82,000	-	-	82,000
	397,780	-	502,985	393,583	507,182

	Balans 1 Ebrill 2019	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2020
	£	£	£	£	£
Cronfa gyffredinol	386,079	-	434,306	422,605	397,780

17. Cronfeydd cyfyngedig

	Balans 1 Ebrill 2020	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2021
	£	£	£	£	£
Cynlluniau llety a chefnogaeth	22,515	-	614,643	614,643	22,515
Cynlluniau cefnogi a datblygu	87,757	-	471,658	301,636	257,779
Grantiau a Rhoddion Adeiladau	730,000	-	-	-	730,000
	840,272	-	1,086,301	916,279	1,010,294

	Balans 1 Ebrill 2019	Symudiad mewn cronfeydd Trosglwyddiad	Mewnol	Allan	Balans 31 Mawrth 2020
	£	£	£	£	£
Cynlluniau llety a chefnogaeth	-	-	614,643	592,128	22,515
Cynlluniau cefnogi a datblygu	27,297	-	265,368	204,908	87,757
Grantiau a Rhoddion Adeiladau	730,000	-	-	-	730,000
	757,297	-	880,011	797,036	840,272

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021*

18. Dadansoddiad asedau net rhwng cronfeydd

	Asedau Sefydlog Dirweddol £	Asedau Cyfredol Net £	Credydwyr Ar ôl un Blwyddyn £	Cyfanswm £
Ffynonellau cyfyngedig	730,000	280,294	-	1,010,294
Ffynonellau anghyfyngedig	279,658	360,309	132,785	507,182
	1,009,658	640,603	132,785	1,517,476

GISDA Cyfyngedig

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *(Ymlaen)* *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021*

19. Dadansoddiad asedau net rhwng cronfeydd

Mae gan GISDA nifer o gynlluniau i hyrwyddo ei amcanion.

Cynllun Hosteli – yn cynnwys 3 hostel ar gyfer pobl ifanc sengl digartref rhwng 16 a 25 oed.

Cynllun Cefnogaeth Symudol – yn cynnwys unedau yn bennaf ar gyfer y rhai yn symud o'r cynllun hosteli.

Cynllun Rhiant a Phlentyn yn cynnwys tri opsiwn cartrefi sengl rhwng 16 a 25 oed:

i. Hosteli - 4 uned ar wasgar;
ii. Symud ymlaen – 4 uned ar gyfer rhai'n symud allan o gynllun hosteli'r rhiant sengl;

Cynllun Tai Rhannu – is lesu tai rhannu i bobl ifanc sengl digartref ym Meirionnydd.

Cynllun Galw Mewn, Estyn Allan a Cynghorydd Personol.

Cynllun Prosiectau Creadigol – Cynllun yn cyflogi gweithwyr creadigol i weithio yn agos gyda phobl ifanc bregus.

Cynllun rhieni ifanc - wedi ariannu gan Plant Mewn Angen i gefnogi rhieni hyd at 18 oed yng Ngwynedd
Caffi GISDA – Caffi masnachol sydd yn rhoi cyfleodd hyfforddi i bobl ifanc mewn awyrgylch cefnogol

Clwb LHDT – GISDA yn cynnal grŵp bob yn ail wythnos i bobl ifanc sydd yn cydnabod ei hunain fel LGBT.

Cynllun Cynnal a Chadw i help pobl ifanc gyda sgiliau byw yn annibynnol o fewn eu cartref

Prosiect i gefnogi pobl ifanc ôl ofal

20. Cymodi'r elw gweithredol â'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol

	2021	2020
	£	£
Symudiad net mewn cronfeydd	279,424	94,676
Llog a dderbyniwyd	(59)	(283)
Llog morgais a dalwyd	4,492	6,204
Dibrisiant	3,829	596
Elw ar waredu asedau sefydlog	(14,350)	-
(Cynnydd) Lleihad/ mewn stoc	324	481
(Cynnydd)/Lleihad mewn dyledwyr	(21,225)	30,013
Cynnydd/(Lleihad) mewn credydwyr	41,539	30,351
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	**£293,974**	£162,038